

**B B C**



**BBC**

Adroddiad Blynyddol  
a Chyfrifon y Grŵp 2018/19



**BBC**

Adroddiad Blynyddol  
a Chyfrifon y Grŵp 2018/19

**(h) Hawlfraint y BBC 2019**

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Mae gan y BBC hawlfraint dros y ffotograffau a ddefnyddir neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhychu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o [bbc.co.uk/annualreport](http://bbc.co.uk/annualreport)

Dyluniwyd gan Emperor  
[emperor.works](http://emperor.works)

Cyfieithwyd gan Prysg

Paratowyd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2016 (Erthygl 37)

# Cynnwys

## t.2

Y BBC

Uchafbwyntiau'r flwyddyn a chynnwys clodwiw

## t.8

Rhageiriau gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol  
Sut rydym wedi bodloni gofynion ein dibenion cyhoeddus

t.16

## t.258

Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb

## t.184

Datganiadau ariannol manwl



Gweithrediadau masnachol

t.66

## t.55

Cynulleidfaoedd a chyd-destun allanol  
Cipolwg ar berfformiad ein gwasanaethau teledu a radio rhwydwaith



## t.96

Llywodraethu

### Y BBC

- 2 Hysbysu, Addysgu, Diddanu
- 4 Uchafbwyntiau'r flwyddyn
- 6 Cynnwys clodwiw

### Adroddiad strategol

- 8 Neges gan y Cadeirydd
- 10 Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- 16 Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
- 18 – *Newyddion a gwybodaeth diduedd*
- 22 – *Dysgu i bobl o bob oedran*
- 26 – *Allbwn creadigol, nodedig o safon*
- 34 – *Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU*
- 48 – *Cyflwyno'r DU i'r byd*
- 55 Cynulleidfaoedd a chyd-destun allanol
- 56 – *Perfformiad cynulleidfaoedd a chyd-destun y farchnad*
- 58 – *Perfformiad fesul Gwasanaeth*
- 61 – *Gwariant Darlledu Cyhoeddus*
- 62 – *Gwaith elusenol*
- 63 – *Cynaliadwyedd amgylcheddol*
- 64 – *Adroddiad ymgysylltu â chynulleidfaoedd*
- 66 Gweithrediadau masnachol
- 68 – *BBC Studios*
- 73 – *BBC Global News*
- 74 – *BBC Studioworks*
- 75 – *Llywodraethu BBC Commercial Holdings*
- 76 Ein pobl
- 87 Cyllid a gweithrediadau

### Llywodraethu

- 98 Bwrdd y BBC
- 100 Pwyllgor Gweithredol
- 100 Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf
- 101 Adroddiad Cydymffurfiaeth Gorfforaethol
- 102 Adroddiad Cydnabyddiaeth
- 111 Datgeliadau cyflogau
- 120 Barn SAG ar ddatgeliadau cyflogau
- 121 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau
- 122 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
- 127 Risgiau a chyfleoedd
- 132 Datganiad ynghylch hyfywedd
- 133 Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol
- 134 Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
- 136 Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd
- 138 Adroddiad masnachu teg
- 140 Adroddiad yr Archwilwyr Masnachu Teg Annibynnol
- 141 Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd
- 142 Perfformiad yn erbyn ymrwymidiadau cyhoeddus
- 166 Pecynnau data'r Gwledydd
- 183 Barn SAG ar becynnau data'r Gwledydd

### Datganiadau ariannol

- 185 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
- 202 Datganiad cyfunol o incwm
- 202 Datganiad cyfunol o (golled)/incwm cynhwysfawr
- 203 Mantolen gyfunol
- 204 Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti
- 205 Datganiad llif arian parod cyfunol
- 206 Themâu allweddol ar gyfer y BBC
- 207 Nodiadau i'r cyfrifon

### Gwybodaeth ychwanegol

- 258 Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
- 284 Mynegai
- 285 Hawlfraint a chredydau ffotograffwyr
- 286 Gwybodaeth gyswllt ac adborth

# Hysbysu, Addysgu, Diddanu

Nid yw ein cenhadaeth wedi newid ers bron i 100 mlynedd. Rydym yn gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn diduedd, nodedig o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.

## Rydym yn cyflawni ein dibenion cyhoeddus...

**+** Darllenwch fwy ar dudalennau 16-54

1. Darparu newyddion a gwybodaeth diduedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch.
2. Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran.
3. Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau.
4. Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU.
5. Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

## ... creu cynnwys beiddgar...

**+** Darllenwch fwy ar dudalennau 4-7 a 26-33

### Dramâu llwyddiannus

Pennod olaf *Bodyguard* oedd y bennod a wylwyd fwyaf yn y DU o blith unrhyw gyfresi drama ar bob sianel ers dechrau'r cofnodion presennol, yn 2002, gan ddenu 17.1 miliwn o wylwyr (ffigurau cyfunol). Roedd cyfres gyntaf *Killing Eve* yn boblogaidd â chynulleidfaoedd ifancach a chafwyd 42.5 miliwn o geisiadau i'w gwyllo ar BBC iPlayer.

### Sianel ar gyfer yr Alban fodern

Lansiwyd BBC Scotland ym mis Chwefror 2019, ac mae'n cynnwys cymysgedd o raglenni dogfen, rhaglenni ffeithiol ac adloniant poblogaidd, comedi, drama, newyddion a materion cyfoes a chwaraeon.

### Personoli

Gyda thros 17 miliwn o bobl bellach yn mewngofnodi i'w Cyfrif BBC bob mis,

rydym yn dechrau cynnig profiadau mwy personol – fel argymhell rhaglenni yn seiliedig ar eu chwaethau a'u dewisiadau yn BBC iPlayer a BBC Sounds.

### Dynasties

Gan gyflwyno rhaglen ddogfen natur o safbwynt newydd, denodd y gyfres nodedig hon fwy na 7.5 miliwn o wylwyr fesul pennod drwy'r gyfres ac fe'i rhyddhawyd ar ffurf ultra HD ar iPlayer.

### Yn ei chanol hi

Cafwyd 66.8 miliwn o geisiadau ar gyfer holl gemau Cwpan y Byd FIFA ar BBC iPlayer a BBC Sport.

### Sianel y Flwyddyn

Enillodd CBeebies Sianel y Flwyddyn yng Ngwobrau Rhaglenni'r Gymdeithas Deledu Frenhinol.

## ... yn darlledu ar sawl sianel...

**+** Darllenwch fwy ar dudalennau 16-54

### Teledu

Naw gwasanaeth teledu ledled y DU, gan gynnwys gwasanaeth ar-lein yn unig BBC Three i bobl ifanc. Gwasanaethau teledu cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys sianel newydd BBC Scotland.

### Radio

Deg rhwydwaith radio ledled y DU a dau wasanaeth radio cenedlaethol yr un yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. 40 o orsafoedd radio lleol ledled Lloegr

ac Ynysoedd y Sianel. Teledu, radio a gwasanaethau ar-lein BBC World Service mewn mwy na 40 o ieithoedd.

### Ar-lein

Gwasanaethau ar-lein y BBC, gan gynnwys Newyddion, Chwaraeon, Tywydd, CBBC a CBeebies, iPlayer, BBC Sounds, BBC Bitesize, Botwm Coch y BBC a'n harchif eang drwy amrywiaeth o ddyfeisiau sy'n cysylltu â'r rhyngwyd gan gynnwys llechi, ffonau deallus a setiau teledu â'r gallu i gysylltu – yn ogystal â chyfrifiaduron.

## ... yn gweithio gyda thalent o bob rhan o'r diwydiannau creadigol...

**+** Darllenwch fwy ar dudalennau 76-86 a 159

### Staff y BBC

Mae ein pobl yn dalentog, amrywiol, ymrwymedig ac angerddol. Nhw yw ein hasgwrn cefn.

### Partneriaethau

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau sy'n rhannu ein hangerdd am greadigrwydd, ansawdd a natur nodedig.

### Buddsoddiad

Mae'r BBC yn fuddsoddw'r mawr yn niwydiannau creadigol y DU, gan gyfrannu cannoedd o filiynau o bunnoedd i'r sector ehangach.

### Rhannu gwybodaeth

Mae peirianwyr y BBC bob amser yn arwain datblygiadau technolegol. Rydym yn cynnig 'canolfan ragoriaeth', gan rannu datblygiadau ac arfer gorau ledled y diwydiant.

### Hyfforddiant

Rydym yn ymrwymedig i gynnig hyfforddiant a datblygiad i bawb. Yn 2018/19, cwblhaodd 90% o staff y BBC un cwrs hyfforddi neu fwy.

## ... sicrhau gwerth am arian i'n cynulleidfaoedd...

**+** Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalennau 88 a 184.

Buddsoddi cymaint o arian â phosibl i ddarparu cynnwys a gwasanaethau gwyb

### Lleihau gorbenion

Roedd 95% o wariant rheoladwy'r BBC eleni yn canolbwyntio ar gynnwys a chyflawni, gyda dim ond 5% yn cael ei wario ar redeg y sefydliad.

### Difidendau o is-gwmnïau masnachol

Datganodd BBC Studios, BBC Studioworks a BBC Global News gyfanswm o £73 miliwn i Grŵp y BBC.

### Uwch reolwyr

Dim ond 1.4% o gyfanswm ein cyflogeion gwasanaeth cyhoeddus sy'n uwch reolwyr erbyn hyn.

### Cyfanswm yr arbedion costau

Cafodd £153 miliwn o arbedion blynyddol eu cyflawni yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu bod cyfanswm yr arbedion yn cyfateb i £397 miliwn.

## ... a chyflawni ein cenhadaeth.

**+** Darllenwch fwy ar dudalennau 55-61

**74%** 17/18: 75%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU (10% yn dweud ei fod yn aneffeithiol. 17/18: 8%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**74%** 17/18: 75%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth hysbysu pobl yn y DU (10% yn dweud ei fod yn aneffeithiol. 17/18: 9%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**71%** 17/18: 72%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth addysgu pobl yn y DU (10% yn dweud ei fod yn aneffeithiol. 17/18: 9%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**76%** 17/18: 77%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth diddanu pobl yn y DU (9% yn dweud ei fod yn aneffeithiol. 17/18: 7%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Eleni, cafwyd 3.6 biliwn o geisiadau i wyllo rhaglenni ar iPlayer, sy'n nifer anhygoel, cyflwynwyd sianel benodedig i'r Alban, lansiwyd BBC Sounds a chyhoeddwyd gwasanaeth ffrydio newydd pwysig. Rydym yn parhau i gyflwyno cynnwys clodwiw ar deledu, radio ac ar-lein i gynulleidfaedd ledled y DU a ledled y byd.

# 91%

### Cyrhaeddiad o ran oedolion

Canran yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.

2017/18: 92%

Targed: 88-93%



### BBC Sounds

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ail-greu'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd, rydym wedi lansio BBC Sounds, sef cynnyrch sain newydd sbon sy'n cyfuno ein gwasanaethau radio, cerddoriaeth a phodlediadau byw ac ar alw o fewn un cynnyrch personol.



### BritBox

Gwnaethom gyhoeddi BritBox, sef gwasanaeth tanysgrifio newydd gydag ITV a fydd yn cynnwys y casgliad mwyaf o gynnwys Prydeinig o blith unrhyw wasanaeth ffrydio i gynulleidfaedd yn y DU.

# 7/10

### Argraff gyffredinol

Argraff gyffredinol cynulleidfaedd o'r BBC (cyfartaledd cymedrig).

2017/18: 7/10

Targed: 6-7/10



### Killing Eve

Pennod gyntaf y ddrama anhygoel *Killing Eve* oedd y bennod â'r perfformiad gorau ond un erioed ar BBC iPlayer, gan ddenu 9.2 miliwn o geisiadau, a gwnaed 42.5 miliwn o geisiadau ar gyfer y gyfres yn gyffredinol erbyn diwedd mis Rhagfyr – y bocs-set drama mwyaf llwyddiannus ond un erioed ar iPlayer.

# 42.5m

Ceisiadau iPlayer erbyn diwedd mis Rhagfyr

# 18:00

### Cyfanswm yr amser a dreulir

Faint o amser y mae cynulleidfaedd oedolion y DU yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

2017/18: 19:12

Targed: 17:15-18:45





## Sianel BBC Scotland

Lansiodd y sianel benodedig newydd i'r Alban ym mis Chwefror a chafodd gychwyn cadarn, gan ddenu'r cynulleidfaoedd digidol uchaf erioed i'w hamserlen ar ei noson agoriadol.



## iPlayer

Gwnaed cais am 3.6 biliwn o raglenni ar iPlayer drwy gydol 2018, a'r dramâu Prydeinig llwyddiannus *Bodyguard*, *Killing Eve* a *McMafia* oedd ar frig y rhestr o ran y darllediadau mwyaf poblogaidd.



## Y Cwpan y Byd mwyaf llwyddiannus erioed

Gwylodd nifer eithriadol o bobl, sef 44.5 miliwn, un o dwrnaintiau mwyaf difyr Cwpan y Byd hyd yn hyn ar deledu'r BBC haf diwethaf.



## Plastics Watch

Yn dilyn effaith eithriadol *Blue Planet II* ledled y byd, lansiodd Plastics Watch gennym, sef menter newydd sy'n cyfuno cynnwys y BBC am blastigau mewn un man er mwyn helpu i ddarparu gwybodaeth am sut y gallwn leihau llygredd plastig.



## Y gohebydd Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol cyntaf

Dechreuodd Ben Hunte, sy'n newyddiadurwr clodwiw, ei swydd fel gohebydd lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol cyntaf BBC News, gan ohebu ar y straeon, y materion a'r dadleuon ynghylch rhywioldeb a rhywedd gan ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth a dadansoddiadau o'r materion sy'n effeithio ar y gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn y DU.



## Own It

Bydd plant sy'n cael eu ffôn deallus cyntaf yn gallu cael cymorth i aros yn ddiogel ar-lein drwy ap 'Own It' newydd, sy'n rhan o ymrwymiad y BBC i gefnogi pobl ifanc yn amgylchedd y cyfryngau yn yr oes sydd ohoni sy'n newid yn barhaus. Bydd yn rhoi help llaw i bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol am y tro cyntaf, er mwyn sicrhau profiad iach o'r byd digidol iddynt.



## Y Bartneriaeth Newyddion Lleol

Mae'r Bartneriaeth Newyddion Lleol, lle mae'r BBC yn ariannu newyddiaduraeth leol gyhoeddus, wedi dosbarthu mwy na 78,000 o straeon cyhoeddus eisoes ac mae bellach yn denu sylw rhyngwladol gan wledydd eraill sy'n awyddus i gael yr un llwyddiant.

# Cynnwys clodwiw

Rydym yn buddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau clodwiw ar deledu, radio ac ar-lein.



5 Golden Globes  
Ionawr 2019



16 Gwobrau Teledu'r Academi Brydeinig  
Mai 2019

5 Gwobrau  
Urdd yr Awduron  
Ionawr 2019

8 Y Gwobrau Darlledu  
Chwefror 2019



12 Gwobrau Plant yr  
Academi Brydeinig  
Tachwedd 2018

11 Y Gymdeithas  
Gwobrau Darlledu  
Rhyngwladol  
Tachwedd 2018

6 Gwobrau'r Academi  
Brydeinig yn yr Alban  
Tachwedd 2018



6 Y Gwobrau Teledu  
Cenedlaethol  
Ionawr 2019



16 Gwobrau Crefft  
Teledu'r Academi  
Brydeinig  
Ebrill 2019



36 Gwobrau'r Diwydiant Sain a Radio  
Hydref 2018

9 Gwobrau'r Academi  
Brydeinig yng  
Nghymru



5 Gwobrau  
Newyddiaduraeth  
Teledu RTS  
Mawrth 2019



8 Gwobrau Grierson  
Tachwedd 2018

8 Y Gwobrau Darlledu  
Digidol  
Gorffennaf 2018



15 Gwobrau Rhaglenni RTS  
Mawrth 2019

11 Gwobrau Urdd y  
Wasg Ddarlledu  
Mawrth 2019

7 Gwobrau Comedy.co.uk  
Chwefror 2019

# Neges gan y Cadeirydd



“Er mai gwasanaeth dal i fyny oedd BBC iPlayer ar y cychwyn, mae'n hanfodol bellach i ni sicrhau ei statws fel cyrchfan benodol. Yn gynyddol, gwyddom y bydd BBC iPlayer yn gweithredu fel porth i'n cynulleidfaoedd gael gafael ar ein cynnwys.”

Syr David Clementi  
Cadeirydd

**Sefydlwyd y BBC bron i ganrif yn ôl â chenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu. Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hyn yn nodi sut y mae'r BBC, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi llwyddo i gyflawni'r genhadaeth honno a'r pum diben cyhoeddus sy'n ei diffinio, ac i gyflawni'r cyfrifoldeb sydd gennym i'n cynulleidfaoedd i sicrhau gwerth eithriadol am ffi'r drwydded.**

Ni welir hyn yn fwy amlwg nag yn ansawdd ein hallbwn. Mae cynulleidfaoedd o filiynau wedi cael eu cyfareddu gan raglenni poblogaidd o bob genre, o *Bodyguard* i *Dynasties* i'r gyfres ddiweddaraf o *Strictly Come Dancing*. Yn y cyfamser, mae timau newyddion y BBC wedi sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau troellog Brexit, yn seiliedig ar ymrwymiad diflino i ddiueddrwydd, cadarnhau ffeithiau a dadansoddiadau manwl.

Fel Cadeirydd, rwyf wrth fy modd bod yr adroddiad hwn yn dangos sut mae BBC a gaiff ei redeg yn dda o fudd i gynulleidfaoedd ac i'r gorfforaeth ei hun. Mae'n darparu tystiolaeth o Fwrdd a Bwrdd Gweithredol sy'n gwbl unedig wrth geisio cyflawni blaenoriaethau strategol y BBC.

Y flaenoriaeth bennaf yw ail-greu darlledu cyhoeddus ar gyfer cenhedlaeth newydd, gan ymateb, yn benodol, i'r her a gyflwynir gan gystadleuwyr â lluo o adnoddau fel Netflix a Spotify, sy'n newid y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn gwyllo fideos ac yn defnyddio deunydd sain. Mae hyn yn golygu moderneiddio

ein gwasanaethau ar gyfer yr oes fodern – ffocws allweddol ar gyfer y Bwrdd eleni.

Rydym yn ymwybodol iawn, er enghraifft, bod cynulleidfaoedd bellach yn disgwyl cael gwerth am ffi'r drwydded drwy ein gwasanaethau ar-lein. Dyna pam y gwnaethom lansio BBC Sounds eleni, fel cynnyrch unigol sy'n cyfuno ein darpariaeth radio, cerddoriaeth a phodlediadau cyfan mewn un man. Eleni hefyd, gwnaethom nodi ein cynlluniau ar gyfer ail-greu BBC iPlayer.

Er mai gwasanaeth dal i fyny oedd BBC iPlayer ar y cychwyn, mae'n hanfodol bellach i ni sicrhau ei statws fel cyrchfan benodol. Yn gynyddol, gwyddom y bydd BBC iPlayer yn gweithredu fel porth i'n cynulleidfaoedd gael gafael ar ein cynnwys. Ac yn y byd ar alw, mae'n amlwg bod gwerth cyhoeddus y ffenestr wyllo 30 diwrnod, er enghraifft, yn prysur leihau.

Felly, mae ein cynlluniau yn cynnwys sicrhau bod rhaglenni ar gael am o leiaf 12 mis ar ôl eu darlledu am y tro cyntaf, gan gynnig mwy o focs-setiau o gyfresi cyfan ac ôl-gatalogau o fwy nag un gyfres o raglenni, a sicrhau bod mwy o gynnwys ar gael o'n harchif eithriadol.

Mae'r newidiadau hyn yn bwysig. Dengys ein gwaith ymchwil y bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd BBC iPlayer yn lle gwll i wyllo'r teledu, ac y bydd yn cynnig gwll gwerth i dalwyr ffi'r drwydded yn yr oes ar alw. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod eu bod hefyd yn newidiadau cymharol syml, a gynlluniwyd i sicrhau bod BBC iPlayer yn cynnig yr un nodweddion ag y mae gweddill y farchnad eisoes yn eu cynnig.

Credwn fod yn rhaid caniatáu i'r BBC symud yn gyflym er mwyn diwallu anghenion a bodloni disgwyliadau cyfnewidiol ein cynulleidfaoedd a chadw i fyny â'n cystadleuwyr. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig i'w hystyried cyn yr adolygiad canol tymor o'r Siarter, a fydd yn canolbwyntio ar faterion llywodraethu a rheoleiddio ac yn ystyried p'un a oes angen gwelliannau pellach yn ystod cyfnod y Siarter bresennol. Yn arbennig, bydd angen i'r adolygiad ystyried unwaith eto p'un a yw trefniadau rheoleiddio a roddwyd ar waith yn ystod yr oes linol yn parhau'n addas ar gyfer yr oes ddigidol.

Blaenoriaeth bwysig arall eleni oedd sicrhau bod y BBC yn cynnig y lle gorau posibl i'n pobl weithio, gan sicrhau tegwch ac effeithlonrwydd. Eleni, canfu dau adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Bwrdd mai'r BBC yw un o'r sefydliadau mwyaf tryloyw yn y wlad. O dan arweiniad Will Hutton a Christopher Saul, daethant i'r casgliad bod y BBC eisoes wedi datblygu lefelau uchel o dryloywder yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond argymhellwyd sut y gellid gwella hynny ymhellach.

Rydym yn benderfynol o arwain y ffordd yn y maes hwn, er mwyn sicrhau bod staff a thalwyr ffi'r drwydded fel ei gilydd yn meddu ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gydnabod ymrwymiad y BBC i gydraddoldeb, tegwch ac effeithlonrwydd.

Mae'r ffocws cynyddol yn adroddiad eleni ar ein gweithrediadau masnachol yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn dod yn gynyddol hanfodol i iechyd y grŵp cyfan. Eleni oedd blwyddyn weithredu lawn gyntaf BBC Studios, yn dilyn ein penderfyniad i uno ein canghennau cynhyrchu a dosbarthu. Mae'n galonogol bod BBC Studios wedi dechrau mewn ffordd mor hyderus. Mae rhaglenni fel *Luther* a *Les Misérables*, *Top Gear* a *Doctor Who* wedi gosod y safon greadigol, gan bwysleisio ehangder ac amrywiaeth gwaith BBC Studios.

Mae ein cyhoeddiad diweddar y byddai BBC Studios yn cymryd rheolaeth dros UKTV a'r rhan fwyaf o'i sianelau yn enghraifft bellach o'n bwriad i ail-lunio ein gweithrediadau masnachol fel rhan o dirlun cyfnewidiol y cyfryngau.

Fel rhan o'r cytundeb rydym wedi'i gyhoeddi â Discovery, bydd BBC Studios yn cymryd perchenogaeth lawn dros saith o sianelau UKTV sy'n cyfateb orau i'n rhaglenni – gan gynnwys Dave, Alibi a Gold – a bydd Discovery yn caffael y tair sianel ffordd o fyw arall. Bydd hyn yn helpu i sicrhau gallu'r BBC i gael gwerth hirdymor o'r rhaglenni y telir amdanynt gan ffi'r drwydded a buddsoddiad parhaus gan UKTV mewn creadigrwydd ym Mhrydain.

Ar yr un pryd, gwnaethom gyhoeddi partneriaeth hirdymor â Discovery i gyflwyno'r goreuon o blith rhaglenni ffeithiol y BBC i gynulleidfaoedd ledled y byd ar lwyfan fideo drwy danysgrifiad newydd sy'n eiddo i Discovery, ar ôl iddynt gael eu darlledu ar y BBC yn y DU.

Dyma ein cytundeb gwerthu cynnwys mwyaf erioed, a bydd yn galluogi'r BBC i fuddsoddi mwy byth mewn rhaglennu ffeithiol i gynulleidfaoedd ym Mhrydain.

Ein nod yw sicrhau datblygiad cadarn BBC Studios yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Gwyddom fod cynyddu ein heiddo deallusol – bod yn berchen ar yr hawliau i raglenni er mwyn i ni allu dychwelyd eu gwerth masnachol llawn i dalwyr ffi'r drwydded – yn hanfodol o ran dyfodol y BBC.

Cyhoeddiad pwysig arall eleni oedd y penderfyniad a wnaed gennym, ar y cyd ag ITV, i lansio gwasanaeth ffrydio drwy danysgrifiad newydd yn y DU: BritBox. Dyma'r tro cyntaf y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ym Mhrydain wedi dod ynghyd i greu gwasanaeth fideo-ar-alw drwy danysgrifiad yn y wlad hon, gan adeiladu ar lwyddiant ein cyd-wasanaeth masnachol yng Ngogledd America. Mae'n golygu y gall cynulleidfaoedd edrych ymlaen at gasgliad digyffelyb o focs-setiau a chyfresi gwreiddiol o Brydain, ar alw, mewn un man.

Eleni, comisiynodd y Bwrdd adolygiad pwysig i ystyried gweithrediad ein his-gwmnïau masnachol. Roeddwn yn falch pan ddaeth i'r casgliad bod y tri busnes masnachol o dan berchenogaeth lwy'r BBC – BBC Studios, BBC Studioworks a BBC Global News – yn dangos effeithlonrwydd masnachol ac yn gwneud yr hyn y dylent.

Ffactor hollbwysig o ran y cyflawniad hwn – fel gyda chymaint o gyflawniadau eraill yn y BBC yn ystod y chwe blynedd diwethaf – oedd goruchwyliaeth, mewnbyn ac arbenigedd Anne Bulford, a adawodd ei swydd fel Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ar ddiwedd 2018/19. Hoffwn dalu teyrnged, ar ran fy holl gydweithwyr ar y Bwrdd, i Anne am yr ymrwymiad, y sgiliau a'r crafter eithriadol a ddarparodd i'r Bwrdd ac i'r BBC

cyfan yn ystod ei chyfnod gyda ni, a hynny mewn perthynas â materion bach a mawr.

Ac, wrth gwrs, roedd y mater mwyaf y bu'n rhaid i'r Bwrdd ei ystyried yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud â dyfodol trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed.

Ym mis Chwefror, daethom ag ymgynghoriad cyhoeddus eang ar y pwnc, a gynhaliwyd am gyfnod o dri mis, i ben. Yn seiliedig ar yr ymatebion a gawsom gan y cyhoedd a chan rhanddeiliaid, a chan gyfeirio at y tri maen prawf a nodwyd gennym ar ddechrau'r broses – tegwch, effaith ariannol a dichonoldeb – gwnaeth y Bwrdd benderfyniad yn ddiweddar.

O fis Mehefin 2020, bydd unrhyw gartref ag unigolyn dros 75 oed sy'n cael credyd pensiwn yn cael trwydded deledu am ddim. Credwn fod y penderfyniad yn un teg: yn deg i'r rheini dros 75 oed, gan ein bod yn targedu'r rheini â'r angen mwyaf; ac yn deg i'n holl gynulleidfaoedd, gan nad oedd unrhyw awydd gweld y toriadau sylweddol y byddid wedi gorfod eu gwneud i wasanaethau'r BBC pe ehangwyd y consesiwn i bob un dros 75 oed.

Bu'r penderfyniad hwn yn un eithriadol o anodd, a threuliodd y Bwrdd gryn dipyn o amser yn dadansoddi'r opsiynau. Credaf mai'r canlyniad hwn yw'r canlyniad tecaf posibl o ystyried yr amgylchiadau.

David Clementi

Syr David Clementi  
Cadeirydd  
20 Mehefin 2019



Dosbarth Strictly Come Dancing 2018

# Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Mae hon wedi bod yn flwyddyn o lwyddiant creadigol eithriadol i'r BBC. Ym mis Ionawr, cyflwynais ein blaenoriaethau i'r staff wrth i ni barhau i ail-greu'r sefydliad ar gyfer y dyfodol. Mae angen i ni arddel ymddiriedaeth a didueddwrwydd o ran newyddion. Mae angen i ni barhau i drawsnewid ein gwasanaethau digidol. Mae angen i ni sicrhau bod y BBC yn lle gwirioneddol gwych i weithio ynddo. Ond yn anad dim, bob amser, mae angen i ni sicrhau bod creadigrwydd wrth wraidd y BBC.**

Mae dau uchafbwynt mawr, o'm safbwynt i, yn adrodd stori bwysig o ran sut y mae'r BBC yn ail-greu ei hun gan ystyried pob cynulleidfa yn yr oes ddigidol.

Roedd y cyntaf, *Bodyguard*, yn ffenomenon. Denodd sylw'r genedl ar nos Sul. Gwylodd 17 miliwn o bobl y benod olaf. Roedd yn sioe a brofodd, unwaith eto, bod rhaglenni teledu ardderchog a gaiff eu gwyllo ar amser penodol ac sy'n uno'r wlad gyfan yn boblogaidd o hyd. Dyma oedd y ddrama fwyaf ar deledu'r DU ers mwy na degawd.

Denodd yr ail, *Killing Eve*, gynulleidfa enfawr ar iPlayer. Fe'i rhyddhawyd ar ffurf bocses-set, a chafwyd 42.5 miliwn o geisiadau i'w gwyllo erbyn diwedd mis Rhagfyr. Roedd pobl wrth eu bodd â'r rhaglen, ac yn awyddus i wyllo pob pennod fwy neu lai ar unwaith. Ac ar ôl i Phoebe Waller-Bridge, Jodie Comer a Fiona Shaw ennill gwobrau BAFTA cwbl haeddiannol – am y gyfres ddrama orau, yr actores orau a'r actores ategol orau – gwnaed bron i filiwn o geisiadau yn ystod y saith diwrnod canlynol, gan ddangos budd cadw ein cynnwys gorau ar iPlayer am gyfnod hwy i gynulleidfaeodd.

Roedd y ddwy raglen hyn yn boblogaidd iawn gyda'r grŵp oedran 16-34, lle y gwyddom fod cymaint o gystadleuaeth am eu hamser a'u sylw.



“Eleni, mae ein cynulleidfaeodd wedi dechrau profi'r BBC ar ei newydd wedd.”

**Tony Hall**  
Yr Arglwydd Hall o Benbedw CBE  
Cyfarwyddwr Cyffredinol  
a Phrif Olygydd

At ei gilydd, yn fy marn i, maent yn arddangos yr hyn y gall cynulleidfaeodd ei ddisgwyl gan y BBC ar ei newydd wedd. Rydym am barhau i wneud yr hyn yr ydym bob amser wedi'i wneud orau: gwneud cynnwys Prydeinig nodedig o'r radd flaenaf; cefnogi a buddsoddi mewn talent cartref; dod â'r wlad gyfan ynghyd a'u hannog i siarad.

Ar yr un pryd, rydym am achub ar bob cyfle i gyrraedd a gwasanaethu ein holl gynulleidfaeodd mewn ffyrdd newydd a chyffrous. Mae hynny'n golygu cynnwys sy'n cymryd hyd yn oed mwy o risgiau creadigol. Mae hefyd yn golygu gwasanaethau a gaiff eu teilwra fwy ac sy'n fwy perthnasol – o BBC iPlayer mwy personol i'r gwasanaeth BBC Sounds sydd newydd ei lansio i'n sianel BBC Scotland newydd.

Ac mae'r adroddiad hwn yn dangos sut rydym yn ail-greu'r BBC i gynulleidfaeodd ledled y byd, yn ogystal â chynulleidfaeodd cartref. Bellach mae gennym gynulleidfa fydd-eang wythnosol o 426 miliwn o oedolion – cynnydd o dros 13% mewn dim ond blwyddyn.

Mae'n profi y gall y BBC wneud mwy nag erioed i'r DU wrth gyflwyno llais, diwylliant a gwerthoedd nodedig Prydain i'r byd. Mae hefyd yn cynnig tystiolaeth o'n gallu, gyda'r cymorth cywir, i gystadlu â grym cewri technoleg yr UD mewn tirlun cynyddol fydd-eang a chystadleuol ym maes y cyfryngau.

## Blwyddyn o greadigrwydd eithriadol

Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys enghreifftiau di-ri o flwyddyn arbennig i'r BBC o ran creadigrwydd. Rhaglenni newydd fel *Informer* ac *A Very English Scandal*, er enghraifft, ochr yn ochr â chyfresi newydd o raglenni poblogaidd fel *Line of Duty*, *Luther* gydag Idris Elba a *Doctor Who* gyda Jodie Whittaker. Ac nid dim ond drama sy'n haeddu sylw.

O ran comedi, bu cyffro mawr eleni wrth i *Fleabag* gyda Phoebe Waller-Bridge, *Peter Kay's Car Share* a *This Time with Alan Partridge* ddychwelyd. O ran hanes naturiol, rydym wedi adeiladu ar lwyddiant eithriadol *Blue Planet II* ymhlith cynulleidfaeodd o bob oedran â rhaglenni fel *Dynasties*, *Drowning in Plastic* gyda Liz Bonnin a *Blue Planet Live*.

Ymchwiliodd rhaglenni dogfen gan Stacey Dooley, Romesh Ranganathan, Sue Perkins a Louis Theroux i faterion pwysig o safbwyntiau unigryw. O ran adloniant, cafwyd cyfres ardderchog arall o *Strictly Come Dancing*, ynghyd â'r dewisiadau diweddaraf ar nos Sadwrn, *The Greatest Dancer* ac *All Together Now*.

Nid dim ond rhaglenni teledu gwerth eu gweld a lwyddodd i ddod â'r genedl ynghyd eleni. O'r 24 miliwn y llwyddodd ein darllediadau o'r Briodas Frenhinol i'w cyrraedd, i'r 23 miliwn a ymunodd â ni yn ystod penwythnos i ddathlu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf – gan gynnwys ffilm fythgofiadwy Peter Jackson *They Shall Not Grow Old* – i'r 58 miliwn o geisiadau i wyllo gemau Cwpan y Byd yn fyw ar-lein ar BBC iPlayer a BBC Sport, gwnaethom barhau i ddod â'r wlad ynghyd er mwyn dathlu neu goffâu fel cenedl.

Mae'r ffaith mai'r BBC a enillodd fwy na hanner y gwobrau a gyflwynwyd gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol (RTS) yn brawf o'n hymrwymiad i wthio ffiniau creadigol. Roeddwn wrth fy modd pan enillodd CBeebies wobwr Sianel y Flwyddyn RTS, ar ôl i BBC One enill yr un wobwr y llynedd. Yn fwyaf diweddar, gwnaethom ddathlu 16 o wobrau teledu BAFTA, gan gydnabod ein rhagoriaeth greadigol mewn perthynas ag amrywiaeth anhygoel o raglenni a pherfformiadau.

Cafodd y BBC hefyd lwyddiant ysgubol yng Ngwobrau'r Diwydiant Sain a Radio (ARIAs) eleni. Enillodd timau o Newyddion, rhwydwaith, y gwledydd a radio lleol gyfanswm o 36 o wobrau aur, arian ac efydd – ac enillodd Radio 1 a BBC Radio Leeds deitlau clodwiw Gorsaf Genedlaethol a Gorsaf Leol y Flwyddyn.

Roedd yn deyrnged wirioneddol i'r amrywiaeth, yr uchelgais a'r arloesedd a geir ar Radio'r BBC. Ar Radio 4, roedd

hynny'n golygu *Morality in the 21st Century* gyda Rabbi Lord Sacks yn ogystal â *New Age of Consent* gyda Jameela Jamil, a ystyriodd gydsyniad rhywiol yn yr oes fodern. Ar Radio 5 live, roedd yn golygu cyflwyno newyddion a straeon gwrandawyr o bob rhan o'r DU yn ogystal â chynhyrchu podlediadau clodwiw o *That Peter Crouch Podcast* i *You, Me & The Big C*.

Dengys y ffigurau diweddaraf o chwarter cyntaf 2019 fod cynulleidfaoedd yn gwobrwyo Radio'r BBC am wneud dewisiadau beiddgar. Cafodd Zoe Ball ddechrau da fel cyflwynydd brecwast newydd Radio 2 fel rhan o amserlen newydd, a chyflawnodd Lauren Laverne y cyrhaeddiad uchaf erioed â'i slot brecwast newydd ar 6 Music. Yn y cyfamser, cyflwynodd Radio 3 Jess Gillam, a gyrhaeddodd rownd derfynol y gystadleuaeth Cerddor Ifanc, fel ei chyflwynydd rheolaidd ifancaf erioed.

#### Tywysydd dibynadwy'r genedl

Bu eleni, wrth gwrs, yn flwyddyn arall hynod heriol i BBC News. Mae ein timau newyddion a materion cyfoes wedi gweithio'n ddiflino i gyflawni eu cyfrifoldeb fel tywysydd dibynadwy'r genedl.

Brexit oedd ar frig yr agenda newyddion. Profodd unwaith eto fod cynulleidfaoedd yn troi at y BBC er mwyn cael gwybod y ffeithiau a deall beth sy'n digwydd o ddirif.

Ym mis Ionawr, ymwelodd bron i 43 miliwn o borwyr yn y DU â BBC News ar-lein yn ystod wythnos y 'bleidlais ystyrlon'

gyntaf a'r bleidlais hyder ddilynol yn y llywodraeth. Gwylodd mwy na 4 miliwn o bobl y rhaglen BBC News Special fyw ar BBC One ym mis Mawrth, wrth i ASau bleidleisio ar gytundeb tynnu'n ôl y Prif Weinidog – tua'r un nifer ag a wylodd *Shetland* neu *EastEnders* y noson honno.

Rwy'n falch iawn o'r ffordd yr ymdrinodd ein timau â'r stori genedlaethol hollbwysig hon. Roedd ein hallbwn newyddion a materion cyfoes yn cynnwys popeth o erthyglau hir i eitemau chwalu jargon, o raglenni newyddion arbennig i'r adnodd 'Reality Checks'; podlediadau gan yr ardderchog *Brexitcast* i *Political Thinking* gyda Nick Robinson; rhaglenni dogfen manwl o *The Brexit Storm* gyda Laura Kuennsberg i gyfres eithriadol Norma Percy, *Inside Europe*.

Mae'n arwydd o'n penderfynoldeb i gyflawni ar ran ein cynulleidfaoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; i egluro'r newyddion yn ogystal â'i gyflwyno. Rydym yn cymryd mwy o amser i ystyried y cyd-destun sy'n sail i'r digwyddiadau – gan ystyried *pam* yn ogystal â *beth*.

Credwn fod hynny'n gynyddol hanfodol wrth helpu cynulleidfaoedd i ddeall y byd sydd ohoni. Rydym hefyd yn arddel didueddrwydd yn fwy nag erioed. Dyma un o asedau mwyaf gwerthfawr y BBC, ac mae'n allweddol er mwyn sicrhau ein statws parhaus fel y ffynhonnell newyddion yr ymddiried ynddi fwyaf o bell ffordd yn y DU.



## Ymateb i'n heriau

Ym mis Mawrth, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019/20, a nododd yr hyn y byddwn yn ei wneud dros y misoedd i ddod er mwyn ymateb i'r heriau strategol rydym yn eu hwynebu.

Mae digon o waith bellach yn mynd rhagddo, ond rydym yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth yn arbennig:

#### Creadigrwydd wrth wraidd y BBC

- Hyd yn oed mwy o risgiau creadigol i gynulleidfaoedd, yn enwedig cynulleidfaoedd iau
- Mwy o amrywiaeth lleisiau, safbwyntiau, straeon, daearyddiaeth a chymunedau
- Mynd ymhellach ac yn gyflymach yn ein gwaith y tu allan i Lundain
- Sicrhau datblygiad cadarn BBC Studios yn ystod y 12 mis nesaf

#### Datblygu iPlayer a BBC Sounds

- Trawsnewid iPlayer yn gyrchfan benodol
- Sicrhau bod BBC Sounds yn ymsefydlu fel y lle gorau i wrando ar holl ddeunydd sain y BBC

#### Ymddiriedaeth a didueddrwydd mewn newyddion

- Arddel didueddrwydd fel gwerth craidd
- Sicrhau y caiff pob ochr o'r ddadl ei chlywed
- Mwy o gyd-destun a dadansoddi wrth wraidd ein darllediadau
- Mwy o gadarnhau ffeithiau i frwydro yn erbyn 'newyddion ffug'

#### Sicrhau mai'r BBC yw'r lle gorau i weithio ynddo

- Arwain y ffordd o ran cyflogau rhwng y rhywiau, i'n diwydiant ac i'r gymdeithas gyfan
- Creu BBC mwy cynhwysol a mynd i'r afael â'r rhwystrau i ddatblygiad gyrfa
- Llywio cynnydd tuag at ein targedau amrywiaeth a chynhwysiant uchelgeisiol

Gellir cael rhagor o fanylion am y rhain a'n holl flaenoriaethau strategol ar gyfer ail-greu'r BBC yn ein Cynllun Blynyddol 2019/20.

Rydym yn gweithio'n galed i atgyfnerthu canfyddiadau o'n didueddwydd ymhlith ein cynulleidfaoedd ymhellach fyth. Mae hynny'n cynnwys canllawiau golygyddol newydd, hyfforddiant newydd mewn meysydd fel tuedd anfwriadol, ffocws mwy byth ar gywirdeb, a mwy o ohebu arbenigol yn y fan a'r lle gan newyddiadurwyr fel Katya Adler a Jon Sopel sy'n gwbl gyfarwydd â'u pynciau.

**Brwydro yn erbyn newyddion ffug**

Roedd hybu'r frwydr yn erbyn newyddion ffug yn flaenoriaeth bwysig eleni. Mae 'Reality Check' y BBC wedi prysur ddatblygu yn un o'n hadnoddau mwyaf gwerthfawr wrth fynd i'r afael â chamwybodaeth ac ymchwilio i honiadau a gwrth-honiadau. Ein nod yw sicrhau ei fod yn rhan fwy canolog o'n newyddiaduraeth ddyddiol – ar-lein, ar y radio ac ar y teledu – er mwyn sicrhau bod ein systemau cadarnhau ffeithiau, mewn amser real, ac ar gyfer pob stori fawr y byddwn yn ymdrin â hi, o fudd i gynulleidfaoedd.

Rydym hefyd wedi cynyddu ein hymrwymiad i helpu pobl ifanc i ddeall y tirlun newyddion sydd ohoni. Eleni, lanswyd Gohebydd Ifanc y BBC gennym, yn seiliedig ar ein menter lwyddiannus, Bwletin Ysgol. Rydym am rymuso pobl ifanc i adrodd eu straeon, datblygu eu sgiliau cyfryngau a gwella eu ffordd feirniadol o feddwl yn y byd ar-lein.

Credwn y gall y BBC chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â phla camwybodaeth gartref a thramor. Ond credwn hefyd fod cyfle mawr i bawb sy'n rhannu ymrwymiad i uniondeb ym maes newyddion ddod at ei gilydd ac i weithredu'n unol â'u gwerthoedd cyffredin.

Dyna pam fy mod yn gwahodd sefydliadau'r cyfryngau o bob cwr o'r byd i ymuno â ni ar gyfer uwchgyhadledd arbennig yn ystod yr haf hwn. Y nod yw ystyried beth y gallwn ei wneud gyda'n gilydd i


fynd i'r afael â'r cynnydd byd-eang mewn camwybodaeth, tuedd a newyddion ffug. Bydd ffocws cadarn iawn ar fesurau grymus ac ymarferol y gall pob un ohonon ymrwymo iddynt ar unwaith.

**Llais y DU i'r byd**

Bu'n fwyddyn nodedig i wasanaethau byd-eang y BBC. Mae'r ffaith ein bod wedi cynyddu ein cynulleidfa byd-eang wythnosol i 426 miliwn yn arwydd nid yn unig o rôl bwysig y BBC o ran cyflwyno'r DU dramor, ond hefyd o werthfawrogiad unigryw ein cynulleidfaoedd byd-eang o'n gwasanaethau.

Diolch i fuddsoddiad newydd a gyhoeddwyd gan y llywodraeth ddwy flynedd yn ôl, mae BBC World Service wedi cwblhau ei ymarfer ehangu mwyaf ers dros 70 mlynedd. Mae bellach yn gweithredu mewn 42 o ieithoedd, o Gorëeg i Punjabi i Pidgin, ac mae wedi cynyddu ei gynulleidfa byd-eang 40 miliwn ers y llynedd, i 319 miliwn.

Yn ogystal â gwella ein darllediadau a'n gwasanaethau newyddion yr ymddiriedir ynddynt i gynulleidfaoedd dramor, mae hyn hefyd yn rhoi safbwynt manylach i'n gwasanaethau newyddion yn y DU o feysydd sydd wedi cael llai o sylw yn draddodiadol.




**BBC Sounds**

Mae BBC Sounds yn cyflwyno miloedd o oriau o gerddoriaeth, radio a phodlediadau gwerth gwrando arnynt i wrandawyr, ar ffurf fyw ac ar alw. Cafodd gychwyn cadarn ers ei lansio ym mis Hydref, a lawrlwythwyd yr ap fwy na 2 filiwn o weithiau.

Mae BBC Sounds wedi cyflwyno posibiliadau creadigol newydd a thrwy'r amrywiaeth o bodlediadau newydd, rydym wedi cynnig cynnwys ar alw sy'n cynnig sain wahanol i wrandawyr. Mae podlediadau fel *That Peter Crouch Podcast*, *The Ratline*, *The Sista Collective*, *The Case of Charles*

*Dexter Ward* a *Beyond Today* ymhlith yr amrywiaeth o bodlediadau sy'n dangos yr ansawdd a'r amrywiaeth cynnwys digyffelyb ar BBC Sounds. Gan ei fod wedi'i bersonoli, a'i lywio mewn ffordd arbenigol gan dalent y BBC – mae BBC Sounds yn rhoi'r cyfle i wrandawyr ddewis a rheoli'r hyn y maent yn gwrando arno a phryd.

A chan fod defnyddwyr yn mewngofnodi i'w cyfrif BBC er mwyn defnyddio BBC Sounds, po fwyaf y byddant yn ei ddefnyddio, y gorau y bydd wrth wneud argymhellion yn seiliedig ar yr hyn y maent yn ei hoffi, yn ogystal â chyflwyno cynnwys newydd i wrandawyr.







## iPlayer

### Roedd 2018 yn flwyddyn gref i BBC iPlayer, a chafwyd ceisiadau am 3.6 biliwn o raglenni.

- Y ddrama gyffrous *Bodyguard* oedd sioe fwyaf poblogaidd BBC iPlayer yn 2018, gyda'r bennod gyntaf yn denu'r nifer uchaf o geisiadau i'w gwyllo o bell ffordd, sef 10.8 miliwn – sef y bennod fwyaf poblogaidd erioed ar BBC iPlayer. A chafodd y gyfres gyfan 42.6 miliwn o geisiadau i'w gwyllo yn 2018, gan olygu mai dyma oedd bocses mwyaf poblogaidd BBC iPlayer erioed.
- Pennod gyntaf y ddrama anhygoel *Killing Eve* oedd y bennod â'r

perfformiad gorau ond un erioed ar BBC iPlayer, gan ddenu 9.2 miliwn o geisiadau, a gwnaed 42.5 miliwn o geisiadau ar gyfer y gyfres gyfan – y bocses mwyaf poblogaidd ond un erioed ar iPlayer.

- Yn dilyn llwyddiant treialon Ultra HD ar gyfer cyfresi a digwyddiadau mawr fel *Blue Planet II*, Cwpan y Byd FIFA a Phencampwriaethau Wimbledon, darlledodd BBC iPlayer y rhaglen hanes naturiol nodedig *Dynasties* gan ddefnyddio Ultra HD. Ffrydiwyd *Dynasties* cyfanswm o 7.5 miliwn o weithiau – gydag 19% o'r geisiadau hyn (1.4 miliwn) ar gyfer Ultra HD.

Rwy'n falch iawn o'r ffordd y mae timau newyddion y BBC wedi llwyddo eleni i gynnig goleuni a gwybodaeth i rannau o'r byd lle y mae'r gwirionedd yn aml ynghudd. *BBC Africa Eye*, er enghraifft, y profodd ei ddadansoddiad trylwyr o ddeunydd fideo o Cameroon fod y fyddin wedi lladd menywod sifil a'u plant. Neu'r rhan hanfodol a chwaraeodd ein timau yn yr etholiadau yn Nigeria ac India, gan ddatguddio newyddion ffug a chadarnhau'r ffeithiau mewn materion yr oedd anghydfod yn eu cylch mewn amser real.

Mae hyn oll yn hollbwysig wrth helpu i sicrhau democratiaeth a llais, gwerthoedd a dylanwad y DU ledled y byd. Dyna pam fy mod yn falch ein bod bellach yn cynnal trafodaethau â'r llywodraeth ynghylch ehangu ei chymorth i waith y BBC dramor, gan gynnwys ein sianel BBC World News ar y teledu.

### Gwasanaethu cymunedau lleol

Nid dim ond ein gwasanaethau byd-eang sy'n gwneud y BBC yn unigryw. Mae a wnelo hefyd â'r hyn a wnawn yn lleol, i gymunedau ledled y DU. Mae hyn wedi dod yn bwysicach fyth ar adeg lle y bo mor bwysig sicrhau y caiff holl safbwyntiau a lleisiau amrywiol y wlad eu clywed.

Wrth i eraill roi'r gorau i raglennu radio lleol a defnyddio rhaglenni wedi'u lleoli yn Llundain yn lle hynny, rydym yn buddsoddi mwy ac yn creu rhaglenni newydd ar ein gorsafoedd lleol. Rydym wedi lansio cyfanswm o fwy na 150 o rhaglenni newydd gyda'r nos gyda chymysgedd amrywiol o gyflwynwyr a themâu. Mae hynny'n helpu i sicrhau bod ein gorsafoedd radio lleol yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn well.

Mae newyddiaduraeth leol o dan bwysau masnachol dwys, felly rydym wedi bod yn ystyried hefyd beth yn fwy y gallwn ei wneud i gefnogi ecoleg iach o fewn y cyfryngau lleol. Rwy'n arbennig o falch o'n Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol, sy'n cefnogi hyd at 150 o ohebwyr, a gaiff eu rheoli gan gyfryngau lleol ond a gaiff eu hariannu gan y BBC.

Mae'n gynllun sydd wedi rhagori ar bob disgwyliad, ac mae eisoes yn rhannu mwy na 78,000 o straeon sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd na fyddent wedi cael eu clywed fel arall o bosibl. Mae'r Ysgrifennydd Diwylliant, Jeremy Wright, wedi talu teyrnged i lwyddiant y cynllun a'i gyfraniad at democratiaeth leol, a nododd adroddiad Cairncross ar ddyfodol y cyfryngau yn y DU y dylid ei ehangu.

Rwyf hefyd yn falch ein bod wedi llwyddo i gyflawni ymhellach mewn perthynas â'n blaenoriaeth i fuddsoddi mwy yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae lansio ein sianel newydd BBC Scotland, y mae rhaglen newyddion benodedig gyda'r nos wrth wraidd ei hamserlen, yn enghraifft ardderchog o'n penderfynoldeb i wasanaethu ac adlewyrchu ein holl gymunedau'n well.

Mae BBC Scotland wedi cael cychwyn cyffrous a chalonogol. Yn ystod ei mis cyntaf, cyrhaeddodd y sianel fwy nag un o bob pedwar o bob cynulleidfa yn yr Alban bob wythnos. Ar ei noson gyntaf, llwyddodd y gomedi sefyllfa eiconig *Still Game* i ddenu'r gynulleidfa uchaf erioed yno ar gyfer sianel ddigidol. Mae'n rhan o fuddsoddiad mwyaf y BBC mewn cynnwys yn yr Alban ers cenhedlaeth, a chaiff cannoedd o oriau o raglenni newydd eu comisiynu i adlewyrchu'r hunaniaeth genedlaethol.

### Trawsnewid ein gwasanaethau digidol

Eleni, mae ein cynulleidfaoedd wedi dechrau profi'r BBC ar ei newydd wedd. Ym mis Hydref, lansiodd BBC Sounds, gan roi cyfle i gynulleidfaoedd archwilio ein holl gerddoriaeth, radio a phodlediadau – yn fyw ac ar alw – mewn un cyrchfan personol. Cafodd gychwyn cadarn, a lawrlwythwyd yr ap fwy na dwy filiwn o weithiau.

Yn arbennig, yn ystod ei fisoedd cyntaf, dangosodd yr effaith y gall podlediadau newydd ac uchelgeisiol ei chael. Enillodd BBC Sounds chwe gwobr aur yng Ngwobrau Podlediadau Prydain yn ddiweddar, gan gynnwys Gwobr Dewis y Gwrandawr ar gyfer *Brexitcast* a'r podlediad materion cyfoes gorau ar gyfer *The Grenfell Tower Enquiry*. Rwy'n falch bod podlediadau ar Sounds yn cynnig posibiliadau creadigol newydd a chyffrous, fel y *Forest 404* arloesol.





Noson lansio BBC Scotland, llwyddodd *Still Game* i ddenu'r gynulleidfa uchaf erioed yno ar gyfer sianel ddigidol

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r cynnyrch ac yn parhau i weithio'n galed i sicrhau ei fod yn cyflwyno gwerth cynyddol i ddefnyddwyr drwy ddod yn fwyfwy personol.

Eleni, gwnaethom hefyd nodi ein cynlluniau i helpu i drawsnewid BBC iPlayer o wasanaeth dal i fyny i gyrchfan benodol. Rydym eisoes wedi gwneud cryn gynnydd. O gymharu BBC iPlayer heddiw â'r adnodd flwyddyn yn ôl, fe welwch newidiadau sylweddol o ran y cynnyrch a'r profiad i ddefnyddwyr – o argymhellion chwarae cynnwys yn awtomatig i'r gallu i aildechrau rhaglenni byw ar y botwm gwyrdd.

Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau mawr drwy gyflwyno mwy o deitlau newydd, gan roi mwy o amser i bobl ddarganfod a mwynhau rhaglenni poblogaidd fel *Bodyguard* a *Killing Eve*. Cafwyd ymateb ardderchog gan gynulleidfa oedd i'r penderfyniad i ryddhau bocs-setiau o ôl-gatalogau i gyd-fynd â lansio cyfresi newydd fel *Our Girl* a *Luther*. A phwysleisiwyd pwysigrwydd ein harchif unigryw unwaith eto gan y ffaith bod rhaglenni fel *Two Pints of Lager and a Packet of Crisps* a *Gavin and Stacey* – sydd bellach yn dychwelyd ar gyfer rhifyn arbennig dros y Nadolig – ymhlith y teitlau comedi mwyaf poblogaidd ar iPlayer.

Mae'r newidiadau hyn yn hanfodol i ni wrth fynd i'r afael â'r newidiadau mawr sy'n parhau i gael eu gweld yn y modd y mae cynulleidfa oedd – yn enwedig y rhai dan 35 oed – yn defnyddio'r cyfryngau. Wrth i ni weld gostyngiad ar draws y diwydiant

o ran faint o ddarllediadau teledu y mae'r grŵp hwn yn eu gwyllo ar y set deledu, mae'r newidiadau hyn yn dechrau cael eu hadlewyrchu ym mhob cynulleidfa. Felly, rwy'n falch bod yr adroddiad hwn yn dangos bod y BBC yn mynd i'r afael â'r heriau hyn ac yn paratoi i lwyddo yn y byd newydd hwn.

#### Lle gwych i weithio ynddo

Wrth gwrs, mae ail-greu'r BBC yn ymwneud â'r newidiadau rydym yn eu gwneud y tu mewn i'r sefydliad yn ogystal â'r tu allan iddo. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod y BBC yn parhau'n lle gwych i weithio ynddo.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd gwirioneddol ac amlwg rydym wedi'i wneud eleni. Mae ein datgeliadau cyflog diweddaraf, er enghraifft, yn dangos y cynnydd y mae'r BBC wedi'i wneud wrth gynyddu nifer y menywod ymhlith ein sêr â'r cyflogau uchaf ar yr awyr, a rhagwelir rhaniad o 55:45 rhwng dynion a menywod ar gyfer 2019/2020. Mae hyn yn drawsnewidiad eithriadol o'r gymhareb o 76:24 a welwyd pan gyhoeddwyd y data am y tro cyntaf ddwy flynedd yn ôl yn 2016/17, ac yn golygu ein bod ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed o 50% o fenywod a 50% o ddynion ar yr awyr.

Gall cynulleidfa oedd weld a chlywed y newid bob dydd – boed yn Zoe Ball a Sara Cox ar Radio 2, Fiona Bruce yn cadeirio *Question Time* neu Emily Maitlis yn dod yn brif gyflwynydd ar *Newsnight*. Ond nid dim ond ar lefel y rhai sy'n ennill fwyaf y gwnaed y newid hwn, gellir ei weld ym mhob rhan o'n hallbwn.

Eleni rydym wedi gwneud cynnydd eithriadol ar ein prosiect 50:50 er mwyn sicrhau rhaniad cyfartal rhwng gwesteion, cyfranwyr ac arbenigwyr sy'n ddynion ac sy'n fenywod ym maes newyddion, materion cyfoes ac mewn amrywiaeth o raglenni cyfoes. Mae llawer o'n rhaglenni wedi trawsnewid eu dull gweithredu mewn perthynas â chynrychiolaeth, ac mae bron i dri chwarter ein timau wedi ymrwmo i'r prosiect yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gyrraedd 50% erbyn mis Ebrill 2019.

Yn gyffredinol, dengys adroddiad diweddaraf y BBC ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ein bod wedi lleihau ein bwlch canolrif o 7.6% yn 2018 i 6.7% yn 2019. Mae hyn yn gynnydd da, ond mae parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn flaenoriaeth. Rydym yn benderfynol o arwain y ffordd, nid yn unig i'n diwydiant, ond i'r gymdeithas gyfan.

Er mwyn ategu hyn, cynhaliwyd adolygiad gennym eleni i'r diwylliant o ran rhywedd a datblygiad gyrfa o ran rhywedd yn y BBC. Arweiniodd at gyfres o argymhellion manwl er mwyn helpu i ddileu'r rhystrau a chyflwyno newid sylweddol o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y BBC. Gwnaethom ymrwmo i roi pob argymhelliad ar waith, ac mae 97% ohonynt bellach wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt.

Mae cryn dipyn yn rhagor o waith yn mynd rhagddo i greu BBC mwy amrywiol, mwy cynhwysol a mwy agored. Ers i ni gynnal ein hadolygiad rhywedd, rydym wedi llunio

pedwar adolygiad arall o ran diwylliant a datblygiad gyrfa sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei wneud i ddileu'r rhwystrau sy'n atal cynnydd ymhlith staff anabl, staff o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), staff LGBTQ+ a staff o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol.

Rydym yn ymrwymedig i roi eu hargymhellion ar waith. Yn gyffredinol, mae 95% bellach wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt ac rydym yn canolbwyntio nawr ar sicrhau bod yr adroddiadau yn ysgogi newidiadau go iawn.

Mae ein targedau amrywiaeth mewn meysydd eraill hefyd yr un mor uchelgeisiol â'n targedau ar gyfer rhywedd. Er enghraifft, sicrhau bod 15% o staff y BBC yn gyffredinol a'r staff mewn swyddi arwain o gefndiroedd BAME erbyn 2020. A ni yw'r unig ddarlledwr sy'n cyhoeddi ein bwllch cyflog BAME a'n ffigurau ar gyfer amrywiaeth gymdeithasol fel mater o drefn ac yn wirfoddol – daw tua 40% o'n cyflogeon o gartrefi incwm isel a chanolradd.

Eleni, daeth dau adolygiad annibynnol i'r casgliad mai'r BBC – o ran y gwasanaeth cyhoeddus ac o ran ein gweithrediadau masnachol – yw un o'r sefydliadau mwyaf tryloyw yn y wlad, ond gwnaethant argymhell sut y gellid gwella hynny ymhellach. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) adroddiad ar gyflog a nododd ein bod ymhell ar y blaen o gymharu â sefydliadau eraill.

Cadarnhaodd adroddiad y SAG hefyd ein bod ar y blaen o ran y bwllch cyflog rhwng y rhywiau o gymharu â diwydiant y cyfryngau yn gyffredinol. A thalodd deyrnged i'r diwygiadau a wnaed gennym yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan nodi ein bod wedi cymryd camau breision i wella cysondeb a thegwch ein cyflogau a'n telerau ac amodau. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Ein nod yw adeiladu ar yr holl waith hwn a mynd ymhellach, yn gyflymach.

# £153m

Arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd yn 2018/19

Rwy'n falch o'r cynnydd a nodir ar y tudalennau hyn. Maent yn dangos ei bod wedi bod yn flwyddyn eithriadol i'r BBC, o ran cyflawni ein cylch gwaith creadigol, cynnydd ein reffeniw masnachol a chyflawni yn erbyn ein dibenion cyhoeddus.

Gwnaed hyn oll yn erbyn cefndir cydestun ariannol anodd y BBC. Fel y dengys y Cyfrifon hyn, rydym yn parhau i reoli ein cyllid mewn ffordd mor ddarvoudus â phosibl: gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd o £153 miliwn eleni; lleihau ein gorbenion i ddim ond 5% o gyfanswm ein costau; a chynnal gwarged arian parod cryf a'n galluogodd i fuddsoddi mewn cynnwys, ond gan reoli ein cyfrifoldebau ariannol ar yr un pryd.

Parhaodd ein gweithrediadau masnachol i gyfrannu'n sylweddol at ein cyllid cyffredinol hefyd. Mae difidend grŵp masnachol o £73 miliwn yn 2018/19 yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddol y gweithgaredd hwn i'r Grŵp.

Mae Cyfrifon eleni hefyd yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i sicrhau ein bod yn ymdrin ag unrhyw faterion hirsefydledig ynghylch statws treth ein cyflwynwyr, y mae'r rheolau newydd a roddwyd ar waith gan CThEM yn 2017/18 wedi cael effaith sylweddol ar rai ohonynt, ac yn datrys y materion hynny. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ddwys i'r opsiynau yn hyn o beth ac wedi ystyried yr effaith ar statws treth y cyflwynwyr yr effeithiwyd arnynt mewn gwahanol ffyrdd gan newidiadau CThEM. Ar y sail honno, gwnaethom gytuno â'r Bwrdd mai ein dull gweithredu arfaethedig – fel y nodir yn fanylach yn

adolygiad y Prif Swyddog Ariannol ar dudalen 88 – yw'r dull priodol ar gyfer datrys y materion hyn mewn ffordd mor deg, effeithlon a chosteffeithiol â phosibl.

Yn olaf, fis diwethaf, gwnaethom gyhoeddi penderfyniad y Bwrdd ar ddyfodol trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed. Gwnaed y penderfyniad yn dilyn ymgynghoriad llawn a thrylwyr gyda'r cyhoedd a gynhaliwyd y flwyddyn hon. Gwnaethom benderfynu symud i system, o fis Mehefin 2020, lle bydd trwyddedau teledu am ddim ar gael i unrhyw aelwyd lle mae rhywun dros 75 oed yn cael credyd pensiwn. Rydym yn credu mai dyma'r opsiwn tecaf er mwyn helpu'r pensiynwyr tlotaf. Rydym hefyd yn credu mai dyma'r opsiwn tecaf i holl dalwyr ffi'r drwdded – hen ac ifanc – gan ei fod yn golygu y bydd y BBC yn parhau i gyflwyno'r rhaglenni a'r gwasanaethau y gwyddom eu bod yn eu gwerthfawrogi.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi hyder mawr i mi o ran dyfodol y BBC. Credwn ein bod ar y trywydd cywir gyda'n prosiect i ail-greu'r BBC ar gyfer cenedlaeth newydd. Ac rwy'n argyhoeddedig bod cyfle i BBC cryf a ffyniannus wneud mwy nag erioed i'n cynulleidfaoedd a'r DU yn gyffredinol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.



**Tony Hall, Yr Arglwydd Hall o Benbedw CBE**  
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd  
20 Mehefin 2019




Podllediad clodwii Radio 5 live, Brexitcast

# Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

**Mae dibenion cyhoeddus y BBC wedi'u cynnwys yn y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb ac maent wrth wraidd popeth a wnawn.**

Mae'r dibenion cyhoeddus yn amlinellu ein gwerthoedd wrth geisio cyflawni ein cenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu ac maent yn rhoi fframwaith clir ar gyfer ein dwyn i gyfrif. Mae'r tudalennau canlynol yn nodi sut rydym wedi bodloni gofynion y dibenion cyhoeddus hynny.

**O'r holl ddarparwyr cyfryngau (teledu, radio, cylchgronau, gwefannau, apiau neu gyfryngau cymdeithasol), pa un sy'n gwneud y mwyaf i/sydd â'r mwyaf o...**



- a. Helpu pobl yn y DU i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch
- b. Helpu pobl yn y DU i ddysgu pethau newydd
- c. Cynnwys a gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl yn y DU
- d. Cynnwys a gwasanaethau creadigol i bobl yn y DU
- e. Cynnwys a gwasanaethau nodedig i bobl yn y DU
- f. Cynnwys a gwasanaethau sy'n berthnasol i bobl yn y DU
- g. Adlewyrchu bywyd mewn rhannau gwahanol o'r DU
- h. Adlewyrchu'r DU i weddill y byd

Ffynhonnell: Ipsos MORI ar gyfer y BBC, 3,551 o oedolion 16+ yn y DU, Mawrth-Mai 2019



1. Darparu newyddion a gwybodaeth diduedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 18-21



2. Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 22-25



3. Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 26-33



4. Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 34-47



5. Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

+ Darllenwch fwy ar dudalennau 48-54

# 1 Darparu newyddion a gwybodaeth diduedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

**Diben cyntaf y BBC yw hysbysu. Ar adeg gythryblus, mae rôl y BBC wrth ddarparu newyddion a gwybodaeth a all helpu cynulleidfaoedd i ddeall y byd ac i ymgysylltu â digwyddiadau allweddol yn bwysicach nag erioed.**

Heddiw, mae'r BBC yn darparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y wlad hon o hyd a'r darlledwr a gaiff ei ddewis fwyaf er mwyn sicrhau didueddrwydd. Ond mae'r tirlun newyddion o'n hamgylch wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae ymddiriedaeth yn brin. Mae mwy o amheuon ynghylch arbenigwyr, elitiaid a sefydliadau. Mae gwahaniaethau cenedlaadol, gwleidyddol a chymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae ein cymdeithas yn teimlo'n fwy tameidiog a rhanedig. Mae pleidgarwch gwleidyddol wedi cynyddu ac mae technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol wedi cyfrannu at bolareiddio ein trafodaethau cenedlaethol. Mae 'newyddion ffug' wedi cymylu'r llinell rhwng ffeithiau a chamwybodaeth ac wedi tansilio ffydd yn y cyfryngau traddodiadol.

Yn yr amgylchedd hwn, nid yw'n syndod bod didueddrwydd y BBC wedi dod yn destun craffu dwys. Fel y mae'r dyddiad

yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae angen i ni wneud mwy er mwyn dangos bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes diduedd a all helpu cynulleidfaoedd i wneud synnwyr o ddigwyddiadau. I ni, didueddrwydd yw un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr. Mae'n rhan o'n contract parhaus â chynulleidfaoedd. Mae gohebu heb ofn na ffafriaeth a sicrhau y caiff pob ochr y ddadl ei chlywed – pob safbwynt a llais gwahanol – yn hollbwysig i'n cenhadaeth.

Eleni, rydym wedi parhau i ddarparu allbwn gwybodaeth, newyddion, materion cyfoes a ffeithiol dibynadwy yr ymddiriedir ynddo gan gyrraedd y safonau golygyddol uchaf. Rydym wedi ceisio cyrraedd a gwasanaethu pob cynulleidfa gyda'r allbwn hwn, er mwyn cyfrannu at gymdeithas fwy gwybodus, dinasyddiaeth fwy gweithredol a byd o ddealltwriaeth ddyfnach.

Rydym wedi dangos ein bod yn benderfynol o arddel didueddrwydd ac amddiffyn ein rôl yn fwy nag erioed. Mae hynny'n hanfodol er mwyn i ni gynnal ein statws fel y lle y gall pobl ddod iddo i glywed yr amrywiaeth ehangaf o safbwyntiau, a deall beth sy'n digwydd o ddirif yn y DU ac ledled y byd.



**8/10** <sup>17/18</sup> 8/10

**Cyrhaeddiad BBC News cyfan**  
Nifer yr oedolion yn y DU (16+) sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos.

Ffynhonnell: Kantar Media

## Cyrhaeddiad BBC News fesul llwyfan

**Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith Teledu'r BBC** **60%** <sup>17/18</sup> 63%

% yr oedolion (16+) yn y DU sy'n gwyllo Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith Teledu'r BBC bob wythnos.

(Ffynhonnell; BARB, cyrhaeddiad yn seiliedig ar 3+ munud)  
(Ar gyfer % yr oedolion sy'n gwyllo newyddion y BBC ar y teledu ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU, gweler tudalennau 11, 13, 15, 17).

**Rhaglenni Newyddion a Materion Cyfoes Radio Rhwydwaith y BBC** **38%** <sup>17/18</sup> 39%

% yr oedolion (16+) yn y DU sy'n gwrandao ar raglenni newyddion a materion cyfoes ar Radio Rhwydwaith y BBC bob wythnos.

(Ffynhonnell; RAJAR, cyrhaeddiad yn seiliedig ar 15+ munud, heb gynnwys bwletinau nad ydynt yn rhan o raglenni newyddion neu faterion cyfoes)  
(Ar gyfer % yr oedolion sy'n gwrandao ar orsafoedd Radio'r BBC sy'n benodol ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU, gweler tudalennau 11, 13, 15, 17).

**BBC News Ar-lein** **33m** <sup>17/18</sup> 30m

Nifer gyfartalog y porwyr unigryw yn y DU sy'n defnyddio BBC News Ar-lein bob wythnos.

(Ffynhonnell; Adobe DAX. Ffigur 2018/19 yn seiliedig ar fis Ebrill 2018 i fis Chwefror 2019 oherwydd newid yn y mesuriad).

## Mae BBC News yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd

**Teledu'r BBC** **75%** <sup>17/18</sup> 78%

defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (aneffeithiol 8%. 17/18: 8%).

**Radio'r BBC** **78%** <sup>17/18</sup> 80%

defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (aneffeithiol 8%. 17/18: 6%).

**BBC Ar-lein** **80%** <sup>17/18</sup> 82%


defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (aneffeithiol 8%. 17/18: 7%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI




**O blith yr holl ffynonellau newyddion (teledu, radio, papurau newydd, cylchgronau, gwefannau, apiau neu'r cyfryngau cymdeithasol) pa ffynhonnell rydych fwyaf tebygol o'i defnyddio...**


... os ydych am gael arlwy newyddion diduedd



... ar gyfer y newyddion rydych yn ymddiried ynddo fwyaf



... os ydych am gael arlwy newyddion cywir



Ffynhonnell: Ipsos MORI, 1,829 o oedolion 15+ yn y DU sy'n dilyn y newyddion, Ebrill-Mai 2019.

**70%** <sup>17/18</sup> **73%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU/y byd heddiw (aneffeithiol 15%. 17/18: 12%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**62%** <sup>17/18</sup> **65%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn eu rhan nhw o'r DU (aneffeithiol 17%. 17/18: 14%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**62%** <sup>17/18</sup> **64%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu hysbysu am faterion y dydd fel y gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain (aneffeithiol 18%. 17/18: 15%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**52%** <sup>17/18</sup> **54%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes sy'n ddiudedd (aneffeithiol 28%. 17/18: 26%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# Cyflwyno gwybodaeth a newyddion diduedd

## Un pwnc oedd ar frig yr agenda newyddion yn y DU. Brexit oedd y stori fawr eleni, gan ddenu cynulleidfaoedd o filiynau i'r BBC.

O 'Reality Checks' i eitemau chwalu jargon i raglenni dogfen manwl i bodlediadau, nod BBC News oedd egluro Brexit i'n cynulleidfaoedd. Chwaraeodd arbenigwyr fel y golygydd gwleidyddol Laura Kuennsberg a golygydd Ewrop Katya Adler ran hanfodol drwy roi'r cyd-destun er mwyn helpu cynulleidfaoedd i ddeall stori a oedd yn aml yn ddryslyd ac yn gymhleth.

Ar ddiwedd 2018, yn ystod wythnos y bleidlais o hyder yn y Prif Weinidog, trodd bron i 38 miliwn o borwyr yn y DU at wefan ac ap BBC News, gan olygu mai hon oedd wythnos fwyaf y flwyddyn. Rhagorwyd ar y nifer hon ym mis Ionawr 2019, pan drodd bron i 43 miliwn o borwyr yn y DU at BBC News ar-lein yn ystod wythnos y bleidlais ystyrion gyntaf, a'r bleidlais hyder ddilynol yn y Llywodraeth.

Denwyd y cynulleidfaoedd uchaf erioed i sianel BBC Parliament, ac roedd y cynulleidfaoedd dyddiol diweddar i bleidleisiau hanfodol ymhlith y pum diwrnod â'r cynulleidfaoedd uchaf yn ystod y degawd diwethaf.

Roedd y podlediadau amharchus ond dadansodol *Brexitcast*, sef cydweithrediad rhwng Radio 5 live a BBC News, yn llwyddiant ysgubol.

Yn gyffredinol, cyrhaeddodd BBC News gyfartaledd wythnosol o dros 80% o oedolion yn y DU, a thros 70% ymhlith cynulleidfaoedd ifanc 16-34 oed. Parhaodd BBC News ar-lein hefyd i ddenu cyfartaledd o dros 32 miliwn o borwyr bob wythnos yn y DU yn 2018.

Mae didueddrwydd yn un o gonglfeini BBC News o hyd, ond rydym yn gweithredu o fewn cyd-destun newidiol, ac mae pleidgarwch a rhaniadau cynyddol ym maes gwleidyddiaeth a'r cyfryngau yn rhoi pwysau ar ganfyddiadau'r cyhoedd. Rydym wedi dechrau ar waith i ailbwysleisio ein cred mewn didueddrwydd fel un o werthoedd craidd ein holl allbwn newyddion.

Er gwaethaf yr heriau hyn, BBC News yw'r ffynhonnell y mae cynulleidfaoedd yn ymddiried ynnddi fwyaf o hyd: pan ofynnir i bobl ddewis yr un ffynhonnell y maent yn troi ati gyntaf ar gyfer y

newyddion y maent yn ymddiried ynnddi fwyaf, BBC News a ddewisir amlaf, gan 51% o gynulleidfaoedd – bum gwaith yn fwy na'r ffynhonnell agosaf nesaf (ITV).

O ran straeon rhyngwladol y flwyddyn, roedd gan gynulleidfaoedd yn y DU ddiddordeb mawr yn hanes achub y tîm pêl-droed o Wlad Thai o'r ogof. Llwyddodd ein Golygydd Affrica cyntaf ar yr awyr, Fergal Keane, i gynyddu proffil straeon o'r cyfandir, gan ohebu o wledydd gan gynnwys Zimbabwe, DRC, Sudan a Mozambique. Ymhlith yr uchafbwyntiau rhyngwladol eraill, cafwyd gohebu grymus o ddymchweliad IS a chwyp Califfiaeth.

Bu'r buddsoddiad yn BBC World Service hefyd o fudd i wasanaethau newyddion y DU, gan arwain at uwchraddio swyddfeydd ac agor swyddfeydd newydd dramor.

Gwnaethom barhau â'n hymdrechion i sicrhau bod BBC News yn fwy perthnasol ac apelgar i gynulleidfaoedd iau, gan roi ffocws ar bynciau sydd o ddiddordeb penodol iddynt – fel ieuchyd meddwl.

Gwnaethom hefyd benodi gohebydd LGBT cyntaf y BBC, a fydd yn gohebu ar straeon sy'n ymwneud â rhywioldeb a rhywedd.

Rydym wedi ehangu'r amrywiaeth o leisiau ar yr awyr. Mae cyfran y cyfranwyr

benywaidd ar raglenni'r BBC wedi cynyddu'n sylweddol, diolch i lwyddiant ein prosiect 50:50, sef menter llawr gwlad a ddechreuodd yn yr is-adran Newyddion. Llwyddodd bron i dri chwarter (74%) o'r timau a fu'n monitro eu hallbwn am 12 mis neu fwy i sicrhau cydbwysedd cyfartal rhwng cyfranwyr benywaidd a gwrywaidd ar yr awyr ym mis Ebrill 2019.

Ym mis Medi, gwnaethom lansio rhaglen wleidyddol ddyddiol newydd, *Politics Live*. Ers ei phenod gyntaf, a gafodd ganmoliaeth am ddefnyddio panel o fenywod yn unig, mae *Politics Live* wedi cynnig golwg fodern a hygyrch ar wleidyddiaeth ym Mhrydain ac wedi bod yn cyflwyno lleisiau newydd.

Bu newid yn ein rhaglen drafod flaenllaw, *Question Time* hefyd, gyda'r cyflwynydd profiadol David Dimbleby yn rhoi'r gorau iddi ar ôl chwarter canrif wrth y llyw. Dechreuodd y cyflwynydd newydd, Fiona Bruce, ar y sioe ym mis Ionawr a chafodd ei harddull gyfweld ei chanmol.

Gwnaethom barhau i ymchwilio i newyddion y tu hwnt i'r agenda brif ffrwd er mwyn cysylltu'n well â chynulleidfaoedd ledled y wlad, gan ohebu o'n 'swyddfa dros dro' gyntaf yn Bradford, prosiect a fydd yn parhau mewn trefi a dinasoedd eraill.




Cyflwynodd David Dimbleby ei bennod olaf erioed o *Question Time*, a dechreuodd y cyflwynydd newydd, Fiona Bruce, sef cyflwynydd benywaidd cyntaf y sioe



43m

Trodd porwyr yn y DU at BBC News ar-lein yn ystod wythnos y bleidlais ystyrlon gyntaf



## BBC Parliament

Gan gyflwyno drama, cynllwynio a pherygl, roedd yn syndod gweld BBC Parliament yn dod yn un o sianelau poblogaidd y flwyddyn, diolch i hynt a helynt Brexit. Yn unol â'r gweithgarwch cynyddol yn San Steffan, llwyddodd y sianel i ddenu ei chynulleidfaoedd uchaf erioed, gan gyrraedd mwy na 3.5 miliwn o bobl ym mis Ionawr. Roedd y cynulleidfaoedd dyddiol ar gyfer pleidleisiau mawr Brexit oll ymhlith y pum diwrnod â'r cynulleidfaoedd uchaf i BBC Parliament dros y degawd diwethaf. Ategwyd y gweithgarwch gan sylwebaeth arbenigol yn ystod y pleidleisiau gan ohebydd Seneddol y BBC Mark D'Arcy a Dr Ruth Fox o Gymdeithas Hansard er mwyn egluro'r broses a'r nodweddion pwysig i wylwyr. Lansiodd BBC Parliament yn 1998 ac mae'n darlledu gweithrediadau Tŷ'r Cyffredin yn fyw, yn ogystal â darllediadau o Dŷ'r Arglwyddi, gwrandawiadau pwyllgorau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae hefyd yn gwneud ei rhaglenni ei hun, yn aml gan ddefnyddio deunydd archif ac yn cyflwyno adroddiad dyddiol am yr hyn sydd wedi digwydd yn y Senedd.

Parhaodd *Victoria Derbyshire* i gyflwyno amrywiaeth eang o straeon beiddgar, gan ymchwilio i bynciau o'r bilsen erthylu i achosion o gam-drin anffrwythlondeb ymhlith dynion i hunanladdiadau ymhlith plant yng ngwersyll ffoaduriaid Moria, a arweiniodd at ymchwiliad brys gan y Cenhedloedd Unedig.

Cafodd y rhaglen – a'r gwylwyr – eu tywys i leoliadau nas gwelir yn aml ar y teledu, fel Uned Cyfeirio Disgyblion a lloches i fenywod.

Dathlwyd pen-blwydd y GIG yn 70 oed yn helaeth ar draws ein hallbwn, gan gynnwys *BBC Breakfast* a ddarlledodd ei rhaglen gyfan o ysbyty yn Leeds.

O'r ystafell newyddion genedlaethol fwyaf y tu allan i Lundain, mae BBC Radio 5 Live wedi ymweld â phob cornel o'r DU er mwyn dysgu sut mae busnesau a chymunedau yn paratoi i adael yr UE, yn ogystal â gwrando ar safbwyntiau gwrandawyr mewn rhaglenni fel *5 Live Breakfast* a *Your Call*. Mae 5 Live hefyd wedi cynnal sgwrs fwyaf y DU ar ryw a pherthnasau ar y cyd â Phrifysgol Sunderland, gan ganolbwyntio ar faterion amgylcheddol mewn tymor Cool Planet a barodd flwyddyn o hyd a lansiodd *The Sista Collective*, podlediad newydd yn edrych ar fywyd yn y DU drwy lygaid menywod duon.

Ychwanegodd Materion Cyfoes ddealltwriaeth a dyfnder mewn perthynas â'r straeon mwyaf. O ran Brexit, aeth *Panorama* â gwylwyr ar daith i Chequers am gyfweiliad arbennig â'r Prif Weinidog, ac ar BBC Two, cynigiodd *Inside Europe*:

*10 Years of Turmoil* gipolwg unigryw i wylwyr ar weithrediadau'r UE, wedi'i gyflwyno gan restr drawdol o Benaethiaid Gwladwriaethau. Ymdriniodd *Newsnight* â hynt a helynt dyddiol digwyddiadau gwleidyddol yn y DU ac yn rhyngwladol, a llwyddodd i drefnu cyfweiliadau ag enwau mawr fel James Comey.

Gwnaethom ymchwilio i faterion bydeang gyda phenodau o *Panorama* yn canolbwyntio ar Arlywydd Putin ac Arlywydd Trump. Ar BBC Two, adroddodd Lyse Doucet hanes y rhyfel yn Syria mewn rhaglen ddogfen aml-ran. Canolbwyntiodd *This World* ar straeon hynod yn disgrifio sefyllfa menywod yn y byd, o ferched Chibok, i stori Sheikha Latifa o Dubai. A theithiodd Ade Adepitan ledled Affrica er mwyn dangos sut mae'r cyfandir yn newid.

Yn agosach i gartref, llwyddodd *Panorama* i gynnal cyfweiliadau arbennig â'r heddwes a wenwynwyd yn yr ymosodiad ar Sergei ac Yulia Skripal. Parhaodd Materion Cyfoes ar y radio i ddarlledu ei bodlediad dyddiol o Ymchwiliad Tŷr Grenfell, ac ar BBC Two, gwnaethom archwilio *The Fires That Foretold Grenfell*. Cyflwynodd *File on 4* adroddiad ar y gofal a roddir i bobl ag anableddau dysgu, gan ysgogi trafodaeth genedlaethol.

Ar BBC Three, parhaodd Materion Cyfoes i gynhyrchu gwaith arloesol ag effaith uchel, gan gynnwys rhaglen ddogfen ar R Kelly, a'r gyfres *Love and Drugs on the Street* sy'n canolbwyntio ar fywydau menywod digartref.

Rydym yn canolbwyntio ar y genhedlaeth nesaf o ran cynulleidfaoedd ac o ran newyddiadurwyr drwy waith Gohebydd Ifanc y BBC ag ysgolion, colegau a sefydliadau ieuencid ledled y DU. Mae'r prosiect yn dod o hyd i straeon unigryw, yn meithrin sgiliau'r cyfryngau ymhlith pobl ifanc ac yn anelu at annog pobl ifanc i ymuno â diwydiant y cyfryngau. Mae'r her sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i newyddion a helpu cynulleidfaoedd ifanc i nodi newyddion go iawn a hidlo gwybodaeth ffug yn greiddiol i'r gwaith hwn, a chynigir adnoddau am ddim, gweithgareddau ystafell ddosbarth a gweithdai wedi'u harwain gan staff y BBC i 3,500 o ysgolion a sefydliadau ieuencid.

Cyflwynodd mwy na 1,500 o bobl ifanc 11-18 oed straeon sy'n berthnasol i'w bywydau ac y dylai'r BBC fod yn gohebu arnynt, yn eu barn nhw, fel rhan o gystadleuaeth gyntaf Gohebydd Ifanc y BBC. Cynhyrnodd 12 o unigolion a gyrhaeddodd y rownd derfynol eu straeon gyda thimau o bob rhan o'r BBC – fe'u darlledwyd ar raglenni a llwyfannau gwahanol, gan gynnwys *The One Show*, *BBC Breakfast*, *News at Six* a BBC Three.

# 2 Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran

**Mae addysg wedi bod yn rhan o DNA y BBC erioed. Roedd wrth wraidd ein cenhadaeth sefydlu: hysbysu, addysgu a diddanu. Heddiw, mae'r genhadaeth honno yn dal i'n harwain ni heddiw. Ac efallai nad oes unrhyw beth gwell yn dangos ein gallu i hysbysu, addysgu a diddanu ar yr un pryd na'r rhaglenni a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i blant y genedl.**

Am ganrif bron, mae cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth wedi tyfu i fyny gyda'r BBC fel cydymaith cyson a ffynhonnell yr ymddiriedir ynddi o wybodaeth ac ysbrydoliaeth.

Mae ein hallbwn plant yn helpu ein cynulleidfaoedd ieuengaf i ddatblygu eu sgiliau darllen, dysgu a chymdeithasol mewn ffyrdd sy'n gyffrous, chwareus a hwyliog. Wrth iddynt dyfu a newid, mae cynnwys BBC Children yn tyfu ac yn newid gyda nhw. Mae'n tanio eu brwdfrydedd ac yn eu galluogi i ganfod eu brwdfrydedd. Mae'n eu helpu i lywio drwy'r byd o'u hamgylch ac yn eu hysbrydoli i ddysgu. Ar yr un pryd, mae'n eu diddanu mewn amgylchedd a gaiff ei ddiffinio yn ôl gwerthoedd ansawdd, diogelwch ac ymddiriedaeth.

Caiff cenhedlaeth plant heddiw eu geni'n ddigidol. Mae angen i ni sicrhau y gallwn eu cyrraedd a'u cefnogi ble y maent – ar-lein – a'u gwasanaethu â'n cenhadaeth addysg mewn ffyrdd newydd a gwahanol. Mewn byd lle ceir cymaint o ddewis a chystadleuaeth am eu hamser a'u sylw, mae angen i ni sicrhau y gall cynulleidfaoedd ifanc barhau i ddarganfod popeth a gynigir gan y BBC.

Yn 2017, gwnaethom gyhoeddi ein buddsoddiad mwyaf yng nghynnwys a gwasanaethau plant mewn cenhedlaeth: £34 miliwn ychwanegol uwchlaw'r cyllidebau presennol er mwyn ein helpu i ailystyried sut rydym yn gwasanaethu ein cynulleidfaoedd ieuengaf. Mae'r tudalennau hyn yn dangos sut mae'r buddsoddiad hwn yn dwyn ffrwyth ac o fudd i'n cynulleidfaoedd ieuengaf.

Maent hefyd yn dangos, wrth i ni weithio er mwyn ailddyfeisio'r BBC, rydym wedi parhau i drawsnewid yr hyn a wnawn yn y byd addysg er mwyn cynorthwyo pobl o bob oed i ddysgu. Ein nod yw galluogi pawb, ni waeth pa gam o'u bywyd y maent wedi'i gyrraedd, i gyflawni eu potensial llawn drwy gynnwys addysgol, gwasanaethau a phrofiadau cyfranogol gan y BBC, gan bartneriaid a gan ei gilydd.



# 81%

17/18  
**83%**

**Cyrhaeddiad dan 16 oed**  
% y plant dan 16 oed sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# 7/10

17/18  
**7/10**

Canfyddiad plant dan 16 oed o'r BBC: sgôr gymedrig allan o 10.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

Rhaglen Nadolig CBeebies, Thumbelina



65% <sup>17/18</sup> 67%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddysgu pethau newydd (aneffeithiol 16%. 17/18: 14%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

61% <sup>17/18</sup> 62%

% y rhieni sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran helpu plant a phobl ifanc yn eu harddegau gyda'u dysgu (aneffeithiol: 14%. 17/18: 9%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# Cyflenwi dysgu i bobl o bob oed

## PLANT

**Diolch i'r rhyngwyd, mae plant heddiw yn cael mwy o ddewisiadau cyfryngau nag erioed – mwy o gynnwys, ar draws mwy o lwyfannau sydd 'bob amser ymlaen'. Fodd bynnag, ni chafwyd yr un ffrwydrad o gynnwys a gynhyrchir yn y DU, wedi'i anelu yn benodol at wylwyr ifanc yn y DU, ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth genedlaethol a lleisiau plant o Brydain. Fel buddsodwr mwyaf y DU mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU, mae hyn yn rhoi rôl unigryw i'r BBC ym mywydau plant – sy'n rôl heriol o ystyried y dewis sydd ar gael iddynt, a maint rhai o'n cystadleuwyr.**

# 2x

Mae'r porwyr i wefan *Newsround* wedi dyblu bron mewn blwyddyn.

Rydym yn addasu i'r byd y mae ein plant a aned yn yr oes ddigidol yn byw ynddo, ac yn cynnal ein cenhadaeth i'w hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu. Diolch i'r buddsoddiad ychwanegol o £34 miliwn dros dair blynedd a gafwyd yn 2017, dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gallu creu ffrufiau newydd o gynnwys ac arbrofi â nhw. Rydym wedi lansio dau ap newydd ar gyfer CBeebies, *Get Creative* a *Go Explore*, ac wedi cynhyrchu ein cynnwys Llais cyntaf. Ar gyfer plant oedran CBBC, gwnaethom lansio'r ap cyfranogol *Buzz*, ac ateb eu dyhead i ddefnyddio ein rhaglenni ar alw drwy gomisiynu rhaglenni a roddwyd ar iPlayer yn gyntaf *Logan High* a *The A List*.

Yn yr un modd, mae'r buddsoddiad newydd hefyd wedi ein galluogi i arbrofi â gwasanaethu pobl ifanc yn eu harddegau yn well – eto drwy greu cynnwys ar gyfer iPlayer fel y gyfres *Nine to Five* a *Teen Taxi*, y gall y gynulleidfa eu defnyddio ar alw fel y mynnont.

Er gwaethaf y pwysau y mae'r cyfryngau ar-lein wedi'u rhoi ar deledu, ein sianelau yw'r prif lwyfannau gwyllo o hyd ac maent ar y brig ymysg sianelau teledu plant eraill y DU am eu cynulleidfaoedd targed.

Yn gyffredinol ar draws teledu, BBC iPlayer ac ar-lein, mae gan CBBC gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 24% ymysg plant 0-15 oed, a 48% ar gyfer CBeebies. Fis Hydref y llynedd ar CBBC, roedd yn bleser gennym ddathlu pen-blwydd *Blue Peter* yn 60 oed – hon yw'r rhaglen deledu i blant fwyaf hirsefydlog yn y byd, ac mae plant heddiw yn ei charu o hyd.

Rydym hefyd yn falch o'r ystod heb ei hail o raglenni a ynigir gennym, ar draws pob genre o ddrama i ffeithiol, comedi i'r celfyddydau perfformio, ac o adloniant i newyddion. Mae gan bob sianel amrywiaeth o deitlau sy'n rhy hir i'w rhestru yma, ond ymysg y cynnwys nodedig ar gyfer CBeebies roedd *Something Special Prom*, y ddrama newydd *Molly and Mack* a lansiad *Baby Club* sy'n defnyddio chwarae, caneuon a straeon er mwyn helpu teuluoedd i rannu amser gwerthfawr gyda'u babanod a'u plant bach.

Cafodd CBBC flwyddyn gref arall o ddramâu yn cynnwys *Katy* a *Jamie Johnson*, creu rhaglenni ffeithiol o ansawdd uchel fel *Operation Ouch* a *My Life*, ac esblygiad parhaus *Newsround* sydd wedi addasu ei harlwy ar-lein i fwydo awydd ein cynulleidfa i wybod mwy am y byd o'u cwmpas.

Gan estyn allan y tu hwnt i'r sgrîn, fis Awst y llynedd yn Lerpwl, The CBBC Summer Social oedd ein gŵyl gyntaf erioed. Cymerodd mwy na 20,000 o bobl ran mewn profiadau ymdrwythol, gwelsant berfformiadau byw a chael cyfle i gwrdd â'u hoff sêr. Yn yr un ffordd, llwyddodd rhaglen Nadolig CBeebies eleni sydd mor boblogaidd ag erioed i gyrraedd cynulleidfaoedd ar y teledu, iPlayer ac mewn sinemâu gyda *Thumbelina*.

# 48%

**Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog CBeebies**

Cyrhaeddiad brand ar y teledu, iPlayer ac Ar-lein ymysg plant 0-15 oed.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

*Aeth mwy nag 20,000 o bobl i ŵyl CBBC Summer Social yn Lerpwl*

## DYSGU

**Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ein diben cyhoeddus i gefnogi dysgu i bobl o bob oedran yn y BBC.**

### BBC Bitesize

Mae Bitesize wrth wraidd ein strategaeth addysg. Mae yn ei 20fed flwyddyn bellach, a dyma un o'r gwefannau addysgol mwyaf poblogaidd yn y DU o hyd. Mae 75% o fyfyrwyr oedran uwchradd a 40% o fyfyrwyr oedran cynradd yn ei defnyddio er mwyn eu helpu i astudio, adolygu a gwneud eu gwaith cartref, ac mae'n gysylltiedig â chwricwla pob gwlad ddatganoledig.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Bitesize wedi cael trawsnewidiad sylweddol i'n galluogi i bersonoli dysgu drwy nodweddion ac adnodd llywio gwell. Mae'r broses ddiwygio angenrheidiol hon wedi arwain at ostyngiad mewn cyrhaeddiad porwyr wythnosol o gymharu â 2017/18 gan ein bod wedi symud a disodli cynnwys ar lwyfannau dibrisiol. Byddwn yn parhau i esblygu'r gwasanaeth dros y flwyddyn i ddod er mwyn gwella'r profiad i ddefnyddwyr, cynyddu cynulleidfaoedd a chynyddu'r effaith addysgol.

Datblygiad sylweddol arall oedd y broses o gyflwyno cynnwys newydd nad yw'n gysylltiedig â'r cwricwlwm er mwyn mynd i'r afael yn well ag anghenion ehangach pobl ifanc. Gan weithio'n agos gyda sefydliadau fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Cwmni Gyrfaoedd a Menter a Sefydliad Gatsby, rydym wedi creu arlwy Bitesize Careers helaeth er mwyn agor y byd gwaith. Ac rydym hefyd wedi ychwanegu adran gymorth gyda deunydd wedi'i anelu at helpu ein cynulleidfia i ymdopi ag anghenion ehangach o straen arholiadau i adeiladu gwydnwch.

### BBC Teach

Mae BBC Teach yn darparu clipiau fideo a sain sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, Gwersi Byw a chynnwys ategol i athrawon ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Cynyddodd ymwybyddiaeth o wefan BBC Teach a'i chyrrhaeddiad yn sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Ymgyrchoedd addysgol

Ein prif ymgyrch yn 2018/19 oedd Super Movers, partneriaeth bwysig ag Uwch Gynghrair Lloegr a Chynghrair Pêl-droed Proffesiynol yr Alban, gyda'r bwriad o ysbrydoli plant ysgol gynradd i wneud mwy o ymarfer corff. Mae cannoedd o fideos 'brain booster' byr ac adnoddau eraill wedi cael eu creu ar gyfer athrawon a rhieni. Erbyn mis Ionawr 2019, roedd fideos Super Movers wedi cael eu defnyddio gan chwarter (25%) o'r athrawon ysgol gynradd a arolygwyd a dywedodd y mwyafrif o'r athrawon hynny (76%) wrthym eu bod yn defnyddio'r fideos gweithgaredd gyda'u myfyrwyr yn wythnosol. Hefyd, mae clybiau pêl-droed



# 100k

o ymweliadau i ap Get Creative bob wythnos

*Gwnaethom gynhyrchu ein cynnwys Llais cyntaf a lansio dau ap newydd ar gyfer CBeebies, Go Explore a Get Creative*

ledled y DU wedi cyflwyno Super Movers fel rhan o'u gwaith yn eu cymunedau.

Yn 2018, gwnaethom gwblhau Terrific Scientific, ein hymgyrch gwyddoniaeth ar gyfer ysgolion cynradd a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Wellcome a mwy nag 20 o sefydliadau academiaidd. Ei nod oedd ysbrydoli disgyblion ysgol gynradd i gymryd rhan gyda gwyddoniaeth. Ymgysylltodd bron i 9,000 o ysgolion â'r fenter ac er bod yr ymgyrch wedi dod i ben bellach, mae'r adnoddau a grëwyd ar ei chyfer ar gael i'w defnyddio o hyd.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu ein cynlluniau i helpu i fynd i'r afael â'r bwllch iaith a chyfathrebu ymysg plant o oedran cyn ysgol. Yn 2018, gwnaethom nodi'r uchelgais hon ac rydym o'r farn bod y BBC mewn sefyllfa unigryw i helpu i fynd i'r afael â'r her hon. Drwy gydol 2018/19 gwnaethom ddatblygu a phrofi ein cynnig, gan weithio'n agos gyda sefydliadau

fel yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol a Public Health England. Mae ein tystiolaeth gychwynnol yn awgrymu y gall y BBC chwarae rôl allweddol a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn adeiladu ein cynlluniau.

Ym mis Mawrth 2019, dathlom hanner canmlwyddiant Y Brifysgol Agored a'r bartneriaeth unigryw sydd gennym er mwyn annog pawb i ddysgu. Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol Agored yn buddsoddi mewn 12-15 o brosiectau'r BBC; yn 2018/19, roedd y prosiectau hyn yn cynnwys *Blue Planet Live*, *The Secret Story of Stuff*, *The Prosecutors*, *Big Life Fix* a *5 Billion Pound Super Sewer*. Ym mhob achos, yn ogystal ag ehangu'r cyfleoedd dysgu a gyflwynir gan y rhaglenni hyn, mae'r Brifysgol Agored hefyd yn ceisio ysbrydoli gwylwyr i gael gyrfaoedd newydd. Er enghraifft, dangosodd *The 15 Billion Pound Railway* amrywiaeth eang o swyddi a phrentisiaethau a gwelwyd cynnydd sylweddol mewn ceisiadau i fod yn nyrsys ar ôl darllediad *Hospital*.

40% <sup>17/18</sup> 41%

**Bitesize: % y disgyblion a gyrhaeddir**  
% y disgyblion ysgol gynradd sy'n defnyddio Bitesize.

Ffynhonnell: YouGov

58% <sup>17/18</sup> 64%

Bitesize: % y defnyddwyr ysgol uwchradd sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu i gael graddau gwell.

Ffynhonnell: YouGov

75% <sup>17/18</sup> 78%

**Bitesize: % y disgyblion a gyrhaeddir**  
% y disgyblion ysgol uwchradd sy'n defnyddio Bitesize.

Ffynhonnell: YouGov

82% <sup>17/18</sup> 82%

Bitesize: % y defnyddwyr dan 16 oed sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu gyda'u gwaith ysgol/gwaith cartref.

Ffynhonnell: YouGov

# 3 Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

**Mae'r BBC yma i wneud rhaglenni a gwasanaethau gwych, a dyna'r hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei garu gennym. Dyna pam maent yn ein gwerthfawrogi. Eleni, rydym unwaith eto wedi dangos ein hymrwymiad i gynnal y safonau cynhyrchu a golygu uchaf ar draws yr amrywiaeth ehangaf o allbwn. Yn anad dim, rydym wedi parhau i sicrhau bod creadigrwydd, ansawdd a chymryd risgiau wrth wraidd y BBC.**

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos sut rydym wedi cyflawni'r diben hwn. Rydym yn cyflwyno gwybodaeth fesul genre – ffieithiol, y celfyddydau, drama, adloniant, comedi, chwaraeon a cherddoriaeth – ac mae'r wybodaeth hon yn dangos bod amrywiaeth ein hallbwn ar y teledu ac ar y radio yn unigryw o ran ei natur nodedig ac o ran ei ffocws ar gynnwys Prydeinig o bob cwr o'r DU.

Mae'r ymrwymiad hwn i gynnwys Prydeinig cartref yn bwysicach heddiw nag erioed o'r blaen. Mae'r farchnad o'n cwmipas wedi dod yn gynyddol gystadleuol a byd-eang, ac yn cael ei rheoli fwyfwy gan gwmnïau anferth yn yr UD a'u cyllidebau enfawr.

Gwyddom fod cynulleidfaoedd yn y DU yn mwynhau ansawdd ac ehangder y dewis a gynigir gan y cwmnïau byd-eang anferth, ond gwyddom hefyd eu bod am gael cynnwys Prydeinig sy'n siarad â nhw

yn uniongyrchol am eu bywydau bob dydd; cynnwys sy'n wynebu risg o gael ei eithrio o'r farchnad byd-eang heddiw.

Mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu, wrth i ddiwydiant y cyfryngau newid yn gyflym, mae'r amser y mae pobl yn ei dreulio gyda'r BBC yn lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer teledu a radio. Ond mae hefyd yn ein hatgoffa mai'r BBC yw'r darparwr cyfryngau y mae oedolion o'r DU yn ei ddefnyddio fwyaf yn gyffredinol. A phan fyddwn yn cyflwyno cynnwys Prydeinig gwych a nodedig, mae cynulleidfaoedd o bob oedran yn ymateb.

Eleni, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn cynnwys newydd a gwreiddiol o bob cwr o'r DU, wedi cymryd risgiau wrth gynnal cydbwysedd rhwng cyfresi newydd a ffefrynnau sy'n dychwelyd. Mae ein hallbwn ar draws pob genre wedi ceisio cynrychioli ac adlewyrchu pob cynulleidfa, ble bynnag y bônt yn y DU. Eu safbwyntiau a'u lleisiau. Eu hangerdd a'u pryderon. Eu llefydd a'u cymunedau.

Bydd yr ymrwymiad hwn i gynnwys nodedig, cartref, o ansawdd uchel yn parhau i wneud y BBC yn unigryw yn y dirwedd cyfryngau byd-eang. Ein rôl yw parhau i gynnig cynnwys Prydeinig gwych, a bod yn gonglfaen i'r diwydiannau creadigol sy'n golygu bod y wlad hon ymhlith y goreuon ledled y byd.

## Ansawdd a natur nodedig y BBC fesul llwyfan

	Yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd	Nodedig
<b>Teledu'r BBC</b>	<b>72%</b> <sup>17/18</sup> 72%	<b>69%</b> <sup>17/18</sup> 68%
	defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (aneffeithiol 9%. 17/18: 7%)	defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (aneffeithiol 10%. 17/18: 8%)
<b>Radio'r BBC</b>	<b>75%</b> <sup>17/18</sup> 81%	<b>73%</b> <sup>17/18</sup> 77%
	defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (aneffeithiol 7%. 17/18: 6%)	defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (aneffeithiol 8%. 17/18: 7%)
<b>BBC Ar-lein</b>	<b>69%</b> <sup>17/18</sup> 74%	<b>64%</b> <sup>17/18</sup> 70%
	defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (aneffeithiol 8%. 17/18: 6%)	defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (aneffeithiol 9%. 17/18: 6%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI



**78%** <sup>17/18</sup> 80%

% yr oedolion (16+) yn y DU mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

Ffynhonnell: BARB

**07:36** <sup>17/18</sup> 08:16

Faint o amser y mae oedolion (16+) yn y DU mewn cartrefi â theledu yn ei dreulio gyda Theledu'r BBC bob wythnos (oo:mm).

Ffynhonnell: BARB

**63%** <sup>17/18</sup> 64%

% yr oedolion (16+) yn y DU sy'n gwrandao ar Radio'r BBC bob wythnos.

Ffynhonnell: RAJAR

**09:33** <sup>17/18</sup> 10:03

Faint o amser y mae oedolion (16+) yn y DU yn ei dreulio gyda Radio'r BBC bob wythnos (oo:mm).

Ffynhonnell: RAJAR

**77%** <sup>17/18</sup> 75%

% yr oedolion yn y DU (18+) sy'n defnyddio BBC Ar-lein bob mis.

Ffynhonnell: Comscore MMX Aml-Lwyfan, ONS  
Gweler y nodyn ar dudalen 39

**70%** <sup>17/18</sup> 72%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd (aneffeithiol: 12%. 17/18: 11%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**64%** <sup>17/18</sup> 66%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n nodedig (aneffeithiol: 13%. 17/18: 12%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**65%** <sup>17/18</sup> 65%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran creadigrwydd (aneffeithiol: 14%. 17/18: 13%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**63%** <sup>17/18</sup> 64%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran gwreiddioldeb (aneffeithiol: 14%. 17/18: 14%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**67%** <sup>17/18</sup> 69%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o chwaethau (aneffeithiol: 14%. 17/18: 13%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# Cyflwyno allbwn a gwasanaethau creadigol a nodedig o ansawdd uchel

## FFEITHIOL

**Gan gwmpasu adegau o bwysigrwydd cenedlaethol, cyfresi ffeithiol nodedig, fformatau newydd a rhaglenni dogfen untro eithriadol, comisiynodd y BBC amrywiaeth eang heb ei hail o raglenni ffeithiol yn ein gwasanaethau.**

**Gwyddoniaeth a Hanes Naturiol**  
Cafodd cynulleidfaoedd eu cyfareddu gan *Dynasties* gyda Syr David Attenborough, gyda'i archwiliad unigryw o frwydrau eithriadol pum anifail yn erbyn gelynyon a grymoedd natur, wrth iddynt frwydro i oesoedd ac ar gyfer dyfodol eu llinachau.

Archwiliwyd dyfodol y byd naturiol hefyd yn *Drowning in Plastic* wrth i Liz Bonnin ymchwilio i berygl plastigau yn ein cefnforoedd. A rhoddodd *Blue Planet Live* a *Blue Planet UK* sylw i gyflwr y cefnforoedd ledled y byd ac yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y BBC ar gynaliadwyedd amgylcheddol ar dudalen 63.

Archwiliodd *All in the Mind* ar BBC Radio 4 Arbrawf Unigrwydd y BBC

– yr arolwg mwyaf a gynhaliwyd ar unigrwydd a'r effaith a gaiff – yn ogystal ag atebion posibl ar gyfer unigolion a pholisi cyhoeddus. Nododd *The Infinite Monkey Cage* ei 100fed pennod gyda recordiad a ffilmwyd yn arbennig ac, ynghyd â *The Life Scientific*, parhaodd i archwilio pynciau gwyddonol cyfoes.

### Rhaglenni dogfen cyfoes

Darledodd BBC One ddwy o'r rhaglenni dogfen a oedd yn destun y mwyaf o drafod drwy gydol y flwyddyn. Cyfres tair rhan yn archwilio llofruddiaeth Stephen Lawrence, *Stephen: The Murder That Changed a Nation*, a ffilm bersonol gan Patrick Kielty am y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon, sef *My Dad, the Peace Deal and Me*. A chan ddangos ymrwymiad i raglenni dogfen ffurf hir, darledodd y sianel *Grenfell* a enillodd wob, a ffilmwyd yn ystod y flwyddyn ar ôl y tân dinistriol yn y bloc o fflatiau, gan glywed gan y sawl yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt.

Dilynodd *Tara and George* fywydau dau berson yn eu pedwardegau hwyr sy'n cysgu ar y stryd ac, fel rhan o'r gyfres, edrychodd y rhaglen ar y rheswm pam



## Nodi 70ain blwyddyn Reith Lectures y BBC

Rhoddodd yr Athro Margaret MacMillan bum darlith ar y gydberthynas rhwng rhyfel a dynoliaeth, gan archwilio rôl rhyfel mewn perthynas â newidiadau cymdeithasol a seicoleg unigolion a grwpiau.

mae cynifer o bobl ddigartref yn marw ar ein strydoedd. Cyflwynodd Radio 5 live straeon gwrandawyr o bob cwr o'r DU, fel yn y cyfnod cyn Brexit, gan archwilio'r modd y mae busnesau a chymunedau yn paratoi i dael yr UE.

A chafwyd llawer o ganmoliaeth i *The Last Survivor*, rhaglen ddogfen nodedig am orosywyr olaf yr Holocaust sy'n byw ym Mhrydain heddiw.

Gan edrych dramor, enillodd *A Dangerous Dynasty: House of Assad* ganmoliaeth am ei hastudiaeth gymhleth o linach Assad a chafwyd archwiliad o America gyfoes yn *Travels in Trumpland with Ed Balls*.

Parhaodd BBC Three i fynd i'r afael â phynciau heriol gyda rhaglenni dogfen yn cynnwys *Killed by My Debt*, *Love and Drugs on the Street*, *Stacey Dooley Investigates*, *Is this Sexual Harassment?*, ac *Alt-right: Age of Rage*.

Ar BBC Four, parhaodd llinyn Storyville i gynnig rhai o'r rhaglenni dogfen pwysicaf a mwyaf nodedig a wnaed eleni, fel *The Trial of Ratko Mladic*.

Dychwelodd *Ambulance* i BBC One, gan roi cipolwg dadlennol ar fywyd y gwasanaeth ambiwlans, ac archwiliodd *Hospital* ar BBC Two gyflwr y GIG ar hyn o bryd.

Ar nodyn ysgafnach, dangosodd *Babies: Their Wonderful World*, *The Misadventures of Romesh Ranganathan* a *Race Across The World* ehangder cynnwys BBC Two ac



Denodd darllediad y BBC o'r Briodas Frenhinol rhwng y Tywysog Harry a Meghan Markle gynulleidfa o 13.6 miliwn o bobl i BBC One ar ei uchaf ac enillodd wob y Royal Television Society am y Digwyddiad Byw Gorau.





◀ *Soon Gone: A Windrush Chronicle* ar BBC Four

## Strategaeth Perfformio Newydd BBC Arts

Fel rhan o strategaeth perfformio well yn cyflwyno'r gorau o gelfyddydau perfformio Prydeinig i gynulleidfa ehangach, comisiynodd BBC Arts amrywiaeth uchelgeisiol o weithiau newydd gydag artistiaid a chwmmiau amlwg a roddodd sylw i straeon nad oeddent wedi'u clywed ac a oedd wedi'u tangynrychioli yn aml. Roedd hyn yn cynnwys *Snatches: Moments from Women's Lives* (BBC Four) gyda'r Royal Court; *Soon Gone: A Windrush Chronicle* (BBC Four) gyda'r Young Vic; a *LOVE* (BBC Two) gan Alexander Zeldin mewn partneriaeth ag Arts Council England, BBC Films a'r National Theatre. Cafwyd sawl cynhyrchiad unigryw hefyd gan artistiaid annibynnol ledled y DU fel Tourettes Hero, Javaad Alipoor, Hofesh Schecter ac Akala.

roeddent yn arbennig o boblogaidd gyda chynulleidfaoedd iau, ac roedd *Glow Up: Britain's Next Make-Up Star* yn lansiad newydd llwyddiannus i BBC Three.

### Hanes

Wrth i ni goffáu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd ffilm eithriadol Peter Jackson *They Shall Not Grow Old* dderbyniad gwych gan gynulleidfaoedd a beirniaid.

Nodwyd can mlynedd ers yr ymdrech i sicrhau'r bleidlais i ferched gyda'r ddrama a gafodd ganmoliaeth fawr ar BBC Four *Snatches: Moments from Women's Lives* – partneriaeth BBC Arts gyda'r Royal Court Theatre. Ar BBC One, defnyddiodd *Suffragettes with Lucy Worsley* a enillodd BAFTA hanes wedi'i ddramateiddio i adrodd stori menywod yn ymgyrchu i sicrhau'r bleidlais.

Ar Radio 4, cyflwynodd Misha Glenny y rhaglenni diweddaraf yn *The Invention of...*, a oedd yn edrych eleni ar hanes Prydain, ein ffiniau, ein pobl a'r straeon rydym yn eu hadrodd wrthym ein hunain.

### Crefydd a moeseg

Mewn cyfres bwysig ar Radio 4, archwiliodd Rabbi Lord Sacks foesoldeb yn y 21ain ganrif, gan archwilio rhai o faterion pwysicaf ein dydd gyda'r meddylwyr byd-eang mwyaf yn ogystal â grŵp o bobl ifanc a drafododd yr hyn yr oedd moesoldeb yn ei olygu iddyn nhw mewn gwirionedd. Parhaodd rhaglenni hirsefydledig Radio 4 *Sunday* a *Beyond Belief* i archwilio rôl crefydd yn y byd sydd ohoni, a thrafododd *Moral Maze* y materion moesegol sy'n sail i bynciau cyfoes. Ar BBC Two, archwiliodd *We are British Jews* yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Iddewig ym Mhrydain heddiw ac yn *New Age of Consent*, edrychodd Jameela Jamil ar gydsyniad rhywiol yn yr oes fodern ar Radio 4.

Ym mis Ionawr, gwnaethom lansio Year of Beliefs ar y BBC, gan roi cipolwg ar ffydd, cred a gwerthoedd ym Mhrydain fodern ar y teledu, radio ac ar-lein drwy

gydol 2019. Fel rhan o hyn ar BBC Two, dilyddodd *Pilgrimage, the Road to Rome* wyth person enwog â ffydd a chredoau gwahanol wrth iddynt deithio i Rufain i gael cyfarfod preifat â'r Pab. Ar Radio 4, adroddodd y gyfres deg rhan *Fatwa* hanes cudd fatwa 1989 a gyhoeddwyd yn erbyn Salman Rushdie, yn archwilio cysylltiadau hil ym Mhrydain, hunaniaeth, rhyddid i fynegi barn a'r cysylltiad rhwng y fatwa a'r jihad treisgar modern.

## Y CELFYDDYDAU

**Mae BBC Arts yn comisiynu rhaglenni ac yn cefnogi artistiaid, a sefydliadau'r celfyddydau, i apelio i'r gynulleidfa ehangaf posibl.**

Denodd BBC One gynulleidfaoedd mawr i'r celfyddydau gyda'r *Big Painting Challenge*, *Fake or Fortune* ac *Imagine*. Dychwelodd y rhaglen panel trafod gyfoes ar y celfyddydau *Front Row Late* a gyflwynwyd gan y Fonesig Mary Beard i BBC Two.

Archwiliodd *Black Hollywood: They've Gotta Have Us* gan Simon Frederick a enwebwyd ar gyfer gwobr RTS y cynnydd mewn talent du yn Hollywood a dangosodd rhaglenni dogfen eraill fywydau unigryw Billy Connolly, Raymond Briggs, Germaine Greer a'r artist Egon Schiele. A chynigiodd *Arena: Nothing Like A Dame* ddathliad a enillodd wobrau o'n hactoresau mwyaf eiconig: y Fonesig Eileen Atkins, y Fonesig Judi Dench, y Fonesig Joan Plowright a'r Fonesig Maggie Smith.

Nodwyd deg ar hugain o flynyddoedd ers creu'r *We Fyd-eang* gyda rhaglenni yn archwilio'r sawl agwedd wahanol ar ddyfais a newidiodd y byd yn llwyr. Ymysg yr uchafbwyntiau roedd addasiad teledu o ddrama Javaad Alipoor a gafodd ganmoliaeth fawr ac a enillodd wobrau, *The Believers Are But Brothers*.

Addasodd ein llinyn *Performance Live* ddrama lwyfan Alexander Zeldin a gafodd ganmoliaeth fawr *LOVE* ar gyfer BBC Two a ffilm hiwmor tywyll Rachel Maclean am y pwysau cywasgol a wynebwr gan fenywod heddiw, *Make Me Up*, a ddangoswyd ar y teledu am y tro cyntaf fel rhan o'r llinyn ddogfen gelfyddydol *Arena*.

Ac ar BBC Four, archwiliodd Dr James Fox gysylltiad y Gorllewin â phobl a diwylliannau'r Môr Tawel gyda'r gyfres tair rhan *Oceans Apart: Art and the Pacific*.

Mae rhaglenni Radio 4 Arts yn parhau i gynnwys llawer o artistiaid a mudiadau newydd, yn ogystal ag amlygu'r gydberthynas rhwng y celfyddydau a gwleidyddiaeth a chymdeithas. Yn *Class Act*, archwiliodd Lenny Henry sut i gael mwy o actorion dosbarth gweithiol ac o gefndir BAME i mewn i'r diwydiant ac yn *The Sound Odyssey* gyda Gemma Cairney, cafodd artistiaid o Brydain eu cysylltu ag artistiaid mewn gwledydd gwahanol er mwyn cymryd rhan mewn cydweithrediau cerddorol. Archwiliodd *Collecting the Troubles* yn Amgueddfa Ulster y modd y mae amgueddfa genedlaethol a fu yng nghanol gwrthdaro diweddar yn adrodd y stori honno drwy arddangosiadau trawiadol. Ac mae *Only Artists* yn parhau i ddarlledu sgrysiâu hynod a dadlennol am y broses greadigol rhwng artistiaid.

Hefyd, am y tro cyntaf, ehangodd Radio 3 a BBC Arts eu presenoldeb yng Ngwyliau Caeredin, gan recordio cyfres o ddramâu byr a gomisiynwyd yn arbennig mewn stiwdio dros dro fel rhan o Wyl Fringe Caeredin.

# Cyflwyno allbwn a gwasanaethau creadigol a nodedig o ansawdd uchel

## DRAMA

**Roedd hon yn flwyddyn eithriadol i BBC Drama gyda straeon newydd ac addasiadau o hanesion clasurol yn cyfareddu cynulleidfaoedd ac yn torri sawl record yn ein gwasanaethau.**

Un o raglenni mwyaf y flwyddyn ar draws bob sianel deledu oedd *Bodyguard* gan Jed Mercurio. Ar ôl cadw'r genedl ar flaenau eu seddi am wythnosau, denodd y rhaglen olaf gynulleidfa o 17.1 miliwn (ar ôl 28 o ddiwrnodau). Ac roedd cyfres gyntaf *Killing Eve*, a gaffaelwyd gan BBC AMERICA gyda Jodie Comer a Sandra Oh yn hynod boblogaidd ar iPlayer. Roedd cynulleidfaoedd hen ac ifanc wrth eu boddau yn croesawu *Doctor Who* yn ôl, gyda Jodie Whittaker yn y brif ran, gan gyflawni cynulleidfa gyfartalog o 8.6 miliwn ar gyfer y gyfres yn y 28 o ddiwrnodau ar ôl darlledu. Roedd *A Very English Scandal* gan Russell T Davies, gyda Hugh Grant fel Jeremy Thorpe a Ben Whishaw fel Norman Scott, yn boblogaidd ymysg y beirniaid a'r gynulleidfa, ac enwebwyd y gyfres am sawl gwobr.

Mae BBC Drama yn parhau i weithio gyda thalent newydd cyffrous. Enillodd Nabhaan Rizwan wobwr Breakthrough RTS am ei rôl yn *Informers* fel dyn ifanc Pacistanaid-Brydeinig ail genhedlaeth a orfodwyd gan swyddog gwrth-derfysgaeth i ddatgelu gwybodaeth. Chwaraeodd Tamara Lawrence y brif ran mewn addasiad o *The Long Song* gan Andrea Levy.

Gwelwyd straeon yn cynnwys prif actoresau benywaidd gan awduron benywaidd drwy gydol y flwyddyn ar y teledu a'r radio. Denodd *The Cry* a *Mrs Wilson*, a chwaraewyd gan Jenna Coleman a Ruth Wilson yn y drefn honno, gynulleidfaoedd mawr. Ymysg y teitlau eraill a ysgrifennwyd gan awduron benywaidd roedd *The Split*, y ddrama hynod boblogaidd ar BBC One *Call the Midwife* (a ddenodd 9.7 miliwn ar gyfartaledd ar ôl 28 diwrnod) a dau addasiad gan Sarah Phelps o nofelau cyffro Agatha Christie *Ordeal by Innocence* a *The ABC Murders*. Roedd *Blackwater* yn ddrama dirgelwch naw rhan ar Radio 4 gan y nofelydd trosedd Gwyddelig blaenllaw Claire McGowan, a ddechreuodd gyda dychweliad merch ifanc a oedd wedi mynd ar goll ddegawd cyn i'r stori ddechrau. A dychwelodd *Riot Girls* i'r orsaf gyda *How to Be a Woman* gan



Mrs Wilson gyda Ruth Wilson

Caitlin Moran a gwaith a ysgrifennwyd gan un o aelodau sylfaenol Pussy Riot.

Cafwyd addasiadau drama cyfnod mawr ar y teledu o *Les Misérables* gan Victor Hugo a nofel John le Carré *The Little Drummer Girl*. Cyflwynodd Radio 3 fersiwn feiddgar ac arloesol o *Orlando* gan Virginia Woolf ac archwiliodd nofel Eugene McCabe *Death and Nightingales* themâu ysgubol cariad a brad ar BBC Two.

Cafwyd straeon pwerus o'r Gwledydd hefyd, gyda'r ddrama drosedd *The Victim* a leolir yn yr Alban, dychweliad *Shetland, Hidden*, drama boblogaidd BBC Wales *Keeping Faith*, a gomisiynwyd am ail gyfres, a *Mother's Day* o Ogledd Iwerddon, drama ffeithiol am y digwyddiadau, yr adladd a'r ymateb cyhoeddus i'r bomio yn Warrington ym mis Mawrth 1993.

Parhaodd BBC Two i gyflwyno drama newydd gyda *MotherFatherSon* gyda Richard Gere, Helen McCrory a Billy Howle yn adrodd stori rheolwr gwasg a'i deulu. Roedd *Black Earth Rising*, drama gyffro Hugo Blick am erlyn troseddau rhyfel rhyngwladol a chydberthynas y Gorllewin ag Affrica gyfoes, yn cynnwys Michaela

Coel a John Goodman mewn stori bwerus a gyflwynodd straeon y byd i gynulleidfa yn y DU. Comisiynodd BBC Four ddrama untro arbennig *The Dead Room* gan Mark Gatiss yn cynnwys Simon Callow.

Ynghyd â dramâu clasurol, hyrwyddo ysgrifennu newydd ac adrodd straeon digidol arloesol, darlledodd Radio 4 ddramateiddiadau o hunan fywgraffiadau cadarnhaol Maya Angelou a chyflwynodd *Norse Mythology* gan Neil Gaiman i wrandawyr. Rhoddodd gipolwg hefyd ar yr agenda materion cyfoes gyda *Mueller: Trump Tower Moscow* – drama radio y tu ôl i'r llenni o'r ymchwiliad i gydgyllwynio honedig Donald Trump â Rwsia.

Ymysg y cyfresi teledu a ddychwelodd oedd y cyfresi hynod boblogaidd *Luther*, *Death in Paradise* a'r gyfres *Shakespeare and Hathaway* sydd wedi dod yn boblogaidd yn rhyngwladol. A dychwelodd y tîm a ysgrifennodd *The Missing* i BBC One gyda *Baptiste*. Ar BBC Three, parhaodd drama gyffro seicolegol a hudol Jess Brittain *Clique* a oedd wedi'i lleoli mewn prifysgol flwyddyn ar ôl digwyddiadau'r gyfres gyntaf.

## ADLONIAN

**Eleni gwelwyd cyfres o fformatau newydd yn ymuno â rhaglenni adloniant sefydledig a phoblogaidd ar draws sianelau'r BBC. Gall y rhaglenni hyn ddod â'r genedl ynghyd ac adlewyrchu'r DU gyfan ar y sgrin.**

Roedd yn flyddyn fawr arall i *Strictly Come Dancing* wrth i gynulleidfa o 11 miliwn ddilyn y cystadleuwyr yn cystadlu i ennill y Glitterball. Dychwelodd y ffefrynnau poblogaidd *Michael McIntyre's Big Show*, *The Apprentice*, *MasterChef*, *The Graham Norton Show* a *Would I Lie To You?* gyda chynulleidfa oedd mawr ar BBC One. Ar nosweithiau Sadwrn lansiwyd sioe dalent newydd a ddenodd gystadleuwyr o oedranau ac arddulliau dawnsio gwahanol i un gystadleuaeth er mwyn dod o hyd i *The Greatest Dancer*. Cafwyd cyfres arall o *All Together Now* hefyd wrth i gantorion geisio plesio'r 100. Denodd rhaglenni blyneddol fel *Eurovision* a'r *New Year's Eve Fireworks* gynulleidfa oedd mawr i BBC One hefyd.

Gwnaethom barhau i archwilio fformatau newydd drwy lansio rhaglen gwis *Catchpoint* yn ogystal â chyflwyno ffefrynnau fel *Pointless*, *Impossible Celebrities* a *Have I Got News for You* i gynulleidfa oedd.

Ar BBC Two, parhaodd *Dragons' Den* a *Top Gear* i fod yn boblogaidd gyda

chynulleidfa oedd iau a dilynodd *Love in the Countryside* bobl o gefn gwlad ledled y DU ar daith i ddod o hyd i gariad. Roedd *The Mash Report* yn ddoniol a heriog, a chafodd gwylwyr eu profi gan gwisiau *University Challenge*, *Only Connect* a *Mastermind* a dangosodd y gyfres adloniant ddoniol newydd *I'll Get This* enwogion yn ceisio peidio â gorfod talu'r bil.

Ar BBC Three, archwiliodd *Blindboy Undestroys the World* yr argyfwng tai mewn fformat adloniant cyfoes a chreadigol, a lansiodd y sianel *Eating with my Ex*, gan ailweld â chynberthnasau ymysg pobl ifanc.

## COMEDI

**Parhaodd comedi wedi'i sgrriptio ar y BBC i adlewyrchu'r DU gan ddatgelu lleisiau amrywiol a chyflwyno amrywiaeth eang o dalent newydd a sefydledig.**

Dychwelodd *Peter Kay's Car Share* am ddwy bennod olaf ar BBC One. Denodd y bennod olaf gynulleidfa fwyaf y flyddyn ar gyfer comedi, gyda mwy nag 8 miliwn o bobl yn gwyllo (ar ôl 28 diwrnod).

Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser fesul gwrandawr; data yn seiliedig ar Ardal Arolygu Gyfan – TSA).

**65%** <sup>17/18</sup> 67%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU/nhw (anefeithiol 14%. 17/18: 16%).

**50%** <sup>17/18</sup> 55%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (anefeithiol 25%. 17/18: 24%).

**80%** <sup>17/18</sup> 81%

#### Cyrhaeddiad Teledu'r BBC

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

**06:46** <sup>17/18</sup> 07:22

#### Amser Teledu'r BBC y pen

Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos yng Ngogledd Iwerddon (oo:mm).

**60%** <sup>17/18</sup> 62%

#### Cyrhaeddiad Radio'r BBC

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos.

**07:26** <sup>17/18</sup> 07:43

#### Amser Radio'r BBC y pen

Amser a dreulir yn gwrando ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos yng Ngogledd Iwerddon (oo:mm).

**50%** <sup>17/18</sup> 53%

#### Gwasanaethau newyddion penoddedig Gogledd Iwerddon ar y teledu

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos.

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB, RAJAR. Mae pob ffigur cyrhaeddiad ac amser fesul pen yn seiliedig ar oedolion 16+. Cyrhaeddiad Teledu a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud. Cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penoddedig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud.

## Y BBC ledled Lloegr

Mae canfod talent newydd wedi bod wrth wraidd gweithgareddau BBC England ledled y wlad eleni, gyda gorsafoedd Radio Lleol y BBC yn recriwtio cyflwynwyr newydd ar gyfer eu hamserlen newydd gyda'r nos.

**Mae ein 39 o orsafoedd Radio Lleol yn Lloegr wedi cyflwyno hyd at 15 awr o raglenni lleol newydd bob wythnos ar ôl i'r rhaglen gyda'r nos ar y cyd ddod i ben ym mis Hydref 2018. Rydym wedi lansio cyfanswm o fwy na 150 o raglenni newydd gyda'r nos, gyda chymysgedd amrywiol o gyflwynwyr a themâu fel rhan o'n hymdrech i feithrin cydberthynas newydd â chynulleidfaoedd a danwasanaethir ledled Lloegr.**

Caiff mwy na 80 o'r rhaglenni newydd gyda'r nos eu cyflwyno gan bobl sy'n newydd i ddarlledu ac mae llawer ohonynt bellach yn cael eu defnyddio mewn mannau eraill yn ein hallbwn. Mae Letitia George ar BBC Coventry and Warwickshire yn cyflwyno *The C Word* ar nosweithiau Llun ac mae wedi gweithio fel cyflwynydd wrth gefn ar wyliau banc a boreau Sadwrn. Mae Kyle Walker o *The Dead Good Show* ar BBC Radio Manchester bellach yn llais rheolaidd ar yr orsaf yn ystod y dydd ac mae wedi gweithio ar *Football Focus* ar BBC Chwaraeon.

Cafodd rhai o'r cyflwynwyr eu canfod drwy ymgyrchoedd canfod talent. Cafodd Summaya Mughal ei chanfod drwy ymgyrch canfod talent Untapped BBC Radio Nottingham a bellach gellir ei chlywed bob gyda'r nos ar yr orsaf. Mae BBC Radio Lincolnshire a BBC Radio Sheffield hefyd wedi cynnal chwiliadau talent tebyg am dalent cyflwyno newydd yn eu slotiau rhaglenni gyda'r nos.

Mae'r rhaglenni newydd gyda'r nos yn canolbwyntio ar arloesi. Er enghraifft, ers ei lansio, mae *The Residency* ar BBC Radio Cambridgeshire wedi cynnwys 199 o gyfranogwyr newydd, y mae 22% ohonynt yn dod o gefndiroedd BAME, 42% yn fenywod a 45% o dan 40 oed. Mae BBC Sussex and Surrey wedi lansio llinyn newydd o'r enw *Politics and Chill*, a oedd yn cynnwys cyngorwyr lleol yn gorfod cyflwyno eu maniffesto ar ffurf rap.

Mae BBC England wedi bod yn arloesi mewn sain mewn ffyrdd eraill hefyd, gan lansio podlediadau fel *Multi Story*, sy'n cynnwys straeon o bob rhan o BBC Local Radio, a *The Naked Podcast*, lle caiff gwsteion eu cyfweld yn noeth.



Rhai o gyflwynwyr newydd radio lleol

Yn fwy traddodiadol, trefnodd BBC Wiltshire ddiwyddiad i sgrinio priodas EUB y Tywysog Harry, gyda chynulleidfya a amcangyfrifir o fwy na 3,000 o bobl yn gwyllo ar dir Cadeirlan Caersallog. Yn y cyfamser, mae gan Radio Lleol y BBC fwy na 80 o gytundebau sylwebu â thimau pêl-droed ledled Lloegr o Uwch-gyngghair Lloegr i Ail Gynghair Lloegr, ac wrth gwrs, mae gennym ein gwasanaeth sylwebaeth ar gemau Criced Sir. Mae BBC Introducing yn parhau i fod yn llwyfan wythnosol ar Radio Lleol y BBC ar gyfer y dalent cerddoriaeth newydd gorau.

Mae BBC England yn atgyfnerthu ein safle fel gwarantwr newyddion lleol. Mae ein partneriaeth â'r diwydiant papur newydd lleol a rhanbarthol yn parhau i ddatblygu. Mae'r Gohebwy'r Democratiaeth Lleol, sy'n cwmpasu cyngorau a chyrrff cyhoeddus eraill yn benodol ledled y wlad, bellach wedi creu mwy na 78,000 o straeon. Cânt eu defnyddio gan y BBC a'n partneriaid. Mae llwyddiant y Bartneriaeth Newyddion Leol wedi cael ei gydnabod ledled y diwydiant newyddion.

Ein bwletin newyddion teledu rhanbarthol am 6.30pm, ar y cyd, yw'r gwasanaeth newyddion a gaiff ei wyllo fwyaf ar deledu'r DU yn seiliedig ar gynulleidfya gyfartalog. Rydym hefyd yn arloesi gydag amrywiaeth ehangach o genres ar y teledu ac ar-lein, gan gynhyrchu cynnwys mwy amrywiol ar gyfer cynulleidfaoedd yn Lloegr.

Eleni, rydym wedi gwneud amrywiaeth eang o raglenni teledu ar gyfer cynulleidfaoedd yn Lloegr, fel *River Walks* ar BBC One, a archwiliodd rai o ardaloedd cefn gwlad mwyaf hardd y wlad a *Hidden Britain* ar gyfer BBC Four, a gymerodd gipolwg difyr ar hanes a threftadaeth rhai o'n cymunedau amrywiol. Edrychodd *How the NHS Changed Our World* ar BBC One ar effaith y gwasanaeth iechyd yn ei 70 flwyddyn.

Gwnaeth yr archwilydd a'r cyflwynydd teledu Paul Rose gyfres brydferth am gefn gwlad Cumbria yn *The Lakes*, a ddangoswyd ar BBC One a BBC Two, a'i dilyn â chyfres a leolwyd yn ochr arall Lloegr yn *The Yorkshire Dales*.

## Perfformiad fesul gwasanaeth

Gwasanaethau penodedig	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £124 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2018/19	Cyrhaeddiad % y boblogaeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliyd yn gwyllo neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwr/gwrandawr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Cost fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth am bob awr o ddefnydd
<b>BBC LOCAL RADIO</b> Mae Radio Lleol y BBC yn darparu gwasanaeth llafar yn bennaf sy'n cynnig newyddion, gwybodaeth a thrafodaethau, gyda phwyslais cryf ar ryngweithedd.	<b>£124m</b> 2017/18: £118m	<b>13.1%</b> 2017/18: 14.3%	<b>08:36</b> 2017/18: 08:52	<b>5c</b> 2017/18: 4c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer cynulleidfaoedd 15+ oed.  
Ffynonellau: RAJAR (Cyrhaeddiad radio a'r amser fesul gwrandawr; data yn seiliedig ar Ardal Arolygu Gyfan - TSA).

## % yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
Effeithiol	<b>72%</b>	<b>72%</b>	<b>69%</b>	<b>76%</b>	<b>72%</b>
Aneffeithiol	12%	14%	12%	11%	11%
2017/18: Effeithiol/Aneffeithiol	74%/9%	72%/9%	77%/9%	78%/8%	69%/9%

## % yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
Effeithiol	<b>57%</b>	<b>56%</b>	<b>58%</b>	<b>57%</b>	<b>54%</b>
Aneffeithiol	21%	23%	20%	19%	20%
2017/18: Effeithiol/Aneffeithiol	57%/20%	54%/20%	61%/19%	57%/20%	57%/19%

## Cyrhaeddiad Teledu'r BBC: % yr oedolion mewn cartrefi â theledu mewn gwahanol rannau o Loegr sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2018/19</b>	<b>78%</b>	<b>79%</b>	<b>78%</b>	<b>80%</b>	<b>73%</b>
2017/18	80%	81%	81%	82%	76%

## Cyrhaeddiad Radio'r BBC: % yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2018/19</b>	<b>63%</b>	<b>61%</b>	<b>68%</b>	<b>73%</b>	<b>51%</b>
2017/18	65%	62%	69%	75%	53%

## Gwasanaethau newyddion penodedig Rhanbarthau Lloegr: % yr oedolion yn Lloegr mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2018/19</b>	<b>39%</b>	<b>41%</b>	<b>39%</b>	<b>43%</b>	<b>32%</b>
2017/18	42%	44%	42%	46%	35%

## Teledu'r BBC: Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos (oo:mm)

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2018/19</b>	<b>07:28</b>	<b>07:46</b>	<b>07:25</b>	<b>08:13</b>	<b>06:22</b>
2017/18	08:07	08:24	07:57	09:02	07:00

## Radio'r BBC: Amser a dreulir yn gwrando ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos (oo:mm)

	Lloegr 16+	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2018/19</b>	<b>09:44</b>	<b>09:03</b>	<b>10:50</b>	<b>12:11</b>	<b>07:08</b>
2017/18	10:12	09:35	11:09	13:06	07:17

Ffynhonnell: Ipsos MORI, BARB, RAJAR. Cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud. Cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodedig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud.

# 5 Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

**Mae gwasanaethau byd-eang y BBC yn ased gwerthfawr i'r DU. Heddiw maent yn cyflwyno diwylliant, llais a gwerthoedd nodedig y DU i gynulleidfa o fwy na 426 miliwn o bobl ledled y byd. Mae'r rôl hon bob amser wedi bod yn hanfodol i Brydain a'n dylanwad dramor. Ar adeg pan rydym yn ceisio ail-lunio ein hunaniaeth ryngwladol a meithrin cydberthnasau newydd â'r byd, mae'n bwysicach nag erioed. Ar adeg pan rydym yn ceisio ail-lunio ein hunaniaeth ryngwladol a meithrin cydberthnasau newydd â'r byd, mae'n bwysicach nag erioed.**

Mae'r adroddiad hwn yn ein hatgoffa mai newyddion y BBC sydd yn y safle uchaf ledled y byd am ymddiriedaeth, dibynadwyedd ac annibyniaeth.

Mae safle'r BBC fel y brand newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd yn arbennig o bwysig mewn oes lle mae'r cyfryngau yn llai rhydd nag yr oeddent ddeg mlynedd yn ôl mewn sawl rhan o'r byd.

Y llynedd, gwelwyd twf parhaus sefydliadau newyddion mawr a noddir gan y wladwriaeth, sy'n aml yn defnyddio llawer o adnoddau. Mae camwbybodaeth a 'newyddion ffug' yn arfau dewisol ar gyfer cyfundrefnau gormesol ym mhobman ac maent wedi dod yn ddulliau cyfarwydd ar gyfer elw neu fantais wleidyddol. Gyda'r posibilrwydd y bydd gwasanaethau gwladol mewn gwledydd llai rhydd yn dylanwadu ar ddadleuon byd-eang a darpariaeth newyddion, mae gwerth BBC News ledled y byd i ddemocratiaeth a rhyddid yn fwy nag erioed.

Eleni, gwnaethom barhau â'r ehangiad mwyaf o BBC World Service ers y 1940au. Ers mwy na 80 o flynyddoedd, mae'r World Service wedi ysbrydoli a goleuo bywydau pobl ledled y byd. Diolch i'r cyllid newydd gan y llywodraeth a gydnabu rôl y World Service ar gyfer Prydain dramor, rydym wedi ychwanegu 12 o wasanaethau iaith newydd, wedi cyflwyno rhaglenni newydd, cynyddu nifer y newyddiadurwyr ar lawr gwlad ac wedi agor swyddfeydd newydd, mwy ledled y byd.

Mae BBC World News yn parhau i ddarparu newyddion a dadansoddiadau yr ymddiriedir ynddynt i ddefnyddwyr, ac mae ein gwefan ryngwladol yn yr iaith Saesneg, bbc.com, yn perfformio'n dda hyd yn oed mewn marchnadoedd cystadleuol fel UDA. Yn y cyfamser, mae BBC Studios – cangen fasnachol y BBC sydd bellach yn dwyn ynghyd ein gweithrediadau cynhyrchu a dosbarthu – yn gweithio'n galed er mwyn hyrwyddo creadigrwydd Prydeinig dramor a sicrhau elw i'r BBC i'w fuddsoddi mewn mwy o gynnwys gwasanaethau cyhoeddus gwych.

Yn y safle

# 1af

ar gyfer: Ymddiriedaeth, Annibyniaeth, Dibynadwyedd

Ffynhonnell: BBC Brand Tracker 2019 (y DU yn flaenorol)

64% <sup>17/18</sup> 58%

% sy'n cytuno bod y BBC yn eu helpu i gael dealltwriaeth fanylach o'r newyddion.

Ffynhonnell: BBC Brand Tracker 2018 (y DU yn flaenorol)

Digwyddiad Beyond Fake News, Delhi

# BEYON

## 'fake ne



65% <sup>17/18</sup> 67%

% yr oedolion yn y DU sy'n meddwl bod y BBC yn effeithiol yn adlewyrchu'r DU i'r byd. (aneffeithiol: 13%. 17/18: 11%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

**Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i gyflwyno newyddiaduraeth ddiuedd, annibynnol y BBC i fyd lle mae'r cyfryngau yn mynd yn llai rhydd, yn hytrach nag yn fwy rhydd.**

Mae cynulleidfa ryngwladol y BBC wedi saethu i fyny, gyda 426 miliwn o bobl bellach yn defnyddio'r BBC ledled y byd mewn wythnos gyffredin, sef cynnydd o 13%. Mae gan BBC News gynulleidfa o 394 miliwn o bobl ledled y byd, gyda chynnydd o 47 miliwn, neu 14%, ers y llynedd. Daw mwyafrif llethol y cynulleidfaoedd newydd hyn o dair gwlad; India, Kenya, ac UDA. India, lle mae BBC News bellach yn gweithredu mewn naw iaith, yw'r farchnad dramor fwyaf ar gyfer BBC News bellach.

Daw cyfran helaeth o'r cynnydd hwn o ehangiad BBC World Service, diolch i'r hwb ariannol gan lywodraeth y DU.

Gwnaethom agor ein swyddfeydd newydd yn Lagos, Nairobi, Seoul a Hong Kong yn ffurfiol, a bellach, Nairobi yw swyddfa fwyaf y BBC y tu allan i'r DU.

Ar ôl cwblhau lansio ein 12 o wasanaethau iaith newydd, gwnaethom barhau i gyflwyno rhaglenni newydd ac ehangach ledled y byd.

Un o'r datblygiadau arloesol mwyaf nodedig oedd ein rhaglen deledu *Africa Eye*, sy'n darlledu newyddiaduraeth ymchwiliol y BBC ledled y cyfandir, ac sydd wedi cael effaith syfrdanol yn aml.

Dangosodd y bennod gyntaf o *Africa Eye*, a wnaed ar y cyd â BBC News Pidgin, ddibyniaeth farwol i ffigur peswch codeine ymysg miloedd o blant yn Nigeria. Arweiniodd hyn at wahardd ffigur sy'n cynnwys codeine, a gyhoeddwyd gan lywodraeth Nigeria lai na 24 awr ar ôl y darllediad cyntaf.

Mewn pennod ddilynol, a enillodd wobwr RTS am Dechnoleg Newyddion, cynhaliwyd dadansoddiad fforensig o fideo feiral yn dangos milwyr o Gamerŵn yn lladd menywod a phlant. Ar ôl honiadau cychwynnol o 'newyddion ffug', gorfodwyd y llywodraeth i gydnabod bod hyn wedi digwydd ac arestwyd y milwyr dan sylw.

Mae ymchwiliadau eraill wedi cynnwys datgelu llygredd mewn pêl-droed Affricanaidd, a thrais rhywiol yn Ne Affrica.

Ymysg y rhaglenni Affricanaidd newydd eraill a ddarllendir drwy orsafoedd teledu partner, mae *The She Word*, rhaglen draffod wedi'i hanelu at fenywod yn Affrica, *What's New*, rhaglen newyddion i blant, a *Life Clinic*, sy'n archwilio pynciau iechyd sy'n aml yn dabw. Rhaglen wythnosol yw *Factfinder* sydd â'r nod o resymoli'r newyddion a gwahanu ffaith a ffuglen.

Mae buddsoddiad y llywodraeth yn yr ehangiad hefyd wedi ariannu gohebwyd crefyddol byd-eang newydd a gohebwyd arbenigol sydd wedi'u lleoli yn Llundain ar Boblogaeth, Seiberddiogelwch a gohebydd Rhywedd a Hunaniaeth cyntaf y BBC.

Gan adeiladu ar safle'r BBC fel y brand newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf ledled y byd, mae BBC World Service yn parhau i arwain y frwydr dros lythrennedd yn y cyfryngau byd-eang. Lanswyd ein prosiect *Beyond Fake News* ym mis Tachwedd lle gwnaethom gynnal cynadleddau ledled India a Nairobi, gyda chynrychiolwyr o gwmnïau technolegol mawr yn ogystal â chynrychiolwyr o gyrff anlywodraethol, y cyfryngau a gwleidyddiaeth. Trafododd y cynadleddau hyn yr heriau sy'n gysylltiedig â chamwybodaeth, a'r atebion posibl.

Gwnaethom gynnal gweithdai 'Real News' ar lythrennedd yn y cyfryngau yn India a Kenya, gan fynd â staff World Service hyfforddedig i mewn i ysgolion er mwyn helpu i roi hwb i allu myfyrwyr i benderfynu a yw'r newyddion a welant yn wir neu'n ffug.



**Ym mis Gorffennaf 2018, dechreuodd fideo brawychus gael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n dangos dwy fenyw a dau blentyn ifanc yn cael eu harwain i ffwrdd gan grŵp o filwyr Camerŵn arfog. Rhoddwyd mwgwd dros lygaid y carcharorion, cawsant eu gwrthio i'r llawr, a'u saethu 22 o weithiau.**

I ddechrau, diystyrododd llywodraeth Camerŵn y fideo fel 'newyddion ffug'. Ond, llwyddodd *Africa Eye* ar y BBC i brofi yn union ble roedd hyn wedi digwydd, pryd y digwyddodd, a phwy oedd yn gyfrifol am y llofruddiaethau, drwy gynnal dadansoddiad fforensig o'r fideo.

Enillodd *Anatomy of a Killing* wobwr RTS ym mis Chwefror 2019. Dywedodd y beirniaid ei bod yn "a superb piece of public interest journalism which held power to account and had a huge impact in social media."



Mae rhaglen drafod newydd ar y teledu, *The She Word*, wedi'i hanelu at fenywod ledled Affrica

# 394m

Cynulleidfa BBC News ledled y byd

Edrychodd ymchwil newydd a gomisiynwyd gan y BBC ar y rôl y mae apiau sgwrsio a'r cyfryngau cymdeithasol yn ei chwarae yn lledaenu newyddion ffug. Mae'n destun braw bod o leiaf 31 o bobl yn India wedi cael eu lladd yn y ddwy flynedd ddiwethaf mewn cysylltiad â chelwyddau a ranwyd ar y cyfryngau cymdeithasol neu apiau negesu.

Rydym hefyd wedi ehangu ein harlwy Reality Check gan gynnig gwasanaethau ymrwymedig yn ystod etholiadau yn Nigeria ac India.

Yn ystod yr etholiadau yn Nigeria, cynhaliodd y BBC gyfres uchelgeisiol o ddadleuon ynghylch y Swyddi Llywodraethwyr yn Igbo, Hausa, Pidgin a Yoruba.

Cafodd World Service Saesneg flwyddyn arall o dwf yn y gynulleidfa, gan ychwanegu 18 miliwn o wrandawyr newydd er mwyn gwneud cyfanswm cynulleidfa o 97 miliwn.

Ym mis Medi, gwnaethom ddatgelu hunaniaeth cerddoriaeth newydd ar gyfer y rhwydwaith, gyda thôn gyflwyno yn cynnwys adran linyddau Cerddorfa Gyngerdd y BBC.

Mae ein rhaglen drafod fisol, *World Questions*, wedi mynd o nerth i nerth eleni, gan roi'r cyfle i gynulleidfa oedd ledled y byd ddwyn ffigurau cyhoeddus i gyfrif mewn lleoliadau o Harare i Fienna i Yeravan, ac mae ei wasanaeth cyfatebol ar y teledu, *Global Questions*, wedi recordio dadleuon o Lagos, Rhufain, Jerwsalem, Delhi a Hong Kong.

Mae *Arts Hour on Tour* hefyd wedi sefydlu ei hun fel darllediad misol, gan effeithio ar ddisasoedd ledled y byd.

Mae timau newyddion World Service wedi gwneud synnwyr o ddigwyddiadau mwyaf y flwyddyn i'w cynulleidfa ryngwladol, gyda rhaglenni newyddion arbennig, dadleuon a rhaglenni dogfen yn helpu i egluro stori Brexit.

Ac mae ffyrdd newydd o wrando yn datblygu. Mae'r gynulleidfa ar gyfer podlediadau wedi parhau i dyfu. Archwiliodd *Death in Ice Valley*, cydweithrediad â'r darlledwr cyhoeddus o Norwy NRK, achos o lofruddiaeth heb ei ddatrys ers dros hanner canrif ac arweiniodd hyn at greu cymuned frwdfrydig o wrandawyr ar Facebook sydd wedi bod yn rhannu eu straeon a'u barn eu hunain ar y sefyllfa.

Cyflwynodd *Fall of the Shah* fath newydd o ddrama i World Service Saesneg gyda chyfres o safbwyntiau gwahanol ar y chwyldro yn Iran 40 mlynedd yn ôl, gyda'r Fonesig Diana Rigg.

Ac mae *My Indian Life*, a gyflwynir gan y seren Bollywood Kalki Koechiln, yn archwilio straeon am genhedlaeth newydd o Indiaid y mae eu profiadau yn newid yn gyflym.

Gellir manteisio ar World Service Saesneg bellach drwy ap newydd sy'n helpu pobl i gael gafael ar newyddion a rhaglenni radio mewn ardaloedd lle

mae data symudol yn ddrudd neu lle mae cwmpas rhyngwrwyd yn gyfyngedig. Mae'r ap ar gael mewn 35 o wledydd.

Mae BBC Global News, sy'n gweithredu llwyfannau newyddion Saesneg rhyngwladol y BBC a ariennir yn fasnachol, wedi parhau i ffynnu. Mae BBC World News, ein sianel newyddion 24 awr ar y teledu, wedi cynnig rhaglenni blaenllaw fel *HARDtalk*, *Click a Beyond 100 Days*. Mae bbc.com wedi lansio BBC Reel, sy'n dwyn ynghyd gynnwys fideo digidol byd-eang gorau'r BBC ynghyd â chynnwys a wnaed yn arbennig, ar gyfer cynulleidfa ryngwladol.

Mae risgiau yn gysylltiedig â darlledu newyddiaduraeth ddiuedd, annibynnol ledled y byd. Yn anffodus, drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o newyddiadurwyr y BBC wedi wynebu aflonyddwch a hyd yn oed ymosodiadau corfforol.

Mae'r BBC wedi bod yn cefnogi ymgyrch i rwystro awdurdodau Iran rhag aflonyddu ar staff BBC Persia a dial ar eu teuluoedd. Fis Mawrth y llynedd, gwnaed sylwadau lefel uchel i Gyngor Hawliau Dynol y Cenedloedd Unedig a Senedd Ewrop, lle pleidleisiodd aelodau dros ddod â'r ymosodiadau hyn ar ryddid mynegiant i ben.

# Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd



Stiwdio'r BBC yn Nairobi

Mae gan y BBC swyddfeydd mewn 59 o wledydd a 75 o ddinasoedd. Ymysg y rhain mae Newsgathering, BBC World Service, BBC Monitoring, BBC Global News a Media Action.

426m <sup>17/18</sup> 376m


**Cyrhaeddiad wythnosol byd-eang**  
Yn cynnwys BBC News a BBC Studios.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

394m <sup>17/18</sup> 347m

**BBC News**  
Cyfanswm y gynulleidfa wythnosol ryngwladol.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC





	Gweithrediadau a swyddfeydd y BBC ledled y byd	News-gathering	World Service	BBC Monitoring	Media Action	BBC Global News	BBC Studios
<b>Asia</b>							
Affganistan	Kabul	●	●	●	●		
Azerbaijan	Baku		●				
Bangladesh	Cox's Bazaar				●		
	Dhaka		●		●		
Burma/ Myanmar	Rangoon/ Yangon	●	●		●		
Cambodia	Phnom Penh				●		
Tseina	Beijing	●					●
	Hong Kong		●				●
	Shanghai	●				●	
India	Bangalore						●
	Delhi	●	●	●	●	●	
	Mumbai		●			●	●
Indonesia	Jakarta	●	●				
Japan	Tokyo	●				●	●
Gwlad yr Iorddonen	Amman	●					
Kyrgyzstan	Bishkek		●				
Libanws	Beirut	●	●				
Nepal	Kathmandu		●		●		
Pacistan	Islamabad	●	●				
	Karachi		●				
	Lahore		●				
Tiriogaethau Palesteinaidd	Dinas Gaza	●					
	Ramallah	●	●				
Singapore	Singapore	●	●			●	●
De Corea	Seoul	●					●
Taiwan	Taipei						●
Tajikistan	Dushanbe		●				
Gwlad Thai	Bangkok	●	●				
Yr EAU	Dubai					●	●
Wsbecistan	Tashkent			●			
<b>Yr Americas</b>							
Ariannin	Buenos Aires		●				
Brasil	Sao Paulo		●				●
Canada	Toronto		●				●
Mecsico	Dinas Mecsico		●				●
UDA	Boston		●		●		●
	Chicago					●	
	Los Angeles	●				●	●
	Miami		●	●			●
	Efrog Newydd a'r Cenhedloedd Unedig	●	●			●	●
	San Francisco	●					
	Washington	●	●				

	Gweithrediadau a swyddfeydd y BBC ledled y byd	News-gathering	World Service	BBC Monitoring	Media Action	BBC Global News	BBC Studios
<b>Awstralia</b>							
Awstralia	Sydney	●					●
<b>Ewrop</b>							
Gwlad Belg	Brwsel	●					
Ffrainc	Paris	●					●
Georgia	Tbilisi	●	●	●			
Yr Almaen	Berlin	●					
	Köln (Cwlen)						●
Yr Eidal	Rhufain	●					
Latfia	Riga		●				
Gwlad Pwyl	Warsaw						●
Ffederasiwn Rwsia	Moscow	●	●	●			
Serbia	Belgrad		●				
Y Swistir	Genefa (y Cenhedloedd Unedig)	●					●
Twrci	Istanbul	●	●	●			
Wrcain	Kiev	●	●	●			
<b>Affrica</b>							
Bwrwandi	Bujumbura		●				
Y Traeth Ifori	Abidjan		●				
Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo	Kinshasa	●	●				
Yr Aiff	Cairo	●	●	●			
Ethiopia	Addis Ababa		●		●		
Ghana	Accra		●				
Irac	Baghdad	●	●				
Israel	Jerwsalem	●	●	●			
Kenya	Garissa		●				
	Nairobi	●	●	●	●		
Nigeria	Abuja		●			●	
	Lagos	●	●				
Rwanda	Kigali		●				
Senegal	Dakar		●				
Sierra Leone	Freetown					●	
Somaliland	Hargeisa					●	
De Affrica	Johannesburg	●	●				
De Swdan	Juba					●	
Tanzania	Dar Es Saleem		●			●	
Twisia	Tunis		●			●	
Wganda	Kampala		●				
Zambia	Lusaka					●	
Zimbabwe	Harare	●	●				

319m<sup>17/18</sup> 279m

**Cyrhaeddiad wythnosol BBC World Service** yn cynnwys teledu, radio, ar-lein a chyfryngau cymdeithasol yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

173m<sup>17/18</sup> 160m

**Cyrhaeddiad wythnosol deunydd sain BBC World Service** Saesneg ac ieithoedd eraill.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

138m<sup>17/18</sup> 111m

**Cyrhaeddiad wythnosol BBC World Service ar y teledu** Ieithoedd heblaw am Saesneg.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

101m<sup>17/18</sup> 95m

**Cyrhaeddiad wythnosol sianel deledu BBC World News\*** Sianel newyddion fyd-eang cyfrwng Saesneg.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

55m<sup>17/18</sup> 42m

**Cyrhaeddiad wythnosol BBC World Service ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol**

Saesneg ac ieithoedd eraill.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

42m<sup>17/18</sup> 37m

**Cyrhaeddiad wythnosol bbc.com\* ac ar y cyfryngau cymdeithasol** Deunydd digidol rhyngwladol Saesneg.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

\* Caiff sianel BBC World News a bbc.com eu hariannu'n fasnachol.

# Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Mae BBC World Service wedi gweld twf sylweddol eleni gyda theledu, sain a digidol oll yn perfformio'n gryf. Fodd bynnag, mae heriau gyda theledu wedi'i syndicetio, patrymau newidiol ymddygiad cynulleidfaoedd a newidiadau yn yr amgylchedd gwleidyddol wedi effeithio ar berfformiad rhai gwasanaethau.

## Cyrhaeddiad wythnosol BBC World Service i bobl bob wythnos ar bob llwyfan fesul gwasanaeth

	2018/19 Miliynau	2017/18 Miliynau	Newid o flwyddyn i flwyddyn %		2018/19 Miliynau	2017/18 Miliynau	Newid o flwyddyn i flwyddyn %
World Service Saesneg	96.6	78.8	22.5%	Nepali	5.3	5.3	0.7%
Afrique	12.5	12.0	3.5%	Pashto	10.2	10.1	0.9%
Arabeg	43.8	44.3	-1.1%	Perseg	20.8	22.5	-7.4%
Azeri	0.2	0.1	137.5%	Rwsieg	4.1	2.9	43.2%
Bengaleg	12.1	16.4	-26.5%	Sinhala	0.9	0.9	8.5%
Brasil	6.5	5.6	17.4%	Somalieg	5.9	3.6	62.6%
Byrmaneg	5.3	4.2	26.2%	Swahili	19.1	16.1	19%
Tseinëeg	1.1	1.1	7.1%	Tamil	11.6	9.8	18.9%
Y Llynnoedd Mawr	1.4	1.4	0.2%	Thai	1.7	1.1	56.8%
Hawsa	23.6	24.6	-3.9%	Twrceg	1.9	1.7	12.6%
Hindi	19.2	11.8	62.1%	Tsieina y DU	0.1	0.1	-7.6%
Indoneseg	4.8	4.0	20.9%	Wcreineg	3.8	3.6	4.9%
Kyrgyz	3.1	3.1	0.6%	Wrdw	7.5	7.8	-3.7%
Dysgu Saesneg	2.3	2.3	0.6%	Wsbeg	2.3	2.3	2.4%
Mundo	7.6	7.2	5.3%	Fietnameg	1.3	1.0	32.8%
Afaam Oromoo	0.1	dd/g	dd/g	Punjabi	0.4	dd/g	dd/g
Amharic	0.2	dd/g	dd/g	Telugu	7.9	dd/g	dd/g
Pidgin	6.2	dd/g	dd/g	Tigrinya	0.1	dd/g	dd/g
Igbo	1.2	dd/g	dd/g	Yoruba	1.7	dd/g	dd/g
Coreaidd	0.9	dd/g	dd/g	Gujarati	3.1	dd/g	dd/g
Marathi	2.0	dd/g	dd/g	Serbaidd	0.1	dd/g	dd/g

Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn ddiweddiariad blynyddol o faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (Teledu, Radio, gwefan a chyfryngau cymdeithasol). Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h.y. sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu lwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lluosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfansymiau lefel uchaf. Er enghraifft, mae'r gynulleidfa teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa World Service.

Nodiadau: Nid yw data lefel gwasanaeth unigol ar gyfer 2017/18 ar gyfer y gwasanaethau newydd a lanswyd fel rhan o'r broses o ehangu'r World Service ar gael gan nad oedd y gwasanaethau hyn wedi bod yn weithredol am flwyddyn eto.

Mae'r data ar gyrhaeddiad a nodir wedi'i dalgrynu i un pwynt degol yn unig.

Mae teledu iaith Saesneg wedi'i syndicetio ar gyfer Affrica yn cyrraedd 38.5 miliwn o bobl ond ni ddangosir hyn yn y tabl uchod am nad yw'n wasanaeth.

# Cynulleidfaoedd a chyd-destun allanol

## t.56

Cyd-destun y farchnad

## t.64

Ymgysylltu â chynulleidfaoedd

Yn yr adran hon, amlinellir ein perfformiad o ran cynulleidfaoedd eleni ac eglurir sut rydym wedi ceisio barn cynulleidfaoedd ledled y DU, a gwranddo arni. Dengys sut mae'r BBC yn perfformio o fewn marchnad gystadleuol y DU, yn ogystal â chrynhoi ein gwaith i gefnogi elusennau a bod mor gynaliadwy â phosibl.

# Perfformiad cynulleidfaedd a chyd-destun y farchnad

## Mae'r ffordd y mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau yn parhau i newid yn gyflym ac yn sylweddol, yn enwedig ymhlith cynulleidfaedd iau.

Yn 2018/19 gwelwyd y gostyngiad mwyaf erioed o flwyddyn i flwyddyn o ran faint o deledu wedi'i ddarlledu a gaiff ei wyllo gan bobl o dan 35 oed ar set deledu – gostyngodd rhyw ddwy awr yr wythnos mewn blwyddyn i ddeg awr a hanner. I'r gwrthwyneb, cynyddodd eu defnydd o'r set deledu at ddibenion yn cynnwys SVOD, YouTube a chwarae gemau unwaith eto – cynyddodd awr yr wythnos i wyth awr yr wythnos. Hefyd, cynyddodd cyfraddau ffrydio cerddoriaeth gan oedolion ifanc tua awr yr wythnos i bron i chwe awr yr wythnos. Erbyn hyn mae tua'r un gyfran o blant dan 16 oed yn defnyddio YouTube bob wythnos ag sy'n defnyddio'r BBC (81%).

Er mai effeithio ar gynulleidfaedd ifanc y mae'r newidiadau hyn wedi'i wneud fwyaf hyd yn hyn, maent yn effeithio ar ddefnydd cynulleidfaedd hyn o'r cyfryngau fwyfwy. Er enghraifft, yn 2018/19 defnyddiodd dros hanner y bobl dros 35 oed y set deledu at ddibenion fel SVOD, YouTube a chwarae gemau, ac roedd un o bob chwech yn defnyddio gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth bob wythnos.

Yn y dirwedd newidol hon, mae'r amser mae pobl yn ei dreulio gyda'r BBC yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn yn achos Teledu'r BBC a Radio'r BBC. Y BBC yw'r darparwr cyfryngau a ddefnyddir fwyaf at ei gilydd gan oedolion yn y DU o hyd, ac roedd ein perfformiad o ran cynulleidfaedd am y flwyddyn o fewn yr ystod darged a bennwyd yng Nghynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2018/19\*.

Yn 2018/19 defnyddiodd 91% o oedolion ar-lein y BBC bob wythnos, yn unol â'r targed o 88-93%. Ar gyfartaledd treuliodd oedolion yn y DU 18 awr yr wythnos yn defnyddio gwasanaethau'r BBC, a oedd yn is ar y flwyddyn ond o fewn yr ystod darged o 17:15-18:45. Gwnaethant roi sgôr o saith allan o ddeg i'r BBC, ar gyfartaledd, o ran eu hargraff gyffredinol, sgôr o saith allan o ddeg am ansawdd y rhaglenni a'r gwasanaethau a sgôr o bump allan o ddeg am werth am arian, gyda phob un o fewn y targed.

O ran cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus, mae dros 70% o oedolion yn dal i feddwl bod y BBC yn effeithiol o ran cyflawni ei genhadaeth i hysbysu, addysgu

a diddanu yn 2018/19\*\*. Ac ym mhob grŵp cynulleidfa, ni waeth beth yw ei oedran, rhyw, grŵp cymdeithasol, tarddiad ethnig na daearyddiaeth, mae mwyafrif clir yn nodi bod y BBC yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o'r oedolion yn y DU hefyd o'r farn bod y BBC wedi cyflawni pob elfen o'r dibenion yn effeithiol, gyda'r sgorau uchaf ar gyfer helpu pobl i ddeall beth sy'n mynd ymlaen yn y DU a'r byd heddiw, ac ar gyfer ansawdd y cynnwys a'r gwasanaethau.

Mae'r sgorau cyffredinol gan oedolion ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau cenhadaeth a dibenion ystadegol sefydlog o gymharu â 2017/18. Gwelwyd rhai newidiadau bach yn y graddau ar gyfer dibenion newyddion, dysgu a byd-eang, ac ar gyfer rhai sgorau ansawdd a natur nodedig ar gyfer Teledu'r BBC, Radio'r BBC a BBC Ar-lein ymhlith eu defnyddwyr wythnosol. Fodd bynnag, ym mhob achos, roedd y mwyafrif o'r oedolion yn y DU yn gyffredinol yn dal i nodi bod y BBC yn effeithiol, gryn dipyn yn uwch na lleiafrif a ddywedai ei fod yn aneffeithiol.

Er gwaethaf y canlyniadau cyffredinol hyn, ceir gwahaniaethau sylweddol yn y defnydd a wneir o allbwn y BBC rhwng gwahanol grwpiau cynulleidfaedd, ynghyd â'i effaith.

Ym mhob grŵp cynulleidfa, roedd y nifer fwyaf o bobl yn dal i deimlo bod y BBC wedi cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion. Ym mhob band oedran, rhyw, gradd gymdeithasol ac ardal o'r DU, ac ymysg cynulleidfaedd gwyn a chynulleidfaedd o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), roedd y gyfran a ddywedodd fod y BBC yn effeithiol ar bob mesur yn uwch o lawer na'r gyfran a ddywedodd ei fod yn aneffeithiol. Ond roedd rhywfaint o'r sawl a ddefnyddiai'r BBC i raddau llai o gymharu â'u grwpiau cymharol – grwpiau C2DE, cynulleidfaedd BAME, pobl yng Ngogledd Iwerddon a phobl iau – ymhlith y rhai a oedd yn tueddu i roi sgorau effeithiolrwydd is. Yn ogystal ag adlewyrchu apêl gymharol arlwy'r BBC, gall lefel absoliwt y defnydd amrywio, yn rhannol, oherwydd graddau'r gystadleuaeth sydd wedi'i hanelu at grwpiau gwahanol, a chenedlaethau a chyfnodau bywyd gwahanol.

Er enghraifft, roedd sgorau effeithiolrwydd ar gyfer y genhadaeth a'r dibenion yn is ymhlith grwpiau C2DE na grwpiau ABC1. Rhoddodd cynulleidfaedd BAME sgorau is na chynulleidfaedd gwyn am y graddau y mae'r BBC yn bodloni ystod

eang o chwaethau ac yn eu hadlewyrchu ac yn berthnasol iddynt. Roedd graddau effeithiolrwydd yng Ngogledd Iwerddon yn dueddol o fod yn is na chyfartaledd y DU am ddarparu'r genhadaeth ac am y diben creadigrwydd. Hefyd, rhoddodd cynulleidfaedd yng Nghymru sgorau is am y diben cynrychiolaeth fel y gwnaeth pobl yng Ngogledd Lloegr wrth raddio'r graddau y mae'r BBC yn darparu ar gyfer eu hardal ac yn ei hadlewyrchu yn ogystal ag elfennau o'r diben newyddion. Rhoddodd cynulleidfaedd yng Nghanolbarth Lloegr sgôr is am ddarparu'r genhadaeth o gymharu â'r llynedd.

Mae'r defnydd a wneir o'r BBC o dan bwysau penodol ymhlith cynulleidfaedd ifanc, gyda chryn gystadleuaeth gan ddarllenedwyr hirsefydledig a darparwyr cyfryngau mwy newydd. O gymharu â chynulleidfaedd yn gyffredinol, mae pobl ifanc 16-34 oed yn llai tebygol o deimlo bod y BBC yn eu hadlewyrchu ac yn berthnasol iddynt. Roedd y grŵp hwn a phobl 35-54 oed hefyd wedi rhoi sgorau effeithiolrwydd is na phobl 55+ oed am gyflawni elfennau o'r diben newyddion ac am y diben creadigrwydd, ansawdd a natur nodedig. Roedd newidiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn graddau hefyd fwyaf amlwg ymhlith pobl 35-54 oed, gyda rhai o'u sgorau – er eu bod yn gadarnhaol o hyd – yn gostwng ac yn agosach at y rhai ar gyfer pobl ifanc 16-34 oed. Mae newidiadau o ran y defnydd o'r cyfryngau yn dwysáu ar gyfer y grŵp oedran hwn – tanysgrifodd 11 miliwn i wasanaeth SVOD yn 2019, sef cynnydd o 1.3 miliwn mewn blwyddyn.

Rydym yn parhau i geisio lleihau'r bylchau o ran y defnydd o'r BBC a'i effaith, ac er mwyn ymateb i'r heriau strwythurol a chystadleuol parhaus wrth i ni flaenoriaethu'r gwaith o ail-greu'r BBC ar gyfer cenhadaeth newydd. Gyda'r holl ddewis sydd ar gael, rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod darlledu cyhoeddus yn parhau i fod yn berthnasol i genedlaethau iau.

\* Pennwyd nodau eang wrth i'r BBC barhau i wella'r systemau ar gyfer mesur cynulleidfaedd a ddefnyddir ganddo a gyflwynodd rhywfaint o ansicrwydd i'r broses o bennu amcanion wrth i'r gwaith o drosglwyddo i'r dulliau gweithredu newydd gael ei gwblhau eleni.

Nodiadau:  
Ipsos MORI, 3,551 o oedolion 16+ yn y DU, Mawrth i Mai 2019

\*\* sgôr gyfartalog ar draws hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU a nhw.

# Cyrhaeddiad wythnosol Teledu a Radio'r BBC o gymharu â darparwyr eraill

## Setiau teledu

Cyrhaeddiad wythnosol	Holl deledu'r BBC <b>BBC</b>	Holl deledu ITV <b>itv</b>	Holl deledu Channel 4 <b>4</b>	Holl deledu Channel 5 <b>5</b>	Sianelau darlledu teledu eraill	Defnyddiau eraill o setiau teledu*
Oedolion 16+ oed	77.9% 2017/18: 80.2%	68.2% 2017/18: 69.7%	58.7% 2017/18: 62.2%	43.6% 2017/18: 44.9%	68.0% 2017/18: 70.6%	58.4% 2017/18: 55.3%
Oedolion ifanc 16-34 oed	56.2% 2017/18: 60.4%	50.2% 2017/18: 53.2%	45.2% 2017/18: 50.8%	25.8% 2017/18: 29.0%	53.3% 2017/18: 58.4%	67.4% 2017/18: 64.6%

Ffynhonnell: BARB (cartrefi sy'n berchen ar set deledu), 15+ munud o gyrhaeddiad olynol.

\* Yn cynnwys SVOD, chwarae gemau, DVDs.


## Gwasanaethau radio/ffrydio cerddoriaeth

Cyrhaeddiad wythnosol	Holl Radio'r BBC	Holl radio masnachol	Ffrydio cerddoriaeth
Oedolion 15+ oed	62.4% 2017/18: 64.2%	65.4% 2017/18: 65.4%	25.0% 2017/18: 20.5%
Oedolion ifanc 15-34 oed	50.8% 2017/18: 53.0%	69.6% 2017/18: 70.8%	46.0% 2017/18: 40.8%

Ffynhonnell: Radio'r BBC a radio masnachol gan RAJAR, 15-munud o gyrhaeddiad. Amcangyfrifon ffrydio cerddoriaeth gan MIDAS/RAJAR.

## Amser a dreuliwyd yn defnyddio'r set deledu at ddibenion gwahanol bob wythnos 2013/14-2018/19, oriau:munudau


### Oedolion 16+ oed: Amser bob wythnos ar gyfartaledd y pen (oriau:munudau)



\* Yn cynnwys SVOD, chwarae gemau, DVDs.  
Ffynhonnell: BARB (cartrefi sy'n

## Amser a dreuliwyd yn defnyddio gwasanaethau radio/ffrydio cerddoriaeth bob wythnos 2013/14-2018/19, oriau:munudau

### Oedolion 15+: Amser bob wythnos ar gyfartaledd y pen (oriau:munudau)



Ffynhonnell: Radio'r BBC a radio masnachol gan RADAR.  
Amcangyfrifon ffrydio cerddoriaeth gan MIDAS/RAJAR.

91%<sup>17/18</sup>  
92%

**Cyrhaeddiad o ran oedolion**  
% yr oedolion yn y DU mewn cartrefi ar-lein sy'n defnyddio Teledu, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos.

Targed: 88-93%

7/10<sup>17/18</sup>  
7/10

**Sut mae oedolion y DU yn graddio'r BBC o ran darparu rhaglenni a gwasanaethau o ansawdd uchel**  
(sgôr gymedrig allan o 10).

Targed: 6-7/10

18:00<sup>17/18</sup>  
19:12

**Cyfanswm yr amser a dreulir**  
Faint o amser y mae cynulleidfaoedd oedolion y DU yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos.

Targed: 17:15-18:45 (oo:mm)

5/10<sup>17/18</sup>  
6/10

**Sut mae oedolion y DU yn graddio'r BBC o ran darparu gwerth am arian**  
(sgôr gymedrig allan o 10).

Targed: 5-6/10

7/10<sup>17/18</sup>  
7/10

**Argraff gyffredinol**  
Argraff gyffredinol oedolion y DU o'r BBC (sgôr gymedrig allan o 10)








Targed: 6-7/10

Ffynonellau: Ipsos MORI; BARB, Arolwg Sefydliadau BARB, RAJAR, Adobe Digital Analytics (DAX); Kantar Media.

# Perfformiad fesul gwasanaeth

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd gwnaethom newid y ffordd rydym yn mesur ein perfformiad; symudwyd o adolygu perfformiad fesul llwyfan (h.y. teledu, radio, newyddion, ar-lein) i adolygu ein perfformiad wedi'i fesur yn erbyn pob un o'r dibenion cyhoeddus. Fodd bynnag, er mwyn cymharu ag Adroddiadau Blynyddol cynharach, rydym wedi cynnwys perfformiad fesul gwasanaeth lle mae data yn bodoli.

## Perfformiad teledu fesul gwasanaeth

Teledu rhwydwaith	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £1,678 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2018/19	Cyrhaeddiad Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliyd yn gwyllo sianel bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliyd gan wylwr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Costau fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth am bob awr o ddefnydd
 BBC One yw ein prif wasanaeth a sianel deledu fwyaf poblogaidd y DU. Mae'n uno ac yn ysbrydoli'r genedl gyda rhaglenni o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o genres yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, comedi, adloniant a ffeithiol.	<b>£1,106m</b> 2017/18: £1,009m	<b>66.7%</b> 2017/18: 68.9%	<b>07:02</b> 2017/18: 07:21	<b>7c</b> 2017/18: 6c
 Mae BBC Two yn sianel genre cymysg sydd â rhaglenni treiddgar o sylwedd. Mae'n cynnwys y swm a'r amrywiaeth fwyaf o raglenni sy'n meithrin gwybodaeth ar y BBC, ynghyd â rhaglenni comedi, drama a chelfyddydol nodedig.	<b>£381m</b> 2017/18: £374m	<b>41.3%</b> 2017/18: 44.6%	<b>03:00</b> 2017/18: 03:07	<b>9c</b> 2017/18: 8c
 Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o raglenni celfyddydol, cerddorol, diwylliannol a ffeithiol o'r DU a thu hwnt.	<b>£44m</b> 2017/18: £38m	<b>11.8%</b> 2017/18: 12.7%	<b>01:43</b> 2017/18: 01:45	<b>6c</b> 2017/18: 5c
 Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig i blant 6-12 oed, gan ddarlledu rhaglenni o'r DU yn bennaf mewn amgylchedd ysgogol, creadigol a phleserus.	<b>£62m</b> 2017/18: £68m	<b>3.4%</b> 2017/18: 3.9%	<b>02:25</b> 2017/18: 02:33	<b>19c</b> 2017/18: 17c
 Mae CBeebies yn cynnig cyfuniad o raglenni o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu yn y DU yn bennaf, sydd wedi'u cynllunio i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed.	<b>£30m</b> 2017/18: £30m	<b>6.3%</b> 2017/18: 7.3%	<b>04:07</b> 2017/18: 04:13	<b>3c</b> 2017/18: 3c
 Mae sianel BBC News yn wasanaeth newyddion diduedd ac annibynnol 24 awr y dydd sy'n cynnig y newyddion diweddaraf, dadansoddiadau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddiwyddiadau lleol, rhai yn y DU a rhai rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd.	<b>£53m</b> 2017/18: £50m	<b>8.2%</b> 2017/18: 9.5%	<b>02:56</b> 2017/18: 02:46	<b>7c</b> 2017/18: 6c
 BBC Parliament yw unig sianel y DU sy'n canolbwyntio ar wleidyddiaeth. Mae'n dangos dadleuon a phwyllgorau o San Steffan, Holyrood, Stormont, Bae Caerdydd a Strasbourg yn ogystal â rhaglenni gwleidyddol o bob cwr o'r DU.	<b>£2m</b> 2017/18: £2m	<b>0.7%</b> 2017/18: 0.5%	<b>02:07</b> 2017/18: 01:45	<b>4c</b> 2017/18: 5c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol ar gyfer pob gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed.

Ffynonellau: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser fesul gwylwr – mae pob sianel yn cynnwys ei sianel cyd-ddarlledu HD lle y bo'n berthnasol).

D.S. Dim ond achosion o wyllo set deledu a fesurir gan ddata BARB sydd ar gael am flwyddyn ariannol lawn 2018/19, sy'n golygu na chaiff achosion o wyllo iPlayer ar ddyfeisiau eraill eu cynnwys yn unrhyw un o'r ffigurau cyrhaeddiad nac amser. Mae'r defnydd o iPlayer yn tyfu, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau sy'n targedu'r ifanc fel CBeebies a CBBC.











Mae'r data ar gost fesul awr defnyddiwr yn cynnwys achosion o wyllo set deledu a dyfeisiau eraill.

CBBC: ymhlith ei chynulleidfau darged o blant 6-12 oed cafwyd cyrhaeddiad o 16.0% a'r amser a dreuliyd fesul gwylwr oedd 02:52 (yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 15+ munud). Yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 3+ munud, cafwyd cyrhaeddiad o 20.1% o blant 6-12 oed a'r amser a dreuliyd fesul gwylwr oedd 02:17.

CBeebies: ymhlith ei chynulleidfau darged o blant 0-6 oed (wedi'u mesur fel blant 4-6 oed a gwragedd a gwyr ty â phlant 0-3 oed), cafwyd cyrhaeddiad o 33.1% a'r amser a dreuliyd oedd 04:40 (yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 15+ munud). Yn seiliedig ar gyrhaeddiad o 3+ munud, cafwyd cyrhaeddiad o 40.0% o blant 0-6 oed a'r amser a dreuliyd fesul gwylwr oedd 03:52.

Byddai cyrhaeddiad tri munud ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament – yn unol â safonau'r diwydiant – yn 11.7% ac yn 1.4% yn y drefn honno (13.1% ac 1.6% ymysg y boblogaeth 16+ oed).

## Perfformiad radio fesul gwasanaeth

Radio rhwydwaith	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £304 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2018/19	Cyrhaeddiad Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliwyd yn gwylio sianel bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliwyd gan wrandawr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Costau fesul awr defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth am bob awr o ddefnydd
 Mae BBC Radio 1 yn darlledu cymysgedd nodedig o gerddoriaeth newydd ac adloniant i bobl ifanc 15-29 oed ac yn cynnig newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori wedi'u teilwra i oedolion ifanc.	<b>£40m</b> 2017/18: £37m	<b>17.0%</b> 2017/18: 17.7%	<b>06:21</b> 2017/18: 06:18	<b>1c</b> 2017/18: 1c
 Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau gyda phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd.	<b>£7m</b> 2017/18: £6m	<b>1.9%</b> 2017/18: 1.9%	<b>04:17</b> 2017/18: 04:40	<b>3c</b> 2017/18: 3c
 Mae BBC Radio 2 yn darlledu cymysgedd unigryw o gerddoriaeth a rhaglenni llafar sy'n cwmpasu cymysgedd eang o allbwn pop a roc byw, comedi, rhaglenni dogfen a chrefyddol, ac mae hefyd yn cynnal ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol i dros 14 miliwn o wrandawyr.	<b>£50m</b> 2017/18: £49m	<b>27.2%</b> 2017/18: 28.1%	<b>11:55</b> 2017/18: 11:54	<b>1c</b> 2017/18: 1c
 Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, gan ddarparu ystod eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefydd a drama. Ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol ledled y DU.	<b>£39m</b> 2017/18: £38m	<b>3.5%</b> 2017/18: 3.7%	<b>06:08</b> 2017/18: 05:56	<b>6c</b> 2017/18: 6c
 Mae BBC Radio 4 yn orsaf radio sy'n cynnig gwasanaeth llafar cymysg, gyda newyddion a materion cyfoes treiddgar ac ystod eang o raglenni llafar eraill gan gynnwys drama, darlenniadau, comedi, rhaglenni freithiol a rhaglenni cylchgrawn.	<b>£96m</b> 2017/18: £91m	<b>19.3%</b> 2017/18: 20.6%	<b>10:59</b> 2017/18: 11:02	<b>2c</b> 2017/18: 1c
 Wedi'i lansio'n wreiddiol yn 2002 fel BBC 7, cafodd ei hail-lansio ym mis Ebrill 2011 fel BBC Radio 4 Extra. Y rhwydwaith digidol yn unig yw'r prif gyfrwng ar gyfer archif y BBC o adloniant llafar, yn cynnwys comedi, drama a darlenniadau.	<b>£3m</b> 2017/18: £3m	<b>3.8%</b> 2017/18: 4.0%	<b>06:17</b> 2017/18: 05:38	<b>&lt;1c</b> 2017/18: 1c
 Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion di-dor a chwaraeon byw, gan gyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon mawr i'w gwrandawyr wrth iddynt ddigwydd, a darparu cyd-destun drwy ddadansoddiadau a thrafodaeth eang.	<b>£46m</b> 2017/18: £44m	<b>9.2%</b> 2017/18: 9.7%	<b>06:38</b> 2017/18: 06:34	<b>3c</b> 2017/18: 2c
 Mae BBC Radio 5 live sports extra yn cynnig dewis ehgach o chwaraeon byw i wrandawyr drwy ymestyn y darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon amrywiol.	<b>£3m</b> 2017/18: £3m	<b>1.9%</b> 2017/18: 2.3%	<b>03:08</b> 2017/18: 03:19	<b>1c</b> 2017/18: 1c
 Mae BBC 6 Music yn orsaf radio ddigidol sy'n diddanu'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd gyda gwasanaeth sy'n dathlu ysbryd amgen cerddoriaeth boblogaidd o'r 60au hyd heddiw, ynghyd â newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.	<b>£12m</b> 2017/18: £11m	<b>4.4%</b> 2017/18: 4.4%	<b>09:20</b> 2017/18: 09:12	<b>1c</b> 2017/18: 1c
 Mae BBC Asian Network yn cynnig allbwn llafar a cherddoriaeth sy'n apelio at Asiaid Prydeinig, gyda ffocws cryf ar newyddion a materion cyfoes. Mae'n darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond mae'n cynnig rhai rhaglenni mewn ieithoedd eraill.	<b>£8m</b> 2017/18: £7m	<b>1.1%</b> 2017/18: 1.2%	<b>05:12</b> 2017/18: 05:19	<b>5c</b> 2017/18: 4c

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob gwasanaeth a chynulleidfaoedd 15+ oed.

Ffynonellau: RAJAR (cyrhaeddiad radio a'r amser fesul gwrandawr).



Radio 1: ymhlith ei grŵp targed o bobl ifanc 15-29 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 31.8% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 06:04.

1Xtra: ymhlith pobl ifanc 15-24 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 5.6% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 03:20.

Radio 2: ymhlith ei grŵp targed o bobl 35+ oed, cafwyd cyrhaeddiad o 33.7% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 12:45.

Asian Network: ymhlith ei grŵp targed o Asiaid o dan 35 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 13.8% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 03:59. Diffiniadau o ethnigrwydd yn RAJAR o flyddyn ariannol 2014/15: Asiaidd = Gwyn ac Asiaidd, Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall.

Perfformiad ar-lein fesul gwasanaeth

	<b>Cynnwys</b> Gwnaethom wario cyfanswm o £214 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2018/19	<b>Cyrhaeddiad</b> Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Amser a dreuliwyd yn gwyllo sianel bob wythnos</b> Y cyfnod o amser a dreuliwyd gan ddefnyddiwr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	<b>Costau fesul cyrhaeddiad defnyddiwr</b> Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol
 <p>Mae BBC Ar-lein yn cynnwys portffolio'r BBC o gynhyrchion ar-lein ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith, teledu cysylltiedig, dyfeisiau symudol a thabledi, yn cynnwys newyddion, chwaraeon a'r tywydd; ein gwasanaethau i blant sef CBBC a CBeebies; a Gwybodaeth a Dysgu – yn ogystal â gwasanaethau teledu a radio a ddarperir ar IP, gyda rhaglenni byw ac ar alw ar gael ar BBC iPlayer.</p>	<p><b>£214m</b></p> <p>2017/18: £182m</p>	<p><b>dd/g*</b></p> <p>2017/18: dd/g</p>	<p><b>dd/g</b></p> <p>2017/18: dd/g</p>	<p><b>dd/g</b></p> <p>2017/18: dd/g</p>
 <p>Mae BBC Three yn arloesi yn barhaus i annog cynulleidfaoedd o'r rhai sy'n 16 oed i'r rhai sy'n eu tridegau i feddwl ac i'w diddanu gyda rhaglenni comedi, drama a ffeithiol gwreiddiol sy'n dathlu talent Brydeinig newydd.</p>	<p><b>8%</b></p> <p>2017/18: 8%</p>	<p><b>Cyrhaeddiad</b> % o'r bobl 16-34 oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos</p>		

\* Fel y nodir ar dudalen 27, mae BBC Ar-lein yn cyrraedd 77% o oedolion yn y DU bob mis. Ffynhonnell: data wedi'u modelu gan y BBC gan ddefnyddio mewnbyn o: Facebook, comScore, BARB, Arolwg Cross-Media Insight. Pobl 16-34 oed yn y DU.



# Gwariant darlledu cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae arian ffi'r drwydded wedi'i wario yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys gofyniad y Siarter i'r BBC adrodd ar wariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre (fel y'i diffinnir yn unol â safonau'r diwydiant). Mae cyfanswm y gwariant ar gynnwys yn cynrychioli'r gost o wneud cynnwys ar draws holl wasanaethau'r BBC. Mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau yn cynrychioli holl gostau cynhyrchu, cefnogi a chyflwyno cynnwys y BBC i gynulleidfaoedd.

## Trwydded weithredu'r World Service

Ymrwymodd y BBC i ddiogelu ei wariant blynyddol ar y World Service am gyfnod o bum mlynedd o 1 Ebrill 2017 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddarlledwr cyhoeddus o fri yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, rhaid i'r BBC wario o leiaf £254 miliwn y flwyddyn ar y gwasanaeth hwn dros y cyfnod hwn. Gan gynnwys costau cynnwys, dosbarthu a chymorth cyffredinol, gwariwyd £278 miliwn (2018: £268 miliwn) ar drwydded weithredu BBC World Service.

## Arian grant y World Service

Yn 2016/17 dyfarnodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad grant o £291 miliwn i'r BBC, i'w wario dros y pedair blynedd ddilynol, er mwyn ei helpu i ehangu'r World Service.

## Gwariant Darlledu Cyhoeddus

	2019 £m	2018 £m
Newyddion a Materion Cyfoes	355	319
Ffeithiol a Dysgu	311	294
Ffilm a Drama	333	340
Adloniant a Chomedi	175	177
Cynrychiadau Chwaraeon	76	65
Plant	83	89
Gwariant ar gynnwys teledu arall	366	295
Gwasanaethau teledu fesul genre	1,699	1,579
Radio	504	480
BBC Ar-lein	214	182
<b>Gwariant ar gynnwys gwasanaethau fesul llwyfan</b>	<b>2,417</b>	<b>2,241</b>
Cerddorfeydd a grwpiau perfformio	29	27
S4C (gwariant ar y gwasanaeth)	22	26
Gwariant ar ddatblygu	67	44
Grant BBC World Service	93	58
Trwydded weithredu BBC World Service*	234	227
Gwariant arall ar wasanaethau	445	382
<b>Cyfanswm gwariant ar gynnwys</b>	<b>2,862</b>	<b>2,623</b>
Costau dosbarthu	194	207
Cynnwys a chymorth dosbarthu	490	418
Cymorth cyffredinol	185	196
<b>Cyfanswm gwariant ar wasanaethau</b>	<b>3,731</b>	<b>3,444</b>
Costau casglu ffi'r drwydded	103	101
Rhwymedigaethau eraill (S4C, Teledu Lleol, cyflwyno Band Eang)**	94	160
Monitro	6	6
Taliad gostwng diffyg pensiwn Darlledu Cyhoeddus***	-	267
Costau Darlledu Cyhoeddus i gynhyrchu incwm heblaw am ffi'r drwydded	165	152
Costau ailstrwythuro	25	13
<b>Cyfanswm gwariant Darlledu Cyhoeddus</b>	<b>4,124</b>	<b>4,143</b>
Ailddosbarthu prydlesau****	(48)	(48)
<b>Gwariant Darlledu Cyhoeddus</b>	<b>4,076</b>	<b>4,095</b>

\* Mae trwydded weithredu BBC World Service yn cynnwys gwariant dosbarthu o £33 miliwn (2018: £36 miliwn).

\*\* O dan delerau cytundeb ffi'r drwydded 2015, mae'r BBC wedi ymrwymo i helpu i dalu am gyflwyno band eang ledled y DU a datblygu sianelau Teledu Lleol.

\*\*\* Roedd taliad diffyg pensiwn yn rhan o gostau staff yn ystod y flwyddyn ac fe'i cydnabuwyd wedyn o fewn gwariant craidd.

\*\*\*\* Er mwyn adlewyrchu cost lawn gwariant Darlledu Cyhoeddus fesul gwasanaeth, caiff llog prydles gyllidol ei gynnwys, er nad yw wedi'i gynnwys yng ngwariant gweithredu'r Grŵp.

# Gwaith elusennol

**Mae'r BBC wedi bod yn darlledu apeliadau elusennol ers 1923. Bob blwyddyn, mae'r apeliadau a'r telathonau hyn yn codi miliynau o bunnoedd ar gyfer unigolion, cymunedau a sefydliadau ledled y DU a thu hwnt. Mae cynulleidfaoedd y BBC yn cymryd rhan, gan ateb heriau a chodi arian. Eleni cyhoeddodd apêl Plant mewn Angen y BBC ei bod wedi codi dros £1 biliwn ers y telathon cyntaf yn 1980. Rhoddir gwybodaeth am yr amrywiaeth o apeliadau elusennol y BBC yma.**

## Apeliadau'r BBC a Ddarlledir

Y llynedd rhoddodd y BBC y cyfle i nifer o elusennau ddarlledu apeliadau. Cafodd 60 o elusennau y cyfle i ddarlledu apêl Lifeline ar BBC One neu apêl ar Radio 4. Codwyd dros £1.3 miliwn ar gyfer ystod eang o achosion. Darlledodd 15 o elusennau apeliadau ar Deledu a Radio'r BBC yng Ngogledd Iwerddon. Gwnaeth Apêl Alive BBC Radio Bristol ariannu sesiynau gweithgareddau ar gyfer pobl oedranus â dementia. Codwyd y cyfanswm uchaf erioed, sef £3.4 miliwn, ar gyfer Apêl Nadolig BBC Radio 4 gyda St Martin-in-the-Fields. Hefyd, darlledodd y BBC apêl ar gyfer y Pwyllgor Argyfyngau yn dilyn Tswami Indonesia a Seiclon Idai. I gael rhagor o wybodaeth am yr holl apeliadau hyn ewch i: [bbc.co.uk/charityappeals](http://bbc.co.uk/charityappeals).

## Media Action

Mae BBC Media Action yn mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb gyda chymorth cwmnïau cyfathrebu creadigol a chyfryngau annibynnol sy'n ysbrydoli, yn hysbysu ac yn cysylltu. Gwnaethom gyrraedd 80 miliwn o bobl ledled y byd yn 2018/19, gyda gwaith yn amrywio o ddarparu gwybodaeth achub bywyd i ffoaduriaid Rohingya ym Mangladesh, i raglenni yn annog miliynau o bleidleiswyr yn Nigeria i gymryd rhan yn yr Etholiad Cyffredinol a'u helpu i nodi newyddion ffug a chamwybodaeth.

Ni chaiff Media Action ei ariannu gan ffi'r drwydded. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar roddwyr i gyflawni ei waith hanfodol. Dysgwch fwy: [bbcmediaaction.org](http://bbcmediaaction.org).

## BBC Plant mewn Angen

Yn 2018, ysbrydolodd y BBC y genedl i gefnogi'r elusen drwy amrywiaeth o raglenni arbennig gan gynnwys Her Ricsio *The One Show*, Crwydr *Countryfile*, rhaglen ddogfen Stacey Dooley ar ddiartrefedd, ac ocsiwn a chystadleuaeth anhygoel i godi arian ar *The Radio 2 Breakfast Show*. Cynhaliodd y Sioe Apêl noson fawreddog arall o adloniant gan godi cyfanswm o £50.6 miliwn erbyn diwedd y sioe, gan



Her Ricsio *The One Show* ar gyfer BBC Plant mewn Angen

# £1bn

Y swm a godwyd gan apêl Plant mewn Angen ers 1980

olygu bod mwy na £1 biliwn wedi'i godi ers 1980. Diolch i'n cefnogwyr mae'r elusen wrthi'n ariannu dros 2,800 o brosiectau gan weithio gyda phlant a phobl ifanc difreintiedig ledled y DU. Am ragor o wybodaeth ewch i: [bbc.co.uk/Pudsey](http://bbc.co.uk/Pudsey).

## Comic Relief

Ar Ddiwrnod Trwyn Coch 2019 gwelwyd pob rhan o'r gorfforaeth yn gwneud cyfraniad rhagorol gan gynnwys Teledu Plant, rhaglenni Newyddion, *The One Show*, *Countryfile*, *Saturday Kitchen*, *The Apprentice* a heriau Radio 1 a Radio 2. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd rhaglen ddogfen ysbrydoledig ar Kilimanjaro a oedd yn cynnwys apeliadau ysgytwol, y Dawnsathon hiraf erioed a sioe adloniant fyw ar y BBC gan gynnwys cyfraniadau gan *Bodyguard*, *Alan Partridge*, *Top Gear*, *Famalam ac University Challenge* a dilyniant i *Four Weddings and a Funeral* a wnaeth greu gryn gyffro. Hyd yn hyn codwyd dros £65 miliwn sy'n swm aruthrol o arian i gefnogi prosiectau yn y DU a thu hwnt. Dim ond gan ddefnyddio allbwn y BBC y gellid cyflawni'r ymdrech elusennol genedlaethol hon. Am ragor o wybodaeth ewch i: [comicrelief.com](http://comicrelief.com).

# Cynaliadwyedd amgylcheddol

**Mae uchelgeisiau amgylcheddol y BBC yn fwy nag erioed. Mae ein rhaglenni a'n cynnwys, gan gynnwys *Drowning in Plastic* ar BBC One a thymor *Cool Planet 5* live, wedi hysbysu ac ysbrydoli cynulleidfaoedd o ran heriau amgylcheddol byd-eang.**

Mae ein strategaeth newydd sy'n ymwneud â Darlledu Gwyrddach yn tanlinellu ein nod o gael effaith amgylcheddol gadarnhaol. Mae'r strategaeth yn cwmpasu ein heffaith weithredol uniongyrchol, ein gwaith yn y diwydiant darlledu ehangach a chynnwys y rhaglenni rydym yn eu cynhyrchu ac yn eu darlledu. Rydym wedi gwneud cynnydd yn yr holl feysydd hyn.

**Rydym wedi darlledu ystod eang o raglenni ar y thema amgylcheddol ar deledu, radio ac ar-lein**

Gwyddom fod beth sy'n digwydd i'r amgylchedd yn bwysig i gynulleidfaoedd a'u bod am weld mwy ar y pwnc hwn. Yn 2018/19 gwnaeth cyfresi fel *Costing the Earth* ar Radio 4 a *Countryfile* ar BBC One dynnu sylw at faterion amgylcheddol bob wythnos. Yn *Stacey Dooley Investigates: Fashion's Dirty Secrets* archwiliwyd effaith y diwydiant ffasiwn ar gyfer BBC One, a defnyddiodd *The Mash Report* ar BBC Two gomedi i drafod newid hinsawdd. Ar-lein, gwnaeth BBC Ideas ddwyn ynghyd restr chwarae ar sail meddwl yn gynaliadwy a oedd yn cynnwys themâu cynaliadwyedd arloesol.

**Rydym wedi hyfforddi cannoedd o bobl i'w helpu i gyflwyno cynnwys gwybodus**

Mae ein cwrs hyfforddi newydd, 'Reporting Climate Change', yn helpu newyddiadurwyr sy'n gweithio ym maes teledu, radio ac ar-lein i feithrin gwell dealltwriaeth o achosion ac effeithiau newid hinsawdd a chael cyfle i drafod sut y gellir ymdrin â'r mater. Rydym wedi hyfforddi mwy na 500 o newyddiadurwyr a byddwn yn parhau i wneud hyn yn 2019/20. Mae timau o BBC Content wedi cael hyfforddiant tebyg. Hefyd, rydym wedi creu cwrs ar-lein byr sef 'Greener Broadcasting' sy'n rhoi cyflwyniad i faterion amgylcheddol yn y BBC.

**Mae ein timau cynhyrchu yn lleihau gwastraff ac allyriadau carbon**

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i greu ein cynnwys mewn ffordd fwy cynaliadwy. Ers mis Ebrill 2018, mae 65% o'r rhaglenni a gomisiynwyd gan BBC Content a BBC Children wedi cyfrifo eu hól-troed carbon gan ddefnyddio cyfrifiad 'Albert' BAFTA. Gwnaeth 157 o raglenni, gan gynnwys *EastEnders* ar BBC One, *Humpback Whales: A Detective Story* ar BBC Two a *The Baby Club* ar CBeebies gael ardystiad cynhyrchu cynaliadwy Albert er mwyn cydnabod eu hymdrechion i leihau'r effaith ar yr amgylchedd. Rydym yn cydweithio â'n cydweithwyr yng Nghonsortium Albert BAFTA er mwyn sicrhau bod y cynllun ardystio yn codi safonau ar draws y diwydiant.

**Rydym yn gwneud ein hadeiladau a'n gweithrediadau yn fwy cynaliadwy**

Mae ein hadeilad newydd yn Sgwâr Canolog Caerdydd yn llawn nodweddion cynaliadwy – gardd to, casglu dŵr glaw a phaneli solar er mwyn cynhyrchu trydan. Mewn dau o'n hadeiladau mawr, sef y Ganolfan Darlledu Newydd yn Llundain a'r Mailbox yn Birmingham, rydym wedi uwchraddio i oleuadau LED er mwyn lleihau faint o drydan rydym yn ei ddefnyddio.





Y llynedd, wedi'i ysbrydoli gan gyfres *Blue Planet II*, cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei bod hi'n fwrriad gennym i roi'r gorau i ddefnyddio plastigau untro ar draws gweithrediadau'r BBC erbyn diwedd 2020. Ers hynny rydym wedi rhoi'r gorau i gwpanau, cyllyll a ffyrac a chynwysyddion plastig o bob ffreutur ac ardal cegin a redir gan BBC Workplace. Rydym nawr yn gweithio i roi'r gorau i ddefnyddio plastig untro y gellir ei osgoi o bobman arall.

**Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein targedau ynni a gwastraff**

Parhawn i brynu ynni adnewyddadwy, gan ein galluogi i gyflawni ein targed o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â methodoleg 'seiliedig ar wyddoniaeth' a gydnabyddir yn rhyngwladol. Nid wy ein defnydd o ynni wedi newid o gymharu â'r llinell sylfaen. Byddwn yn cymryd camau i wella hyn yn y 12 mis nesaf.

Mae faint o wastraff rydym yn ei gynhyrchu bellach 25% yn is na'r llinell sylfaen. Ond mae faint o wastraff y nodir ein bod yn ei ailgylchu wedi lleihau ac mae'r hyn a anfonwn i safleoedd tirlenwi wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; unwaith eto, cymerwn gamau i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad yn erbyn targedau. Rhoddir rhagor o fanylion yn: [bbc.co.uk/responsibility/environment](http://bbc.co.uk/responsibility/environment).

Targedau a mesurau BBC gwyrddach	Targed/mesur erbyn 2022 (linell sylfaen 2015/16)	Cynnydd 2018/19 yn erbyn 2015/16
 CO <sub>2</sub> e*	Lleihau <b>24%</b>	Wedi lleihau <b>78%</b>
 Ynni	Lleihau <b>10%</b>	Wedi lleihau <b>0%</b>
 Gwastraff	Lleihau <b>10%</b>	Wedi lleihau <b>25%</b>
	Ailgylchu <b>75%</b>	Wedi ailgylchu <b>50%</b>
	Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi	Gwastraff i safleoedd tirlenwi <b>14%</b>
	Dim plastig defnydd untro erbyn 2020	Ar waith
 Rhaglenni	<b>100%</b> Cyfrifiad Albert <b>25%</b> Carbon cynhyrchu a ardystiwyd drwy Albert	<b>65%</b> wedi'i gyfrifo <b>48%</b> wedi'i ardystio <b>157</b> o raglenni

\* Mae'r targed i leihau CO<sub>2</sub>e yn mynd i'r afael ag allyriadau cwmpas 1 a 2, yn dilyn methodoleg darged ar sail gwyddoniaeth dull dadgarboneiddio'r sector

Isod, rydym yn disgrifio ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a'n dwysedd carbon (gros a net), a gaiff eu monitro a'u datgelu'n flynyddol.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr 2018/19	Allyriadau 'gros'	Allyriadau 'net'
Allyriadau nwyon tŷ gwydr (tunelli o allyriadau CO <sub>2</sub> e, cwmpas 1 a 2)	<b>67,201</b>	<b>20,999</b>
Dwysedd carbon (tunelli o allyriadau CO <sub>2</sub> /cyfanswm incwm y grŵp £m)	<b>13.7</b>	<b>4.3</b>

Mae'r data ar nwyon tŷ gwydr ar gyfer canolfannau yn y DU a chanolfannau cynrychioladol y World Service. Mae allyriadau 'gros' yn defnyddio ffactor cyfartalog grid ar sail lleoliad. Mae 'net' yn cyfrif am drydan adnewyddadwy.

# Adroddiad ymgysylltu â chynulleidfaoedd

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni asesu safbwyntiau a buddiannau'r cyhoedd a chynulleidfaoedd, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig, yn ofalus ac yn briodol.

**Mae'r BBC yn cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys ymchwil i'r farchnad helaeth, mesur cynulleidfaoedd gan ddefnyddio arolygon y diwydiant a phaneli cynulleidfaoedd a mesur pwrpasol y BBC ei hun, a chanolfan gyswllt 24 awr ddynodedig sy'n ymdrin â phob cyswllt gan y cyhoedd 365 diwrnod y flwyddyn, gan ei fywdo'n ôl i'r BBC.**

Yn ogystal â'r gweithgarwch rheolaidd hwn, yn ystod y flwyddyn gwnaeth aelodau Bwrdd a Phwyllgor Gweithredol y BBC gyfarfod a chlywed yn uniongyrchol gan gynrychiolwyr ein cynulleidfa mewn wyth sesiwn. Ar hyd a lled y DU, gwnaethom ganolbwyntio ar rannau o'r gynulleidfa sy'n ymgysylltu â'n hallbwn i raddau llai. Cafodd y sesiynau hyn eu cynnal yn y lleoliadau canlynol ac roeddent yn cynnwys pobl o ystod eang o gefndiroedd:

1. Birmingham – 24-45 oed
2. Peterborough – 18-24 oed
3. Antrim – 18-34 oed
4. Abertawe – 18-34 oed
5. Dundee – 18-34 oed
6. Salford – 30-50 oed
7. Margate – 40-60 oed
8. Tower Hamlets, Llundain – 25-45 oed

Gwnaeth tua 170 o bobl gymryd rhan yn y sesiynau ac roeddent yn cynnwys cymysgedd cyfartal o ddynion a merched. Dros ddwy awr trafododd yr unigolion eu defnydd o'r cyfryngau, eu hagweddau tuag at y BBC a sut mae'n portreadu eu bywydau, a'u barn am BBC y dyfodol. Ar ddiwedd pob sesiwn cafodd yr unigolion gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolwyr y BBC.

“Mae'n gadarnhaol iawn bod y BBC yn gwrando ar safbwyntiau gwahanol yn uniongyrchol oddi wrth wylwyr ar lawr gwlad”

Tower Hamlets, dyn, 45 oed

**Themâu allweddol a godwyd gan y gynulleidfa yn y sesiynau**

- **Mae'r gynulleidfa yn 'ddigidol' iawn nawr** – mae'n dueddol o groesawu a gwerthfawrogi arlwy gwasanaethau digidol — mae rheolaeth, dewis, a hwylustod dod o hyd i bethau yn bwysig iawn iddi a bydd yn aml yn barnu darparwyr cyfryngau yn seiliedig ar hynny.
- **Caiff BBC iPlayer ei werthfawrogi'n fawr**, ond gall gael ei ystyried yn opsiwn dal i fyny o bryd i'w gilydd yn hytrach nag yn gyrchfan yn ei rinwedd ei hun, felly gall gael ei weld yn israddol i wasanaethau fel Netflix neu YouTube o ran faint o gynnwys sydd ar gael.
- **Ond nid digidol yw'r cyfan** – mae awydd mawr o hyd am deledu sy'n galluogi'r gynulleidfa i eistedd nôl ac ymlacio, yn ogystal â rhaglenni teledu y mae'n rhaid eu gweld. Dylai'r BBC gofio hyn ym marn pobl, a byddent yn croesawu mwy o'r arlwy 'hawdd ei wyluo' hon gan y BBC.
- **Ar y cyfan dangosir llawer o barch i'r BBC** – fe'i hystyrir yn awdurdodol a dibynadwy, ac o ansawdd uchel yn gyffredinol. Mae llawer o hoffter hefyd o wasanaethau a rhaglenni unigol gan y BBC.
- **Ond o ystyried cylch gwaith eang y BBC gall weithiau deimlo'n llai 'perthnasol' i'w bywydau ac nid 'i fi'** – gall portread fod yn ffactor yn hyn o beth – mae rhai cynulleidfaoedd duon, cynulleidfaoedd iau a'r rhai o'r gwledydd yn pryderu y gallai'r ffordd maent yn cael eu cynrychioli a'u portreadu fod yn fwy mynych, yn fwy dilys ac yn fwy manwl gywir.



- **Mae pobl yn dueddol o ymddiried yn y newyddion, ond mae rhai pryderon ynghylch cynrychiolaeth** – mae hefyd ymdeimlad, o'r amrywiaeth o leoedd y gwnaethom ymweld â nhw, y gall eu rhan nhw o'r DU fod yn cael cam gan y cyfryngau yn gyffredinol (nid dim ond y BBC) – gallant deimlo eu bod wedi'u hanwybyddu, eu camgynrychioli neu hyd yn oed eu bychanu.
- **Byddai llawer yn hoffi gweld y BBC yn bod ychydig yn fwy 'ysgafn'** – efallai mabwysiadu naws fwy bywiog, a bod yn fwy cadarnhaol – roedd llawer o'r farn bod newyddion, yn arbennig, yn rhy ddifrifol, diflas ac yn anwybyddu straeon cadarnhaol.
- **Er bod llawer o'r farn bod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth da am arian** – roedd pryderon am faint roeddent yn ei gael amdani ac nid yw llawer yn deall yn glir pa wasanaethau yn union y maent yn talu amdanynt.
- **Ac nid yw pawb yn gwybod beth maent yn ei gael gan y BBC** – mae rhai problemau o ran gwybod pa gynnwys sydd wedi dod gan y BBC, yn enwedig os yw ar gael ar lwyfan rhywun arall.



**I gyfeiriad y cloc o'r chwith uchaf:**  
Charlotte Moore (chwith),  
Cyfarwyddwr Cynnwys, gydag  
aelodau o'r gynulleidfa yn Salford

Syr David Clementi (dde), Cadeirydd  
y BBC, gydag aelodau o'r  
gynulleidfa yn Margate

Syr Nicholas Serota (dde),  
cyfarwyddwr anweithredol, gydag  
aelodau o'r gynulleidfa yn Tower  
Hamlets, Llundain



### Cynlluniau ar gyfer 2019/20

Rydym yn bwriadu cynnal mwy o sesiynau yn 2019/20 er mwyn cael mwy o adborth ar bynciau a themâu sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r BBC, gan gynnwys iPlayer a Sounds, Newyddion, sianel newydd BBC Scotland a ffocws ar ddarpariaeth leol, yn enwedig radio lleol. Unwaith eto, byddwn yn ymgysylltu ag ystod eang o bobl ar draws y sesiynau ac yn ymweld â lleoliadau gwahanol.

Rydym hefyd yn cynllunio ffyrdd newydd eraill o ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd yn well, gan gynnwys:

- Datblygu cyfres o sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer ystod ehangach o staff y BBC y tu hwnt i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol er mwyn cwrrdd â'r gynulleidfa maent yn ei gwasanaethu.
- Trefnu i fwy o staff 'gydwrandu' yng nghanolfan gyswllt y Gwasanaethau Cynulleidfaoedd ym Melffast er mwyn gwrandu i mewn ar yr aelodau o'r gynulleidfa sy'n cysylltu â ni'n uniongyrchol.

# Gweithrediadau masnachol



Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn cefnogi cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC ac yn cynhyrchu incwm ar gyfer Grŵp y BBC. Mae'r cwmnïau hyn yn sicrhau'r gwerth mwyaf o ran eiddo deallusol y BBC, gan ddarparu incwm i ariannu cynnwys nodedig o ansawdd uchel i dalwyr ffi'r drwydded, a chefnogi diwydiant teledu'r DU ar lwyfan rhyngwladol hefyd.

## Y MEINI PRAWF MASNACHOL:

Mae is-gwmniau masnachol y BBC yn darparu cynnwys creadigol o ansawdd i gynulleidfa oedd ac maent yn cynyddu gwerth eiddo deallusol y BBC, yn ogystal â darparu cymorth hanfodol i'r diwydiant creadigol ehangach, yn y DU a thu hwnt. Maent yn gwneud hyn wrth hefyd hyrwyddo a diogelu brand ac enw da'r BBC ledled y byd, yn unol â'r meini prawf masnachol fel y'u nodir yn y Siarter a'r Cytundeb:

1. rhaid i'r gweithgareddau weddu i'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus;
2. rhaid i'r gweithgareddau fod yn fasnachol effeithlon;
3. ni ddylai'r gweithgareddau beryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC;
4. ni ddylai'r gweithgareddau, o ganlyniad i berthynas y gweithgaredd â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau masnachu na gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth, wydroi'r farchnad na chreu mantais gystadleuol annheg.

Caiff is-gwmniau masnachol y BBC eu goruchwyllo gan Fwrdd Commercial Holdings, sy'n gyfrifol am bennu strategaethau yn unol â nodau cwmni cyffredinol Grŵp y BBC, cytuno ar gynlluniau busnes a sicrhau cydymffurfiaeth mewn perthynas â materion rheoliadol a chyfreithiol. Gweler tudalennau 75 a 133.

*Teigr bach o'r gyfres hanes naturiol, Dynasties*

## Gweithrediadau Masnachol

Mae gan y BBC dri is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyr sy'n ategu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC:

### BBC STUDIOS

BBC Studios – busnes cynhyrchu a dosbarthu'r BBC. Cafodd ei greu ym mis Ebrill 2018 pan unwyd cangen gynhyrchu'r BBC a BBC Worldwide. Mae'r busnes a unwyd bellach yn creu, yn buddsoddi, yn datblygu, yn cynhyrchu, yn masnacheiddio ac yn dosbarthu cynnwys sydd wrth wraidd amserlen y BBC, yn ogystal ag ar lawer o lwyfannau ac o amgylch y byd, gan gynnig gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded drwy helpu i ariannu rhaglenni a difidendau arian parod. I ddysgu mwy am weithgareddau BBC Studios gweler tudalen 68.

### BBC NEWS GLOBAL

BBC Global News sy'n gweithredu sianel deledu 24 awr ryngwladol y BBC sef BBC World News a bbc.com. Mae'r sianel a'r wefan yn cael eu hariannu drwy hysbysebion a nawdd, yn ogystal ag incwm gan weithredwyr teledu y telir amdano sy'n cynnig y sianel. Darllenwch fwy yn Cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus – Diben pump ar dudalen 48 a thudalen 73.

### BBC STUDIO WORKS

Mae BBC Studioworks yn darparu cyfleusterau stiwdio deledu, cyfarpar, criw a gwasanaethau ôl-gynhyrchu o leoliadau yn ne-ddwyrain y DU. Darllenwch fwy am yr hyn mae Studioworks yn ei ddarparu ar gyfer y BBC ar dudalen 74.

# BBC Studios

Cafodd BBC Studios ei greu ym mis Ebrill 2018 yn sgil uno dau o is-gwmnïau masnachol y BBC a oedd yn bodoli eisoes: cangen gynhyrchu'r BBC ar gyfer rhaglenni ffeithiol, adloniant ffeithiol, digwyddiadau, adloniant, cerddoriaeth a rhaglenni wedi'u sgrïptio, a alwyd hefyd yn BBC Studios, a BBC Worldwide, a oedd yn goruchwyllo dosbarthiad a defnydd byd-eang eiddo deallusol y BBC drwy werthu cynnwys, sianelau, cynhyrchu rhyngwladol a busnesau atodol.

Ei nod yw ysbrydoli cynulleidfaoedd byd-eang â chynnwys o'r radd flaenaf sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, gan atgyfnerthu'r BBC, ei bartneriaid a'r diwydiant ehangach yn greadigol ac yn ariannol.

Drwy ei gangen gynhyrchu glodwiw, BBC Studios yw prif gyflenwr cynnwys y BBC, gan wneud tua 2,000 o oriau o raglennu o ansawdd uchel bob blwyddyn yn y DU. Ymhlith ei deitlau mae cyfresi llwyddiannus fel *Blue Planet II*, *Doctor Who*, *Strictly Come Dancing*, *This Country a Top Gear*, yn ogystal â chyfresi hirsefydledig fel *Watchdog*, *EastEnders*, *DIY SOS* a'r *Antiques Roadshow*. Mae ei raglenni yn cwmpasu drama, comedi, ffeithiol, adloniant ffeithiol, adloniant, cerddoriaeth a digwyddiadau sy'n cynrychioli pob cynulleidfa ledled y DU.

Yn fyd-eang, drwy ei fusnes dosbarthu, mae BBC Studios yn masnachu mewn mwy na 200 o diriogaethau. Mae'r busnes yn trwyddedu cynnwys i gwsmeriaid darlledu, yn rhedeg sianelau â brand y BBC, gwasanaethau ar alw ac yn gweithredu canolfannau cynhyrchu sy'n darparu ar gyfer marchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae 34 o sianelau â brand y BBC a weithredir ac a berchenogir yn llwyr, a ddarlledir mewn gwahanol wledydd, yn amrywio o BBC Earth mewn Hanes Naturiol a Ffeithiol i CBeebies ar gyfer cynulleidfaoedd iau. Mae BBC Studios hefyd yn berchen ar sianelau gyda phartneriaid darlledu eraill, fel BBC AMERICA gyda AMC Networks, BBC Earth gyda Sony yn India; a Corus Entertainment ar gyfer BBC Canada. Yng Ngogledd America, gyda'i bartner ITV plc, mae BBC Studios wedi creu BritBox ar gyfer y rhai sy'n hoff o raglenni Prydeinig yn UDA a Chanada. Mae BBC Player, sef gwasanaeth fideo ar alw (SVOD) tanysgrifio aml-genre BBC Studios, ar gael yn Singapôr a Malaysia.

Mae BBC Studios yn gweithio gyda darlledwyr a chwmnïau cynnwys eraill er mwyn creu fformatau, cydariannu rhaglenni – fel *One Planet*, *Seven Worlds* ar gyfer BBC One sydd ar ddod, a wnaed gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios, ac a gydgyhyrchwyd gan BBC AMERICA, Tencent Penguin Pictures, ZDF a France Télévisions. Mae'r cyllid rhyngwladol ychwanegol hwn yn galluogi cynulleidfaoedd

y DU i fwynhau rhaglennu premiwm mewn ffordd sy'n fforddiadwy i BBC Content, ac mae'n ehangu cyrhaeddiad rhaglenni'r BBC yn sylweddol, gyda mwy na biliwn o bobl yn gwylio teitl BBC *Planet* yn y tair blynedd diwethaf. Mae hefyd yn creu cynhyrchion cysylltiedig fel nwyddau rhaglenni a digwyddiadau byw wedi'u brandio fel *Countryfile Live*.

Yn ogystal â rhaglenni wedi'u gwneud a'u marchnata gan BBC Studios ei hun, mae'r cwmni hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â darlledwyr a llwyfannau eraill er mwyn meithrin syniadau a sicrhau bod cynnwys yn cael ei ariannu, ei wneud a'i ddangos. Mae BBC Studios yn buddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu annibynnol, ar gyfer hawliau a thegwch strategol, gan feithrin talent a syniadau Prydeinig fel y ddrama ddiweddar *Pure*, a wnaed ar gyfer E4 gan y cwmni cynhyrchu annibynnol Drama Republic, a'r addasiad clodwiw o nofel glasurrol Victor Hugo *Les Misérables* – cydgynhyrchiad gan BBC Studios Productions a'r cwmni cynhyrchu cynnwys premiwm wedi'i sgrïptio Lookout Point sydd o dan berchenogaeth Iwyr.

## Uchafbwyntiau busnes

### 1. Prif werthiannau

Dadansoddiad yn ôl math o fusnes:

£m	2018/19	2017/18
Cynhyrchu a Dosbarthu	<b>1,056</b>	1,104
Gwasanaethau wedi'u Brandio	<b>336</b>	326
Dileadau	<b>(19)</b>	(19)
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,373</b>	1,411

### 2. EBITDA

Dadansoddiad yn ôl math o fusnes:

£m	2018/19	2017/18
Cynhyrchu a Dosbarthu	<b>81</b>	34
Gwasanaethau wedi'u Brandio	<b>71</b>	61
Dileadau	<b>7</b>	10
<b>Cyfanswm</b>	<b>159</b>	105

### 3. Cynhyrchu arian parod am ddim:

**£111 miliwn (2017/18: £92 miliwn) + 21%**

**4. Enillion i'r BBC: £243 miliwn (2017/18: £210 million) + 16%**

**5. Enillion pum mlynedd i'r BBC: £1,112 miliwn ers 2014/15**

2018/19	£243m
2017/18	£210m
2016/17	£211m
2015/16	£222m
2014/15	£226m

Mae'r pedair blynedd gyntaf yn ymwneud â BBC Worldwide yn unig

### 6. Enillion i gwmnïau annibynnol: £176 miliwn (2017/18: £149 miliwn)

Yn olaf ond nid lleiaf, mae gan BBC Studios uchelgais fawr i greu a meithrin diwylliant gweithio cryf, ac un sy'n meithrin creadigrwydd, yn annog cydweithredu ac yn croesawu amrywiaeth ac arloesedd. Mae'n ymrwymedig i welliannau parhaus mewn hyfforddiant, datblygu a strwythur cyffredinol er mwyn sicrhau bod holl staff BBC Studios yn cael y cymorth a'r cyfle sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith gorau.

# Rhif 1

Daeth BBC Studios ar frig rhestr Broadcast o ddsbarthwyr yn ôl trosiant

# 500,000

Tanysgrifwyr i BritBox yn yr UD a Chanada

# 2,000


o oriau o gynnwys teledu a radio wedi'u cynhyrchu ar gyfer y DU

# 15

o gomisiynau trydydd parti newydd wedi'u hennill



## Yr hyn a wnawn

**CREU**

- Cynhyrchu cynnwys gwreiddiol i'r BBC a phartneriaid eraill yn y DU a thu hwnt
- Buddsoddi mewn syniadau a fformatau newydd i'w cynhyrchu a/neu eu gwerthu
- Buddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu annibynnol drwy ecwiti neu gyllid datblygu
- Meithrin talent ar y sgrin ac oddi ar y sgrin; cefnogi awduron newydd
- Helpu prosiectau creadigol i ddwyn ffrwyth drwy gymorth arbenigol ym maes buddsoddi a datblygu

**MASNACHEIDDIO**

- Sicrhau cytundebau cyd-gynhyrchu rhaglenni rhyngwladol
- Caffael a gwerthu hawliau eilaidd i raglenni
- Gwasanaethau â brand y BBC
- Busnesau atodol a manteisio ar eiddo deallusol

**CYFLAWNI ENILLION****BBC:**

- Buddsoddi mewn rhaglenni
- Difidendau arian parod
- Taliadau hawliau
- Datblygu brand y BBC
- Cynyddu proffil rhaglenni'r BBC

**Deiliaid hawliau:**

- Breindaliadau

**Diwydiant creadigol:**

- Meithrin talent
- Hyfforddiant sgiliau arbenigol ym maes cynhyrchu

# Adolygiad Busnes o BBC Studios

## Trosolwg

Bu'n flwyddyn gyntaf gref i BBC Studios ar ei newydd wedd. Cwblhawyd y broses o uno BBC Worldwide a BBC Studios, gan greu cwmni cydlynol ac ystwyth. Mae bellach yn fusnes byd-eang mawr, a all ariannu, creu, dosbarthu a masnacheiddio cynnwys premiwm i'r BBC a chwmnïau eraill ledled y byd. Gall BBC Studios gymryd syniad a'i drosglwyddo i'r sgrin yn ddi-dor, gan sicrhau bod y busnes yn strategol gadarn mewn marchnad ddynamig. Ynghyd â chynlluniau parhaus eraill i drawsnewid y busnes, a chytundebau mawr â Discovery a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn, gan gyntuno ar raniad asedau sianel UKTV a phartneriaeth cynnwys ffeithiol premiwm hirdymor, ategwyd y newid sylfaenol hwn gan berfformiad ariannol da.

Roedd y prif werthiannau yn £1,373 miliwn (2017/18: £1,411 miliwn) ac roedd EBITDA yn £159 miliwn (2017/18: £105 miliwn). Am y bumed flwyddyn yn olynol, roedd enillion i'r BBC, yn cynnwys didfendau a buddsoddiadau mewn rhaglenni, dros £200 miliwn ar £243 miliwn (2017/18: £210 miliwn). Mae'r canlyniadau hyn yn dangos llwyddiant uchelgais graidd BBC Studios: creu a chyflwyno straeon Prydeinig o'r radd flaenaf, sydd ag ystod a dyfnder anhygoel.

Wrth symud ymlaen, mae'r busnes yn anelu at ddatblygu ei gyfraniad at y BBC, ei gynulleidfa oedd a'r diwydiannol yn ehangach, yn greadigol ac yn ariannol, wrth iddo drawsnewid ei ddull gweithredu er mwyn gwasanaethu defnyddwyr yn well ledled y byd, cyfuno ei ddiwylliant a hyrwyddo creadigrwydd yn gyffredinol.

## Dull gweithredu strategol

Mae gan BBC Studios dair blaenoriaeth strategol: hybu cynnwys ac eiddo deallusol y BBC drwy greu cynnwys o'r radd flaenaf a buddsoddi mewn cynrychiadau, cwmnïau annibynnol a thalent; datblygu brandiau masnachfrait presennol a chreu rhai newydd; a chynyddu ei gyfran o gwsmeriaid a marchnadoedd gwerth uchel drwy ddatblygu cydberthnasau presennol a phosibl. Amlinellir y datblygiadau ym mhob maes yn ystod y flwyddyn isod.

## Cynnwys

Mae'r busnes yn parhau i berfformio'n arbennig o dda o ran cynnwys premiwm, ac mae'n gweithio i ddatblygu'r rhaglenni sydd yn yr arfaeth. Yn ystod y flwyddyn, ar gyfer y BBC, gwnaeth BBC Studios ddramâu clodwiw fel *Luther*, *Silent Witness*, a *MotherFatherSon*; hanes naturiol o'r radd flaenaf gan gynnwys *Dynasties* a *Earth's Great Rivers*; a rhaglenni gwyddoniaeth ysgytwol fel *Horizon: Stopping Male Suicide*, *The Truth About...* *The Menopause* a *Trust Me, I'm A Doctor*. Mewn man arall, gwnaeth *Hold the Sunset*, *Two Doors*

*Down a Famalam* eistedd ochr yn ochr â theitlau ffeithiol hynod ddi-ddorol fel *Winterwatch*, *The Flu That Killed 50 Million*, *David Bowie: Finding Fame* ac *American History's Biggest Fibs*. Gweithiodd y tîm digwyddiadau byw ar *The Royal Wedding: Prince Harry and Meghan Markle* a *Festival of Remembrance* y Llang Prydeinig Brenhinol.

Cafodd *Fatberg Autopsy* ei ddarlledu ar Channel 4, sef teitl cyntaf BBC Studios ar gyfer darlledwr heblaw am y BBC, a ddilynwyd yn gyflym gan *Royal Wedding Watch* ar gyfer PBS, *Stargazing Live 2* ar gyfer ABC TV yn Awstralia, *The Bermuda Triangle Enigma* ar gyfer Channel 5 a *Sex, Knives and Liposuction* ar gyfer sianel W UKTV. Hefyd, cafodd *Chocolate Dreams – Inside Hotel Chocolat* ei ddarlledu ar Channel 5 ym mis Ionawr.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd pum teitl eu cynnig fel rhan o broses dendro gan BBC Commissioning wrth i'r BBC fynd ati i gyflawni'r rhwymedigaethau cystadleurwydd a bennwyd yn Siarter a Chytundeb 2016 ar gyfer holl gyfresi'r BBC sy'n dychwelyd a wneir gan BBC Studios. Cadwodd BBC Studios un, sef (*Later with Jools Holland...*) yn ystod 2018/19 a dau arall ar ôl i'r flwyddyn orffen, sef (*Topical Arts* a *Countryfile*), a cholodd y ddau dendr arall, sef (*BBC Proms* a *Mastermind*). Hyd yn hyn, mae wedi cadw cyfanswm o saith allan o ddeg o deitlau yn dilyn proses dendro.

Ymhlith y comisiynau newydd a enillwyd yn ystod y flwyddyn roedd *Planet Earth III* a *Frozen Planet II* ar gyfer y BBC, *Inside the Duchy* ar gyfer ITV, *The Watch* ar gyfer BBC AMERICA, *Danny Dyer on Pinter* ar gyfer Sky Arts a *Stay Free: The Story of the Clash* ar gyfer Spotify. Gwelwyd addasiad BBC Studios o stori Terry Pratchett a Neil Gaiman am angel a demon, *Good Omens*, gyda chast ensemble wedi'i arwain gan Michael Sheen a David Tennant, yn gorffen cael ei gynhyrchu yn ystod y flwyddyn, cyn iddo gael ei ddarlledu gyntaf ar Amazon ddiwedd mis Mai, ac yna ar BBC Two yn ddiweddarach.

Cafodd creadigrwydd a chrefft aruthrol tîm cynhyrchu BBC Studios ei gydnabod gan 79 o wobrau, a bron i 300 o enwebiadau yn ystod y flwyddyn. Ymhlith y rhain mae gwobrau'r Gymdeithas Deledu Frenhinol am ddrama untro *Killed by my Debt*, darllediad byw o *The Royal Wedding: Prince Harry and Meghan Markle*, comedi *Inside No. 9* a *Strictly Come Dancing* a enillodd Wobr Deledu Genedlaethol (NTA).

Mae cefnogi creadigrwydd Prydeinig yn dal i fod yn un o ymrwymïadau BBC Studios, ac mae BBC Studios yn meithrin ei gydberthnasau â chwmnïau annibynnol gorau Prydain mewn ffyrdd sy'n gweddu: â chyfranddaliadau ecwiti mewn 16;

cytundebau allbwn/golwg gyntaf â 17 arall; a chynrychioli cynnwys gan fwy na 200. Cafodd y gyfres hynod lwyddiannus drawsatlantig *Killing Eve* ei gwneud gan Sid Gentle (y mae BBC Studios yn berchen arno'n rhannol) ar gyfer BBC AMERICA, fel y darlledwr comisiynu. Cafodd ei dangos yn y DU ar BBC One a chafodd ail gyfres ei darlledu yn America a'r DU yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn.

## Brandiau

Mae'r busnes yn parhau i fuddsoddi yn ei frandiau rhyngwladol. Cafwyd ymateb da iawn i Jodie Whittaker fel y *Doctor Who* benywaidd cyntaf, a wnaed gan BBC Studios yng Nghaerdydd. Yn llinyn y *Planet* o raglennu nodedig, mae gan Uned Hanes Naturiol glodwiw BBC Studios nifer o deitlau ar y cam cynhyrchu. Gwelwyd cyflwynwyr newydd cyfres 27 o *Top Gear* am y tro cyntaf ym mis Mehefin, a gwnaeth *Strictly Come Dancing* ddoe â'r teulu ynghyd bob nos Sadwrn, gyda 12.9 miliwn yn gwylio'r ffeinal (cyfran o 55%). Lanswyd ehangiad brand cyntaf *Dancing with the Stars* yn yr UD gyda *Dancing with the Stars: Juniors*.

Mae BBC Studios hefyd yn gweithio ar ddatblygu brandiau newydd. Yn Awstralia, mae'r teitl addawol *Bluey*, sy'n seiliedig ar fywyd glasgi sawld sy'n byw gyda theulu yn Queensland, a gydgomisiynir ag ABC Kids ac y disgwylir iddi gael ei darlledu ar CBeebies Australia y flwyddyn nesaf, wedi bod yn llwyddiant ysgubol gyda beirniad a chynulleidfa oedd.

## Marchnadoedd

Mae'r busnes wedi parhau i ddatblygu ei ddull o ymdrin â chwsmeriaid a marchnadoedd pwysig, gan gynnwys meithrin partneriaethau strategol dyfnach er mwyn sicrhau a chynyddu reffeniw. Yn yr UD a Chanada, cyrhaeddodd nifer y tanysgrifwyr i BritBox, y gydfenter SVOD fwyafrifol a reolir gan ITV a BBC Studios, hanner miliwn ychydig o dan ddwy flynedd ers ei lansio. Bydd cytundeb tair flynedd â'r cwmni rhyngwyrdd o Tsieina Tencent yn ehangu partneriaeth trwyddedu a chyd-gynhyrchu cynnwys presennol, ac yn datblygu cymuned cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â rhaglennu hanes naturiol.

Yn y DU, mae Grŵp y BBC yn gweithio i greu partneriaeth fideo ar alw fasnachol ag ITV ac eraill, o dan frand BritBox, a bydd BBC Studios yn darparu cynnwys ar ei chyfer.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cafwyd tri chytundeb mawr rhwng BBC Studios a Discovery. Yn gyntaf, cytundeb ar ddyfodol y gydfenter 50/50 ar gyfer busnes sianelau UKTV yn y DU. Yn ei sgil, rhennir asedau sianelau er mwyn ategu ffocws strategol a busnes masnachol y ddau sefydliad.

Bydd BBC Studios yn caffael y saith sianel sydd agosaf at strategaeth cynnwys y BBC – Alibi, Dave, Drama, Eden, Gold, Yesterday a W – ynghyd â'r chwaraewr digidol UKTV Play, a brand UKTV. Ynghyd â hyn, bydd yn gwneud taliadau mantoli o £173 miliwn i Discovery dros ddwy flynedd.

Ar hyn o bryd mae rhaglenni'r BBC yn cyfrif am hanner yr hyn a gaiff ei wyllo ar y saith sianel hyn. Bydd BBC Studios yn ceisio cynyddu'r buddsoddiad a wneir ym maes rhaglennu yn y DU, gan gynnwys cynnwys gwreiddiol, ar gyfer sianelau UKTV y bydd yn berchen arnynt, ac yn ei dro bydd hyn yn diogelu elfen bwysig o fusnes BBC Studios ar gyfer yr hirdymor. Bydd hefyd yn symleiddio'r ffordd y gall BBC Studios gyflwyno ei hawliau i'r farchnad yn y DU.

Ar wahân, mae'r ddau gwmni wedi cytuno ar bartneriaeth cynnwys fyd-eang aml-flyddyn mewn dwy ran. Drwy hyn bydd BBC Studios yn darparu cyfresi ffeithiol premiwm, gan gynnwys rhaglennu hanes naturiol nodedig, ar gyfer gwasanaeth ffrydio byd-eang newydd Discovery, a chytundeb datblygu pwrpasol i BBC Studios greu syniadau ar gyfer comisiynau Discovery yn y dyfodol.

Gyda'i gilydd, mae'r cytundebau hyn yn sicrhau partneriaeth bwysig a fydd yn cynnig enillion hirdymor i dalwyr ffr'r drwydded, gan ategu buddsoddiadau mewn cynnwys gwreiddiol ar gyfer cynulleidfaoedd y DU, yn ogystal â rhoi hwb i'r rhai sy'n mwynhau rhaglenni'r BBC yn rhyngwladol.

### Adolygiad gweithredol

Mae 2018/19 yn cynrychioli'r flyddyn weithredol gyntaf ar gyfer y busnes hwn sydd wedi'i uno. Dangosodd perfformiad ddechrau cadarn i ddwy elfen weithredol allweddol BBC Studios, gydag enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad (EBITDA) o £159 miliwn (2017/18: £105 miliwn), i fyny 51%. Roedd EBITDA, heb gynnwys budd cyfnewid tramor o flyddyn i flyddyn, i fyny 21%.

Mae'r perfformiad EBITDA cryf iawn hwn a'r arian parod sydd wedi'i gynhyrchu wedi galluogi'r busnes i fenthycu llai (cafwyd dyled net o £46 miliwn ar ddiwedd y flyddyn) (2017/18: £127 miliwn) a

llwyddwyd i sicrhau'r flyddyn orau erioed o ran buddsoddiadau ac enillion i'r BBC. Bydd y sefyllfa gref hon o ran y fantolen yn galluogi BBC Studios i ariannu'r broses o brynu UKTV a buddsoddi ymhellach mewn cynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf. Cafodd cyfleuster benthyca BBC Studios ei gynyddu i £300 miliwn (2017/18: £270 miliwn) ar 31 Mawrth 2019.

### Perfformiad yn ôl elfen weithredu

Mae'r elfennau busnes eleni wedi cael eu newid i adlewyrchu'r ffordd mae Pwyllgor Gweithredol BBC Studios yn rheoli ac yn olrhain ei berfformiad yn dilyn yr uno ym mis Ebrill 2018.

Mae'r dadansoddiad elfennol isod yn cynnwys dyrannu'r holl gostau canolog – gwnaeth rheolaeth gref o ran costau yn y meysydd hyn, ynghyd â'r pwyntiau isod, alluogi'r busnes i ddangos twf o ran EBITDA.

### Cynhyrchu a Dosbarthu

Mae'r busnes Cynhyrchu a Dosbarthu yn cynnwys cynhyrchu a dosbarthu rhaglenni wedi'u sgriptio a heb eu sgriptio i ddarlledwyr a pherchenogion llwyfannau, gan gynnwys cyfran BBC Studios o ganlyniadau cwmnïau cynhyrchu cyswllt a chydenter, gwerthu fformatau, a thrwyddedu a nwyddau eraill yn gysylltiedig â brand a chynnwys.

Cyflawnodd Cynhyrchu a Dosbarthu dwf o ran EBITDA o 138%. Perfformiodd busnes cynhyrchu'r DU yn dda yn ei ail flyddyn lawn o weithredu fel endid masnachol, gyda gwerthiannau ac EBITDA yn uwch na'r flyddyn flaenorol (9% a 288%). Ymhlith y genres sy'n perfformio'n dda mae rhaglenni wedi'u sgriptio, adloniant ffeithiol a digwyddiadau.

Cyflawnodd y busnes cynhyrchu rhyngwladol dwf bach mewn gwerthiannau a buddsoddodd wariant gweithredu ychwanegol mewn cangen cynhyrchu newydd yn Awstralia. Fe'i sefydlwyd ym mis Medi, ac mae eisoes wedi cael ei gomisiwn cyntaf am 85 o benodau o *Mastermind* ar gyfer SBS. Yn yr UD, yn ystod hydref 2018, gwelwyd lansiad ehangiad brand cyntaf *Dancing with the Stars* sef *Dancing with the Stars: Juniors* ar gyfer ABC. Croesawyd y Doctor benywaidd cyntaf gyda chryn

gyffro yn nigwyddiad Comic-Con San Diego ac, ar ddiwedd y flyddyn, daethpwyd i gytundeb cynnwys gyda MotorTrend i ffrydio'r mwyafrif o gatalog *Top Gear* o'r DU yn ogystal â fersiwn newydd ar gyfer yr UD ar gyfer ei wasanaeth.

Gwnaeth cwmnïau cynhyrchu annibynnol y mae gan BBC Studios gyfranddaliadau ynddynt barhau i dyfu, a chynyddodd y cyfranddaliad yng nghwmni annibynnol cynnwys premiwm wedi'i sgriptio Lookout Point o 49.9% i 100% ym mis Gorffennaf 2018. Ymhlith y buddsoddiadau newydd yn ystod y flyddyn roedd dramâu newydd Moonage a Firebird, y ddwy gan dalent greadigol Brydeinig sicr. Dychwelodd BBC Studios £176 miliwn (2017/18: £149 miliwn) i gwmnïau annibynnol drwy fuddsoddi mewn hawliau a breindaliadau yn ystod y flyddyn.

O ran Gwerthu Cynnwys ehangodd a datblygodd y busnes gydberthnasau strategol â chwsmeriaid allweddol, gan greu set ehangach o bartneriaethau a sicrhau ymrwymïadau hirdymor, fel y dangosir gan y bartneriaeth cynnwys â Discovery. Daeth cytundebau creadigol i'r amlwg wrth i werth y busnes dosbarthu barhau i ddatblygu o drwyddedu yn unig i ariannu creadigrwydd, fel y gwelir mewn cytundebau ar gyfer teitlau fel *His Dark Materials*, *Dracula* a *Good Omens*. Hefyd gwelodd lwyddiant nodedig ym maes gwerthu fformat wedi'i sgriptio yn Asia gyda *Doctor Foster* i Dde Corea, *Mistresses* i Japan a *Life on Mars* i Tsieina, gan greu cyfanswm o 15 o werthiannau o ran fformat wedi'i sgriptio yn y rhanbarth hwn yn y blynyddoedd diwethaf. Mewn man arall, denodd *Infidèle*, y cytundeb fformat wedi'i sgriptio cyntaf yn Ffrainc o *Doctor Foster*, gynulleidfa fawr ar gyfer TF1.

Gwelodd y busnes Cynhyrchion Defnyddwyr ddirywiad strwythurol sylweddol pellach yn y farchnad cyfryngau ffisegol. O ganlyniad i'r dirywiad hwn yn y farchnad, llesteiriwyd yr ewylls da mewn perthynas â busnes 2Entertain yn rhannol, ac fe'i gwrthbwsywyd gan elw a gynhyrchwyd drwy werthu'r busnes Good Food, sef maes a berfformia'i'n uchel ond nad oedd yn greiddiol, ym mis Awst.

### Perfformiad yn ôl elfen weithredu

£m	Gwerthiannau statudol		EBITDA	
	18/19	17/18	18/19	17/18
Cynhyrchu a Dosbarthu Gwasanaethau wedi'u	<b>1,047</b>	1,095	<b>81</b>	34
Brandio	<b>161</b>	159	<b>71</b>	61
Dileadau	<b>(19)</b>	(18)	<b>7</b>	10
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,189</b>	1,236	<b>159</b>	105

**Gwasanaethau wedi'u Brandio**

Mae'r busnes Gwasanaethau wedi'u Brandio yn cynnwys gweithgareddau sianelau a chynigion defnyddwyr digidol â brand y BBC, gan gynnwys y gyfran o ganlyniadau o weithrediadau cydfenter a chyswllt yn BBC AMERICA, BritBox, a UKTV, BBC Earth gyda Sony a rhai gwasanaethau digidol wedi'u brandio gan gynnwys BBC Player yn Asia.

Dangosodd perfformiad Gwasanaethau wedi'u Brandio dwf o 16% mewn EBITDA yn ystod y flwyddyn. Bu perfformiad BritBox yn yr UD a Chanada, y mae BBC Studios yn berchen ar 40.5% ohono ac a ystyrir yn gydfenter, yn arbennig o iach. Parhaodd perfformiad UKTV i fod yn gadarn.

Parhaodd comisiynydd y gyfres hynod lwyddiannus ryngwladol *Killing Eve*, BBC AMERICA, i gyflawni twf cadarn o ran ffigurau gwyllo, gyda'i ail flwyddyn fwyaf erioed o ran gwylwyr ar draws yr holl rannau dydd allweddol.

Mewn llai na dwy flynedd, sicrhaodd BritBox hanner miliwn o danysgrifwyr ledled yr UD a Chanada, gan ragori ar yr holl dargedau. Sicrhaodd BBC Learning, a reolir yn fyd-eang allan o Gyfandiroedd America, gytundebau sylweddol â chwmnïau addysg ProQuest, FMG a Stemsscopes, yn ogystal â chytundeb gwerth miliynau o ddoleri sy'n dwyn ynghyd BBC World Service, Microsoft Education a chwmni cynhyrchu Angelina Jolie i gyflwyno rhaglen tair blynedd, sy'n addysgu sgiliau llythrennedd cyfryngau i ystafelloedd dosbarth ysgolion canol yn fyd-eang.

Eleni hefyd adnewyddwyd partneriaethau cyswllt ar gyfer cario sianelau â brand y BBC ar NC+ yng Ngwlad Pwyl a lansio sianelau BBC Earth yn y Dwyrain Canol, Twrci, y Weriniaeth Tsiec, Slofacia a Cyprus, yn ogystal â CBeebies yn Nhwrcei a'r Maldives. Lansiodd BBC First yng Ngwlad Pwyl wrth ailfrandio BBC HD. Yn Awstralia a Seland Newydd, ymhlith y sianelau newydd a lansiodd roedd BBC Living ar Fetch ym mis Mai a BBC Earth ar SKY ym mis Hydref.

**Trethiant**

Cyn effaith credydau treth cynhyrchu, cyfradd dreth effeithiol y flwyddyn oedd 21% (2017/18: 9%).

**Blaenolwg**

Mae'r broses o uno busnesau cynhyrchu a dosbarthu BBC Studios wedi cael ei chwblhau, gan ei roi mewn sefyllfa gref yn y farchnad fyd-eang, ac mae'r busnes ar y trywydd iawn i gyflawni ei darged o sicrhau £1.2 biliwn mewn enillion i'r BBC yn ystod pum mlynedd gyntaf y Siarter bresennol. Mae'r amgylchedd busnes yn un newidiol o hyd, gyda lefelau parhaus o ansicrwydd yn economïau mawr y byd.

Mae'r marchnadoedd y mae BBC Studios yn gweithredu ynddynt yn parhau i newid yn gyflym, gyda chynulleidfaoedd drwyddi draw bellach yn rheoli eu defnydd o'r cyfryngau: beth, ble a phryd. Mae'r angen i drawsnewid y busnes yn sylweddol o hyd ac mae'n heriol cyflawni'r elw disgwylidig pan fo'r gystadleuaeth mor gryf.

Nod BBC Studios yw sicrhau mai ef yw'r cwmni cynnwys Prydeinig gorau yn y byd. Mae'n ceisio ysbrydoli cynulleidfaoedd ledled y byd gyda chreadigrwydd beiddgar o Brydain. I wneud hyn bydd yn sicrhau talent, hawliau a syniadau ar gyfer y dyfodol, a thrwy'r rhain bydd yn dychwelyd arian parod a chyllid ar gyfer cynnwys i'r BBC.

Mae galw byd-eang cynyddol am gynnwys premiwm, ac mae BBC Studios mewn sefyllfa dda i elwa ar hynny. Bydd ffocws allweddol ar ddeall cwsmeriaid a rheoli cyfrifon, gan gynnwys partneriaethau strategol, yn sicrhau bod y busnes yn parhau i ymateb i'r galw hwn. Mae cryfder cynhyrchu BBC Studios yn bwynt gwerthu allweddol yn rhyngwladol, ac ar ôl diwedd y flwyddyn mae wedi sicrhau nifer o gomisiynau newydd gyda darlledwyr domestig a chwmnïau rhyngwladol.

Bydd brand ac arbenigedd adrodd straeon digidol BBC Studios yn parhau i sicrhau ymgysylltiad yn ogystal â datblygu modelau masnachol newydd ar gyfer

newydd-ddyfodiaid i'r farchnad ddigidol. Yn ogystal, mae'r busnes yn bwriadu buddsoddi ymhellach mewn cynnwys premiwm, gydag effaith y cynlluniau hyn i'w gweld yn barod ar ffurf yr enillion cynyddol i'r BBC yn y flwyddyn ariannol. Bydd hyn yn arwain at gynhyrchu llai o arian parod am ddim yn 2019/20.

Bydd BBC Studios yn parhau i weithio'n galed i adeiladu a thyfu ei frandiau yn rhyngwladol, gan chwilio am ffyrdd o gynyddu gwerth masnachfreintiau presennol a nodi cyfleoedd ar gyfer brandiau newydd. Mae'r busnes yn chwilio am gwmnïau o'r unlliw i weithio mewn partneriaeth â nhw ar bob cam o'r broses, o ddod o hyd i syniad newydd i wneud cynnwys a manteisio arno, i ddatblygu modelau busnes newydd o ran cyllid.

Drwy sicrhau twf a chyfuno cydberthnasau ar draws cynnwys, cwsmeriaid a brandiau bydd modd i'r busnes gynyddu ei gyfraniad at Grŵp y BBC yn greadigol ac yn ariannol, mewn amgylchedd lle mae cynhyrchu eiddo deallusol a bod yn berchen arno yn hanfodol. Mae gan BBC Studios gynlluniau uchelgeisiol i greu diwylliant o'r radd flaenaf sy'n denu ac yn cadw'r dalent orau, a gyda chynnwys wrth ei wraidd, ac eiddo deallusol Prydeinig o ansawdd nad oes ei debyg, mae'r busnes mewn sefyllfa dda i fodloni disgwyliadau uchel yn ystod y flwyddyn i ddod a thu hwnt.



Ymysg teitlau BBC Studios mae'r gyfres sydd wedi ennill gwobrau, *This Country*, ar gyfer BBC Three

# BBC Global News



## 465m

Cartrefi a all gael BBC World News  
(2017/18: 458m)

## £114m

Cyfanswm incwm 2018/19  
(2017/18: £109m)

## 93m

o borwyr unigryw misol bbc.com

## £8m

EBITDA uchaf erioed yn 2018/19  
(2017/18: £2m)

Impact BBC World News gyda Yalda Hakim

BBC Global News yw is-gwmni newyddion masnachol y BBC sy'n gweithredu gwasanaethau teledu ac ar-lein Saesneg y BBC y tu allan i'r DU: BBC World News a bbc.com. Cenhadaeth BBC Global News yw cyflwyno newyddiaduraeth ddiudedd a dibynadwy'r BBC i gynulleidfa fyd-eang gynyddol, gan weithredu fel busnes cynaliadwy proffidiol ar yr un pryd.

Yn 2018/19 gwelwyd twf calonogol mewn gwerthiannau yn ein busnesau Gwerthu a Dosbarthu Hysbysebion, gyda chyfanswm yr incwm 5% yn uwch o flwyddyn i flwyddyn ar £114 miliwn. Cofnodwyd yr EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad) uchaf erioed, sef £8 miliwn, o ran twf mewn incwm BBC Global News. Gellir priodoli'r perfformiad cryf i drosglwyddiad llwyddiannus BBC Advertising (o BBC Worldwide) yn 2017/18 er mwyn creu busnes cwbl integredig, a'r buddsoddiad mewn cyfleoedd datblygu busnes fel BBC Reel a BBC Music (yng Ngogledd America), cynigion cynnwys newydd sy'n llywio cynulleidfaoedd a gwerthiannau.

Yn 2018/19, parhaodd ôl troed byd-eang BBC World News i ehangu, gan dyfu 2% yn ystod y flwyddyn. Mae'r sianel bellach ar gael i 465 miliwn o gartrefi (o gymharu â 458 miliwn yn 2017/18). Ysgogwyd y twf gan enillion yng Nghyfansoddiadau America a De Asia.

Cynyddodd gwasanaeth bbc.com ei gyrhaeddiad digidol o 88 miliwn yn 2017/18 i 93 miliwn o borwyr misol yn 2018/19, i fyny (+6%) o flwyddyn i flwyddyn. Lleihaodd

nifer yr ymweliadau â thudalennau bob mis ychydig, o 1.3 biliwn i 1.2 biliwn (-5%) o flwyddyn i flwyddyn, gan adlewyrchu'r newid parhaus o ddefnyddio cyfrifiaduron bwrdd gwaith i ddyfeisiau symudol.

Mae partneriaethau byd-eang oddi ar lwyfannau yn rhan gynyddol o'r strategaeth fasnachol a dosbarthu. Yn 2018/19 gwelwyd cynnydd sylweddol mewn defnydd oddi ar lwyfannau, gyda chynnwys bbc.com bellach yn cyrraedd dros 22 miliwn o ddefnyddwyr bob mis ar lwyfannau fel Apple News, MSN a Facebook Instant Articles. Lluniodd BBC Global News gytundeb newydd â Facebook i gyflwyno sioe wythnosol, *Cut Through The Noise*, ar ei lwyfan Watch, a lansiodd wasanaeth ffrydio newyddion byw newydd ar Yahoo! Japan. Gwelodd sianel YouTube BBC News dwf sylweddol yn 2018/19, gan ragori ar 4 miliwn o danysgrifwyr a thros 1 biliwn o achosion o wylwio fideos ers i'r sianel gael ei lansio yn 2013.

Cafodd BBC Global News ei gydnabod am ei newyddiaduraeth ragorol gyda nifer o wobrau yn 2018/19, gan gynnwys Gwobr Peabody a gwobr Gracie am ohebu BBC World News ar yr argyfwng dyngarol yn Yemen a gwobr David Bloom am ohebu Quentin Somerville ar Syria. Ar-lein, enillodd BBC Travel wobwr Lowell Thomas am y wefan newyddiaduraeth deithio orau, enillodd BBC Future Webby am yr Ysgrifennu Gorau (Golygyddol) ac enillodd BBC Culture wobwr Telly arian am ei fideo llawn dychymyg ynglŷn â'r ffordd y gallai cymeriadau Jane Austen fod wedi defnyddio apiau caru.

### Blaenolwg

Mae'r marchnadoedd y mae BBC Global News yn gweithredu ynddynt yn dal i fod yn heriol. Ar ochr Ddosbarthu'r busnes, mae gweithredwyr teledu y telir amdano yn Ewrop a Gogledd America yn arbennig dan bwysau yn sgil cystadleuwyr OTT ac mae'r pwysau masnachol hyn yn cael eu teimlo wedyn gan ddosbarthwyr sianelau. Yn y cyfamser, mae marchnadoedd hysbysebu rhyngwladol yn dal i fod yn anwadal, gyda'r twf digidol yn cael ei ddominyddu gan gewri technoleg. Fodd bynnag, nid yw enw da'r BBC am fod yn annibynnol ac yn ddibynadwy wrth adrodd ar ddigwyddiadau rhyngwladol byth wedi cael ei werthfawrogi cymaint ac mae gan BBC Global News gynlluniau uchelgeisiol i adeiladu ar berfformiad cryf 2018/19 a manteisio ar gyfleoedd newydd. Mae'r busnes yn bwriadu mireinio ei gynigion golygyddol yn y flwyddyn i ddod er mwyn tyfu cynulleidfaoedd a reffeniw, gan hefyd ddatblygu syniadau i arallgyfeirio y tu hwnt i'w ffrydiau reffeniw craidd.

# BBC Studioworks

Mae BBC Studioworks yn is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyr y BBC, sy'n darparu gwasanaethu stiwdios ac ôl-gynhyrchu i'r BBC a chleientiaid allanol. Bu 2018/19 yn flwyddyn fawr i'r cwmni wrth iddo gwblhau ei flwyddyn lawn gyntaf o fasnachu yn y Ganolfan Ddarlledu newydd sbon yn White City, sef cyfleuster sy'n ategu ei ddau safle yn Elstree. Bu perfformiad ariannol y cwmni yn gryf yn ystod y flwyddyn, gan gynhyrchu £37 miliwn o incwm (2018: £31 miliwn) ac EBITDA o £6 miliwn (2018: £3 miliwn). Cafodd y cynnydd o 19% mewn gwerthiannau o flwyddyn i flwyddyn ei lywio gan y broses o gyflwyno TVC i bortffolio BBC Studioworks, a sicrhodd defnydd uchel o stiwdios y cynnydd mewn EBITDA o flwyddyn i flwyddyn. Mae perfformiad cryf parhaus y cwmni yn golygu ei fod wedi cyhoeddi dididend arian parod i Grŵp y BBC, am y tro cyntaf, o £0.8 miliwn. Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd BBC Studioworks gyda mwy na

25 o ddarllledwyr a chwmnïau cynhyrchu gwahanol gan hwyluso amrywiaeth o gynyrchiadau. Yn eu plith roedd:

- *Strictly Come Dancing, Pointless, EastEnders* a Nosweithiau *Apêl Plant mewn Angen* a *Comic Relief* ar gyfer y BBC.
- *The Voice, Celebrity Juice* a *The Chase* ar gyfer ITV.
- *A League of Their Own* a *The Russell Howard Hour* ar gyfer Sky.

Hefyd croesawodd BBC Studioworks dros 40 o deitlau newydd, gan gynnwys:

- *The Graham Norton Show, Have I Got News for You* a *Mock the Week* ar gyfer y BBC.
- *Good Morning Britain, Lorraine, This Morning, Loose Women, Peston a Love Island: Aftersun* ar gyfer ITV.

- *The Big Narstie Show, The Great British Bake Off: An Extra Slice* a *Sunday Brunch* ar gyfer Channel 4.
- *Celebrity Game Night* ar gyfer Channel 5.
- *Blockbusters* a *Your Face or Mine?* ar gyfer Comedy Central.
- Hefyd profodd y tîm ôl-gynhyrchu flwyddyn gadarnhaol wrth i fwy o gleientiaid fanteisio ar arlwy stiwdio a golygu integredig. Yn ogystal â *EastEnders* a *Holby City* ar gyfer y BBC, cyflawnodd y tîm nifer o brosiectau gan gynnwys *The Last Leg* ar gyfer Channel 4, *Strictly Come Dancing – The Live Tour* a *The Jonathan Ross Show* ar gyfer ITV.

## Blaenolwg

Mae'r rhagolwg o ran y farchnad ar gyfer cynyrchiadau seiliedig ar stiwdio a gwaith ôl-gynhyrchu yn parhau i fod yn gadarnhaol er yn gystadleuol. Mae llif cyson o fusnes newydd a busnes sy'n dychwelyd yn darparu cefndir ffafriol wrth i'r Cwmni geisio optimeiddio ei bortffolio ehangach dros y flwyddyn i ddod a cheisio mwy o gyfleoedd i dyfu.

Er bod perfformiad BBC Studioworks yn gadarn, disgwylir i'r farchnad y mae'n gweithredu ynddi weld nifer o dai cyfleusterau newydd yn agor yn y tymor canolig a allai effeithio ar lefelau busnes. Bydd y Cwmni yn parhau i reoli'r gwaith sydd ganddo yn yr arfaeth yn ofalus a chanolbwyntio ar ddatblygu'r busnes er mwyn diogelu ei ffrydiau refeniw yn y dyfodol. Mae hyn yn bwysig o ystyried bod llawer o refeniw'r Cwmni yn cael ei ennill yn gystadleuol ar y farchnad arian parod.

Hefyd mae gan BBC Studioworks sawl contract hirdymor perthnasol sy'n destun aildendro o bryd i'w gilydd, ac mae hynny'n peri lefel o risg i'r busnes. Bydd denu a chadw cleientiaid, ennill tendrau a gweithgarwch buddsoddi craff ar ei dri safle yn galluogi'r Cwmni i gynnal ei gyfraniad anariannol ac ariannol at Grŵp y BBC a sicrhau sicrwydd cyflenwad mewn marchnad stiwdios ddynameg.

Fel cartref rhai o raglenni teledu mwyaf poblogaidd y wlad, o gynyrchiadau adloniant mawr i ddramâu parhaus, bydd BBC Studioworks yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cyfleusterau cynhyrchu teledu o'r radd flaenaf sy'n cynnig profiad arbennig i gwsmeriaid. Mae'r Cwmni mewn sefyllfa dda i gyflawni ei dargedau yn y flwyddyn i ddod a thu hwnt.

*The Graham Norton Show*



£37m

Incwm BBC Studioworks yn 2018/19  
(2017/18: £31m)

19%

Cynnydd mewn gwerthiannau o  
flwyddyn i flwyddyn

£6m

EBITDA  
(2017/18: £3m)

£0.8m

Difidend i Grŵp y BBC  
(2017/18: £dim)

# Llywodraethu BBC Commercial Holdings

**Commercial Holdings yw'r corff sy'n goruchwylio gweithrediadau holl is-gwmnïau Masnachol y BBC. Isod nodir sut mae Grŵp Commercial Holdings yn cael ei lywodraethu a rôl Bwrdd Commercial Holdings.**

## Adolygiadau

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd dau adolygiad o is-gwmnïau masnachol y BBC. Cyhoeddodd Bwrdd y BBC adolygiad o weithrediad ei is-gwmnïau masnachol dan berchenogaeth lwyr; BBC Studios; BBC Global News; a BBC Studioworks. Nododd yr adolygiad, a gynhaliwyd gan EY ac a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, fod yr is-gwmnïau masnachol yn dangos effeithlonrwydd masnachol oedd yn gyson â'u grwpiau cymheiriaid a'r farchnad ehangach; eu bod yn cyd-fynd â chenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC, nad oeddent yn peryglu enw da'r gorfforaeth; a bod ganddynt bolisiâu a phrosesau ar waith i sicrhau nad ydynt yn gwyrddroi'r farchnad. Ar wahân, cafodd Christopher Saul, cynghorydd annibynnol ar arfer gorau ym maes llywodraethu corfforaethol, ei gomisiynu i adolygu tryloywder masnachol y BBC ochr yn ochr ag adolygiad o dryloywder yn y gwasanaeth cyhoeddus a gynhaliwyd gan Will Hutton. Yn ei adolygiad, nododd Christopher Saul fod gweithrediadau masnachol y BBC o leiaf mor dryloyw â sefydliadau cymaradwy ac, mewn rhai achosion, yn fwy tryloyw. Hefyd gwnaeth argymhellion ar sut y gellir cynyddu tryloywder.

Roedd un o argymhellion Saul yn ymwneud â Bwrdd BBC Commercial Holdings Limited sy'n darparu gwasanaethau llywodraethu, sicrwydd a goruchwylio mewn perthynas â'r is-gwmnïau masnachol a'u gweithgareddau, ar ran Bwrdd y BBC a Grŵp y BBC. Argymhellodd Mr Saul y dylid lleihau nifer y swyddogion gweithredol ar Fwrdd Commercial Holdings a chynyddu nifer y swyddogion anweithredol. Yn dilyn hyn, o 1 Ebrill 2019 cafodd cyfansoddiad Bwrdd BBC Commercial Holdings ei ddiwygio ac mae bellach yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol o Fwrdd y BBC, sef Elan Closs Stephens. Nodir cyfansoddiad llawn y Bwrdd, sy'n cynnwys pedwar swyddog anweithredol a chwech o swyddogion gweithredol y BBC, ar dudalen 133.

## Rheoli

Mae'r gwaith beunyddiol o reoli BBC Studios, BBC Global News a BBC Studioworks yn fater i'w priod Brif Swyddog Gweithredol; Tim Davie; Jim Egan; a David Conway. Caiff yr unigolion hyn eu cefnogi a'u cynghori gan bwyllgor gweithredol sy'n cynnwys uwch reolwyr y busnes mewn perthynas â rheoli eu his-gwmni masnachol. Mae'r pwyllgorau gweithredol wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol o ran rhedeg eu busnes, fel y'i cymeradwywyd gan BBC Commercial Holdings. Mae'r prif weithredwyr yn mynychu holl gyfarfodydd Bwrdd Commercial Holdings er mwyn cyflwyno adroddiad ar berfformiad eu busnes, sy'n rhoi cyfle i'r cyfarwyddwyr gael her adeiladol.

## Y dyfodol

Mae Bwrdd BBC Commercial Holdings yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Yn y flwyddyn dan sylw cafwyd wyth cyfarfod bwrdd. Mae'r cylch gorchwyl llawn ar gael yn [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/commercial](http://bbc.com/aboutthebbc/whoweare/commercial). Mae cyfle wedi codi i gyfarwyddwr anweithredol newydd lenwi'r bwlch a adawyd pan ymddiswyddodd Howard Stringer. Disgwylir i'r unigolyn hwn fod yn y rôl erbyn dechrau haf 2019. Rhoddir adroddiad Elan Closs Stephens, fel Cadeirydd Commercial Holdings, ar weithgareddau'r cwmni a'i is-gwmnïau, ar dudalen 133.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd y cyfarwyddwyr yn cefnogi'r adolygiad gwerth am arian a gynhelir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar greu BBC Studios mwy o faint; yn ogystal â pharhau i adolygu arferion gwaith Bwrdd Commercial Holdings er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Fel y prif is-gwmnïau masnachol mawr eraill, caiff Bwrdd Commercial Holdings a'i Gadeirydd eu cefnogi gan ysgrifenyddiaeth y cwmnïau masnachol.

# Ein pobl

Ein pobl sydd wrth wraidd yr hyn sy'n gwneud y BBC yn arbennig. Maent yn dod o gefndiroedd amrywiol, gan adlewyrchu ein cynulleidfaoedd gwahanol ac maent yn hanfodol i'r broses barhaus o ddarparu rhaglenni a gwasanaethau eithriadol. Eleni, un o'n blaenoriaethau pwysicaf fu parhau gyda'n nod o sicrhau mai'r BBC yw'r lle gorau i weithio, gan gynnal set o adolygiadau amrywiol ym meysydd diwylliant a chamu ymlaen mewn gyrfa, wrth ymgynghori'n eang â phobl o fewn y BBC cyfan.

**t.77**

Diwylliant cynhwysol

**t.77-80**

Mynd i'r afael â saith canlyniad adolygiad â blaenoriaeth

**t.80**

Diwylliant amrywiol sy'n datblygu

**t.81**

Cefnogi a meithrin talent newydd

**t.82**

Hawliau Dynol a Datganiad Caethwasiaeth Fodern

**t.82**

Cynllun sefydliadol clir

**t.84-86**

Tablau data ategol



# Ein pobl – diwylliant, cyflog ac ymddiriedaeth yn y BBC

**Heb bobl o fri, nid yw'r BBC yn ddim. Dim ond oherwydd ymroddiad, medr a gwybodaeth y bobl sy'n gweithio gyda ni – boed hynny am ychydig wythnosau fel gweithwyr llawrydd neu am sawl blwyddyn – y gallwn gynnig rhaglenni, gwasanaethau, radio, podlediadau a newyddiaduraeth o'r radd flaenaf. Nhw sydd wrth wraidd yr hyn sy'n gwneud y BBC yn arbennig. Maent yn dod o gefndiroedd amrywiol, maent yn gwthio'r sefydliad i fod y gorau y gall fod ac, yn anad dim, mae'r BBC a'r hyn mae'n sefyll amdano yn bwysig iddynt.**

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau mai'r BBC yw'r lle gorau i weithio – ac rydym hefyd wedi mynd i'r afael ag ystod eang o heriau. Craffwyd arnom yn sylweddol, yn fewnol ac yn allanol, sydd wedi ein galluogi i sicrhau ein bod fel y dymunwn fod.

Rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol eleni wrth sefydlu rhai newyddiaid hanfodol i'r ffordd rydym yn gwneud pethau. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno fersiwn derfynol telerau ac amodau wedi'u diweddarau i bob aelod o staff a gweithredu fframwaith llwybr gyrfa newydd sy'n arwain y diwydiant, gan roi strwythur ac eglurder i'n holl gyflogeion ynghylch eu rolau yn y BBC. Yn anochel, bydd yn cymryd amser i roi'r camau hyn ar waith yn llwyr, ond mae canlyniadau nifer o adolygiadau annibynnol wedi dangos ein bod yn gwneud cynnydd gwirioneddol wrth symud y tu hwnt i'r materion sydd wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys y ddau adolygiad tryloywder a gynhaliwyd eleni, wedi'u harwain gan Will Hutton a Christopher Saul, ac adolygiad diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o werth am arian cyflogau yn y BBC. Bu'n wych gweld adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cydnabod y camau sylweddol y mae'r BBC wedi'u cymryd i wella cysondeb, tryloywder a thegwch cyflogau staff ac arferion gwaith.

Felly, mae'r adroddiad hwn yn dangos i bawb, ein pobl a'r rhai y tu allan i'r BBC, yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud i sicrhau bod y sefydliad yn fwy effeithlon ac effeithiol, gan ddatblygu ein diwylliant fel bod y BBC yn parhau i fod yn lle cadarnhaol i weithio ac yn un yr ymddiriedir ynddo. Rydym am i bawb ddeall beth yw'r egwyddorion a'r nodau sy'n llywio ein diwylliant, ein cyflogau a'n polisiâu, ac rydym am i'n holl bobl ddeall sut y gallant gamu ymlaen yn eu gyrfa yn y BBC. Isod crynhoir yr hyn rydym wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ganolbwyntio ar greu BBC cynhwysol lle gall staff ddatblygu, camu ymlaen ac ymddiried yn y ffaith y cânt eu gwobrwyo.

## Diwylliant cynhwysol – Ein pum adolygiad

Un o'n blaenoriaethau pwysicaf eleni fu parhau â'n nod o sicrhau mai'r BBC yw'r lle gorau i weithio. Ni welir hyn orau na'n

## Pum adolygiad y BBC o amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithlu:

- BAME
- Anabledd
- Rhywedd
- LGBTQ+
- Amrywiaeth economaidd-gymdeithasol



**Gallwch ddarllen yr holl adroddiadau yma: [bbc.co.uk/diversity/strategy](https://bbc.co.uk/diversity/strategy)**

penderfyniad i gynnal set o adolygiadau amrywiol ym meysydd diwylliant a chamu ymlaen mewn gyrfa, gan ymgynghori'n eang â phobl o bob rhan o'r BBC, a dwyn ynghyd farn ac argymhellion ynghylch beth arall y gallem ei wneud er mwyn atgyfnerthu ein diwylliant cynhwysol.

Cyhoeddwyd pum adolygiad ar wahân, gyda phob un yn canolbwyntio ar faes gwahanol o amrywiaeth a chynhwysiant. Noddwyd pob adolygiad gan aelod o'r Pwyllgor Gweithredol neu uwch arweinydd a datblygwyd 128 o argymhellion. Caiff y rhain eu gweithredu ar draws y sefydliad ac mae cynnydd gwych yn cael ei wneud – mae 95% bellach wedi'u cwblhau neu maent yn mynd rhagddynt.

O edrych ar bob adolygiad a'i drafod yn helaeth â chyflogeion, rydym wedi nodi saith maes pwysig cyffredin sy'n berthnasol i'n holl bobl, ni waeth beth fo'u hil, rhywedd, rhywioldeb, anabledd na chefndir. Ceir crynodeb o'r rhain isod, ynghyd â rhai uchafbwyntiau o ran yr hyn rydym wedi'i gyflawni ym mhob maes eleni. Mesurir cynnydd ym mhob maes drwy ein harolwg ymgysylltu â chyflogeion.

### 1. Nodau, amcanion a gwerthoedd

Un o'r prif bethau a glywsom ym mhob adolygiad, ac a gododd hefyd yn ein harolwg ymgysylltu â chyflogeion, yw bod cenhadaeth y BBC yn bwysig iawn i bawb, ac mae pob un o'n pobl am weithredu'n unol â gweledigaeth glir ar gyfer y sefydliad. Ein cenhadaeth yw hysbysu, addysgu a diddanu, ac, fel mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn ei wneud yn glir, ein nod strategol yw ail-greu'r BBC ar gyfer cenhadaeth newydd a bod yn rym cadarnhaol ar draws gymdeithas y DU ac i'n heconomi greadigol. Ym mis Ionawr, cymerodd y sefydliad cyfan seibiant am ychydig oriau er mwyn rhannu ein nodau strategol mewn trafodaethau tîm. Cynhaliwyd y sgursiau hyn unwaith eto yn y gwanwyn pan wnaethom rannu ein Cynllun Blynyddol, ac rydym yn parhau i hysbysu pobl ac ymgysylltu â

nhw drwy gydol y flwyddyn. Gwnaethom hefyd ddiweddarau 'Cod Ymddygiad y BBC – Sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd'. Mae'n dwyn ynghyd mewn un man ein prif bolisiau a disgwyliadau, gan gynnwys Gwerthoedd y BBC, ac am y tro cyntaf Ymrwymadau newydd ar gyfer Arweinwyr, Ymrwymadau ar gyfer Cyflogeion, a Datganiad o Fwriad Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r Cod hefyd yn annog pobl i ddweud os bydd rhywbeth o'i le.

Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i bawb drwy ystod eang o ohebiaeth fewnol, gan sicrhau bod pawb yn gwybod i ba gyfeiriad rydym yn mynd a'r rhan maent yn ei chwarae. Dywedodd 78% o bobl yn ein harolwg ymgysylltu â chyflogeion diweddar eu bod yn gwybod sut roedd eu gwaith yn cyfrannu at nodau'r BBC.

### 2. Arweinyddiaeth dda

Mae gallu ein harweinwyr yn faes arall sy'n hanfodol i sicrhau mai'r BBC yw'r lle gorau i weithio, o'r hyn rydym wedi'i glywed. Mae angen i'n huwch arweinwyr a'n harweinwyr tîm fwynhau arwain a datblygu timau, a meithrin ymddiriedaeth, hyder a brwdfrydedd. Ac mae angen iddynt fod yn amrywiol, gan gynrychioli'r holl gynulleidfa oedd a wasanaethir gennym.

Datblygwyd Ymrwymadau newydd ar gyfer Arweinwyr eleni, gyda'n harweinwyr yn cydweithio i nodi sut beth yw arweinyddiaeth ragorol pan fyddwn ar ein gorau. Disgwyliar i'n holl arweinwyr eu cyflawni a chynhaliwyd 80 o sesiynau Mae Arweinyddiaeth yn Bwysig ledled y wlad fel y gall arweinwyr ddod ynghyd a rhannu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

I ategu'r ymrwymadau hyn ymhellach, rydym wedi datblygu cyfres newydd o raglenni datblygu arweinwyr ar gyfer pob lefel o arweinyddiaeth – 'Stepping Up to Leadership' ar gyfer arweinwyr newydd sbon; rhaglen Arwain Tîm ar gyfer arweinwyr sefydledig; a rhaglen ar wahân ar gyfer uwch arweinwyr sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion penodol. Mae pob un yn cynnwys hyfforddi a mentora'r sawl sy'n cymryd rhan a hefyd roi'r cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau ar draws y BBC sy'n canolbwyntio ar heriau arweinyddiaeth mawr. I ategu hyn, mae gennym lyfrgell o gymorth dysgu cyfunol a chyfres newydd sbon o drafodaethau ar-lein ac o amgylch y bwrd ar bynciau fel rheoli cyflogau a gweithio hyblyg.

Rhaid i holl arweinwyr y BBC gael adolygiad datblygu personol bob blwyddyn a lywir gan adborth 360 gradd a chwblhau hyfforddiant gorfodol ar duedd anymwybodol, dethol yn deg, ymwybyddiaeth ddiwyllianol ac ymwybyddiaeth o anabledd a bwlio ac aflonyddu.

### 3. Recriwtio teg

Rhaid i'n harferion recriwtio fod yn deg ac yn dryloyw, a denu ystod eang o dalent, gan roi cyfleoedd i bawb gyflawni eu potensial llawn.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi adolygu ein dulliau gweithredu ymhellach a gwneud newidiadau er mwyn sicrhau bod prosesau mor gynhwysol â phosibl. Ymhlith y rhain mae swydd-ddisgrifiadau sy'n rhydd o rywedd neu duedd arall ac rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod ein holl swyddi sydd ar y lefel uchaf yn cynnwys o leiaf un ymgeisydd BAME ar y rhestr fer, ynghyd â phaneli cyfweld rhywedd cymysg. Rydym hefyd wedi creu a hyfforddi cronfa amrywiol o hyrwyddwyr cyfweiliadau, a sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am recriwtio wedi cael hyfforddiant tuedd anymwybodol.

### 4. Camu ymlaen mewn gyrfa

Mae ein pobl wedi dweud wrthym eu bod am weld dull cyson o gamu ymlaen mewn gyrfa yn y BBC, gyda gwybodaeth y gallant ymddiried ynddi. Mae'r Fframwaith Llwybr Gyrfa, sydd wedi lleihau nifer ein

teitlau swyddi o ryw 5,000 i 600, wedi'i ddatblygu'n llawn a rhydd ddisgrifiadau tryloyw o bob math o swydd yn y BBC fel y gall pawb nid yn unig weld sut y gallant gamu ymlaen yn eu teulu o swyddi eu hunain, ond hefyd pa swyddi eraill mewn teuluoedd o swyddi gwahanol sy'n bodoli a pha sgiliau a phrofiadau sydd eu hangen ar eu cyfer. Er mwyn gweld hyn yn dwyn ffrwyth ymhellach, rydym wedi creu fideos o bobl ar draws y BBC yn rhannu'r ffordd maent wedi defnyddio'r Fframwaith Llwybr Gyrfa, a ffilmiau Stori Gyrfa byr o'n pobl ein hunain yn siarad am eu swyddi a sut y gwnaethant gyrraedd ble maent. Ategir hyn gan fynediad hawdd i'n Canolfan Gyrfaoedd, gyda gwybodaeth am bob swydd wag, a menter Hotshoes sy'n hwyluso lleoliadau byrdymor yn y BBC, gan roi'r cyfle i bobl ehangu eu gyrfaoedd drwy leoliadau gwaith wedi'u targedu.

Wrth wraidd hyrwyddo camu ymlaen mewn gyrfa mae'r arweiniad a'r anogaeth a gaiff pobl gan ein harweinwyr tîm a chydweithwyr mwy profiadol eraill. I ategu hyn rydym wedi cynyddu nifer y mentoriaid

sydd wedi'u hyfforddi yn y BBC ac rydym wedi datblygu adnodd paru ar-lein arloesol (BBC Mentor Connections) sy'n galluogi pobl i chwilio am fentor addas ar-lein.

### 5. Gweithio hyblyg er mwyn cydbwysu bywyd a gwaith

Gwyddom fod ein pobl am gael cymorth i gydbwysu bywyd a gwaith, felly rydym wedi gwella ein polisiau gweithio hyblyg er mwyn cynnig mwy o opsiynau, boed hynny'n gweithio llai o oriau, gweithio o gartref, gweithio oriau cywasgedig neu gyfnodol neu rannu swydd. Rydym hefyd wedi rhoi hyfforddiant i'n harweinwyr tîm ar weithio hyblyg.

Lansiwyd cofrestr rhannu swydd newydd a rhaid i swyddi gael eu hysbysebu gyda'r gallu i weithio'n hyblyg oni fydd rheswm busnes dilys dros beidio â gwneud hynny. Ers cyflwyno'r newid hwn, hysbysebwyd tri chwarter o swyddi'r BBC gyda'r opsiwn i weithio'n hyblyg.

Bellach caiff cyfrifon TG unigolion ar gyfnod mamolaeth/tadolaeth eu cadw ar agor drwy gydol y cyfnod maent i ffwrdd, gan roi'r opsiwn iddynt barhau i ymwneud â'u swydd os dymunant wneud hynny. Rydym hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant ychwanegol i'r sawl sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth/tadolaeth. Ceir ystafelloedd nrsio ar bob safle mawr ac rydym wedi lansio polisi babanod cyn amser newydd.

### 6. Llesiant

Thema gyson arall o'n hadolygiadau oedd llesiant a chynorthwyo'r rhai sy'n gweithio yma. Rydym yn falch o ddweud bod ein pobl yn mwynhau amgylchedd cefnogol yn y BBC a bod ffocws parhaus ar lesiant. Rydym wedi cynyddu nifer y cabanau iechyd yn adeiladau'r BBC ac wedi cynnig sesiynau addysg iechyd ac apwyntiadau sgrinio iechyd i weithwyr nos. Rydym hefyd wedi diweddarau ein cyngor ar y menopos i reolwyr a chydweithwyr.

Rhannwyd gwybodaeth am lwybr atgyfeirio trawma newydd, er mwyn gwella'r cymorth a roddir i gydweithwyr, ac rydym yn parhau i atgyfnerthu ein rhwydwaith Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl gyda mwy na 900 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Dros y tair blynedd diwethaf, cynhaliwyd 350 o gyrsiau hyfforddi iechyd meddwl/llesiant/gwydnwch.

Cynhelir digwyddiadau llesiant yn rheolaidd a gwnaeth 2,700 o bobl dddod i wythnos Llesiant yn Salford. Mae ein gwasanaethau llesiant presennol yn parhau i gael eu hatgyfnerthu ac maent yn cynnwys gwasanaethau cwnsela am ddim i gyflogeion, y llinell gymorth gwrth-fwlio ac aflonyddu, cyngor iechyd galwedigaethol a theithio, llinell gyngor i reolwyr a gwasanaethau mynediad i bobl anabl.



## Hot Shoes

**Manteisiodd Shiromi Ramanayake, Rheolwr Gwasanaeth yn y tîm Gallu a Dylunio Gwasanaethau, ar leoliad Hot Shoes gyda'r tîm Rheoli Darlledu a Gwasanaethau Ar-lein a wnaeth ei rhoi ar lwybr gyrfa carlam. O fewn pum wythnos i gwblhau'r lleoliad, cafodd ddyrchafiad a chafodd gynnig swydd Rheolwr Gwasanaeth gyda'r tîm lle cafodd leoliad.**

### Pam wnes di benderfynu gwneud lleoliad Hot Shoes yn y maes hwn?

Roeddwn i ar groesffordd yn fy ngyrfa. Mae'n siŵr bod pawb wedi profi hyn – pan fyddwch chi'n teimlo bod angen newid cyfeiriad arnoch, edrych ar bethau o'r newydd, rhannu eich gwybodaeth a chael y cyfle i ddatblygu. Roeddwn i wedi cyrraedd y pwynt lle'r oeddwn i am gael mwy o gyfrifoldeb a meithrin fy sgiliau rheoli. Roedd ethos Hot Shoes o gael eich

ysbrydoli a rhannu eich doniau yn cyfleu'r hyn roeddwn i'n ei deimlo ar y pryd, a beth roeddwn i am ei gyflawni.

### Sut gwnaeth y lleoliad roi mantais yrfaol i chi?

Gwnaeth fy lleoliad Hot Shoes ym maes Rheoli Gwasanaethau fy helpu i ddringo'r ysgol yrfaol yn gyflym. O fewn pum wythnos i gwblhau fy lleoliad, cefais gynnig swydd gyda thîm fy lleoliad Hot Shoes. Cefais ddyrchafiad i rôl Rheolwr Gwasanaeth. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r tîm Rheoli Gwasanaethau am ba mor dda y trefnwyd y lleoliad a'i amser a'i ymroddiad wrth gynnig fy mhrofiad o Hot Shoes. Llwyddais i ddysgu am y rôl a'i chymwyseddau rheoli hanfodol yn effeithiol, ac archwilio'r rhain pan gyflwynais gais am swydd fel Rheolwr Gwasanaeth.

Wrth wraidd hyrwyddo camu ymlaen mewn gyrfa mae'r arweiniad a'r anogaeth a gaiff pobl gan ein harweinwyr tîm a chydweithwyr mwy profiadol eraill.



## 7. Cyflogau teg

Y thema olaf rydym wedi clywed amdani gan ein pobl yw'r pwysicaf gellid dadlau – mae'r hyn a ddywedwn ac a wnawn o ran cyflogau yn amlwg yn hollbwysig i'n pobl a thalwyr ffi'r drwydded. Eleni, rydym wedi canolbwyntio'n fawr ar sicrhau ein bod yn symud y tu hwnt i bryderon blaenorol er mwyn datblygu diwylliant a dull gweithredu o ran cyflogau a ystyrir yn deg ac yn agored, ac a deimlir felly.

Mae ein harferion o ran cyflogau a sut rydym yn gwobrwyo pobl yn allweddol i'r ffordd rydym yn cyflawni ein prif nod: denu a chadw'r bobl orau er mwyn creu'r cynnwys creadigol gorau posibl, gan hefyd gydnabod ein dyletswyddau fel cyflogwr gwasanaeth cyhoeddus, y telir amdano gan ffi'r drwydded. Erbyn hyn mae gennym rai egwyddorion syml a chlr iawn sy'n llywio ein prosesau gwobrwyo yn y BBC – gwasanaeth cyhoeddus a masnachol – a nodir isod, lle crynhoir yr hyn maent yn ei olygu yn ymarferol a'r hyn rydym wedi'i wneud eleni i'w hymgorffori ar draws y BBC.

### Teg

Rydym am sicrhau bod pobl yn y BBC yn cael eu talu'n deg, a chymerwn degwch o ddifrif. Gwnawn hyn drwy gynnal adolygiadau rheolaidd o lefelau cyflog ar gyfer rolau tebyg, er mwyn sicrhau bod cyflogau cyflogaion bob amser yn deg. Gall cyflogaion hefyd godi pryderon am gyflogau. Gwneir pob penderfyniad ynghylch cyflogau o fewn fframwaith llywodraethu clir er mwyn sicrhau bod y bil cyflogau yn cael ei reoli a'i fonitro.

Ni oedd y darlledwr cyntaf i fod yn agored am rywedd a chyflogau. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi nodi bod y BBC ymhell ar y blaen i sefydliadau eraill, ond ni ellir llasesu dwylo. Yn 2019, mae ein bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau yn 6.7%, i lawr o 7.6% yn 2018. Her strwythurol yw hon sy'n deillio o'r ffaith bod cyfran lai o fenywod mewn rolau uwch – nid am nad ydym yn talu pobl yn deg. Rydym hefyd yn parhau i gyhoeddi, o'n gwirfodd, fylchau cyflog BAME, rhan amser ac anabled, ac erbyn hyn LGBTQ+, am ein bod o'r farn ei bod yn bwysig bod yn agored am bob agwedd ar gyflogau. I gael rhagor o wybodaeth,

gweler ein hadroddiad llawn ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, sydd ar gael yn [bbc.com/aboutthebbc/reports/report](http://bbc.com/aboutthebbc/reports/report).

### Cyson

Mae'n bwysig i ni fod cyflogau yn gyson ar draws y BBC. Yn flaenorol, roedd gennym ormod o gontractau gwahanol, strwythur cyflogau a graddfeydd cymhleth, a pholisïau a lwfansau a oedd wedi dyddio nad oeddent yn cael eu cymhwysu'n gyfartal ar draws y sefydliad. Roeddem am wneud y BBC yn lle symlach, tecach a mwy cyson i weithio a sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon i dalwyr ffi'r drwydded. Felly, gwnaethom gynnig adolygiad er mwyn moderneiddio ein telerau a'n hamodau a threuliwyd sawl mis yn ystod 2017 a 2018 yn cydweithio â chyd-undebau'r BBC – yr NUJ, BECTU ac Unite – yn ogystal ag ymgynghori'n helaeth â'n pobl, er mwyn helpu i lunio'r cynigion.

Yr adolygiad o delerau ac amodau fu'r newid mwyaf i'r ffordd rydym yn cyflogi pobl am genhedlaeth. Roedd yn cynnwys cytundeb cyflog tair blynedd hyd at 2019/2020, isafswm cyflog o £20,000 a sicrhau bod pawb yn ennill isafswm ystod cyflog eu swyddi o leiaf. Mae'r fframwaith cyflogau a graddfeydd newydd wedi'i weithredu gyda thua 600 o deitlau swyddi a disgrifiadau gwahanol wedi'u rhannu rhwng 27 o deuluoedd swyddi gwahanol a saith lefel band gyrfa. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y gall pawb sy'n gweithio yn y BBC nawr weld yn glir ble mae eu rôl yn perthyn, sut y gallant gamu ymlaen, ac ymddiried yn y cymorth a'r cyflog sydd ar gael iddynt.

### Tryloyw

Am ein bod yn cael ein hariannu gan ffi'r drwydded, mae ond yn iawn i ni

weithredu mewn ffordd gwbl dryloyw. Eleni gwnaethom gyhoeddi dau adolygiad annibynnol o dryloywder yn y BBC, wedi'u harwain gan Will Hutton a Christopher Saul. Nodwyd ein bod "among the UK leaders in pay transparency" a chredwyd, o ran yr hyn a ddatgelwn i'n staff, ein bod yn mynd "further than any large British public and private sector organisation". Ond gwnaethant hefyd ofyn i ni wneud mwy i egluro'r hyn a wnawn a datblygu ein natur dryloyw sy'n arwain y diwydiant ymhellach er mwyn i'n pobl gael cymaint o wybodaeth fewnol â phosibl am sut maent yn cael eu talu, pam eu bod yn cael y cyflog a gânt, a sut mae hyn yn cymharu ag eraill yn yr un rolau neu rolau tebyg.

Defnyddiwn, er enghraifft, raddfeydd cyflog swyddi tryloyw ynghyd â graffiau er mwyn dangos sut mae cyflogau yn cael eu dosbarthu o fewn ystod cyflog swyddi unigolyn. Gall ein pobl weld safle eu cyflogau o gymharu â'u cyfoedion gan ddefnyddio system PeopleView, ac eleni rydym wedi cyflwyno rhaniadau rhwng y rhywiau er mwyn dangos unrhyw wahaniaethau rhwng dosbarthiad cyflogau dynion a menywod. Gwnaethom hefyd yn ddiweddar gynhyrchu ffilm fer, a ymddangosodd ar ein mewnrywyd, er mwyn egluro sut mae cyflog yn gweithio yn y BBC. Byddwn yn parhau i weithio ar fwy o fesurau, er mwyn sicrhau ein bod yn arwain y ffordd o ran tryloywder cyflogau.

### Cystadleuol

Gwyddom ein bod yn gweithredu mewn marchnadoedd heriol a chystadleuol, gyda thalent sy'n llawn cymhelliant ac sy'n aml yn symudol. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd sicrhau bod yr hyn a dalwn

yn dangos gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded ac yn ystyried meysydd lle mae'r BBC yn pennu, neu'n o leiaf arwain, y farchnad ar gyfer cyflogau.

Awn ati i feincnodi ein lefelau cyflogau yn rheolaidd gan ddefnyddio ffynonellau data allanol er mwyn sicrhau bod ein strwythurau cyflogau yn ein galluogi i ddenu a chadw'r bobl orau. Caiff ystodau cyflog swyddi eu profi'n helaeth ac maent yn cael eu cyhoeddi ar ein mewnrwyd. Maent hefyd yn cael eu cyflwyno yn ein his-gwmnïau masnachol er mwyn sicrhau bod gennym ddull gweithredu 'un BBC' o ran cyflogau ar draws y grŵp cyfan.

### Clir

Rydym am i bawb ddeall pam eu bod yn cael y cyflog a gânt, ac ymddiried yn hynny, er mwyn gallu gofyn cwestiynau am hyn a gweld sut y gallant gamu ymlaen yn eu gyrfa yn y BBC. Eleni rydym wedi parhau i gyflwyno'r ffynonellau gwybodaeth a fydd yn sicrhau mai dyma'r achos.

Erbyn hyn mae gan bawb deitl swydd Fframwaith Llwybrau Gyrfa, lefel gyrfa band eang ac ystod cyflog swyddi cysylltiedig y gallant eu gweld ar dudalen bersonoleddig ar ein mewnrwyd.

Rydym yn glir ynghylch sut y gwneir addasiadau cyflog. Y tu allan i'n setliad cyflog blynyddol a negodir gyda'r undebau, mae gennym bolisiau clir o ran dyrchafiadau, symud i swydd arall o fewn yr un band a chamu i fyny neu gael ymlyniad byrdymor. Rydym hefyd yn glir o ran ble byddem yn disgwyl gweld unigolion yn eu hystod cyflog swyddi mewn perthynas â ffactorau unigol (gwybodaeth, sgiliau, gwerthoedd a phrofiadau), ffactorau rôl (cwmpas, cymhlethdod, cyfrifoldebau ac effaith) a ffactorau sefydliadol allanol (cyflenwad a galw).

Ar draws y BBC mae'r nifer fwyaf o staff yn nheuluoedd swyddi newyddiadau, technoleg – systemau a chyflenwi, a chynhyrchu cynnwys. Mae tua 800 o'n staff mewn rolau ar yr awyr (cyflwynwyr, gohebwr, a golygyddion ar yr awyr).

Mae'r pum egwyddor hyn yn cefnogi ein holl waith ar gyflogau. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar nifer o brosiectau ac adolygiadau cymhleth, proffil uchel sydd i gyd wedi'u cynllunio i greu amgylchedd gwaith sy'n cyflawni'r egwyddorion a'r themâu uchod.

Rydym wedi bod drwy gyfnod aruthrol o ddiwygiadau – ac rydym eisoes wedi newid llawer o bethau er gwell. Rydym wedi gweithio'n agos gyda chyrrff allanol fel y SAG a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol er mwyn adolygu ein harferion, a byddwn yn parhau i gydweithio â phob parti er mwyn sicrhau bod ein holl

ddiwygiadau yn cael eu rhoi ar waith yn llawn, a gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'n diwylliant a'n ffyrdd o weithio.

### Diwylliant amrywiol sy'n datblygu

Wrth i ni barhau i chwilio am ffyrdd newydd o sicrhau mai'r BBC yw'r lle gorau i weithio, rydym yn parhau i arwain y ffordd wrth gynniig cyfleoedd mynediad a datblygu i'n holl staff, ni waeth beth fo'u cefndir. Rydym hefyd wedi parhau i gyflawni ein hymrwymiad yn y Siarter Frenhinol i ddarparu hyfforddiant a chymorth er budd holl ddiwydiant y cyfryngau. Ac, yn fwy diweddar, mae aelod o'r Bwrdd, Tom llube wedi cymryd cadeiryddiaeth Grŵp Cyngori Amrywiaeth a Chynhwysiant y BBC, gyda chefnogaeth Tanni Grey-Thompson a gyda'r cynghorwyr allanol Solomon Elliott, Tanya Motie, Geoff Norcott, Adele Patrick a June Sarpong. Bydd y grŵp yn cefnogi ac yn cynghori'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r BBC ar y ffordd mae'n portreadu holl gymunedau'r DU ar yr awyr, ac yn eu cynrychioli yn ei weithlu.

Parheir i fonitro ein cyflawniadau yn erbyn ein strategaeth amrywiaeth. Gwnaethom addo, erbyn 2020, y byddai gennym weithlu a grŵp o arweinwyr a oedd o leiaf yr un mor amrywiol ag unrhyw ddarlledwr arall yn y diwydiant, os nad yn fwy amrywiol, ac rydym yn falch bod ein harolwg ymgysylltu â chyflogion diweddar yn dangos bod 72% o'n pobl yn teimlo'n gyfforddus yn dod â'u hunan cyfan i'r gwaith.

Mae cyflawni ein hymrwymiad o ran amrywiaeth yn dechrau gyda'r ffordd y daw pobl newydd i mewn i'r BBC ac mae'n parhau drwy gydol yr amser mae ein pobl gyda ni.

O fod yn sefydliad a gyflogai graddedigion bron yn gyfan gwbl ychydig flynyddoedd yn ôl, mae'r BBC bellach yn un o brif gyflogwyr prentisiaid nad ydynt yn raddedig y DU erbyn hyn, gan gynnig eleni 350 o gyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth i'r dalent ifanc orau o'r cefndiroedd ehangaf. Yn ogystal â'n portffolio presennol o gynlluniau busnes, golygyddol a thechnoleg, rydym nawr yn cynnig prentisiaethau newydd mewn Gwyddor Data, Adnoddau Dynol, Diogelwch, Cynllun Defnyddwyr, ac rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn rolau Newyddiadau yng Nghaerdydd.

Ar ddechrau 2018, daethom yn ail yng Ngwobrau mawreddog Cyflogwr Prentisiaid Cenedlaethol y Flwyddyn ac yn fwy diweddar gwnaethom ennill gwobr Cyflogwr Prentisiaid Cenedlaethol Gorau'r Gwobrau Prentisiaid Asiaidd Cenedlaethol.

Er mwyn i bawb sydd â'r potensial i lwyddo gael y cyfle i weithio i'r BBC, rydym wedi lansio rhaglen cyn ymuno, sef Get Into Media, a ddatblygwyd ac a gyflwynir gyda

chymorth Ymddiriedolaeth Sutton a MyKindaFuture. Gan dargedu 60 o fyfyrwyr ysgol hynod greadigol o Salford a Llundain, mae'r rhaglen 15 mis hon yn cynnig hyfforddiant, profiad gwaith a mentor o fewn y BBC; paratwir unigolion i wneud cais ar gyfer amrywiaeth o brentisiaethau'r BBC.

Ail-lanswyd Bwletin Ysgol y BBC ym mis Tachwedd 2018 fel Gohebydd Ifanc y BBC, sef partneriaeth rhwng BBC Newyddion ac Academi'r BBC. Gyda'r nod o helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau digidol drwy allgwmorth a mentora, gwnaethom gyflwyno gweithdai mewn ardaloedd yn cynnwys Sunderland, Bradford, Aberdeen, Derby a Middlesbrough, gan gyrraedd dros 4,000 o bobl ifanc.

Ac rydym yn un o'r sefydliadau cyntaf yn y DU i ganolbwyntio ar y problemau sy'n gysylltiedig â symudedd cymdeithasol, fel yr unig ddarlledwr a sefydliad cyfryngau i gyrraedd rhestr 50 uchaf cwmnïau'r Mynegai Symudedd Cymdeithasol. Bu menter Radio 1 a 1Xtra, Where it Begins, yn llwyddiant gan gynnig lleoliadau â thâl wyth wythnos a gynlluniwyd i ddenu amrywiaeth o bobl i'r BBC.

I'r rhai sydd eisoes wedi dechrau ar eu gyrfa yn y BBC, mae Academi'r BBC, ein hadran hyfforddiant, wedi bod yn symud o ddarpariaeth seiliedig ar ystafell ddosbarth yn bennaf i gyfuniad o fodiwlau hyfforddiant ar-lein ac adnoddau digidol eraill, yn seiliedig ar rolau a phrofiadau unigolion. Yn ogystal â chynnig gwell gwerth am arian, mae hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd a dewis i'n pobl, gan eu galluogi i astudio pan fyddant yn dymuno ar gyflymder sy'n addas iddynt. Yn 2018/19, cwblhawyd mwy na 100,000 o sesiynau hyfforddiant, gyda 72% ar-lein, a chymerodd 90% o'n pobl ran mewn rhyw fath o hyfforddiant.

Y rhaglen ddatblygu fwyaf eleni fu ar gyfer prosiect Open Media i gymryd lle system gyfrifiadurol gweithredu Newyddion. Mae wedi hyfforddi mwy na 4,500 o bobl ledled y DU, gan weithio gyda thimau fel *Today*, *Newsnight*, Radio 2, Asian Network, 6 Music, World TV News a nifer o orsafoedd radio lleol a theledu rhanbarthol.

Gwnaed cynnydd da tuag at ein targedau amrywiaeth oddi ar y sgrin ar gyfer 2020 a sefydlwyd rhwydweithiau amrywiaeth cyflogion newydd. Erbyn hyn cyflwynwyd rhwydweithiau sy'n seiliedig ar rywedd, hil, anabled (yn cynnwys niwroanabled), cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

Mae gennym fwy o fenywod mewn rolau arwain nag erioed o'r blaen ac mae 31% o Fwrdd y BBC a 38% o'r Pwyllgor Gweithredol yn fenywod. Mae nifer yr arweinwyr o gefndir BAME hefyd wedi gwella, o 10.4% i 11.5%. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod gennym lawer

## Cefnogi a meithrin talent newydd

**Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn talent newydd a'i datblygu er mwyn helpu i ymgorffori amrywiaeth wrth wraidd ein holl sianelau.**

- Gwnaeth Born Digital: First Cuts, cydfenter rhwng y BFI a BBC Four ledled y DU i gefnogi talent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg o amrywiaeth o ddisgyblaethau, nodi 30 mlynedd ers creu'r We gydag 11 o ffilmiau byr.
- Gwnaeth Animation 2018 – cydfenter unigryw rhwng y BFI, BBC Arts a BBC Four – gomisiynu 13 o animeiddwyr ifanc newydd fel rhan o noson o raglenni a oedd yn canolbwyntio ar gelf animeiddio ar BBC Four.
- Cyflwynodd BBC Radio 3 Next Generation Voices, sef cynllun talent i ddod o hyd i'r genhedlaeth nesaf o gyfranwyr llafar a chyflwynwyr a'u datblygu. Hefyd parhaodd cynllun newydd Generation Thinkers BBC Arts.
- Rhoddodd Comedy Shorts lwyfan newydd hanfodol i gomedi ffurf fer er mwyn datblygu'r genhedlaeth nesaf o dalent comedi ar y sgrin ac oddi ar y sgrin.
- Parhaodd ymrwymiad BBC Music i dalent newydd yn gryf, gyda Radio 2 Young Chorister of the Year, The Young Brass Award a Radio 2 Young Folk Award.
- Ym mis Tachwedd 2018 gwelodd BBC Music Introducing LIVE 18 fwy na 15,000 o bobl ifanc yn dod i'w ddigwyddiad tridiau o hyd a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o artistiaid a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant cerddoriaeth. Ymhlith y mentrau cerddoriaeth newydd eraill roedd The Brit List a BBC Sound of 2018.
- Gwnaeth BBC Young Musician 2018, y pianydd 16 oed, Lauren Zhang o Birmingham, berfformio yn Biggest Weekend a Phroms y BBC.
- Cafodd cynllun datblygu talent newydd BBC Introducing Arts ei lansio gyda phartneriaid celfyddydol allweddol yn y DU er mwyn cefnogi ac annog artistiaid i gynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf ar draws gwasanaethau'r BBC. Mae'n cynnwys partneriaethau ag Arts Council England ar New Creatives, Creative Scotland ar gyfer Now & Next, Northern Ireland Screen gyda Two Minute Masterpiece a Chyngor Celfyddydau Cymru ar Slate Extra.

Fel llawer o gyflogwyr, rydym yn lansio Rhaglen LGBTQ+ Allies, gyda'r nod o wneud y BBC yn fwy cynhwysol o ran staff LGBTQ+, lle bydd cefnogwyr yn gwisgo bathodyn enfys ac yn cofrestru i fod yn rhywun sy'n herio ymddygiadau ac yn helpu i gyfrannu at ddiwylliant cynhwysol yn y gweithle. Mae'r gwaith o greu diwylliant traws-gynhwysol yn y gweithle yn dechrau gydag addysg ac ymwybyddiaeth, ac eleni gwnaethom lansio canllaw e-ddysgu i reolwyr a staff ar gefnogi cydweithwyr trawsryweddol.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gynrychiolaeth ar y sgrin hefyd. Er mwyn mesur amrywiaeth ar draws ein cynnwys teledu ac adrodd ar gynnydd, defnyddiwn Diamond, sef adnodd ar-lein a ddefnyddir gan y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky i gael data cyson ar amrywiaeth ar raglenni. Cefnogir y fenter gan Pact a Creative Skillset, a chaiff ei chyflwyno drwy'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol. Gwyddom fod amrywiaeth timau cynhyrchu a phwy mae ein cynulleidfya yn eu gweld a'u clywed ar ein rhaglenni yn hanfodol i'r ffordd rydym yn adlewyrchu Prydain fodern, ac mae ein hail adroddiad ar y sgrin a'r tu ôl i'r camera (oddi ar y sgrin) yn cynrychioli holl gyflenwyr ein rhaglenni ar gyfer BBC One, BBC Two, BBC Four, CBBC a CBeebies, heb gynnwys Newyddion a Chwaraeon.

Gwnaethom ymrwymiad clir a chadarn i wella cynrychiolaeth erbyn 2020 a'r nod yw cael:

- 50% o ferched ar y sgrin, ar yr awyr ac mewn prif rannau ym mhob genre o Ddrama i Newyddion;
- 8% o bobl anabl ar y sgrin ac ar yr awyr yn cynnwys rhai prif rannau;
- 8% o bobl LGBTQ+ yn cael eu portreadu ar y sgrin yn cynnwys rhai prif rannau;
- 15% o bobl dduon, Asiaidd ac o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ar y sgrin, ar yr awyr ac mewn prif rannau ym mhob genre.

mwy i'w wneud er mwyn cynyddu'r niferoedd ac rydym yn cynnig o leiaf hanner y lleoedd ar ein rhaglenni datblygu arweinwyr presennol i fenywod ac o leiaf 15% i bobl o gefndiroedd BAME.

**Pob aelod o staff ac arweinwyr: 31 Mawrth 2019**

Gweithlu	31 Mawrth 2019	Targed 2020
Menywod (pob aelod o staff)	47.9%	50%
Menywod (arweinwyr)	43.8%	50%
Anabledd (pob aelod o staff)	10.2%	8%
Anabledd (arweinwyr)	8.7%	8%
BAME (pob aelod o staff)	15.3%	15%
BAME (arweinwyr)	11.5%	15%
LGBTQ+ (pob aelod o staff)	10.8%	8%
LGBTQ+ (arweinwyr)	11.4%	8%

Gwelwyd prosiect Expert Women yn gweithio mewn partneriaeth â'r World Service Saesneg a BBC Scotland i wella amrywiaeth rhwng y rhywiau ar draws eu hallbwn, a chymerodd cyfanswm o 24 o fenywod ran yn y diwrnod hyfforddiant diweddaraf gan feithrin sgiliau radio a theledu ymarferol yn ogystal â chael y cyfle i rwydweithio â staff golygyddol allweddol o'r World Service Saesneg.

Yn ogystal â'n hymrwymiad i'w gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff fynychu hyfforddiant ar duedd anymwybodol, eleni mae'r BBC wedi gwneud hyfforddiant Hyderus o ran Anabledd yn orfodol i'w holl staff. Mae'r cwrs yn cwmpasu cysyniadau allweddol cydraddoldeb o ran anabledd gan gynnwys ymddygiadau a chyfrifoldebau o dan gyfraith cydraddoldeb, ac mae'n dangos arfer gorau wrth hyrwyddo diwylliant o fod yn hyderus o ran anabledd a chynhwysiant ymhlith pob aelod o staff. Y llynedd cafodd y BBC achrediad Cyflogwr sydd wedi Ymrwymo i Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Amrywiaeth wirioneddol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin: 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019**

Data a ddarparwyd o gyfraniadau gan unigolion sydd â rôl mewn rhaglenni cymwys.

	Gwirioneddol oddi ar y sgrin	Gwirioneddol ar y sgrin
Menywod	52.9%	54.6%
BAME	9.9%	27.3%
Anabl	5.1%	8.6%
LGBTQ+	14.3%	9.5%
Trawsryweddol	0.1%	0.3%
Nifer y cyfraniadau*	178,222	57,469

\* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni.

**Amrywiaeth ganfyddedig ar y sgrin: 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019**

Mewnbwn data gan gwmnïau cynhyrchu sy'n ystyried safbwynt gwylwyr o beth maent yn ei weld a'i glywed.

	Canfyddedig ar y sgrin
Menywod	45.7%
BAME	23.4%
Anabl	5.3%
LGBTQ+	5.2%
Trawsryweddol	0.1%
Nifer y cyfraniadau*	372,634
% y pennwyd nodweddion amrywiaeth ar eu cyfer	87.7%

Mae'r data yn cynnwys 38% o'r holl oriau rhwydwaith a ddarlledwyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Ni chaiff rhaglenni a gomisiynwyd cyn 15 Awst 2016 eu cynnwys. Mae'r data yn seiliedig ar gyflenwyr mewnol ac allanol. O'r sawl a wahoddyd i gyflwyno data amrywiaeth, cafwyd cyfradd ymateb o 29%. Sianelau: BBC One, BBC Two, BBC Four, CBBC, CBeebies (ac eithrio: cynnwys ar-lein BBC Three, rhaglenni newyddion, BBC News a BBC Parliament). Y cyfnod adrodd a gwmpaswyd: 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019. Dyddiad llunio'r adroddiad: 14 Mai 2019. Ffynhonnell data: Diamond/Silvermouse.

\* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni.

**+** Ceir rhagor o wybodaeth am Diamond yn: [creativitydiversitynetwork.com/diamond/](http://creativitydiversitynetwork.com/diamond/)

Mae data Diamond yn dangos y cynnydd rydym yn ei wneud tuag at y targedau hyn ac maent yn cynrychioli 38% (i fyny o 29% yn 2017/18) o'r holl oriau rhwydwaith a ddarlledwyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 ar BBC One, BBC Two, BBC Four, CBBC a CBeebies. (Nid yw cynnwys ar-lein BBC Three na rhaglenni Newyddion wedi'u cynnwys ar hyn o bryd er bod gwaith yn mynd rhagddo i gasglu data ar gyfer y ddau.)

Caiff pawb sy'n gweithio ar raglen eu gwahodd i gyflwyno data ar amrywiaeth, er mai dim ond adrodd ar y 29% o unigolion sydd wedi gwneud hyn y gallwn ei wneud ar hyn o bryd. Mae hyn yn gynydd o'r 26% blaenorol, ond mae cynnydd mewn lefelau adrodd yn ffocws allweddol i'n holl gyflenwyr.

I ddarllen am ein rhaglenni a'n cynnwys sy'n cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU, ewch i dudalennau 36 a 166. Hefyd rhoddir gwybodaeth am ein hadroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb ar dudalen 258.

Ynghyd â'n hymrwymiadu clir i ddatblygu a hyfforddi ein pobl, rydym hefyd o blaid egwyddorion clir, a ddeallir yn dda, ynghylch triniaeth unrhyw un sy'n gweithio i ni, gan gynnwys yn ein cadwyni cyflenwi.

**Hawliau dynol**

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol y sawl sy'n gweithio i ni neu gyda ni. Mae hyn yn gymwys i bob cyflogai, gweithiwr dros dro neu weithiwr yn ein cadwyn gyflenwi, yn y DU a thu hwnt. Mae gan bawb yr hawl i amgylchedd gwaith diogel; i gael eu talu ac i weithio oriau yn unol â deddfwriaeth leol o leiaf; i sefydlu undebau llafur; ac i gael eu trin â pharch.

Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â hwy, ac unrhyw isgontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn codau ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae'n ofynnol i gyflenwyr ac isgontractwyr ddilyn ein Cod Polisi Moesegol sy'n nodi ein disgwyliadau mewn perthynas â hawliau dynol a masnachu'n foesebol.

**Datganiad Caethwasiaeth Fodern**

Rydym yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol o ymyrryd â hawliau dynol, yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Rydym yn parhau i gefnogi nodau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn cyhoeddi ein pedwerydd Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn unol â hyn. Rydym yn ymrwymedig i fynd ati i ddileu caethwasiaeth fodern, gan gymryd camau o fewn ein busnes a dylanwadu ar ein cyflenwyr i wneud yr un fath. Yn ein datganiad, nodwn gamau pellach a gymerwyd gennym dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn helpu i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn bodoli yn ein busnes na'n cadwyn gyflenwi.

Mae'r datganiad llawn ar gael yn: [bbc.com/aboutthebbc/reports/report](http://bbc.com/aboutthebbc/reports/report).

**Polisi gwrth-lwgrwobrwyo**

Mae'r BBC yn ymrwymedig i weithredu yn unol â'r safonau moesegol a chyfreithiol uchaf. Mae uniondeb ein staff, a'r rhai rydym yn gwneud busnes â nhw, yn hanfodol i'n llwyddiant. Mae ein cynulleidfaoedd hefyd yn disgwyl hyn.

Mae polisi gwrth-lwgrwobrwyo'r BBC yn nodi ein cyfrifoldebau ac yn darparu gwybodaeth ac arweiniad ar oblygiadau ymarferol Deddf Llwgrwobrwyo 2010. Mae Cod Ymddygiad Gwrth-lwgrwobrwyo'r BBC, y mae'r polisi hwn yn rhan ohono, yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ufuddhau i'r holl gyfreithiau sy'n berthnasol i atal llwgrwobrwyo a llygredd ym mhob awdurdodaeth y gweithredwn ynddi.

Bydd staff yn cael hyfforddiant gwrth-lwgrwobrwyo gorfodol. Mae gweithdrefnau ar waith fel y gall staff godi pryderon yn fewnol drwy eu rheolwr llinell, neu'n allanol ac yn ddiennw drwy ein gwasanaeth chwythu'r chwiban a ddarperir gan Expolink. Rhennir safbwynt y BBC o ran llwgrwobrwyo a llygredd â chyflenwyr, contractwyr a phartneriaid busnes.

**Cynllun sefydliadol clir**

Mae'r uchod yn dangos ein bod yn ymrwymedig i sicrhau bod ein pobl yn gallu manteisio ar gyfleoedd i dyfu, datblygu a chamu ymlaen yn y BBC. Ond, er mwyn gallu gwneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, rhaid sicrhau bod gennym strwythurau sefydliadol clir, effeithlon a sefydledig i gefnogi hyn.

Mae egwyddorion cynllun sefydliadol yn parhau i gael eu cymhwyso er mwyn monitro effeithlonrwydd a chaiff metrigau allweddol eu holrhain yn barhaus. Cedwir haenau rheoli mor wastad â phosibl ac mae 96.4% o'n strwythurau bellach yn cynnwys saith haen sefydliadol neu lai. Mae nifer yr uwch arweinwyr wedi parhau i leihau i 1.4% o'n cyflogeion

ac, yn gyffredinol, mae gennym un arweinydd tîm i bob wyth cyflogai.

Caiff gwariant ar wasanaethau proffesiynol a gweithgareddau ategol ei leihau cymaint â phosibl, gan alluogi 95% o'n gwariant rheoladwy i gael ei gyfeirio at gynnwys a gwasanaethau wedi'u hanelu at y gynulleidfa.

Rydym hefyd yn ymrwymedig o hyd i leoli o leiaf 50% o'n cyflogeion y tu allan i Lundain ac mae tua 52.2% wedi'u lleoli y tu allan i'r M25 ar hyn o bryd. I gefnogi hyn, gwnaethom greu 70 o rolau newydd fel rhan o ymgyrch i ddatblygu Glasgow fel ein trydedd ganolfan technoleg. Yn dilyn y llwyddiant hwn rydym bellach yn creu timau newydd ychwanegol yn Glasgow ar gyfer BBC Sounds a BBC Datalab.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom hefyd lansio sianel deledu newydd yr Alban, sef BBC Scotland. Roedd hyn yn rhan o'r buddsoddiad mwyaf yn y BBC yn yr Alban am genhedlaeth a chreodd 80 o swyddi newydd mewn gwasanaethau newyddion yn yr Alban, gan gwmpasu amrywiaeth o rolau o flaen y camera a'r tu ôl iddo.

Yn ystod 2018/19 cynyddodd nifer gyfartalog Grŵp y BBC 5% gyda chyfanswm o 22,401, i fyny o 21,431. Bu'r prif newidiadau o ran nifer fel a ganlyn:

- 416 o rolau newydd yn World Service News, o fewn y DU ac yn rhyngwladol, er mwyn gwella gwasanaethau iaith presennol a chefnogi 12 o rai newydd;
- buddsoddiadau mewn 250 o rolau a sgiliau newydd ledled y DU, gyda llawer ohonynt yn ddigidol, sy'n ofynnol er mwyn cefnogi'r broses o greu BBC y dyfodol;
- recriwtio 302 o aelodau newydd o staff yn y gwledydd – Rhanbarthau Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon o ganlyniad i fuddsoddiadau ychwanegol a gyhoeddwyd y llynedd gan gynnwys buddsoddi yn sianel deledu newydd BBC Scotland ac mewn radio lleol;
- 193 o rolau newydd yn sgil mwy o gynhyrchiant teledu, radio a newyddion;
- cau 191 o rolau o ganlyniad i amrywiaeth o fentrau strategol ar draws holl is-adrannau'r BBC.

Cynyddodd niferoedd cyfartalog gyflogres yn 2018/19 ar draws y Grŵp 970, a wrthbwyswyd gan lai o rolau mewn rhannau eraill o'r Grŵp. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd o 1,021 mewn Gwasanaeth Cyhoeddus. Parhaodd cyfraddau gadael gwirfoddol i fod yn isel ar 4.9% ar gyfer pob swydd. Fodd bynnag,

roedd hyn yn amrywio ar draws gwahanol ddisgyblaethau swyddi. Er enghraifft, dim ond cyfraddau gadael gwirfoddol o 3.1% oedd gan swyddi Newyddion ond roedd gan swyddi gwasanaethau proffesiynol gan gynnwys technoleg gyfraddau gadael gwirfoddol o 7.9%.

### Cyfanswm nifer y staff cyfartalog (cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2019)

	2019	2018**
UK Public Service Broadcasting	19,231	18,210
BBC Studios*	2,714	2,963
Busnesau masnachol eraill***	456	258
Cyfanswm y Grŵp	22,401	21,431

O fewn y niferoedd cyfartalog hyn, mae 2,907 (2018: 2,855) o gyflogeion rhan amser wedi'u cynnwys ar sail cyfwerth ag amser llawn o 1,840 (2018: 1,786). Yn ogystal â'r uchod, cyflogodd y BBC nifer gyfartalog cyfwerth ag amser llawn o 1,350 (2018: 1,187) o bobl ar gontractau achlysurol.

\* Mae ffigurau 2017/8 yn cynnwys staff BBC Worldwide

\*\* Mae canlyniadau blwyddyn flaenorol wedi'u haddasu er mwyn hepgor staff achlysurol

\*\*\* Ymhlith y busnesau masnachol eraill roedd 165 o staff Gwerthu Hysbysebion a drosglwyddwyd o BBC Studios ar 1 Ebrill 2018. Roedd y Grŵp PSB hefyd yn cynnwys 90 o staff technoleg ar gyfartaledd a drosglwyddwyd o BBC Studios yn ystod y flwyddyn.

Mae mwyafrif ein cyflogeion cyflogres yn gweithio ar gontractau parhaus (89%) gydag 11% ar gyfartaledd ar gontractau tymor sefydlog yn 2018/19. Hefyd, defnyddiwn weithwyr wrth gefn ar gyfer aseiniadau byrdymor drwy gydol y flwyddyn ac ar gyfartaledd defnyddiwyd 3,268 y mis yn 2018/19.

### Tablau data

Ar y tudalennau canlynol, rhown fwy o wybodaeth a data er mwyn ategu'r adrodd a'r manylion. Mae'n cynnwys gwybodaeth a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol am daliadau diswyddo yn y BBC, achosion o fwlio ac aflonyddu, a faint o amser undebau llafur a dreuliwyd gan gyflogeion penodol yn gyffredinol.

## Nifer yr uwch reolwyr yn y DU yn ôl band cyflog (PSB yn unig)

Band cyflog	2018/19 Gwirioneddol	2017/18 Gwirioneddol
£50,000 – £99,999	52	76
£100,000 – £149,999	100	94
£150,000 – £199,999	63	70
£200,000 – £249,999	25	15
£250,000 – £299,999	3	4
£300,000 – £349,999	5	4
£350,000+	2	1
<b>Cyfanswm*</b>	<b>250</b>	<b>264</b>

\* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau o Fwrdd y BBC na chyfarwyddwyr pensïwn

## Gwariant ar rolau ar yr awyr

	2018/2019		2017/2018		Amrywiant £000oedd
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer	
Llai na £40,000	52,814	28,559	50,645	28,641	2,169
£40,000–£100,000	70,514	1,205	64,713	1,126	5,801
£100,000–£150,000	13,501	110	12,488	104	1,013
£150,000–£500,000	18,162	75	14,664	63	3,498
£500,000–£1m	610	1	1,687	3	(1,077)
£1m–£5m	3,001	2	3,418	2	(417)
<b>Cyfanswm</b>	<b>158,602</b>	<b>29,952</b>	<b>147,615</b>	<b>29,939</b>	<b>10,987</b>

\* Mae'r niferoedd a'r gwariant uchod yn cynrychioli pob ymgysylltiad a thaliadau, nad ydynt yn dangos sail cyfwerth ag amser llawn. Wedi'u cynnwys uchod mae tri sefydliad, er enghraifft, cerddorfeydd allanol, y talwyd mwy na £150,000 iddynt yn ystod 2018/19. (2017/18: pedwar).

Yn ystod 2018/19, roedd y gwariant ar rolau ar yr awyr yn cynrychioli 10% o gyfanswm y gwariant ar gynnwys creadigol mewnol (2017/18: 11%).

## Taliadau diswyddo

Un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog yw ein polisi o ran taliadau diswyddo. Ar gyfer y sawl a ymunodd cyn mis Ionawr 2013, mae'n uchafswm o 24 mis. Rydym wedi cynnal cap o £150,000 ar daliadau dileu swyddi ac uchafswm cyfnod rhybudd o chwe mis. Rydym yn dal i aros am eglurhad pellach ar gap arfaethedig y Llywodraeth ar daliadau dileu swyddi, a fydd yn gymwys i'r BBC yn ôl yr hyn a ddeallwn.

Lle y telir taliadau dileu swyddi, caiff rhybudd ei roi a'i weithio'n llawn. Os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd rhaid iddynt ildio hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano.

Yn 2018/19, gwnaethom dalu deg taliad yn lle rhybudd i staff a adawodd y sefydliad. Cafodd wyth o'r rhain eu talu gyda thaliad dileu swydd i gyflogeion a oedd yn rhan o drosglwyddiad TUPE yn cynnwys adleoliad dramor. Ni chafodd y ddau arall daliad diswyddo.

Band taliadau	2018/19		2017/18	
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer
O dan £10,000	162	25	310	56
£10,000 – £50,000	3,169	113	8,189	265
£50,000 – £75,000	3,407	56	8,357	136
£75,000 – £100,000	3,278	38	7,753	91
£100,000 – £150,000	7,820	64	12,327	97
Dros £150,000	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,836</b>	<b>296</b>	<b>36,936</b>	<b>645</b>



**Hyfforddiant Academi'r BBC**

Cyrhaeddiad	2018/19
Cyfanswm y cyrsiau hyfforddi a gwblhawyd*	<b>118,048</b>
Wyneb yn wyneb %	<b>28%</b>
Ar-lein %	<b>72%</b>
Staff y BBC a gwblhaodd un cwrs neu fwy	<b>90%</b>
<b>Cyfanswm yr oriau dysgu a datblygu wyneb yn wyneb ac ar-lein</b>	<b>313,763</b>
Nifer y diwrnodau dysgu a datblygu fesul EFT	<b>2.0</b>
<b>Cyfanswm y defnydd ar-lein**</b>	<b>84,628</b>

Gwerth am arian	2018/19
Gwariant ar gyflwyno hyfforddiant (£m)***	<b>12.9</b>
Cost dysgu a datblygu fesul EFT****	<b>£617</b>

Mae data hyfforddiant a ffigurau EFT ar gyfer y BBC cyfan, yn cynnwys PSB, BBC Studios ac is-gwmnïau masnachol eraill.

\* Cyrsiau hyfforddi unigol wyneb yn wyneb ac ar-lein a gwblhawyd.

\*\* Cyrsiau unigol ar-lein a gwblhawyd a'r rhai â statws 'yn mynd rhagddo'.

\*\*\* Cyfanswm y gwariant ar gyflwyno hyfforddiant yr Academi ac eithrio prosiectau mawr.

\*\*\*\* Cyfanswm y gwariant ar gyflwyno hyfforddiant yr Academi wedi'i rannu â chyfanswm EFT.

### Gwybodaeth a ddarperir yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 – atodlen 2 (1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019)

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n Hundebau Llafur cydnabyddedig yn gweithredu newidiadau arwyddocâd i Delerau ac Amodau ac adeiladu ar ein cydberthnasau cadarnhaol ac adeiladol gyda'n hundebau. Ni chynhaliwyd unrhyw streiciau yn ystod 2018/19.

Fel rhan o Reoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae bellach yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi gwybodaeth am amser cyfleuster a gymerir gan swyddogion undebau llafur dros gyfnod o 12 mis. (Mae amser cyfleuster yn cyfeirio at yr amser a gymerir i'n hundebau llafur cydnabyddedig gynrychioli aelodau yn unigol ac ar y cyd mewn amrywiaeth o faterion ym mhob rhan o'r BBC). Nodir y manylion hyn yn y tabl isod.

**Swyddogion undeb perthnasol**

	2018/19
Nifer y swyddogion undeb	<b>316</b> <b>(EFT: 300)</b>
<b>Canran yr amser a dreuliyd ar amser cyfleuster</b>	<b>Nifer y cyflogeion</b>
0%	<b>0</b>
1% – 50%	<b>309</b>
51% – 99%	<b>0</b>
100%	<b>7*</b>
Cyfanswm cost amser cyfleuster	<b>£689,229</b>
Cyfanswm bil cyflogau cymwys PSB**	<b>£1,183.4m</b>
Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster	<b>0.06%</b>
<b>Gweithgareddau undeb llafur â thâl</b>	
Amser a dreuliyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	<b>80%</b>

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y darparwyd y wybodaeth hon, mae niferoedd bras yn seiliedig ar gynrychiolwyr undeb hysbys wedi'u cynnwys.

\* Cyfwerth â phum EFT.

\*\* Cyfrifir cyfanswm bil cyflogau cymwys PSB fel y'i nodir yn y ddeddfwriaeth undebau llafur, sy'n rhoi ffigur gwahanol mewn enw i'r bil cyflogau a nodir ar dudalen 214. Fodd bynnag, mae canran yr amser a dreuliyd ar amser cyfleuster yr un peth.

**Nifer y cwynion mewnl**

Mae gan y BBC ddull gweithredu dim goddefgarwch ar gyfer pob math o fwlio, aflonyddu ac aflonyddu rhywiol. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi nifer y cwynion mewnl a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â honiadau o'r math hwn o ymddygiad. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi polisi Bwlio ac Aflonyddu diwygiedig ac rydym wedi rhedeg nifer o ymgyrchoedd, gan annog staff i siarad am y materion hyn ac adrodd am ddigwyddiadau, drwy amrywiaeth o ddulliau, os byddant yn codi. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr achosion flwyddyn ar ôl blwyddyn, sy'n ddisgwyliedig o ystyried maint ac effaith ein hymgyrchoedd – rydym yn croesawu'r ffaith bod ein staff yn teimlo y gallant godi materion a'u bod yn cael eu hystyried yn briodol. Ni chaiff data o'r math hwn ei gyhoeddi gan sefydliadau eraill, tebyg, felly ni allwn gymharu ein perfformiad.

**Cwynion a wnaed ac yr ymchwiliwyd iddynt**

	2018/19	2017/18
<b>Bwlio ac aflonyddu</b>	<b>86 o achosion ffurfiol*</b>	<b>51 o achosion ffurfiol</b>
Cwynion cyflogaeth a nodwyd naill ai'n uniongyrchol i'r adran adnoddau dynol, drwy gyflwyno cwyn cyflogaeth, neu drwy linell gymorth bwlio ac aflonyddu gyfrinachol.	— 5 aflonyddu rhywiol — 81 bwlio ac aflonyddu — 52 wedi'u cau — 24 yn mynd rhagddynt — 10 wedi'i dynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 108 diwrnod	— 5 aflonyddu rhywiol — 46 bwlio ac aflonyddu — 37 wedi'u cau — 13 yn mynd rhagddynt — 1 wedi'i dynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 78 diwrnod
<b>Achosion o chwythu'r chwiban</b>	<b>Cyfanswm o 26 o achosion (yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn cynnwys diogelwch, lladrad a thwyll):</b>	<b>Cyfanswm o 15 o achosion (yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn cynnwys diogelwch, lladrad a thwyll):</b>
Daw honiadau o chwythu'r chwiban i law naill ai drwy Expolink, sy'n rheoli llinell gymorth chwythu'r chwiban annibynnol ar ein rhan, drwy uwch reolwyr yn cynnwys yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, neu'n uniongyrchol i'r timau Sicrwydd Busnes ac Ymchwiliadau.	— 6 wedi'u cadarnhau — 14 heb eu cefnogi — 6 yn mynd rhagddynt	— 2 wedi'u cadarnhau — 8 heb eu cefnogi — 5 yn mynd rhagddynt

\* Hefyd, yn 2018/19, gwrandawyd ar wyth achos fel achosion disgyblu, yn ymwneud â chwynion o gamymddwyn Bwlio ac Aflonyddu yr ymdriniwyd â nhw y tu allan i'r broses cwynion cyflogaeth. Mae ffigurau 2018/19 yn cynnwys achosion Rhyngwladol (ddim o fewn y DU).

# Cyllid a gweithrediadau



## DATGANIAD GWYBODAETH ADRODD ANARIANNOL

Rydym yn cydnabod gofynion adrodd anariannol Deddf Cwmnïau 2006 ac wedi datgelu gwybodaeth gysylltiedig a pherthnasol drwy gydol yr adroddiad strategol. Er hwylustod, gellir dod o hyd i wybodaeth am y pum mater a gwmpesir gan y rheoliad ar y tudalennau canlynol: Amgylcheddol (tudalen 63); Ein pobl (tudalennau 76 i 86); Hawliau dynol (tudalen 82); Cymdeithasol (tudalennau 62 i 65); Gwrthlygredd a gwrth-lwgrwobrwyo (tudalen 82). Ceir rhagor o wybodaeth hefyd ar ein model busnes (tudalen 98), ein prif risgiau (tudalen 127) a'n perfformiad anariannol (drwy gydol yr adroddiad strategol, tudalennau 8 i 95).

Ein nod yw sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ac i ailgyfeirio gwariant a symleiddio gweithdrefnau mewn ffordd sy'n cefnogi BBC mwy cynaliadwy a chreadigol.

# Arolwg y Prif Swyddog Ariannol



## Mewn tirwedd cyfryngau heriol rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ailddyfeisio'r BBC ar gyfer ein cynulleidfaoedd

Ar ddiwedd y flwyddyn rydym mewn sefyllfa gadarn yn ariannol er mai hon yw'r flwyddyn gyntaf o'r gostyngiad graddol yng nghyllid y llywodraeth ar gyfer trwyddedau i rai dros 75 oed, gan leihau ein hincwm o ffi'r drwydded o £3,830 miliwn i £3,690 miliwn. Rhagwelwyd y lleihad hwn yn setliad ffi'r drwydded ac, fel y cynlluniwyd, rydym wedi rheoli'r lleihad mewn incwm drwy ddefnyddio ein cronfeydd arian parod wrth gefn yn ystod y flwyddyn, gan leihau ein balans arian parod Gwasanaeth Cyhoeddus £166 miliwn i £269 miliwn. Rydym hefyd wedi sicrhau £153 miliwn o arbedion blynyddol yn 2018/19, gan helpu i leddfu effaith lleihad mewn incwm a galluogi buddsoddiad. Sicrhawyd arbedion ym mhob maes, gyda ffocws arbennig ar leihau gorbenion ymhellach a chostau cymorth ac mae ein gorbenion ar lefelau sy'n arwain y diwydiant, sef tua 5% o gyfanswm ein costau.

Drwy reolaeth ariannol ofalus rydym wedi cynnal ein gwariant ar gynnwys ac wedi cyflwyno cynnwys nodedig a chymhellol fel *Bodyguard*, *Strictly Come Dancing* a *Dynasties*. Eleni rydym wedi lansio BBC Sounds a sianel BBC Scotland ac wedi gwella'r hyn a gynigiwn ar iPlayer. Gall gwariant amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn oherwydd amseriad

prif ddigwyddiadau chwaraeon, ac o ganlyniad, ac yn ôl y disgwyl yn 2018/19 rydym mewn sefyllfa o ddiffyg gweithredol (diffyg o £52 miliwn) o gymharu â'r sefyllfa gwarged y llynedd (gwarged o £244 miliwn). Yn gyffredinol, amcan ariannol y BBC yw rheoli canlyniad incwm a gwariant mantoledig dros amser, gan sicrhau hylifedd ariannol digonol i reoli gwahaniaethau amseru mewn incwm a thaliadau a darparu rhywfaint o arian wrth gefn ar ffurf cronfeydd ariannol wrth gefn.

Mae ein his-gwmnïau masnachol wedi perfformio'n galonogol. Er gwaethaf cystadleuaeth heriol, mae BBC Studios, BBC Global News a BBC Studioworks oll wedi cynyddu EBITDA o un flwyddyn i'r llall. Mae Grŵp Masnachol y BBC wedi cyflawni EBITDA o £173 miliwn, cynnydd o £70 miliwn o un flwyddyn i'r llall. Caiff ein his-gwmnïau masnachol eu rheoli a'u meincnodi yn erbyn eu cystadleuwyr ac EBITDA, ac rydym yn cyhoeddi targedau. Yn ystod y flwyddyn, mae BBC Worldwide a BBC Studios wedi uno'n llwyddiannus i greu un brand integredig. Mae hyn wedi rhoi cyfle i atgyfnerthu proses gynhyrchu eiddo deallusol a gwella'r cyflenwad cynnwys, gan helpu i sicrhau dyfodol y BBC fel crëwr a pherchennog hirdymor y cynnwys Prydeinig o'r ansawdd gorau. Datganwyd didfend Grŵp Masnachol y BBC o £73 miliwn i'r Grŵp, cynnydd sylweddol o gymharu â didfend y llynedd (2017/18: £38 miliwn).

- Cyflawnwyd £153 miliwn o arbedion blynyddol yn 2018/19. Mae hyn yn mynd â'n harbedion cronol i £397 miliwn o'n her i gyflawni arbedion gwerth £800 miliwn erbyn 2022.
- Cronfa arian parod wrth gefn o £468 miliwn sy'n ein galluogi i reoli drwy'r newidiadau sy'n ofynnol wrth i gyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau i rai dros 75 oed gael ei ddileu'n raddol erbyn mis Mehefin 2020.
- Mae gorbenion ar lefelau sy'n arwain y diwydiant, sef dim ond 5% o gyfanswm ein costau.
- Blwyddyn o fuddsoddiad penodol mewn cynnwys, gan gynnwys prif ddigwyddiadau chwaraeon, gyda'n darllediadau o Gwpan y Byd FIFA a Gemau'r Gymanwlad; dramâu a gafodd ganmoliaeth fawr; a lansio BBC Sounds a BBC Scotland.
- Perfformiad masnachol cryf gan ein his-gwmnïau gyda thwf EBITDA o un flwyddyn i'r llall (sef enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad) o 68% a bron dyblu'r didfend i £73 miliwn.

O ran rheoleiddio a llywodraethu, ym mis Tachwedd 2018 daeth Ofcom i'r casgliad bod cynlluniau 2018/19 y BBC ar gyfer BBC iPlayer yn sylweddol a chyfarwyddwyd y BBC i gynnal Prawf Budd y Cyhoedd. O ganlyniad, cyhoeddodd y BBC ymgynghoriad ar ei gynigion i ymestyn argaeledd y cynnwys ar BBC iPlayer a'i gyflwyno i Ofcom. Mae Ofcom yn bwriadu cwblhau ei asesiad a gwneud penderfyniad terfynol erbyn mis Awst 2019.

Rydym yn parhau i leihau ein hystad eiddo a chreu amgylcheddau gwaith modern ac effeithlon. Ers 2017 rydym wedi cau sawl eiddo ategol yn Llundain. Mae ffocws ychwanegol ar sicrhau bod ein heiddo craidd yn Llundain yn fwy effeithlon wedi ein galluogi i dderbyn staff newydd ar gyfer y World Service. Bydd timau BBC Wales yn adleoli o adeilad 50 mlwydd oed i Sgwâr Canolog Caerdydd yn ystod y flwyddyn i ddod, a fydd yn lleihau'r ôl-troed eiddo yng Nghaerdydd bron i hanner. Mae gwaith wedi dechrau ar Ganolfan Ddarlledu Newydd Belfast i greu lle modern, mwy hyblyg ac effeithlon mewn adeilad sy'n dyddio'n ôl i'r 1940au. Gyda Chorfforaeth Datblygu Gwaddol Llundain a phartneriaid rydym hefyd yn rhan o'r gwaith o ailddatblygu East Bank, a fydd yn darparu cartref modern i'n canndorffeydd, a cherddoriaeth fyw mewn canolfan ddiwylliannol newydd o'r radd flaenaf.

### Edrych i'r dyfodol

Mae tirwedd cyfryngau'r DU yn newid yn gyflym. Mae hyn, ynghyd â gostyngiad mewn incwm, wedi llywio'r angen am arbedion ac wedi ail-flaenoriaethu gwariant. Mae arferion cyfryngau ein cynulleidfaoedd yn wahanol iawn o gymharu â phum mlynedd yn ôl. Mae cynulleidfaoedd iau, yn enwedig, yn defnyddio llai o'r BBC yn sgil mwy o gystadleuath am eu hamser gan ddarparwyr cyfryngau eraill a mathau eraill o adloniant. Byddwn yn parhau i arloesi ar-lein, gan ymateb i'r datblygiadau diweddaraf wrth i fwy o gynulleidfaoedd ddewis cyrchu gwasanaethau a chynnwys yn ddigidol. Mae hyn yn cynnwys gwella apêl iPlayer i genedlaethau iau drwy gynyddu'r cynnwys sydd ar gael a chynnig 'box sets' llawn o deitlau dethol sy'n dychwelyd. Mewn cam arloesol arall, mae'r BBC ac ITV yn bwriadu creu partneriaeth strategol i gynnig gwasanaeth ffrydio newydd i gynulleidfaoedd y DU, BritBox.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, daeth BBC Studios i gytundeb sylweddol â'i bartner mewn cyd-fenter, Discovery Inc, ar ddyfodol busnes sianel UKTV yn y DU. Bydd BBC Studios yn caffael y saith sianel sydd agosaf at strategaeth cynnwys y BBC – Alibi, Dave, Drama, Eden, Gold, Yesterday ac W – ynghyd â'r chwaraewr digidol UKTV Play, a brand UKTV. Mae BBC Studios a Discovery hefyd wedi cytuno ar bartneriaeth cynnwys fyd-eang aml-flwyddyn, gwerth miliynau o bunnoedd mewn dwy ran.

Bydd hyn yn golygu bod BBC Studios yn darparu cyfresi ffeithiol premiwm, gan gynnwys rhaglenni astudiaethau natur nodedig, ar gyfer gwasanaeth ffrydio byd-eang newydd Discovery, a chytundeb datblygu pwrpasol i BBC Studios greu syniadau ar gyfer comisiynau Discovery yn y dyfodol.

Gyda'r cytundeb hwn gall BBC Studios ddechrau'r broses o greu 'ffnestri' pellach ar gyfer cynnwys, gan ddarparu cyfleoedd cynyddol i gynulleidfaoedd wlyio cynnwys gwerthfawr iawn – gan gynhyrchwyr Studios a thrydydd parti – gan sicrhau enillion hirdymor i dalwyr ffi'r drwydded.


Roedd balans arian parod y BBC yn £468 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n ostyngiad o £55 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae benthyciadau o £203 miliwn yn yr is-gwmnïau masnachol a phrydlesau cyllid yn gwrthbwyso'r sefyllfa arian parod i gyrraedd dyled net grŵp o £365 miliwn, ymhell o fewn ein terfynau benthycia. Mae cynnydd yn y terfyn benthycia yn ofynnol oherwydd newidiadau cyfrifyddu gorfodol (IFRS 16: Prydlesau) sy'n gymwys i'r BBC o 1 Ebrill 2019 ac sy'n arwain at brydlesau ychwanegol yn cael eu cynnwys ar y fantolen. Cytunwyd ar y terfynau benthycia newydd ar gyfer 2019/20 gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae penderfyniad y Bwrdd ar y consesiwn o ran trwyddedau i rai dros 75 oed yn effeithio ar ein cyllid yn y dyfodol, fel y nodir gan y Cadeirydd ar dudalen 9. Fel y soniwyd yn ein hymgynghoriad ar y mater hwn, byddai ariannu consesiwn llawn o ran trwyddedau i rai dros 75 oed wedi golygu arbedion a thoriadau yn ychwanegol at yr £800 miliwn a gynlluniwyd ar hyn o bryd, gan arwain at newidiadau sylweddol i'n hallbwn cynnwys, y mae cynulleidfaoedd yn

eu mwynhau. Mae cyflawni ein cynlluniau sylfaenol yn dal i fod yn her a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ailddyfeisio'r BBC, gan flaenoriaethu adnoddau'r BBC yn ofalus i fodloni ein dibenion cyhoeddus.

Bydd pwysau gan y farchnad allanol yn parhau. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld heriau ariannu oherwydd chwyddiant uwch mewn meysydd fel drama a chomedï, ac rydym bellach yn gweld yr effaith hon yn symud i feysydd allweddol eraill o'n hallbwn, fel rhaglenni ffeithiol. Hefyd, mae cost hawliau darlledu chwaraeon yn parhau i gynyddu ond, yn gyffredinol, mae cost syniadau a thalent hefyd wedi codi'n gyflym. Ar adeg pan mae cwmnïau mawr newydd a ariennir yn dda fel Amazon a Netflix yn dominyddu'r farchnad yn gynyddol, bydd arbedion pellach yn effeithio'n sylweddol ar ein gallu i gystadlu ac ymgysylltu â'n cynulleidfa. Tra bod eraill wedi bod yn buddsoddi, mae'r BBC wedi bod yn arbed 4% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y deng mlynedd diwethaf.

Bydd ailddyfeisio'r BBC pan mae'r fath bwysau digynsail yn bodoli yn galw am wneud dewisiadau anodd. Rydym wedi gwneud dechrau cadarn drwy reoli arian yn ofalus a sicrhau arbedion, ond mae llawer i'w wneud o hyd i gynnal ein sefydlogrwydd ariannol gan weithredu ar yr un pryd yn y farchnad gyfryngau fyd-eang i fodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd.



**Glyn Isherwood**  
**Prif Swyddog Ariannol**  
20 Mehefin 2019

# Trosolwg ariannol

## Sut rydym yn defnyddio ffi'r drwydded

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn gosod cyfrifoldebau sylweddol ar y sefydliad:

- rhoi gwerth am arian drwy ganolbwyntio gwariant ar y rhaglenni a'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC;
- sicrhau bod yr allbwn yn cael ei gyflwyno mewn ffordd mor gosteffeithlon â phosibl;
- sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon ar gyfer casglu ffi'r drwydded; a
- sicrhau'r cyllid mwyaf o ffynonellau eraill, mewn ffordd sy'n gyson â thelerau ei Siarter a rhwymedigaethau eraill.

## Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Mae ein canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hon yn dangos diffyg cyfrifyddu, ar lefel grŵp, o £69 miliwn (2017/18: gwarged o £180 miliwn). Mae'r newid hwn o un flwyddyn i'r llall i'w briodoli'n rhannol i effaith gylchol digwyddiadau chwaraeon mawr eleni, megis Cwpan FIFA y Byd a Gemau'r Gymanwlad. Rydym hefyd wedi buddsoddi yn ein harlwy ddi-digidol drwy ehangu'r rhaglenni sydd ar gael ar iPlayer a lansio cynnyrch newydd BBC Sounds. Ariannwyd hyn yn rhannol gan arian parod a gadwyd yn ystod blynyddoedd cynnar setliad ffi'r drwydded i bontio'r amser y mae'n ei gymryd i arbedion gael eu cyflawni ac ymsefydlu.

Mae'r is-gwmnïau masnachol yn parhau i gynhyrchu incwm ar gyfer Grŵp y BBC drwy ddi-fendendau a buddsoddi mewn cynnwys. Yn ystod y flwyddyn, mae BBC Worldwide a BBC Studios wedi uno'n llwyddiannus i greu un brand, ac wedi cyflawni twf EBITDA o un flwyddyn i'r llall gwerth £54 miliwn. Cynyddodd Global News eu EBITDA £6 miliwn i £8 miliwn yn dilyn blwyddyn lwyddiannus lle y gwnaethant gynnwys gwerthiannau hysbysebu yn eu gweithrediadau.

Datganwyd dididend o £73 miliwn (2017/18: £38 million) gan BBC Commercial Holdings Limited i Grŵp PSB wedi ei ysgogi gan enillion a gynhyrchwyd yn BBC Studios a BBC Global News a datganwyd y dididend cyntaf yn ei hanes gan BBC Studioworks.

## Incwm

Gwnaeth cyfanswm incwm ffi'r drwydded ostwng 4% neu £140 miliwn o £3,830 miliwn i £3,690 miliwn. Roedd y gostyngiad hwn o ganlyniad i ostyngiad graddol yng nghyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau am ddim i rai dros 75 oed cyn trosglwyddo polisi i'r BBC yn 2020. O dan setliad ffi'r drwydded y cytunwyd arno gyda'r Llywodraeth, derbyniwyd £468 miliwn yn 2018/19 o gymharu â £655 miliwn yn 2017/18, gostyngiad o £187 miliwn. Gwrthbwysswyd hyn yn rhannol gan y cynnydd yn chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a gymhwyswyd at ffi'r drwydded o £147.00 i £150.50.

Mae incwm arall wedi lleihau £33 miliwn, o £1,232 miliwn i £1,199 miliwn, yn bennaf oherwydd lleihad yng nghynnyrch ffisegol a digidol teitlau a werthir a ffioedd tanysgrifio yn BBC Studios.

## Gwariant


Mae'r BBC yn canolbwyntio ei wariant ar gynhyrchu rhaglenni a chynnwys arall a'r modd y'u cyflwynir i gynulleidfaoedd a defnyddwyr, ynghyd â'r seilwaith hanfodol i gefnogi hyn. Cynyddodd cyfanswm y gwariant ar gynnwys PSB 9% i £2,860 miliwn (2017/18: £2,623 million) eleni, a oedd yn bennaf oherwydd buddsoddiad ychwanegol yn ein darllediadau o Gwpan y Byd FIFA a Gemau'r Gymanwlad, lansio sianel BBC Scotland a gwariant yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar raglenni fel *Back in Time for the Factory* a *Death and Nightingales*. Mae'r busnes masnachol yn parhau i berfformio'n arbennig o dda o ran cynnwys premiwm, ac mae'n gweithio i ddatblygu'r rhaglenni sydd yn yr arfaeth. Mae rheoli costau yn BBC Studios mewn ffordd gadarn wedi galluogi'r busnes i sicrhau twf EBITDA er gwaethaf amodau marchnad heriol y busnes cynhyrchion defnyddwyr. Roedd cynnyrch allweddol a gyflawnwyd gan BBC Studios yn ystod y flwyddyn yn cynnwys dramâu nodedig fel *Luther*, *Silent Witness*, *MotherFatherSon* a *Les Misérables* (cyd-gynhyrchiad â'i gwmni cynhyrchu annibynnol Lookout Point sydd o dan ei berchenogaeth lawn); astudiaethau natur o'r radd flaenaf gan gynnwys *Dynasties* a *Earth's Great Rivers*; a rhaglenni gwyddoniaeth ysgytwol fel *Horizon* a *The Truth About...The Menopause*.

## GWARIANT FFI'R DRWYDDED

- Mae'r cynnydd yn ffi'r drwydded wedi ariannu cynnwys ychwanegol ar gyfer teledu, radio ac ar-lein.
- Mae 5c o bob £1 yn cael ei wario ar ddarparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd.
- Cost casglu ffi'r drwydded yw 2.5c am bob £1 a gesglir.

## Sut y caiff ffi'r drwydded misol ei gwario

2018/19 £12.54 fesul aelwyd (2017/18: £12.25)



Teledu	2017/18	£6.40	£6.92
Radio	2017/18	£2.06	£2.17
BBC World Service	2017/18	£1.06	£1.24
Costau gwasanaethau a chynhyrchu eraill	2017/18	£0.67	£0.80
BBC Ar-lein	2017/18	£0.91	£1.08
Casglu ffi'r drwydded a chostau eraill	2017/18	£1.15	£0.33

**Datganiad cryno o incwm cyfunol**

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

Dosbarthiad y datganiad incwm	Beth ydyw?	2019 £m	2018 £m	Beth ddigwyddodd?
Incwm o ffi'r drwydded	Cyfanswm y ffioedd trwyddedau a gasglwyd	<b>3,690</b>	3,830	Roedd y gostyngiad hwn o 3.7% yn bennaf o ganlyniad i leihad graddol yng nghyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau teledu am ddim i rai dros 75 oed.
Incwm arall	Incwm masnachol ac incwm grant	<b>1,199</b>	1,232	Gostyngiad oherwydd dirywiad yn y busnes cynhyrchion defnyddwyr (DVD)
<b>Cyfanswm incwm</b>		<b>4,889</b>	5,062	
Costau gweithredu	Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC	<b>(4,977)</b>	(4,854)	Buddsoddiad mewn digwyddiadau chwaraeon mawr a dramâu
Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau	Ein cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai	<b>36</b>	36	UKTV a New Video Channel America
<b>(Diffyg)/gwarged gweithredu'r Grŵp</b>		<b>(52)</b>	244	
Enillion ar waredu	Elw o waredu gweithrediadau ac asedau sefydlog	<b>36</b>	5	Yn 2018/19, cofnodwyd enill yn sgil gwerthu busnes Good Food
Enillion a cholledion eraill	Enill net ar symudiadau mewn offerynnau ariannol	<b>7</b>	25	Enill mewn gwerth teg ar offerynnau ariannol yn BBC Studios
Costau ariannu net	Y llog net ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn y BBC, llog ar fenthyciadau a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau	<b>(65)</b>	(95)	Gostyngiad o ganlyniad i symudiadau gwerth teg ar offerynnau ariannol sy'n ymwneud â benthyciadau ac amrywiad yn y tâl sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn
Trethiant	Rhwymedigaeth dreth net y BBC ar ei elw trethadwy	<b>5</b>	1	Cynnydd mewn credydau treth teledu o'r radd flaenaf a dderbyniwyd
<b>(Diffyg)/gwarged y Grŵp am y flwyddyn</b>		<b>(69)</b>	180	

**PERFFORMIAD MASNACHOL**

- Perfformiad masnachol cryf gan ein his-gwmnïau gyda thwf EBITDA o un flwyddyn i'r llall o 68%.
- Cynhyrchwyd elw yn BBC Studios, BBC Global News a datganwyd y dididend cyntaf yn ei hanes gan BBC Studioworks, er gwaethaf amodau marchnad heriol.
- Datganwyd dididend o £73 miliwn (2017/18: £38 million) gan BBC Commercial Holdings Limited i PSB Group.

	2018/19 EBITDA	2017/18 EBITDA	% twf o un flwyddyn i'r llall
<b>BBC STUDIOS</b>	<b>£159m</b>	£105m	<b>51%</b>
<b>BBC NEWS GLOBAL</b>	<b>£8m</b>	£2m	<b>300%</b>
<b>BBC STUDIOWORKS</b>	<b>£6m</b>	£3m	<b>100%</b>

**Arian parod a dyled net**

Balans arian parod y BBC ar ddiwedd y flwyddyn yw £468 miliwn, sy'n leihad o £55 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn rhannol oherwydd y gostyngiad yn y cyllid i drwyddedau i rai dros 75 oed. O ganlyniad i setliad ffi'r drwydded rydym wedi cadw gwarged arian parod cyn y gostyngiad yng nghyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau teledu am ddim i rai dros 75 oed. 2018/19 oedd y cam cyntaf i lawr mewn incwm gan y Llywodraeth a bydd lleihad pellach yn 2019/20. Defnyddir y gwarged arian parod i barhau i gyflwyno cynnwys o'r radd flaenaf i gynulleidfaoedd y BBC, gan fodloni rhwymedigaethau yn y dyfodol (sy'n cynnwys World Service ac ad-daliadau diffyg pensiwn) a rheoli cost ac amseriad cyflawni rhaglenni arbedion, wrth ragweld ariannu consesiynau trwyddedau i rai dros 75 oed. Mae gan Commercial Holdings Group falans arian parod o £199 miliwn, y defnyddir rhan ohono i gwblhau caffaeliad UKTV.

Mae dyled net y BBC ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys £651 miliwn o brydlesau cyllid a £203 miliwn o fenthyciadau a ddefnyddiwyd gan yr is-gwmnïau masnachol; gwrthbwsysir hyn gan falans arian parod o £468 miliwn a £21 miliwn o ddeilliadau. Mae lefelau dyled net y BBC wedi cynyddu £39 miliwn. Mae Grŵp Masnachol y BBC mewn sefyllfa cronfeydd net gwerth £17 miliwn o gymharu â dyled net o £88 miliwn yn 2017/18.

Cytunwyd ar y terfynau benthycia newydd ar gyfer 2019/20 gyda'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n cynyddu terfyn benthycia net PSB o £1,050 miliwn i £2,200 miliwn, y mae £2,000 miliwn ohono yn benodol ar gyfer prydlesau. Bydd terfyn benthycia o £500 miliwn yn gymwys i Grŵp Masnachol y BBC, y mae £150 miliwn ohono yn benodol ar gyfer prydlesau. Roedd cynnydd yn y terfynau yn ofynnol oherwydd newidiadau cyfrifyddu gorfodol, IFRS 16, sy'n gymwys i'r BBC o 1 Ebrill 2019 ac sy'n arwain at brydlesau'n cael eu cynnwys ar y fantolen.

**Casglu ffi'r drwydded**

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gydberthynas unigryw'r BBC â'i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un. Mae gan y BBC nifer o drefniadau cytundebol sy'n cwmpasu casglu, gweinyddu a gorfodi ffi'r drwydded, marchnata, rheoli sianelau talu a rhwydweithiau manwerthu. Mae'r mwyafrif o'r gwaith gweinyddol wedi ei roi ar contract i Capita Business Services Ltd. Dyma seithfed flwyddyn y contract casglu cyfredol – sydd wedi sicrhau £180 miliwn o arbedion hyd yma. Disgwylir arbed cyfanswm o £220 miliwn mewn costau dros ddeng mlynedd y contract, gan ryddhau mwy o arian i'w wario ar ein rhaglenni a'n gwasanaethau.

**Datganiad ffi'r drwydded**


Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r BBC yn paratoi datganiad referniw ffi'r drwydded a gaiff ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym ac a dalwyd i Lywodraeth EM yn ystod y flwyddyn. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i'r Senedd. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad referniw ffi'r drwydded ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol [nao.org.uk/report/bbc-licence](http://nao.org.uk/report/bbc-licence).

**Costau pensiwn**

Ar 31 Mawrth 2019, roedd y diffyg pensiwn cyfrifyddu (fel y'i diffinnir gan IAS 19 Buddiannau Cyflogeion) wedi cynyddu i £530 miliwn o gymharu â £518 miliwn flwyddyn yn ôl. Y rheswm dros y cynnydd yn ystod y flwyddyn bresennol oedd tâl gweithredu blynyddol o £231 miliwn a chostau cyllid net o £10 miliwn, a wrthbwsysyd gan ennill net o ganlyniad i newidiadau yn y tybiaethau prisio o £38 miliwn a chyfraniadau a dalwyd, sef £191 miliwn.

Dim ond 'cipolwg' ar ddyddiad penodol yw'r prisiad cyfrifyddu hwn, ac felly mae'n sensitif i amrywiadau byrdymor yn y farchnad. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar y gost arian parod wirioneddol sy'n gysylltiedig â thalu'r diffyg yn y cynllun pensiwn, a gaiff ei adolygu fel rhan o brisiadau actiwaraid teirblwydd.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraid teirblwydd diweddaraf ym mis Mehefin 2017 a dangosodd ddiffyg ariannu o £1,769 miliwn ar 1 Ebrill 2016. Mae'r BBC ac Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno ar gynllun ad-dalu sy'n para tan 31 Rhagfyr 2028. Ystyrir bod y cynllun hwn un fforddiadwy i ymdrin â'r diffyg, heb roi gwasanaethau i gynulleidfaoedd yn y fantol. Disgwylir i brisiad actiwaraid ffurfiol nesaf y Cynllun ar 1 Ebrill 2019 gael ei gwblhau erbyn y dyddiad cau statudol, 30 Mehefin 2020, ar yr hwyr. Mae'r BBC yn parhau i weithio gydag Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn i sicrhau bod y Cynllun yn rhoi diogelwch i aelodau a gwerth am arian i dalwyd ffi'r drwydded.

**Dyled net (£m)**



### Strategaeth treth

Mae'r BBC yn ymrwymedig i dalu'r swm cywir o dreth (treth cyflogaeth, TAW a threth gorfforaeth) ar yr adeg iawn, ym mhob un o'r awdurdodaethau y mae'n gweithredu ynddynt. Mae'r BBC yn cymryd ei rwymedigaethau cydymffurfio treth o ddifrif. Nid yw'r BBC yn llunio unrhyw drafodion gyda'r bwriad o leihau ei rwymedigaeth treth mewn modd artiffisial nac ymosodol. Mae'r BBC yn cyhoeddi ei strategaeth treth yn unol â Deddf Cyllid 2016. Mae i'w gweld ar wefan y BBC yn [bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/reports/](http://bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/reports/). Mae'r BBC yn cyfathrebu â CThEM mewn ffordd agored a thryloyw ac yn ymateb mewn ffordd amserol i ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth. Mae deialog adeiladol a pharhaol gyda CThEM ar faterion newydd, ymgynghoriadau, unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth treth neu ofynion cydymffurfio drwy gydol y flwyddyn.

Yn 2017, cyflwynodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth newydd yn ymwneud ag atebolrwydd treth am daliadau i gyfryngwyr yn y sector cyhoeddus. Ochr yn ochr â hyn, cyflwynodd CThEM adnodd dadansoddi newydd ar gyfer statws cyflogaeth (CEST – Gwirio Statws Cyflogaeth am Dreth) a chanllawiau ysgrifenedig eraill sy'n parhau i gael eu diwygio a'u diweddarau.

Mae'r ddau newid hyn wedi arwain at godi nifer o gwestiynau a materion newydd mewn perthynas ag asesu statws treth unigolion ym mhob rhan o'r diwydiant, gan fod y canllawiau newydd yn nodi y dylai cyfran fwy o gyflwynwyr ar yr awyr gael eu trin yn awr fel rhai cyflogedig at ddibenion treth. Mae nifer o gyflwynwyr ar yr awyr, ym mhob rhan o'r diwydiant, yn wynebu ymchwiliadau gan CThEM ynghylch sut y cymhwyswyd treth ac YG yn y gorffennol at eu cytundebau drwy Gwmni Gwasanaeth Personol (PSC) – y ffurf fwyaf poblogaidd ar gyfryngwr.

Mae'r BBC bob amser wedi ceisio gweithredu o fewn y canllawiau sefydledig, ond mae hwn yn faes cymhleth. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyflwynwyr y BBC yn ogystal â CThEM

i'w datrys cyn gynted â phosibl. Rydym am wneud hyn mewn ffordd sy'n deg i'r unigolion dan sylw, i CThEM ac i dalwyr ffi'r drwydded. Rydym yn llwyr ddeall ac yn edifar ein bod wedi achosi straen i'r bobl dan sylw, a dyna pam rydym yn eu cefnogi ac am ddod o hyd i ffordd effeithiol o ddatrys hyn cyn gynted â phosibl.

Yn adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y llynedd nodwyd rhwymedigaeth wrth gefn pe bai'n ofynnol i'r BBC wneud taliadau o dan gynllun cyfryngu a oedd yn cael ei ystyried. Bwriadwyd i'r cynllun hwn asesu unrhyw achosion lle y byddai'n rhesymol i'r BBC dalu cost y dreth a'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n ddyledus o ganlyniad i unrhyw gamddosbarthiad mewn statws cyflogaeth.

Ers hynny, rydym wedi canolbwyntio ar drafod opsiynau gyda CThEM am setliad cyffredinol a all ddarparu sicrwydd ynghylch triniaeth dreth ffioedd y BBC a delir i gyflwynwyr. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau ac, ym mis Mawrth 2019, cymeradwyodd Bwrdd y BBC gyfres o egwyddorion y bwriadwn eu defnyddio i sicrhau tegwch a chysondeb yn y modd rydym yn cyfrifo cyfraniad y BBC at unrhyw symiau dyledus a geisir gan CThEM. Byddai'r rhain yn gymwys naill ai i setliad cyffredinol â CThEM neu i ddull o ddatrys achosion unigol lle yr ymchwilir i gyflwynwyr.

Byddai ein dull gweithredu yn golygu y byddai'r BBC yn talu am unrhyw wahaniaeth rhwng y trethi (TWE a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) a fyddai wedi bod yn ddyledus gan y PSC o dan reolau newydd CThEM o gymharu â'r cyfanswm a fyddai wedi bod yn ddyledus gan y PSC ac yn unigol o dan reolau treth gorfforaeth a difidend, ar gyfer incwm y BBC yn unig.

Rydym hefyd wedi trefnu bod cymorth a chyngor ar gael i'r rhai yr effeithir arnynt.

Gwnaeth Bwrdd y BBC y penderfyniad hwn gan ystyried yr effaith ar gyflwynwyr, nad yw'r mwyafrif ohonynt ar gyflog mawr, a gwerth am arian yr opsiynau setliad sydd ar gael. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall y BBC,

mewn rhai achosion, fod wedi ei gwneud yn ofynnol i gyflwynwyr ddefnyddio PSC a allai hefyd o bosibl gael ei ystyried yn rhywbeth sy'n creu ymrwymiad, hyd yn oed os nad yw'n rhwymedigaeth benodol.

Ein nod o hyd yw datrys y problemau hanesyddol, ar gost dderbyniol i dalwr ffi'r drwydded, drwy ddatrys y rhan fwyaf o'r hawliadau ôl-weithredol a all fod gan CThEM yn erbyn y cyflwynwyr neu'r BBC o ran unrhyw gamddosbarthiad o'u statws cyflogaeth. Cred y Bwrdd mai opsiwn setliad naill ai gyda CThEM neu gyflwynwyr unigol yw'r un sydd er budd gorau'r BBC, talwyr ffi'r drwydded, a'r unigolion dan sylw a'i fod yn debygol o fod yn llai costus ac yn opsiwn y gellir ei ddatrys yn gynt. Pe bai achosion yn cael eu datrys gydag unigolion, dim ond pan fydd gorchymyn dilys gan CThEM a lle y gall y BBC bennu'r swm sy'n ddyledus y gwneir taliadau i gyflwynwyr, neu ar eu rhan. Byddai hyn yn seiliedig ar wahaniaeth y dreth a fyddai'n ddyledus o dan IR35 yn erbyn yr hyn sy'n ddyledus gan y PSC a'r unigolyn sy'n talu treth gorfforaeth a difidend.

Yng nghyfrifon 2018/19 y BBC, mae darpariaeth o £12 miliwn wedi ei chynnwys ar gyfer taliadau o'r fath. Amcangyfrifwyd y ddarpariaeth drwy edrych ar yr unigolion yr effeithir arnynt ac yna gymhwyso tybiaethau, yn seiliedig ar sgysiau â CThEM; dyfarniadau tribiwnlys treth diweddar; a chynngor cynghorwyr allanol.

Ystyrir bod y trafodion hyn yn afreolaidd am nad oes gan y BBC rwymedigaeth gyfreithiol am y dreth sy'n ddyledus. O dan delerau'r Siarter, mae'n rhaid i holl wariant y BBC fod at ddibenion bwriadedig y BBC. Fodd bynnag, cymeradwywyd y dull hwn gan y Bwrdd ar y sail ei fod yn cynnig y gwerth gorau am arian o blith yr opsiynau setlo a oedd ar gael ac yn datrys problemau hanesyddol mewn modd sy'n deg i bawb.

# Sicrhau arbedion



Bydd ôl-troed ein heiddo yn gwella ymhellach eleni wrth i staff BBC Cymru symud i un adeilad, Sgwâr Canolog Caerdydd, sydd bron hanner maint yr adeiladau y mae'n eu disodli.

## Sgwâr Canolog Caerdydd

**Ein nod yw sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ac i ailgyfeirio cymaint o arian â phosibl i gynnwys, gan symleiddio gweithdrefnau mewn ffordd sy'n cefnogi BBC mwy cynaliadwy a chreadigol. Ym mis Hydref 2018, gwnaethom gyhoeddi 'A Simpler BBC', gan nodi ein hanes cadarn o sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwneud y BBC yn symlach, yn fwy darbodus ac yn fwy effeithlon.**

Ers 2010, mae cyllid ffi'r drwydded ar gyfer gwasanaethau'r BBC yn y DU 24% yn llai na phe bai'r drwydded wedi codi gyda chwyddiant. Yn ystod yr adeg hon, mae'r BBC wedi ymgymryd â nifer o ymrwymadau newydd gan gynnwys ariannu World Service, S4C a BBC Monitoring. Er gwaethaf y gostyngiad hwn mewn cyllid, mae'r BBC wedi llwyddo i gynnal ansawdd a chyrrhaeddiad oherwydd rhaglen sylweddol a helaeth o reoli costau. Rydym yn mynd i'r afael â'n heriau ariannol yn y dyfodol drwy geisio dod o hyd i £800 miliwn o arbedion erbyn 2021/22. Rydym yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targed hwn, gan gyflawni £153 miliwn o arbedion blynyddol eleni, gan sicrhau arbedion cronol o £397 miliwn.

Mae 'Cystadlu neu Gymharu' wedi rhoi fframwaith cynaliadwy i ni ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r fframwaith yn sicrhau y cystadlwn am bopeth a wnawn yn y farchnad neu rydym yn cymharu (meincnodi) yn ei herbyn. Mae hyn yn gwella ansawdd ac yn lleihau costau. Daeth adolygiad mewnol yn ystod y flwyddyn i'r casgliad bod 94% o wariant rheoladwy'r BBC yn bodloni meini prawf 'Cystadlu neu Gymharu', naill ai drwy gystadleuaeth uniongyrchol neu drwy gymharu a meincnodi manwl, sef cynnydd sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, o 80% yn 2014/15.

Gydag arbedion yn canolbwyntio ar gostau canolog, rydym wedi lleihau gorbenion i lefelau sy'n arwain y diwydiant: dim ond 5% o gyfanswm ein costau yn 2018/19. Mae hyn yn golygu ein bod yn y 25% mwyaf effeithlon o gwmnïau telathrebu a chyfryngau rhyngwladol wedi eu meincnodi yn ogystal â sefydliadau rheoledig ac nid er elw yn y wlad.

Mae cwotogi ein bil eiddo yn rhan allweddol arall o'n strategaeth busnes a bellach mae ein hól troed eiddo tua 40% yn llai nag yr oedd yn 1998, sy'n gyflawniad sylweddol. Ers 2017 rydym wedi ymadael â Grafton House, Brock House, Great Portland Street, Euston Square, Centre House a Caversham. Bydd ein hól-troed eiddo yn gwella ymhellach eleni wrth i staff BBC Cymru symud i mewn i un adeilad, Sgwâr Canolog Caerdydd, yn yr hydref, sydd bron hanner maint yr adeiladau y mae'n eu disodli.

Bydd y ffocws ar symud timau y tu allan i Lundain yn parhau, gydag uchelgais i gael hanner ein staff mewn swyddfeydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Disgwylir i faint yr ystâd leihau ymhellach er mwyn cyrraedd targed ystâd eiddo'r DU o 355,000m<sup>2</sup> erbyn 2020 – gostyngiad o dros 20% ers 2014.

### Caffael

Mae'r BBC yn adolygu sefyllfa ariannol ei gyflenwyr gwasanaethau mawr ar gontractau allanol yn rheolaidd, sy'n cynnwys dadansoddi adroddiadau gan asiantaethau credyd masnachol allanol. Mae'r trefniadau cytundebol a lunnir gyda'r cyflenwyr hyn yn cynnwys darpariaethau archwilio llyfr agored yn ogystal â pharhad busnes cynhwysfawr a rhwymedigaethau ymadael.

Rhwng 2012/13 a 2018/19 gostyngodd gwariant ar gontractau strategol mawr o £684 miliwn i £353 miliwn, gan arbed 48%. Mae rheoli perfformiad cyflenwyr, awtomeiddio a thrawsnewid y broses gaffael oll wedi bod yn rhan annatod o sicrhau'r arbedion hyn. Mae rheolwyr contractau cyflenwyr penodedig yn atgyfnerthu dull rheoli contractau'r BBC drwy olrhain perfformiad yn erbyn gofynion busnes.

### Technoleg

Mae gwasanaethau technoleg yn faes arall lle mae'r BBC yn gwneud arbedion sylweddol. Mae'r BBC wedi symud i fodel gwasanaeth TG newydd a reolir gan dîm gweithrediadau mewnol cadarn sy'n cynnwys cyfrifoldeb am seiber-ddiogelwch. Yn hytrach nag un cyflenwr, mae cyflenwyr arbenigol bellach yn cynnal gwasanaethau penodol mewn ffordd fwy effeithlon a hyblyg.


Cwblhawyd prosiect Virtual Local Radio (ViLoR) ar ddechrau 2019 a oedd yn cynnwys uwchraddio offer stiwdio a chanoli technoleg gefndirol, gan gyflwyno dull newydd o gynhyrchu radio. Mae'r gwaith uwchraddio yn golygu ei bod yn haws cyflwyno diweddariadau meddalwedd, nodweddion newydd a galluoedd newydd ar draws radio lleol y BBC a rhannu sain ar draws radio lleol a rhwydwaith. Mae OpenMedia, system gyfrifiadurol newydd yr ystafell newyddion wedi cael ei chyflwyno yn llwyddiannus mewn sawl rhanbarth a gwasanaeth radio a bydd yr holl waith trosglwyddo yn cael ei gwblhau erbyn y flwyddyn nesaf. Mae OpenMedia yn system sy'n uwchraddio system rheoli newyddion sydd wedi bod ar waith yn y BBC ers y 1990au, ac fe'i cynlluniwyd fel y gall yr ystafell newyddion fodern weithio mewn ffordd fwy hyblyg a rhannu cynnwys ar draws platfformau.

Mae arbedion yn parhau i gael eu cyflawni ar draws y prif gontractau technoleg, gan gynnwys dros £30 miliwn a gyflawnwyd yn 2018/19, gan alluogi arbedion effeithlonrwydd hirdymor pellach wrth i'n harlwy gyfryngol ar-lein a'n gofyniad capasiti dyfu.

## ARBEDION EFFEITHLONRWDYDD

- Cyflawnwyd £712 miliwn o arbedion cynaliadwy yn ystod y rhaglen Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2017.
- Cyflawnwyd £397 miliwn o arbedion cynaliadwy hyd yma i fynd i'r afael â'n heriau ariannol yn y dyfodol.
- Mae dros £800 miliwn o arbedion wedi'u targedu erbyn 2022.

### Arbedion parhaus, £m



# Llywodraethu



## t.98

### **Bwrdd y BBC**

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter.

Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar rôl Bwrdd y BBC ac mae'n cynnwys adroddiadau gan is-bwyllgorau dirprwyedig y Bwrdd. Mae'r adran hefyd yn manylu ar ein dull cyffredinol o ymdrin â llywodraethu corfforaethol, ein sefyllfa reoleiddiol a chadarnhad o ddyletswyddau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynnyddol.

# t.122

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor hwn yn adolygu ac yn goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg.

## t.102

### Adroddiad Cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC, y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd Daliadau Masnachol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

## t.133

### Y Bwrdd Daliadau Masnachol

Y Bwrdd Daliadau Masnachol sy'n goruchwyllo gweithgareddau masnachol y BBC. Mae'n pennu strategaethau yn unol â nodau cwmni cyffredinol Grŵp y BBC, yn cytuno ar gynlluniau busnes ac yn sicrhau cydymffurfiaeth mewn materion rheoleiddiol a chyfreithiol.

## t.111

### Datgeliadau cyflogau

O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi enwau'r bobl hynny sy'n gweithio i'r BBC sy'n cael eu talu mwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded.

## t.134

### Canllawiau a Safonau Golygyddol

Y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol sy'n gyfrifol am safonau cynnwys yn y BBC.

## Bwrdd y BBC

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter.

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu o dan delerau Siarter Frenhinol a Chytundeb y BBC, Mae'r Siarter yn amlinellu cyfrifoldebau'r Bwrdd, ei aelodaeth a'r gofyniad am nifer o Bwyllgorau i gefnogi ei waith. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am arfer holl swyddogaeth y BBC mewn ffordd briodol, effeithiol ac annibynnol. Mae'n pennu'r cyfeiriad strategol i'r BBC ac yn cymeradwyo'r cylch gwaith creadigol a'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau'r BBC.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Syr David Clementi ac mae'n cynnwys hyd at ddeg cyfarwyddwr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, a phedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Caiff y Cadeirydd a phedwar cyfarwyddwr anweithredol y gwledydd eu penodi gan EM Y Frenhines ar sail argymhelliad Gweinidogion. Caiff aelodau eraill y Bwrdd eu penodi gan y BBC, drwy Bwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd.

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard](http://bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard)

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i nifer o is-bwyllgorau. Mae'n ofynnol iddo sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Pwyllgor Enwebiadau a Phwyllgor Archwilio a Risg. Caiff gwaith y Pwyllgorau hyn ei ategu gan waith nifer o Bwyllgorau eraill, a sefydlwyd gan y Bwrdd – mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Masnachu Teg, y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a Phwyllgorau ar gyfer pob un o bedair Gwlad y DU. Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Bwrdd i sefydlu'r Bwrdd Daliadau Masnachol fel is-bwyllgor ffurfiol hefyd.



**SYR DAVID CLEMENTI**  
Cadeirydd



**TONY HALL, YR ARLWYDD HALL O BENBEDW CBE**  
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd



**SIMON BURKE**  
Cyfarwyddwr anweithredol Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



**TIM DAVIE CBE**  
Prif Weithredwr, BBC Studios



**TOM ILUBE CBE**  
Cyfarwyddwr anweithredol Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg



**KEN MACQUARRIE**  
Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau



**DR ASHLEY STEEL**  
Cyfarwyddwr anweithredol Aelod Lloegr



**Y FONESIG ELAN CLOSS STEPHENS DBE**  
Cyfarwyddwr anweithredol Aelod Cymru Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol



**TANNI GREY-THOMPSON, Y FARWNES GREY-THOMPSON DBE**  
Cyfarwyddwr anweithredol



**IAN HARGREAVES CBE**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau  
a Safonau Golygyddol

Mae'r adran hon yn cynnwys adroddiadau gan y pwyllgorau hynny, sy'n cael eu cadeirio gan gyfarwyddwyr anweithredol ac sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn bennaf, yn unol â'r Siarter.

Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Bwrdd ym mis Mehefin 2019.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd y Pwyllgor Enwebiadau un newid i aelodaeth y Bwrdd – ymddiswyddodd Anne Bulford, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, o'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2019 a chafodd Francesca Unsworth, Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes, ei phenodi yn ei lle o 1 Ebrill 2019.

Nid yw'r aelod o'r Bwrdd dros Ogledd Iwerddon wedi'i benodi eto, tra'n aros am sefydlu Gweithrediaeth newydd yng Ngogledd Iwerddon. Yn absenoldeb aelod Gogledd Iwerddon, caiff Pwyllgor y wlad ei gadeirio gan Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Rhoddir manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau ar dudalen 108.



**STEVE MORRISON**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Aelod yr Alban



**SYR NICHOLAS SEROTA CH**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Cadeirydd y Pwyllgor  
Cydnabyddiaeth

**+** Dysgwch fwy: [bbc.com/aboutthebbc/whoware/bbcboard](http://bbc.com/aboutthebbc/whoware/bbcboard)



**FRANCESCA UNSWORTH**  
Cyfarwyddwr Newyddion a  
Materion Cyfoes

# Pwyllgor Gweithredol

Er mwyn cefnogi a gweithredu gwaith y Bwrdd, mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ac am bob agwedd ar reoli gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn goruchwyllo prosiectau strategol allweddol a chynigion o bwys i'r sefydliad cyfan. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynulleidfa oedd a pherfformiad ariannol, yn ogystal â goruchwyllo materion Adnoddau Dynol a dylunio sefydliadol sy'n berthnasol i'r BBC cyfan. Mae hefyd yn trafod ac yn cymeradwyo'r holl bapurau perthnasol a drafodir yn y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ei hehangu, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o bob maes allbwn, gweithrediadau a rheoli pwysig. Mae tudalen 108 yn nodi'r newidiadau i'r Pwyllgor Gweithredol yn ystod y flwyddyn. Gadawodd Anne Bulford, y

Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, y BBC ym mis Ebrill 2019 ac ymddiswyddodd o'r Pwyllgor ar 31 Mawrth 2019. Ers diwedd y flwyddyn, mae dau aelod arall wedi cael eu hychwanegu at y Pwyllgor – Bob Shennan fel Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp, a Chwnsler Cyffredinol y Grŵp, Sarah Jones.

Roedd yr aelodau ym mis Mehefin 2019 fel a ganlyn:

**Tony Hall**  
Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Kerris Bright**  
Prif Swyddog Cwsmeriaid

**Tim Davie**  
Prif Swyddog Gweithredol, BBC Studios

**Valerie Hughes-D'Aeth**  
Prif Swyddog Adnoddau Dynol

**Glyn Isherwood**  
Prif Swyddog Ariannol

**Sarah Jones**  
Cwnsler Cyffredinol y Grŵp

**David Jordan**  
Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol

**Ken MacQuarrie**  
Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau

**Charlotte Moore**  
Cyfarwyddwr Cynnwys

**Matthew Postgate**  
Prif Swyddog Technoleg a Chynhyrchion

**James Purnell**  
Cyfarwyddwr Radio ac Addysg

**Gautam Rangarajan**  
Cyfarwyddwr Strategaeth

**Bob Shennan**  
Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp

**John Shield**  
Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Corfforaethol

**Clare Sumner**  
Cyfarwyddwr Polisi

**Francesca Unsworth**  
Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes

 **Dysgwch fwy:**  
[bbc.com/aboutthebbc/whoweare/exco](http://bbc.com/aboutthebbc/whoweare/exco)

## Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf y BBC gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ddiwedd 2017 fel is-bwyllgor ffurfiol o'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth gynghorol er mwyn sicrhau bod lleisiau a syniadau pobl iau yn cael eu clywed ar lefel y cyfarwyddwyr gweithredol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 15 o aelodau iau o'r staff o bob rhan o'r sefydliad. Mae'n cyfarfod bob mis ac yn 2018 canolbwyntiodd ei weithgarwch yn bennaf ar ymdrechion i ddenu, tyfu a chadw talent ifanc ac amrywiol yn y BBC, a gwella perfformiad y BBC ymhlith cynulleidfa oedd iau.

Gweithiodd y Pwyllgor ar brosiectau mawr a mân. Roedd y rhain yn cynnwys ffocws ar gyflog prentisiaid, comisiynu podlediadau, cyfleoedd profiad waith ar gyfer cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac ehangu cynllun ymgysylltu â chynulleidfa oedd i bob rhan o'r BBC. Hefyd, sefydlodd y Pwyllgor rwydwaith cyflogaion i aelodau iau o'r staff er mwyn trafod ac ystyried yr heriau penodol a wynebir gan staff iau a chynnig cyfleoedd dysgu yn ogystal â chyfle i gyfarfod â phobl o'r un anian mewn amgylchedd cyfeillgar a chymdeithasol.

Cafodd pob aelod o'r Pwyllgor ei baru â mentor, a chael cipolwg gwerthfawr ar arweinyddiaeth a datblygiad personol.

## Aelodau Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Ar gyfer 2018	Ar gyfer 2019
Max Gogarty (Cadeirydd)	Hayley Reynolds (Cadeirydd)
Andrew Efah	Sowda Ali
Emma Gallacher	William Allott
Lucy Hancock	Tom Bell
Katherine Hardyment	Mairead Campbell
Seren Jones (a ymunodd ym mis Mehefin 2018)	Sarah Corker
Alex Lawless	Seren Jones
Mansha Manohar	Chinwe Kalu-Uma
Proinsias O'Coinn	Junior Kassim
Ryan Pasi (cyfnod sabothol Ebrill-Hydref 2018)	Jordan Kenny
Philip Raperport	Luke Mason
Kelsey Richards (a ymddeolodd ym mis Chwefror 2018)	Waseem Punnu
Camellia Sinclair	Jess Quayle
Charlie Slater	Owen Rawlings
Ione Wells (a ymunodd ym mis Mehefin 2018)	Ione Wells
Will Wilkin	
Georgie Yates	



# Adroddiad Cydymffurfiaeth Gorfforaethol

## Cydymffurfiwn ag arfer gorau llywodraethu corfforaethol

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn ei Siarter a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. Mae'r Siarter a'r Cytundeb ar gael ar wefan y BBC yn: <https://www.bbc.com/aboutthebbc/governance/charter>.

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, eto i gyd mae wedi dewis cymhwyso arfer gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol 2016 y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn dilyn y safonau llywodraethu sy'n gymwys i gwmnïau a restrir ar farchnad stoc reoleiddedig yr UE.

Mae'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion llywodraethu corfforaethol y Siarter a'r Cytundeb ac wedi cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol 2016 y DU i raddau helaeth hefyd.

Ar gyfer 2019/20, bydd Cod Llywodraethu Corfforaethol 2018 y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol yn dod yn gymwys i'r BBC ar sail wirfoddol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y BBC yn parhau i gydymffurfio â gofynion llywodraethu corfforaethol ac yn ystod 2018/19 cynhaliwyd adolygiad effeithiolrwydd o'r Cadeirydd, y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

Mae nifer o elfennau o God Llywodraethu Corfforaethol 2016 y DU nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y BBC yn drech na chydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol 2016 y DU; nodir y rhain isod:

- Ailethol Cyfarwyddwyr (egwyddor B.7 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU).
- Cyfrifoldeb am wneud argymhelliad ynghylch penodi, ailbenodi a diswyddo archwilwyr allanol (egwyddor C.3.7 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU).

Hefyd, fel y nodir isod, mae dau faes lle nad yw Cod Llywodraethu Corfforaethol 2016 y DU yn berthnasol i'r BBC.

## Cyfansoddiad cydnabyddiaeth (egwyddor D.1.1 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):

Mae'r BBC yn pennu lefelau cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol a ddylai fod yn ddigonol i ddenu, cadw a chymhell cyfarwyddwyr o'r safon angenrheidiol i redeg y sefydliad yn llwyddiannus. Fodd bynnag, o dan yr egwyddor hon mae'n rhaid hefyd gysoni cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol â'r syniad o wella gwerth i gyfranddalwyr drwy sicrhau bod elfennau o gydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn gyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth. Gan fod y BBC yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded a bod ganddo statws fel corfforaeth gyhoeddus, mae'r BBC wedi penderfynu na ddylid talu unrhyw dâl amrywiadwy i unrhyw un o gyfarwyddwyr gweithredol Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC ac ni thelir bonysau. Fodd bynnag, mae Tim Davie yn cael elfen o gyflog ar sail perfformiad yn ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol gweithrediad masnachol y BBC, sef BBC Studios.

## Rhyngweithio â chyfranddalwyr (egwyddorion B.7.1, B.7.2, D.2.4 ac adran E o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):

Nid yw'r BBC yn gwmni â chyfranddalwyr sy'n anelu at wneud elw ac felly mae darpariaethau sy'n ymwneud â rhyngweithio â chyfranddalwyr yn amherthnasol.

## Cost cydymffurfio

Er mwyn sicrhau ein bod wedi cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol y mae'r BBC yn ddarostyngedig iddi fel darlledwr a chorff cyhoeddus, yn 2018/19 aethom i gostau cydymffurfio amcangyfrifedig o £17 miliwn (2017/18: £19 miliwn). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ffi flynyddol y BBC i Ofcom, sef £11 miliwn.

## Rheoleidd-dra

Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth. Ystyrir bod trafodion sy'n

cyflawni'r dibenion a fwriadwyd ac sy'n unol ag awdurdodau perthnasol yn rhai 'rheolaidd'; caiff y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn eu hystyried yn 'afreolaidd'. Ymdrinnir â thrafodion twyllodrus a chosbau ariannol neu ddirwyon fel rhai 'afreolaidd'. Yn ogystal ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o reoleidd-dra, cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o fframwaith cydymffurfio â rheoleidd-dra'r BBC, gan gynnwys y prosesau, y rheolaethau a'r systemau sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risg i reoleidd-dra mewn meysydd yr asesiwr eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o afreoleidd-dra. Gwnaeth cwmmpas yr adolygiad ystyried y defnydd priodol o ffi'r drwydded, yr asesiad o newidiadau perthnasol, gweithredu o fewn terfynau benthyca a'r risg o dwyll.

Fel y nodir yn fanwl yn Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol ar dudalen 88, mae'r Bwrdd wedi ystyried yn ofalus faterion ynglŷn â defnydd y BBC o Gwmnïau Gwasanaeth Personol a'r ddeddfwriaeth newydd y mae CThEM wedi'i chymhwyso at y sector cyhoeddus o 2017/18. Cymeradwywyd dull gweithredu yn seiliedig ar egwyddorion gan y Bwrdd sy'n caniatáu i daliadau treth a CYG sy'n ddyledus gael eu gwneud i gyflwynwyr, neu ar eu rhan, sydd wedi cael eu talu drwy gyfryngwyr yn flaenorol. Mae'r Bwrdd o'r farn mai dyma'r ffordd briodol o ddatryst problemau hanesyddol o ran statws cyflogaeth cyflwynwyr. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod darparu'r swm hwn o £12 miliwn yn afreolaidd am nad oes atebolrwydd cyfreithiol caeth ar y BBC i dalu'r dreth sy'n ddyledus. O dan delerau'r Siarter, mae'n rhaid i holl wariant y BBC fod at ddibenion bwriadedig y BBC. Er gwaethaf hyn, fel corff awdurdodi'r BBC, gwnaeth y Bwrdd bwysu a mesur y materion a phenderfynu cymeradwyo'r cam gweithredu hwn a'r gost ddisgwyliedig ar y sail ei fod yn cynnig y gwerth gorau am arian o blith yr opsiynau setlo a oedd ar gael ac yn datrys problemau hanesyddol mewn modd sy'n deg i bawb.

# Adroddiad Cydnabyddiaeth

## Datganiad y Cadeirydd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyflogau a gwobrau yn y BBC wedi bod yn destun craffu i raddau nas gwelwyd erioed o'r blaen. Mae'r sylw mewnol ac allanol wedi bod yn drwyadl – ac yn parhau felly, a hynny'n hollol briodol – ac wedi canolbwyntio ar faterion tegwch, tryloywder ac effeithlonrwydd.

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn y BBC yn wynebu heriau anodd: sicrhau gwerth am arian, denu a chadw'r dalent greadigol orau a sicrhau bod y systemau a'r fframweithiau adnoddau dynol newydd yn cael eu hymgorffori'n briodol mewn meysydd sydd yn aml yn gymhleth. Mae hyn oll yn digwydd yn wyneb cryn graffu gan y cyhoedd. Yn erbyn y cefndir hwn, rydym ni, fel pwyllgor, yn cydnabod yr hyn a gyflawnir gan reolwyr ac arweinwyr yn y BBC i barhau i fynd i'r afael â materion o'r gorffennol a hefyd sicrhau gwelliannau sy'n arwain y ffordd o ran tryloywder a thegwch ar yr un pryd.

Wrth i'r BBC symud tuag at fframweithiau cyflog cliriach a mwy cyson, ein rôl fu cefnogi, beirniadu a monitro'r gwaith hwn. Mae ein cylch gwaith ffurfiol yn cwmpasu cyfarwyddwyr gweithredol – y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arnynt – ac uwch arweinwyr yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi'r Pwyllgor Gweithredol yn gryf yn y gred y dylai egwyddorion cyflog craidd, sef tegwch cysondeb, eglurder, tryloywder a chystadleurwydd, fod yn gymwys i gydnabyddiaeth pob aelod o staff yng ngrŵp y BBC.

Mae'r ffeithiau yn cadarnhau ein barn bod cydnabyddiaeth yn y BBC yn parhau i gael ei rheoli'n dda:

- Rydym wedi gweld y BBC yn parhau i arwain y ffordd o ran sut mae'n ymdrin â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu, gan fynd ati i fonitro lefelau cydnabyddiaeth a chymryd camau gweithredol i leihau'r bwlch o un flwyddyn i'r llall. Dangosir hyn yn y ffigur canolrifol cyhoeddedig o 6.7% ar gyfer 2019, sydd wedi gostwng o 7.6% yn 2018.
- Parheir i reoli cyflog uwch reolwyr ac mae ystodau cyflog swydd tryloyw a lywir gan y farchnad wedi cael eu cyflwyno ar gyfer ein 250 o uwch arweinwyr, er mwyn cymhwyso egwyddorion cyflog y BBC at bob un

o'n cyflogeion. Gyda gwaith craffu chwarterol gan y Pwyllgor, mae nifer yr uwch reolwyr wedi parhau i gyfrif am lai nag 1.4% o'r gweithlu ac mae'r bil cyflogau priodol yn £36.4 miliwn ar gyfer 2019.

- Cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hadolygiad gwerth am arian o reoli cyflogau yn y BBC eleni. Roedd yn dda gan y Pwyllgor weld bod yr adroddiad wedi cydnabod y diwygiadau sylweddol i dryloywder, cysondeb ac arferion gwaith mewn perthynas â chyflogau sydd wedi digwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Felly er bod y sefyllfa yn parhau i wella drwy'r BBC cyfan, rydym hefyd wedi ceisio datblygu'r meysydd hynny sy'n rhan benodol o'n cylch gwaith. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, rydym wedi trafod ac wedi cytuno ar bolisi newydd ar gyfer cyflog uwch arweinwyr, a nodir yn y tudalennau sy'n dilyn. Ac rydym yn parhau i gefnogi egwyddor allweddol 'Un BBC' – y dylai cyflogau a gwobrau ei gwneud yn haws i'r staff symud rhwng pob rhan o grŵp y BBC.

Yn wir, ar ochr fasnachol y grŵp, eleni rydym wedi parhau i sicrhau bod cynlluniau tâl amrywiadwy yn canolbwyntio'n glir ar y rhai sy'n ennill busnes ac yn datblygu enillion i ffi'r drwydded, gyda lefelau bonysau yn cael eu pennu gyda gofynion cynyddol ymestynnol ac uchafswm taliad sy'n ganran lai o gyfanswm y cyflog.

Mae'n bleser gennym hefyd weld y gwelliannau yn y rhestrau datgelu a nodir ar dudalennau 111-119, sy'n dangos bod y BBC yn cyflawni'r ymrwymadau a wnaed gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol y llynedd: i sicrhau rhaniad cyfartal rhwng y rhywiâu; i weld mwy o fenywod yn uwch ar y rhestr; ac i sicrhau gwell stori o ran amrywiaeth. Ar bob un o'r mesurau hyn rydym wedi bodloni'r rhagolygon a luniwyd y llynedd ac ar bob un o'r mesurau hyn rydym yn disgwyl i'r BBC wneud gwelliannau pellach yn y flwyddyn i ddod. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn fanwl.

Wrth gwrs, erys heriau o hyd – denu a chadw'r dalent sydd ei hangen arnom i allu parhau i arwain y byd darlledu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, gan sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded ac esbonio ein strategaeth yn

ystod prosesau craffu gan Senedd y DU a chyrrff cyhoeddus eraill fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Ond dylem ymfalchio yn yr hyn a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Gweithredol eleni – cytuno ar delerau ac amodau gwaith ym mhob rhan o'r Gorfforaeth, perthynas waith agosach â'r undebau, canfyddiadau'r ddau adolygiad annibynnol o dryloywder, y ffocws newydd ar arweinyddiaeth gryf, a pharhau i annog diwylliant lle gall staff siarad yn agored am eu cyflogau, gweld sut maent yn cymharu ag eraill a themlo'n gyfforddus yn gofyn cwestiynau ynghylch p'un a yw'n briodol. Prin yw'r sefydliadau a fyddai wedi bod mor agored a pharod i gynnal y dadleuon hyn â'r BBC.

Wrth i ni symud i'r flwyddyn nesaf, rwy'n ddiolchgar am y cymorth y mae aelodau o'r pwyllgor, Tanni Grey-Thompson a Steve Morrison, y cyn-gadeirydd, yn parhau i'w roi. Mae'r naill a'r llall wedi helpu i sicrhau ein bod yn symud tuag at BBC tecach a mwy tryloyw. Ein blaenoriaethau fydd parhau i sicrhau cyflog teg a chyfartal i ddynion a menywod ym mhob rhan o'r Grŵp, cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu, cael gwell cynrychiolaeth o fenywod a phobl ag anabledau a gwneud cynnydd tuag at sicrhau mwy o amrywiaeth ethnig ymhlith yr uwch arweinwyr.

Yn anad dim, rydym yn gobeithio parhau i helpu'r Pwyllgor Gweithredol i ymateb i'r heriau a wynebwn. Mae hyn yn golygu sicrhau cyflog teg, gwerth am arian, cynnwys gwych a BBC sy'n parhau i wobrwyo gwaith gwych a gwneud gwaith yn fuddiol iawn.

.....  
**Nicholas Serota**  
**Cadeirydd**  
 20 Mehefin 2019

### Adroddiad Cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch arweinwyr ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Mae hyn yn cynnwys ein datgeliad blynyddol o gyflogau fel y'i nodir yn Siarter y BBC.

Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2013 a Rheolau Rhestru yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydabyddiaeth a dderbyniwyd gan y grŵp hwn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, archwilwyr statudol y BBC.

### Cyfansoddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Ffordd y mae'n gweithredu

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd, ers 1 Ebrill 2017, wedi bod yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth i Grŵp y BBC ac am bob agwedd ar gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd. Mae ei aelodau yn gyfarwyddwyr anweithredol: Tanni Grey-Thompson, Steve Morrison a Nicholas Serota. Roedd Steve Morrison yn Gadeirydd y Pwyllgor tan 31 Gorffennaf 2018 a phenodwyd Nicholas Serota yn Gadeirydd newydd o 1 Awst 2018.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar faterion yn ymwneud â chydabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac o bryd i'w gilydd ar ffurf asesiadau o'r farchnad.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn gyson â diben a gwerthoedd y BBC. Mae'n sicrhau bod ein trefniadau'n dryloyw ac yn hawdd eu deall, a bod lefelau cydnabyddiaeth yn gymesur â chyfraniad.

Sefydlwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch Reolwyr ym mis Medi 2012, ac mae'n gyfrifol am gysoni anghenion gweithredol y BBC â'r fframwaith strategol a bennir gan y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw gydnabyddiaeth, iawndal neu bolisi buddiannau yn y polisi ar gyflogau uwch arweinwyr, sy'n cynnwys adolygu a chymeradwyo cyflogau cyflogeion yn y Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (cyfwerth ag amser llawn).

### Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol

At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfarwyddwyr gweithredol yw'r rhai sy'n aelodau o'r Bwrdd ynghyd â'r aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol (gweler tudalen 100 am fanylion).

Cefnogir Bwrdd y BBC gan y Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth weithredol y Gorfforaeth. O dan delerau'r Siarter, mae'r Bwrdd yn cynnwys deg cyfarwyddwr anweithredol (y Cadeirydd, pum penodai'r BBC a phedwar cynrychiolydd y Gwledydd) a phedwar aelod gweithredol – gweler tudalennau 98 am ragor o fanylion.

Roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn 2018/19 yn cynnwys 15 o aelodau:

- y pedwar aelod o'r Bwrdd, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cynnwys, y Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes, y Cyfarwyddwr Radio ac Addysg, y Prif Swyddog Adnoddau Dynol a'r Prif Swyddog Technoleg, yr oedd pob un ohonynt yn aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol yn 2017/18.
- Ymddiswyddodd Mark Linsey o'r Pwyllgor Gweithredol ar 31 Mawrth 2018.
- Yn ystod y flwyddyn, bu rhagor o newidiadau, gydag aelodau newydd yn ymuno â'r Pwyllgor Gweithredol. Ar 1 Ebrill 2018 ymunodd tri aelod newydd â'r Pwyllgor Gweithredol: John Shield fel y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Corfforaethol, Clare Sumner fel y Cyfarwyddwr Polisi, a David Jordan fel y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.
- Mae'r aelodau eraill a ymunodd yn ystod 2018/19 fel a ganlyn: Glyn Isherwood fel Prif Swyddog Cyllid ar 9 Ebrill, Gautam Rangarajan fel y Cyfarwyddwr Strategaeth ar 1 Mehefin, a Kerris Bright fel y Prif Swyddog Cwsmeriaid ar 18 Mehefin.

## EGWYDDORION CYFLOGAU'R BBC

Parhawyd i roi ffocws ar gyflogau ar bob lefel yn y BBC, ynghyd â mwy o ffocws ar gyflog teg. Ymgwymerwyd â sawl menter er mwyn sicrhau bod ein hegwyddorion cyflogau yn cael eu hymgorffori drwy'r sefydliad cyfan a rhoi fframwaith lle gwneir penderfyniadau teg a chyson ynghylch cyflogau.

1. Teg
2. Cyson
3. Tryloyw
4. Cystadleuol
5. Clir

Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad sy'n newid yn gyflym lle mae cystadleuaeth ddwys am dalent, a gwelwyd twf aruthrol ymhlith rhai cwmnïau newydd yn y cyfryngau sy'n cynnig pecynnau hynod ddeniadol. Felly, rydym yn parhau i gydbwysio cyflogau cystadleuol ar y farchnad â'r angen i ddangos gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Adlewyrchir y cydbwysedd hwn mewn ystodau cyflog swydd a lywir gan y farchnad sydd, lle mae ffactorau allanol (y farchnad) yn eu cefnogi, yn parhau i fod yn is na'r farchnad.

Credwn y bydd yr egwyddorion cyflogau hyn yn sicrhau y gall y BBC barhau i apelio i bawb sy'n teimlo'n gyffrous am y cyfleoedd i weithio ym maes darlledu cyhoeddus.

Ceir rhagor o fanylion am hyn yn ein hadran ar Ein Pobl o dudalen 76 ymlaen.

**Polisi Cydnabyddiaeth Uwch Arweinwyr**

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC a sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Eleni, cytunodd y Pwyllgor y dylai egwyddorion cyflogau'r BBC fod yn gymwys i'r holl staff, cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch arweinwyr, ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yr egwyddorion cyflogau hyn yn gymwys fel y'u nodir yn y tabl ar dudalennau 107-108.

Mae'r BBC wedi ymestyn ei Fframwaith Llwybr Gyrfa a negodwyd â'r undebau i gynnwys band lefel gyrfa nas negodwyd â'r undebau, a elwir yn SL (uwch arweinwyr). Mae hyn yn cynnwys ystodau cyflog swydd ar gyfer y rhan fwyaf o'r uwch swyddi. Wrth lunio ein polisi ar gyflogau, mae'r Pwyllgor yn ystyried darpariaethau arfer gorau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn llawn.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch arweinwyr yr hawl i gael y codiad cyflog blynyddol y cytunwyd arno â'r Cyd-undebau ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o gynyddran blynyddol na thaliad datblygiad. Dim ond y Pwyllgor Cydnabyddiaeth all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau cyfarwyddwyr gweithredol a dim ond Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch Reolwyr all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau uwch arweinwyr, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

Mae'r BBC wedi ymgymryd â sawl menter yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn gwireddu'r uchelgeisiau a nodir yn y polisi hwn yn llawn. Mae hyn yn cynnwys yr adolygiad blynyddol o gyflog uwch arweinwyr ar gyfer 2017/18 a lleihau'n raddol wahaniaethau hanesyddol o ran dulliau o bennu cyflogau a buddiannau rhwng uwch arweinwyr ac aelodau eraill o'r staff e.e. cynnig lwfans etifeddol yn lle budd yswiriant meddygol preifat.

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
<b>Cyflog sylfaenol</b>	<p>Ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, diffinnir cyflog sylfaenol drwy gyfeirio at ganolrif y farchnad ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliant hirdymor blynyddol). Disgwylir y bydd hyn yn arwain at bennu cydnabyddiaeth dipyn yn is na'r farchnad gan na chynigir unrhyw gymhellion hirdymor yn y BBC.</p> <p>Ar gyfer uwch arweinwyr, caiff ystodau cyflog swydd eu llywio gan benderfyniadau cyflog canllaw cyfanswm arian parod (cyflog sylfaenol, lwfansau a bonws targed) targed canolrifol ar y farchnad.</p> <p>Ni thelir unrhyw uwch arweinydd yn is na'r isafswm ystod cyflog swydd ar gyfer eu rôl, ac mae ystodau cyflog yn dryloyw i'r uwch arweinwyr a gweithlu ehangach y BBC.</p>	<p>Defnyddir y ffactorau canlynol i bennu lefel y cyflog sylfaenol a bennir ar gyfer cyfarwyddwr gweithredol neu uwch arweinydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— Graddfa a chymhlethdod y rôl</li> <li>— Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad</li> <li>— Perfformiad a chyfraniad</li> <li>— Ffactorau'r farchnad a fforddiadwyedd</li> </ul> <p>Caiff cyflogau eu hadolygu'n flynyddol, gyda chodiadau yn weithredol o 1 Awst. Cytunir ar gyllideb ac fe'i dosberthir yn unol â'r ffactorau uchod.</p> <p>Caiff ystodau cyflog swydd ar gyfer uwch arweinwyr eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau yn ôl yr angen.</p>	<p>Dim uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd penodedig i gyfarwyddwyr gweithredol.</p> <p>Mae ystodau cyflog swydd uwch arweinwyr yn cynnwys isafswm ac uchafswm; lle mae unigolion uwchlaw uchafswm eu hystod cyflog am resymau etifeddol neu fasnachol yna ni fydd eu cyflogau'n cynyddu ymhellach.</p>
<b>Tâl amrywiadwy</b>	<p>Mae cyfarwyddwyr gweithredol a rhai uwch arweinwyr sydd wedi'u cyflogi ym musnesau masnachol y BBC yn gymwys i gael bonws blynyddol ar sail perfformiad. Caiff bonysau o'r fath eu hariannu'n gyfan gwbl gan y busnesau masnachol yn hytrach na ffi'r drwydded. Mae'n cynnig gwobr am gyflawni nodau strategol byrdymor a thwf mewn elw.</p>	<p>Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch arweinwyr yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad.</p> <p>Mae taliadau bonws ymhlith busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyflawni targed cyffredinol sy'n seiliedig ar gymysgedd o brif elw a llif arian eu busnes.</p>	<p>Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael bonws ers 2008.</p> <p>Ar gyfer 2018/19, cymerodd un cyfarwyddwr gweithredol – Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios – ran mewn cynllun bonws. Mae gan y cynllun cymhelliant fonws targed o 40% ac uchafswm o 50%.</p>
<b>Buddiannau – Pensiwn</b>	<p>Cynigir pensiynau yn unol â'r trefniadau pensiwn a gynigir i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn ogystal â phensiynau, darperir yswiriant bywyd yn unol â'r trefniadau a ddarperir ar gyfer holl gyflogeion y BBC.</p>	<p>Gall cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch arweinwyr ddewis ymuno â chynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC, sef LifePlan.</p> <p>Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno.</p> <p>Trefnir yswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol.</p>	<p>Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr.</p> <p>Mae aelodau presennol o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensiynadwy.</p>

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
<b>Buddiannau – Lwfans car</b>	<p>Ym mis Ebrill 2012, dilëwyd budd y lwfans car i bob cyfarwyddwr gweithredol newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Dilëwyd budd y lwfans car i uwch arweinwyr yn 2012 i staff newydd sy'n ymuno.</p>	<p>Mae David Jordan yn cael lwfans car etifeddol; ni chaiff unrhyw gyfarwyddwr gweithredol arall lwfans o'r fath.</p> <p>Mae rhai uwch arweinwyr hefyd yn parhau i gael lwfans car etifeddol.</p> <p>Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i ddefnyddio car â gyrrwr ond nid oes ganddo hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Mae'r Cadeirydd yn dilyn yr un trefniadau.</p>	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig gan mai budd hanesyddol ydyw, nad yw wedi cael ei gynnig i staff newydd sy'n ymuno ers 2012.
<b>Buddiannau – Yswiriant Meddygol Preifat</b>	<p>Ym mis Ebrill 2011, gwnaeth y BBC ddileu budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol ac uwch reolwr newydd a chysoni â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn dilyn ymgynghoriad, cytunwyd i ddileu budd yswiriant meddygol preifat i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch arweinwyr o 1 Ebrill 2019.</p>	Y cyfarwyddwyr gweithredol a ddewisodd gael yswiriant meddygol preifat a ariennir yn 2018/19 oedd: Tim Davie, Ken MacQuarrie, Gautam Rangarajan, Charlotte Moore a Francesca Unsworth. Bydd cyfarwyddwyr gweithredol yn cael lwfans etifeddol yn lle yswiriant meddygol preifat o 1 Ebrill 2019.	Yr uchafswm yswiriant a gyni-gir yw yswiriant teuluol. Budd hanesyddol yw hwn.
<b>Contractau cyflogaeth a diswyddo</b>	Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o chwe mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol.	Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.	Os caiff swydd cyfarwyddwr gweithredol ei dileu, mae ganddo hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000.
<b>Cydnabyddiaeth arall</b>	Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall, felly ni chafwyd unrhyw daliadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.	Os cynigir unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol, rhoddir ystyriaeth lawn i'r risg i enw da'r BBC a byddai angen i unrhyw daliad o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth cyn gweithredu.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig.

**Pensiwn**

Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i barhau i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC ('y Cynllun'), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogaion rhwng 4% a 5%. Caiff cyfraniadau cyflogaion rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol. Mae cyfraniadau cyflogaion o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwyr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Talodd y BBC 2% a thalodd cyflogaion 3% o enillion cymwys i NEST yn 2018/19 yn unol â gofynion statudol. Gall unigolion ddewis ymeithrio o hyn.

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwyr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Rhoddir nodweddion trefniadau pensiwn y BBC y mae ein cyfarwyddwyr gweithredol yn rhan ohonynt ochr yn ochr â chyflogaion eraill y BBC yn y tabl isod.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn: [bbc.co.uk/mypension/](http://bbc.co.uk/mypension/)

Cynllun	Cynllun Pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC				Cyfraniad diffiniedig LifePlan	Cyfraniad diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST)
	Hen fuddiannau	Buddiannau newydd	CAB 2006	CAB 2011		
<b>Dyddiad y'i caewyd</b>	30 Medi 1996	31 Hydref 2006	30 Tachwedd 2010	1 Ionawr 2012	Yn agored i bob cyflogai cymwys	Yn agored i bob cyflogai cymwys
<b>Croniad</b>	60fed croniad	60fed croniad	1.67% o groniad Wedi'i addasu yn unol â chwyddiant	1.67% o groniad Wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o gyflog os yw'r cyflogai yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is	Bydd y BBC yn cyfrannu 2% o enillion cymwys (2018/19)
<b>Cyflog</b>	Terfynol pensiynadwy	Terfynol pensiynadwy	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa		
<b>Oedran pensiynadwy arferol</b>	60	60	65	65	Dd/G	Dd/G
<b>Cap ar enillion</b>	Wedi ymuno cyn 1 Mehefin 1989, heb ei gapio, wedi'i gapio fel arall ar £160,800	Wedi'i gapio ar £160,800	Wedi'i gapio ar £160,800	Wedi'i gapio ar £150,600	Heb ei gapio	Isafswm enillion £6,032 y.f. Uchafswm enillion £46,350 y.f. (2018/19)
<b>Twf mewn cyflog pensiynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwyso</b>	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f	Dim cyfyngiad	Dd/G	Dd/G
<b>Cyfraniad y cyflogai (% o gyflog pensiynadwy)</b>	7.50%	7.50%	4%	6%	Isafswm cyfraniad y cyflogai yw 4%	3% o enillion cymwys (2018/19)

# Adroddiad Cydnabyddiaeth Blynyddol Bwrdd y BBC

## Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol – manylion cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Bwrdd y BBC ar gyfer 2018/19. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gyntaf ar 3 Ebrill 2017 fel rhan o'r broses o weithredu Siarter a Chytundeb 2016, a amlinellodd drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y BBC.

Steve Morrison oedd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth tan 31 Gorffennaf 2018; Ymgwymerodd Nicholas Serota â'r rôl hon o 1 Awst 2018. Ceir manylion cadeiryddion pob un o wahanol bwyllgorau'r BBC ar dudalen 98-99. Mae pob cadeirydd yn cael £5,000 y flwyddyn yn ychwanegol at eu ffioedd sylfaenol. Cynhwysir y ffioedd hyn yn y tabl isod. Dangosir pob ffi ar sail pro rata lle y bo'n briodol.

## Bwrdd y BBC

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad dechrau cyfnod y penodiad	Dyddiad gorffen cyfnod y penodiad	Blwyddyn	Ffioedd/ cyflog sylfaenol	Buddiannau trethadwy*	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
<b>Cyfarwyddwyr anweithredol</b>								
David Clementi**	16/02/2017	16/02/2021	2018/19 2017/18	£100 £100	£13 £14	£0 £0	£0 £0	£113 £114
Simon Burke	03/04/2017	03/07/2019	2018/19 2017/18	£38 £37	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £37
Tanni Grey-Thompson	03/04/2017	02/04/2021	2018/19 2017/18	£33 £33	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£33 £33
Ian Hargreaves	03/04/2017	02/04/2020	2018/19 2017/18	£38 £37	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £37
Tom Ilube	03/04/2017	02/04/2020	2018/19 2017/18	£38 £37	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £37
Steve Morrison***	03/04/2017	02/04/2021	2018/19 2017/18	£40 £37	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£40 £37
Nicholas Serota	03/04/2017	02/04/2021	2018/19 2017/18	£36 £33	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£36 £33
Ashley Steel	03/04/2017	02/04/2020	2018/19 2017/18	£38 £33	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £33
Elan Closs Stephens	20/07/2017	19/07/2020	2018/19 2017/18	£38 £23	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £23
<b>Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol</b>			2018/19 2017/18	£399 £370	£13 £14	£0 £0	£0 £0	£412 £384
<b>Cyfarwyddwyr gweithredol</b>								
Tony Hall**	03/04/2017	dd/g****	2018/19 2017/18	£450 £450	£25 £30	£0 £0	£0 £0	£475 £480
Anne Bulford	03/04/2017	31/03/2019	2018/19 2017/18	£435 £435	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£435 £435
Tim Davie*****	03/04/2017	02/04/2021	2018/19 2017/18	£400 £400	£2 £2	£40 £41	£200 £248	£642 £691
Ken MacQuarrie	03/04/2017	02/04/2021	2018/19 2017/18	£325 £250	£2 £2	£0 £0	£0 £0	£327 £252
<b>Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol</b>			2018/19 2017/18	£1,610 £1,535	£29 £34	£40 £41	£200 £248	£1,879 £1,858
<b>Cyfanswm y Bwrdd</b>			2018/19 2017/18	£2,009 £1,905	£42 £48	£40 £41	£200 £248	£2,291 £2,242

\* Buddiannau trethadwy: lwfans car, yswiriant meddygol preifat a threuliau trethadwy eraill.

\*\* Mae gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gael car â gyrrwr ond nid oes ganddynt hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Yn ystod 2017/18 a 2018/19 roedd y trefniadau hyn hefyd ar gael i bob cyfarwyddwr gweithredol arall ar sail rannedig.

\*\*\* Cadeiriodd Steve Morrison y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phwyllgor yr Alban yn ystod y flwyddyn, gan gael ffioedd ychwanegol fel Cadeirydd mewn perthynas â'r ddwy swydd hyn.

\*\*\*\* Mae rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn aelod parhaol o'r Bwrdd.

\*\*\*\*\* Ariennir swydd Tim Davie fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios yn gyfan gwbl gan refferniw masnachol y BBC ac nid yw ffi'r drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdal. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni prif elw ac arian parod cyffredinol i'r is-gwmni hwnnw, gyda thargedau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Mae'r gydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn ymwneud â'r swm a enillwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC ar gyfer 2018/19, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gydnabyddiaeth i'r aelodau a ddangosir isod yn ymwneud â'u cyfnod o wasanaeth ar y Pwyllgor Gweithredol yn unig. Er mwyn cael y symiau blynyddol llawn, cyfeiriwch at yr adran ar Ddatgeliadau ar dudalen 111.

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol ar gyfer 2018/19 wedi cynyddu ers 2017/18, oherwydd y cynnydd yn nifer yr aelodau ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn (15 o aelodau, o gymharu â deg aelod yn 2017/18).

**Aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC**

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad y'i penodwyd i'r Pwyllgor	Blwyddyn	Cyflog sylfaen	Buddiannau trethadwy	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn**	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Tony Hall	02/04/2013	2018/19 2017/18	£450 £450	£25 £30	£0 £0	£0 £0	£475 £480
Anne Bulford	21/06/2013	2018/19 2017/18	£435 £435	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£435 £435
Tim Davie*	01/11/2012	2018/19 2017/18	£400 £400	£2 £2	£40 £41	£200 £248	£642 £691
Ken MacQuarrie	22/09/2016	2018/19 2017/18	£325 £250	£2 £2	£0 £0	£0 £0	£327 £252
Charlotte Moore	06/07/2016	2018/19 2017/18	£370 £333	£2 £2	£32 £36	£0 £0	£404 £371
Clare Sumner***	01/04/2018	2018/19 2017/18	£170 -	£0 -	£17 -	£0 -	£187 -
David Jordan***	01/04/2018	2018/19 2017/18	£171 -	£8 -	£0 -	£0 -	£179 -
Francesca Unsworth	01/01/2018	2018/19 2017/18	£340 £85	£2 £0	£0 £0	£0 £0	£342 £85
Gautam Rangarajan***	01/06/2018	2018/19 2017/18	£146 -	£1 -	£26 -	£0 -	£173 -
Glyn Isherwood***	09/04/2018	2018/19 2017/18	£318 -	£0 -	£0 -	£0 -	£318 -
James Purnell	19/03/2013	2018/19 2017/18	£315 £295	£0 £0	£3 £25	£0 £0	£318 £320
John Shield***	01/04/2018	2018/19 2017/18	£218 -	£0 -	£1 -	£0 -	£219 -
Kerris Bright***	18/06/2018	2018/19 2017/18	£283 -	£0 -	£0 -	£0 -	£283 -
Matthew Postgate	01/04/2016	2018/19 2017/18	£310 £310	£0 £0	£31 £34	£0 £0	£341 £344
Valerie Hughes-D'Aeth	01/08/2014	2018/19 2017/18	£310 £310	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£310 £310
<i>Cydnabyddiaeth sy'n ymwneud â chyn-aelodau'r Pwyllgor Gweithredol****</i>		2017/18	£623	£2	£76	£136	£837
<b>Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol</b>		2018/19 2017/18	£4,561 £3,491	£42 £38	£150 £212	£220 £384	£4,953 £4,125

\* Ariennir swydd Tim Davie fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios yn gyfan gwbl gan refferniw masnachol y BBC ac nid yw ffi'r drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdal. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni prif elw ac arian parod cyffredinol i'r is-gwmni hwnnw, gyda thargedau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

\*\* Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a berthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno. Yn gyffredinol, cyfrifir y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronodig dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwyr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr. Dangosir hyn yn fanwl hefyd yn y tabl hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig.

\*\*\* Ymunodd John Shield, Clare Sumner a David Jordan â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Ebrill 2018, ac ymunodd Gautam Rangarajan â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Mehefin 2018. Felly, ni nodir unrhyw ffigurau ar gyfer y cyfnod 2017/18; Penodwyd Glyn Isherwood i'r BBC ym mis Ebrill 2018 a phenodwyd Kerris Bright ym mis Mehefin 2018 ac felly ni chawsant unrhyw gydnabyddiaeth yn 2017/18.

\*\*\*\* Mae'r gydnabyddiaeth yn ymwneud â Mark Linsey a James Harding, a ymddiswyddodd o'r Pwyllgor Gweithredol yn ystod 2017/18.



**Cyfanswm cydnabyddiaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol**

Bu cynnydd yng nghyfanswm y gydnabyddiaeth flynyddol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn 2018/19, yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn 2018/19 i 15 o aelodau (deg gynt yn 2017/18).

Cyfanswm y gydnabyddiaeth (gwerthoedd mewn £000oedd)	2018/19	2017/18
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol (gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol y Bwrdd)	<b>£4,953</b>	£4,125
Cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd	<b>£412</b>	£384
Cyfanswm cydnabyddiaeth flynyddol	<b>£5,365</b>	£4,509

**Hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig (gwerthoedd mewn £000oedd)**

	Oedran ar 31 Mawrth 2019	Adran	Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 (neu ymddeol/ gadael y Bwrdd os yw'n gynharach)	Pensiwn cronedig 1 Ebrill 2018 (neu ymuno â'r Bwrdd os ar ôl hynny)	Cyfraniadau BD Cyfarwyddwr (drwy drefniant aberthu cyflog) 2018/19	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn
Tim Davie	51	CAB 2011	18	15	9	40
Charlotte Moore	50	Buddiannau newydd	31	28	11	32
Matthew Postgate	44	Buddiannau newydd	35	32	11	31
Francesca Unsworth	61	Hen fuddiannau	117	114	9	0
Gautam Rangarajan	47	CAB 2011	17	15	8	26

**Nodiadau:**

Mae Tim Davie yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran buddiannau newydd ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Ymunodd Charlotte Moore â'r BBC ar 1 Mai 2006. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei phenodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Ymunodd Matthew Postgate â'r BBC ar 1 Mehefin 2005. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Ymunodd Francesca Unsworth â'r BBC yn 1983. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei phenodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Ymunodd Gautam Rangarajan â'r BBC yn 1993 ac fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr gweithredol ar 1 Mehefin 2018. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr gweithredol. Mae'n aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw pensiwn gohiriedig yn yr hen adran buddiannau ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

**Cyfog cymharol drwy'r BBC cyfan**

Yn 2011, cytunodd y BBC o'i wirfodd i nodi lluosrif yr enillion uchaf o'i gymharu â'r enillion gwasanaeth cyhoeddus canolrifol fel y cynigiwyd yn adroddiad Hutton 'Fair Pay in the Public Sector'. Ers 2011, mae'r BBC wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn yn flynyddol.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol o'u cymharu ag enillion canolrifol staff y BBC ac enillion cyfarwyddwyr gweithredol o'u cymharu â ffigurau enillion canolrifol ers 2011. Mae'r grŵp sampl ar gyfer grŵp y cyfarwyddwyr gweithredol wedi newid ers 2017/18 yn sgil ehangu aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol yn 2018/19.

Mae canolrif staff y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi newid o 10.7 i 10.2 yn 2018/19.

	2019	2018	2017	2016	2015	2014	2013	2012	2011
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	<b>10.2</b>	10.7	10.2	10.4	10.7	10.9	11	16.5	16.8
Enillion canolrifol y cyfarwyddwyr gweithredol	<b>7.0</b>	7.7	7.7	8.19	8.2	8.2	8.1	8.7	8.9

**Nodiadau:**

Mae'r cyfrifiad o enillion yn cynnwys: cyfog sylfaenol, bonws, lwfansau sy'n parhau, goramser a lwfansau eraill nad ydynt yn parhau. Cyfrifir ffigurau enillion canolrifol drwy ddefnyddio cyflogau blynyddol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr gweithredol.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide na Phrif Swyddog Gweithredol BBC Studios yr ariennir eu rolau yn gyfan gwbl gan weithrediadau masnachol y BBC.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i enillion arian parod y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2018/19 o'u cymharu â'r newid yn enillion canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod. Ni fu unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 2018/19.

	2018/19 (gwerthoedd mewn £000oedd)	Newid ers 2017/18
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	<b>£450</b>	0%
Enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan	<b>£44</b>	5%

**Taliadau diswyddo**

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

**Buddiannau allanol**

Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau Gweithredol y BBC ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC.

Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol, ond rhaid cymeradwyo hynny'n ffurfiol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy nag un neu ddau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan un cyfarwyddwr gweithredol swydd cyfarwyddwr allanol arall â chydabyddiaeth, lle ildwyd ffioedd.

**Busnesau masnachol y BBC**

Yn ystod 2018/19, roedd gan y BBC staff a gyflogwyd gan dri phrif is-gwmni masnachol:

- BBC Studios
- BBC Studioworks
- BBC Global News

Mae cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol yn ddarostyngedig i brosesau llywodraethu a chymeradwyo'r BBC. Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol cytundebol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol a'r bonws blynyddol eu hunanariannu gan refferiw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalw drwy ffi'r drwydded.

**Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios**

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo'r ffordd y mae Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios wedi'i lunio a'i alldro. Adeiladwyd cynllun 2018/19 ar ddau fesur allweddol:

- EBITDA, wedi'i bwysoli 66.6%; a
- Llif arian parod rhydd, wedi'i bwysoli ar 33.3%.

Pennir targedau er mwyn sicrhau bod strategaeth fusnes hirdymor BBC Studios yn cael ei chyflawni, ac ar gyfer 2018/19 roeddent yn cynnwys 5% o dwf fel targed, a 10% o dwf fel uchafswm.

Mae pob ffigur isod mewn £ miliynau.

	Trothwy	Targed	Uchafswm
EBITDA	£144	£151	£158
Llif arian parod rhydd	£110	£116	£127

Mae cyfranogiad wedi'i gyfyngu i uwch rolau mewn meysydd masnachol allweddol, gyda chanrannau trothwy, targed ac uchafswm yn cael eu pennu yn ôl gradd. Ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios, mae cyflawni'r targedau uchod yn arwain at y taliadau unigol canlynol, yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac yn amodol ar ei gymeradwyaeth:

	Trothwy	Targed	Uchafswm
Bonws fel % o'r cyflog	16%	40%	50%

**Canlyniadau 2018/19**

Ar gyfer 2018/19, asesodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth fod alldro bonws BBC Studios yn uwch na hynny am fod BBC Studios wedi rhagori ar y targedau ar gyfer EBITDA a llif arian rhydd yn 2018/19. Arweiniodd hyn at daliad bonws o 50% (£200,000) i Brif Swyddog Gweithredol BBC Studios mewn perthynas â pherfformiad yn ystod y flwyddyn.

# Datgeliadau cyflogau

Rhaniad a ragwelir o 55:45 rhwng dynion a merched o ran talent ar yr awyr yn 2019/20

20% o gynrychiolaeth BAME wedi'i chyflawni

Lleihad yn nifer y dynion sy'n ennill dros £500k

## 2018/19 – cyflawni ein hymrwymiaidau

Y llynedd, cyhoeddwyd ein hail restr o ddatgeliadau, a oedd yn dangos pob un y talwyd mwy na £150,000 iddynt o gronfeydd ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn, yn unol â gofynion ein Siarter. Wrth wneud hynny, buom yn fwy tryloyw o ran lefelau cyflogau – gan ddefnyddio bandiau o £10,000 yn hytrach na £50,000 a chynnwys dadansoddiad o waith cyffredinol pob unigolyn – a nodwyd cipolwg hefyd o'r ffordd roeddem yn disgwyl i'r rhestr newid yn ystod 2018/19. Roedd hyn yn cynnwys targedau uchelgeisiol i wella ymhellach gyfuniad a chydbwysedd ein talent ar yr awyr sy'n ennill y cyflogau uchaf yn y gwasanaeth cyhoeddus.

Eleni, cyhoeddwyd ein trydedd restr sy'n dangos ein bod wedi gwneud cynnydd cadarn yn erbyn yr uchelgeisiau hynny:

- rydym wedi cyflawni'r holl dargedau a ragwelwyd ar gyfer ein hunain y flwyddyn ddiwethaf, gyda'n cydbwysedd rhwng y rhywiau yn dangos rhaniad o 60:40 rhwng y rhywiau dros y flwyddyn, o gymharu â 76:24 yn 2016/17, ac mae lefelau BAME ar y rhestr wedi cynyddu i 20%;
- rydym hyd yn oed yn fwy tryloyw yn gyffredinol ar ôl newid i fandiau o 5,000, yn unol ag argymhelliad Will Hutton yn ei adolygiad o dryloywder;
- mae ein cipolwg ar gyfer ein sefyllfa heddiw yn dangos y byddwn yn gwneud mwy o gynnydd sylweddol o ran yr hyn y byddwn yn ei gyflawni ar ddiwedd 2019/20, gyda rhaniad rhagamcanol rhwng y rhywiau o 55:45 ym mis Mehefin 2019.

Dengys y data i ba raddau y mae'r BBC wedi gwella cynrychiolaeth menywod ymhlith ein sêr ar yr awyr sy'n ennill y cyflogau uchaf – trawsnewid mawr o'r rhaniad o 74:26 a welwyd pan gyhoeddwyd y data am y tro cyntaf ddwy flynedd yn ôl ar gyfer 2016/17. Ynghyd â'n lleihad sylweddol pellach yn y bwllch cyflog rhwng y rhywiau eleni (gweler [bbc.com/aboutthebbc/reports/reports](http://bbc.com/aboutthebbc/reports/reports) am ragor o fanylion) a'n prosiect 50:50 arloesol sy'n newid golwg a naws ein darpariaeth ar bob lefel – nid dim ond yr ychydig rai sy'n ennill y cyflogau uchaf – mae'r newidiadau hyn yn adrodd stori glir am BBC sy'n ymrwymedig i sicrhau cyflog teg a chymryd camau cyn y rhan fwyaf o ddiwydiant y cyfryngau a'r DU gyfan.

## Canlyniadau 2018/19

Ar y tudalennau canlynol, rhown fanylion yr unigolion hynny a gafodd dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded. O dan y Siarter, mae'n ofynnol i gyhoeddi'r symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn, i'r unigolion hyn, wedi'u nodi mewn bandiau. Fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn, rydym yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad hwnnw drwy gyhoeddi mwy o fanylion am y gwaith y mae unigolion ar yr awyr, yn arbennig, wedi'i wneud am eu cydnabyddiaeth.

Mae'n werth nodi ein bod yn gweithredu mewn marchnadoedd hynod gystadleuol, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, fel y dangoswyd gan ymadawiad rhai unigolion proffil uchel yn ddiweddar. Mae hyn yn arbennig o wir yn rhai o farchnadoedd y cyfryngau lle rydym yn cystadlu am dalent creadigol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, lle mae lefelau chwyddiant cyflogau yn llawer uwch na chanolrif y DU sef 3%. Mae'r pwysau hyn, ynghyd â'r pwynt mynediad sefydlog o £150,000 ar y rhestr a'r cyfnod hir o gyfyngu ar gyflogau i uwch arweinwyr ers 2009, yn awgrymu y bydd rhagor o unigolion yn ymddangos ar y rhestrau hyn dros amser. Pe bai'r trothwy ar gyfer cynnwys ar y rhestr yn gysylltiedig â chwyddiant, byddem yn disgwyl i'r niferoedd ar y rhestr fod yn wastad dros amser. Serch hynny, fel mewn blynyddoedd blaenorol, byddwn yn parhau i fonitro cyfanswm bil cyflogau uwch arweinwyr ac unigolion ar yr awyr a cheisio ei leihau'n gyffredinol.

## Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella'r cydbwysedd yn y rhestrau hyn – mae ein cipolwg yn dangos ein bod yn anelu at raniad o 55:45 rhwng dynion a menywod yn ystod 2019/20 ar gyfer rolau ar yr awyr a byddwn yn parhau i ymgyrraedd at ddsbarthiad cyfartal. Byddwn hefyd yn parhau i anelu at sicrhau bod talent BAME yn cyfrif am o leiaf 20% o'r rhestr.

Drwy ragamcanu cyflogau ar gyfer 2019/20, rydym yn gwneud rhai tybiaethau ynghylch y patrwm gwaith dros y naw mis sydd i ddod. Rydym wedi dibynnu ar ymrwymiaidau cytundebol, data ar gyflogau o fis Mehefin 2019 ac unrhyw newidiadau a gyhoeddwyd i raglenni, rolau ac amserlenni. O ystyried natur amodol y data hyn sy'n rhoi cipolwg ar y sefyllfa, nid yw'r tabl hwn wedi cael ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ond mae wedi bod yn destun gweithdrefnau sicrwydd archwilio mewnol.

**Adroddiad gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y BBC ar y bobl a gafodd eu talu dros £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol**

O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi enwau'r unigolion hynny sy'n gweithio i'r BBC sy'n cael eu talu dros £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Dan-gosir y rhain fesul categori: Newyddion, Radio, Chwaraeon, a chyflwynwyr sy'n gweithio'n rheolaidd ar draws sawl rhan o'r BBC gan gynnwys Teledu. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn cynnwys taliadau o reffeniw ffi'r drwydded a wnaed i unigolion o dan gontract am wasanaethau. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano, symiau a dalwyd na buddsoddiadau mewn rhaglenni a wnaed gan ein hen-didau masnachol – er enghraifft BBC Studios. Hefyd, ni chaiff taliadau a wnaed gan gynhyrchwyr annibynnol, breindaliadau, ffioedd ailddarlledu, symiau cytundebol a symiau adenilladwy eraill na threuliau eu cynnwys. Nodir ymrwymadau rhaglenni ar sail ymrwymadau cytundebol neu batrymau gwaith eraill, ac maent wedi'u datgan i'r 10 agosaf. Mae'r rhain wedi'u datgelu'n gyson ar gyfer pob prif raglen neu genre. Ni chaiff rhi-fynnau unigol eu cynnwys, oni fydd hyn yn cyfrif am ran sylweddol o waith unigolyn.

**Crynodeb o'r dalent ar yr awyr a gafodd ei thalu dros £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded, gan gynnwys rhagolwg 2019/20**

	2017/18		2018/19		Cipolwg ar 2019/20	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
<b>Dynion</b>						
£150,000 – £199,999	16		16		15	
£200,000 – £299,999	11		16		15	
£300,000 – £399,999	3		7		5	
£400,000 – £499,999	7		3		4	
£500,000+	5		3		2	
<b>Menywod</b>						
£150,000 – £199,999	12		13		15	
£200,000 – £299,999	8		13		12	
£300,000 – £399,999	2		4		3	
£400,000 – £499,999	–		–		2	
£500,000+	–		–		1	
<b>Cyfansymiau</b>						
Cyfanswm Dynion	42	66%	45	60%	41	55%
Cyfanswm Menywod	22	34%	30	40%	33	45%
<b>Cyfanswm</b>	<b>64</b>	<b>100%</b>	<b>75</b>	<b>100%</b>	<b>74</b>	<b>100%</b>
Yn BAME	10	16%	15	20%	14	19%

**Tablau cyflog manwl am dalent ar yr awyr**

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
<b>Newyddion a Materion Cyfoes</b>			
<i>Today</i>	Nick Robinson	Tua 140 rhaglen Tua 55 pennod o <i>Political Thinking</i> 1 bennod <i>Panorama</i> a <i>NHS at 70</i> Rhaglenni Newyddion Arbennig	£290,000 – £294,999
	John Humphrys	Tua 140 rhaglen	
	Mishal Husain	Tua 100 rhaglen Tua 40 diwrnod ar gyfer bwletinâu BBC News 12 pennod o <i>From Our Home Correspondent</i>	£255,000 – £259,999
	Martha Kearney	Tua 140 rhaglen	£245,000 – £249,999
	Justin Webb	Tua 150 rhaglen	
<i>World at One</i>	Sarah Montague	Tua 140 rhaglen Tua 10 pennod o <i>HARDtalk</i>	£240,000 – £244,999
<i>PM</i>	Evan Davis	Tua 70 rhaglen Tua 60 diwrnod ar gyfer <i>Newsnight</i> <i>The Bottom Line</i> ar Radio 4	£275,000 – £279,999
	Eddie Mair	Tua 70 rhaglen	£155,000 – £159,999

Prifraglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
<i>BBC News at Six</i> a <i>BBC News at Ten</i>	Huw Edwards	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One a'r BBC News Channel Etholiadau a Rhaglenni Newyddion Arbennig	£490,000 – £494,999
	George Alagiah	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£315,000 – £319,999
	Sophie Raworth	Tua 150 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£265,000 – £269,999
<i>Question Time</i>	Fiona Bruce	Tua 100 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One Tua 10 pennod o <i>Question Time</i>	£255,000 – £259,999
<i>The Andrew Marr Show</i>	Andrew Marr	Tua 40 rhaglen Tua 20 pennod o <i>Start the Week</i> Rhaglenni dogfen y BBC	£390,000 – £394,999
<i>Newsnight</i>	Emily Maitlis	Tua 120 o ddiwrnodau ar gyfer <i>Newsnight</i>	£260,000 – £264,999
<i>Victoria Derbyshire</i>	Victoria Derbyshire	Prif gyflwynwydd ar <i>Victoria Derbyshire</i>	£215,000 – £219,999
Sianel BBC News	Clive Myrie	BBC News Channel, a bwletinau a gwaith lleoliad BBC One	£200,000 – £204,999
	Reeta Chakrabarti	BBC News Channel, a bwletinau a gwaith lleoliad BBC One	£170,000 – £174,999
	Ben Brown	BBC News Channel, a bwletinau a gwaith lleoliad BBC One	£165,000 – £169,999
	Jane Hill	BBC News Channel, a bwletinau a gwaith lleoliad BBC One	£155,000 – £159,999
	Joanna Gosling	Bwletinau BBC News Channel a BBC One Cyflenwi ar gyfer <i>Victoria Derbyshire</i>	£150,000 – £154,999
Newyddion Radio'r BBC	Tina Daheley	Radio 2 Breakfast Show, <i>Newsbeat</i> a <i>Beyond Today</i> Bwletin BBC One a chyflenwi ar gyfer <i>BBC Breakfast</i> , Tua 40 pennod o <i>The Cultural Frontline</i> 1 bennod o <i>Panorama</i> Cyflenwi ar gyfer <i>Woman's Hour</i>	£185,000 – £189,999
<i>BBC Breakfast</i>	Louise Minchin	Tua 180 rhaglen <i>Triathlon: World Series</i>	£205,000 – £209,999
	Naga Munchetty	Tua 180 rhaglen	£190,000 – £194,999
	Charlie Stayt	Tua 180 rhaglen	
Golygyddion ar yr awyr a gohebwy	Laura Kuenssberg	Golygydd Gwleidyddol	£250,000 – £254,999
	Jon Sopel	Golygydd Gogledd America	£240,000 – £244,999
	Jeremy Bowen	Golygydd y Dwyrain Canol	£215,000 – £219,999
	Amol Rajan	Golygydd y Cyfryngau Tua 40 pennod o <i>The Media Show</i> ; tua 10 pennod o <i>Start the Week</i> a chyflenwi ar BBC Radio 2 Rhaglenni Dogfen Teledu a Radio'r BBC	£210,000 – £214,999
	Katya Adler	Golygydd Ewrop	£205,000 – £209,999
	Fergal Keane	Golygydd Affrica	£195,000 – £199,999
	Mark Easton	Golygydd Cartref	£180,000 – £184,999
	James Naughtie	Cyflwynydd a Gohebydd	£170,000 – £174,999
	Simon Jack	Golygydd Busnes	
	John Pienaar	Dirprwy Olygydd Gwleidyddol a <i>Pienaar's Politics</i>	£160,000 – £164,999
	Sarah Smith	Golygydd yr Alban a <i>Sunday Politics</i>	
	Orla Guerin	Gohebydd Rhyngwladol	

Prif raglen	Enw	Ymrwymiadau raglen	Cyflog
<b>Radio</b>			
BBC Radio 1	Nick Grimshaw	Tua 80 pennod o <i>Breakfast Show</i> Radio 1 Tua 110 pennod o <i>Drivetime Show</i> Radio 1 <i>Biggest Weekend</i> a darlledu o wyliau	£310,000 – £314,999
	Scott Mills	Tua 210 pennod o <i>The Scott Mills Show</i> Cyflenwi ar gyfer Rhaglen Frecwast Radio 1 <i>Biggest Weekend</i> a darlledu am wyliau <i>Eurovision Song Contest</i>	£285,000 – £289,999
	Greg James	Tua 120 pennod o <i>Breakfast Show</i> Radio 1 Tua 60 pennod o <i>Drivetime Show</i> Radio 1 <i>Radio 1 Teen Awards</i> <i>Biggest Weekend</i> a darlledu am wyliau	£225,000 – £229,999
	Annie Mac	Tua 220 pennod o <i>The Annie Mac Show</i> <i>Biggest Weekend</i> a darlledu am wyliau	£180,000 – £184,999
	Clara Amfo	Tua 200 pennod o Raglen Canol Bore Radio 1	£150,000 – £154,999
BBC Radio 2	Chris Evans	Tua 150 pennod o <i>The Chris Evans Breakfast Show</i>	£1,250,000 – £1,254,999
	Steve Wright	Tua 230 pennod o <i>Steve Wright in the Afternoon</i> Tua 50 pennod o <i>Sunday Love Songs</i>	£465,000 – £469,999
	Zoe Ball	Tua 30 pennod o <i>The Zoe Ball Breakfast Show</i> Tua 40 pennod o <i>Saturday Afternoon Show</i> Radio 2	£370,000 – £374,999
	Jeremy Vine	Rhaglen Ddyddiol ar Radio 2	£290,000 – £294,999
	Ken Bruce	Tua 220 pennod o Raglen Canol Bore Radio 2 Tua 10 pennod o <i>Friday Night is Music Night</i> <i>Eurovision Song Contest</i>	£280,000 – £284,999
	Jo Whiley	Tua 150 pennod o <i>Drivetime Show</i> Radio 2 Tua 50 pennod o Raglen Gyda'r Nos Radio 2	£270,000 – £274,999
	Simon Mayo	Tua 150 pennod o <i>Drivetime Show</i> Radio 2 Tua 40 pennod o <i>Kermode and Mayo</i> ar 5 live	£245,000 – £249,999
	Sara Cox	Tua 100 pennod o Raglen Hwyrnos Radio 2 Tua 50 pennod o <i>Drivetime Show</i> Radio 2 Cyflenwi ar gyfer <i>Breakfast Show</i> Radio 2 Tua 10 pennod o <i>Sounds of the 80s</i>	£235,000 – £239,999
	Trevor Nelson	Tua 80 pennod o <i>Rhythm Nation</i> Tua 80 rhaglen ar y Penwythnos ar 1Xtra	£165,000 – £169,999
	BBC Radio 5 live	Nicky Campbell	Tua 200 pennod o <i>Breakfast Show</i> 5 live Tua 200 pennod o <i>Your Call</i>
Adrian Chiles		Tua 40 pennod o <i>Chiles on Friday</i> Tua 40 pennod o <i>Question Time Extra Time</i> Tua 20 o raglenni eraill ar 5 Live 1 bennod o <i>Panorama</i> <i>Christine and Adrian's Friendship Test</i>	£180,000 – £184,999
Nihal Arthanayake		Tua 190 pennod o Raglen Prynawn Cynnar 5 live Tua 40 pennod o <i>The Big Debate</i> ar Asian Network Cyflenwi ar gyfer Radio 6 Music	£175,000 – £179,999
Rachel Burden		Tua 230 pennod o <i>Breakfast Show</i> 5 live Cyflenwi ar gyfer <i>BBC Breakfast</i> a <i>Your Call</i>	£170,000 – £174,999
Dotun Adebayo		Tua 160 pennod o <i>Up All Night</i> Tua 190 pennod o <i>The Late Light Show</i> ar Radio London Tua 50 pennod o <i>Dotun on Sunday</i> ar Radio London.	£150,000 – £154,999

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau raglen	Cyflog
BBC 6 Music	Lauren Laverne	Tua 140 pennod o Raglen Canol Bore 6 Music Tua 60 pennod o <i>Breakfast Show</i> 6 Music Tua 40 pennod o <i>Recommends</i> Tua 30 pennod o <i>Desert Island Discs</i> ar Radio 4	£305,000 – £309,999
	Shaun Keaveny	Tua 160 pennod o <i>Breakfast Show</i> 6 Music Tua 50 pennod o Raglen Brynhawn 6 Music	£160,000 – £164,999
Gorsafodd gwahanol	Vanessa Feltz	Tua 200 pennod o <i>Early Breakfast Show</i> Radio 2 Tua 20 pennod o <i>Breakfast Show</i> Radio London Cyflenwi ar gyfer Radio 2	£355,000 – £359,999
	Stephen Nolan	Tua 210 pennod o <i>The Nolan Show</i> ar Radio Ulster Tua 20 pennod o <i>Nolan Live</i> ar BBC 1 (NI) Tua 120 pennod o Raglenni Hwyrnos ar 5 live	£325,000 – £329,999
	Mark Radcliffe	Tua 200 pennod o <i>Radcliffe and Maconie</i> Tua 50 pennod o <i>The Folk Show</i>	£155,000 – £159,999
<b>Chwaraeon</b>			
Pêl-droed dynion	Gary Lineker	<i>Match of the Day</i> : Uwch Gyngghair Lloegr a Chwpan y FA <i>Sports Personality of the Year</i>	£1,750,000 – £1,754,999
	Alan Shearer	<i>Match of the Day</i> : Uwch Gyngghair Lloegr a Chwpan y FA Cwpan y Byd FIFA	£440,000 – £444,999
	Jermaine Jenas	<i>Match of the Day</i> : Uwch Gyngghair Lloegr a Chwpan y FA Cwpan y Byd FIFA	£210,000 – £214,999
	Ian Wright	<i>Match of the Day</i> : Uwch Gyngghair Lloegr a Chwpan y FA 5 live Sport	£205,000 – £209,999
Criced	Jonathan Agnew	Cyfresi prawf rhyngwladol, un diwrnod ac ugain pelawd Gohebydd Criced y BBC	£170,000 – £174,999
Tenis	Sue Barker	Wimbledon, Queen's, Rowndiau Terfynol Taith y Byd yr ATP Twrnamaint Agored Awstralia <i>Sports Personality of the Year</i>	£195,000 – £199,999
	John McEnroe	Wimbledon	£190,000 – £194,999
Gwahanol gampau	Gabby Logan	Athletau <i>Premier League Show</i> , Cwpan y Byd FIFA a pêl-droed arall Gemau Rygbi Rhyngwladol yr Hydref a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad Gemau'r Gymanwlad Twrnameintiau Chwaraeon Ewropeaidd <i>Sports Personality of the Year</i>	£290,000 – £294,999
	Mark Chapman	Penodau o 5 live Sport ddwywaith yr wythnos Uchafbwyntiau wythnosol o'r Uwch Gyngghair a <i>MOTD 2 Extra</i> Rygbi'r Gyngghair Cwpan y Byd FIFA NFL	£230,000 – £234,999
	Clare Balding	Gemau'r Gymanwlad Wimbledon Twrnameintiau Chwaraeon Ewropeaidd Marchogaeth <i>Sports Personality of the Year</i>	£175,000 – £179,999

**Genres gwahanol a Theledu**

Mae nifer fach o unigolion sydd â chydbertnasau aml-flwyddyn â chomisynu'r BBC eisoes. Nid yw taliadau gan BBC Studios wedi eu cynnwys yn y datgeliad, ac efallai y cânt daliadau gan gynhyrchwyr annibynnol hefyd. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn cynnwys cyflwynwyr sy'n treulio bron 50% o'u hamser mewn mwy nag un maes o blith Teledu, Radio, Newyddion a Chwaraeon.

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Teledu	Mary Berry	Ffi Teledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£195,000 – £199,999
Radio a Chwaraeon	Jason Mohammad	Rhaglen Ddyddiol ar Radio Wales Rhaglenni wythnosol ar 5 live <i>Final Score</i> , Cwpan y Byd FIFA a phêl-droed arall Snwcer Gemau'r Gymanwlad <i>Good Morning Sunday</i> ar Radio 2	£355,000 – £359,999
Newyddion a Chwaraeon	Dan Walker	<i>Football Focus</i> a Chwpan y Byd FIFA <i>BBC Breakfast</i>	£280,000 – £284,999
Radio a Theledu	Graham Norton	Sioe wythnosol ac eitemau arbennig ar Radio 2 Ffi Teledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£610,000 – £614,999
	Claudia Winkleman	Sioe wythnosol ar Radio 2 Ffi Teledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£370,000 – £374,999

**Uwch swyddogion gweithredol**

Rydym eisoes yn cyhoeddi cyflog a threuliau yr holl uwch arweinwyr sy'n ennill dros £150,000 yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC ar ein gwefan. O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n rhestru'r holl uwch swyddogion gweithredol yn y BBC sydd wedi cael eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw bethau y gellir ailgodi tâl amdanynt na symiau a dalwyd o'n hendidau masnachol.

Cyflog	Enw	Rôl
<b>Cyfarwyddwr Cyffredinol</b>		
£450,000 – £454,999	Tony Hall	Cyfarwyddwr Cyffredinol
<b>Pwyllgor Gweithredol</b>		
£370,000 – £374,999	Charlotte Moore	Cyfarwyddwr, Cynnwys
£340,000 – £344,999	Francesca Unsworth	Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes
£325,000 – £329,999	Ken MacQuarrie	Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau
£315,000 – £319,999	Glyn Isherwood	Prif Swyddog Ariannol
£310,000 – £314,999	Valerie Hughes-D'Aeth	Prif Swyddog Adnoddau Dynol
	Matthew Postgate	Prif Swyddog Technoleg a Chynhyrchion
£305,000 – £309,999	James Purnell	Cyfarwyddwr Radio ac Addysg
£280,000 – £284,999	Kerris Bright	Prif Swyddog Cwsmeriaid
£275,000 – £279,999	Bob Shennan	Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp
£270,000 – £274,999	Sarah Jones	Cwnsler Cyfreithiol y Grŵp
£225,000 – £229,999	John Shield	Cyfarwyddwr, Cyfathrebu a Materion Corfforaethol
£175,000 – £179,999	David Jordan	Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol
£170,000 – £174,999	Clare Sumner	Cyfarwyddwr Polisi
	Gautam Rangarajan	Cyfarwyddwr Strategaeth

**Swyddogaethau Corfforaethol**

£325,000 – £329,999	Bal Samra	Cyfarwyddwr Masnachol y Grŵp
£210,000 – £214,999	Shirley Cameron	Rheolwr Ariannol y Grŵp
£205,000 – £209,999	Dale Haddon	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Balram Veliath	Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd
£200,000 – £204,999	Gillian Taylor	Cyfarwyddwr Gwobrwyo
£195,000 – £199,999	Anna Gronmark	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Newyddion a Materion Cyfoes



Cyflog	Enw	Rôl
£190,000 – £194,999	Joe Godwin	Cyfarwyddwr Academi
	Peter Ranyard	Cyfarwyddwr, Materion Cyfreithiol Corfforaethol
£175,000 – £179,999	Noel Scotford	Cyfarwyddwr Systemau Adnoddau Dynol a Dadansoddeg Busnes
£170,000 – £174,999	Rachel Currie	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cynnwys, Radio ac Addysg
	Claudia Giles	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Chris Rowsell	Pennaeth Rheoleiddio
£165,000 – £169,999	Phil Harrold	Ysgrifennydd Cwmni
	Wendy Aslett	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Gwledydd a'r Rhanbarthau
£160,000 – £164,999	Claire Paul	Uwch Bennaeth Arweinyddiaeth a Datblygu
	Sarah Gregory	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Adnoddau Dynol
	Catherine Hearn	Cyfarwyddwr Adnoddau
£155,000 – £159,999	Isabel Begg	Pennaeth Masnachol Hawliau a Materion Busnes
	Tim Cavanagh	Cyfarwyddwr, Gweithle
	Alexis Hawkes	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Pipa Doubtfire	Cyfarwyddwr Rheoli Refeniw
£150,000 – £154,999	Alan Bainbridge	Cyfarwyddwr Eiddo Tirol Corfforaethol
	Jessica Cecil	Cyfarwyddwr
<b>Dylunio a Pheirianeg</b>		
£210,000 – £214,999	Matt Grest	Cyfarwyddwr Llwyfannau
£200,000 – £204,999	Stuart Page	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau
	Robin Pembroke	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau
£190,000 – £194,999	Chris Condon	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau
£185,000 – £189,999	Kieran Clifton	Cyfarwyddwr Dosbarthu a Datblygu Busnes
	Jatin Aythora	Prif Bensaer
	Andy Baker	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Peirianyddol
£180,000 – £184,999	Andy Conroy	Rheolwr Ymchwil a Datblygu
	Gary Payne	Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth
£165,000 – £169,999	Sarah Hayes	Cyfarwyddwr Archifau'r BBC
£160,000 – £164,999	Richard Cooper	Rheolwr Dosbarthu Digidol
	Andrew Kaczor	Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau
	Mike Ford	Cyfarwyddwr Rhaglenni
£155,000 – £159,999	Claire Hetherington	Pennaeth Cynnyrch
£150,000 – £154,999	John Parrott	Pennaeth Pensaerniaeth
<b>Marchnata a Chynulleidfaoedd</b>		
£170,000 – £174,999	Nick North	Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd
	Justin Bairamian	Cyfarwyddwr BBC Creative
<b>Y Gwledydd a'r Rhanbarthau</b>		
£240,000 – £244,999	Ian Haythornthwaite	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu
£180,000 – £184,999	Donalda MacKinnon	Cyfarwyddwr yr Alban
	Rhodri Talfan Davies	Cyfarwyddwr Cymru
£175,000 – £179,999	Peter Johnston	Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon
£150,000 – £154,999	Chris Burns	Uwch Bennaeth Comisiynu Radio Lleol
	Steve Carson	Uwch Bennaeth Comisiynu Aml-Lwyfan

## DATGELIADAU CYFLOGAU

Cyflog	Enw	Rôl
<b>Cynnwys</b>		
£245,000 – £249,999	Piers Wenger	Rheolwr, Comisiynu Drama
£215,000 – £219,999	Dan McGolpin	Rheolwr, iPlayer a Rhaglennu
	Alison Kirkham	Rheolwr, Comisiynu Ffeithiol
	Barbara Slater	Cyfarwyddwr Chwaraeon
	Shane Allen	Rheolwr, Comisiynu Comedi
	Patrick Holland	Rheolwr BBC Two a BBC Four
£210,000 – £214,999	Kate Phillips	Rheolwr, Comisiynu Adloniant
£205,000 – £209,999	Rose Garnett	Cyfarwyddwr, Ffilmiau'r BBC
£175,000 – £179,999	Lucy Richer	Uwch Olygydd Comisiynu, Drama
	Tom McDonald	Pennaeth Comisiynu Ffeithiol Arbenigol
£170,000 – £174,999	Cassian Harrison	Golygydd Sianel, BBC Four
	Philip Bernie	Pennaeth Chwaraeon ar y Teledu
£165,000 – £169,999	Fiona Campbell	Rheolwr, BBC Three
£160,000 – £164,999	David Brindley	Pennaeth Comisiynu Ffeithiol Poblogaidd
£155,000 – £159,999	Clare Sillery	Pennaeth Comisiynu Ffeithiol Rhaglenni Dogfen
£150,000 – £154,999	Jo Wallace	Uwch Olygydd Comisiynu, Adloniant
<b>Newyddion a Materion Cyfoes</b>		
£205,000 – £209,999	Kamal Ahmed	Cyfarwyddwr Golygyddol
£195,000 – £199,999	Jamie Angus	Cyfarwyddwr Grŵp World Service
	Alan Dickson	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu
£175,000 – £179,999	Jonathan Munro	Pennaeth Casglu Newyddion
£170,000 – £174,999	Mary Hockaday	Rheolwr World Service Saesneg
	Gavin Allen	Pennaeth Rhaglenni Newyddion
£165,000 – £169,999	Sarah Ward-Lilley	Golygydd Rheoli
£155,000 – £159,999	Joanna Carr	Pennaeth Materion Cyfoes
	James Gray	Dirprwy Bennaeth Materion Cyfoes
£150,000 – £154,999	Jon Zilkha	Uwch Gyfarwyddwr Prosiect
<b>Radio ac Addysg</b>		
£210,000 – £214,999	Graham Ellis	Rheolwr, Cynhyrchu Radio
	Alice Webb	Cyfarwyddwr Plant
£200,000 – £204,999	Ben Cooper	Rheolwr Radio 1, 1Xtra ac Asian Network
£195,000 – £199,999	Gwyneth Williams	Rheolwr Radio 4
£185,000 – £189,999	Charlotte Lock	Cyfarwyddwr Lansio, Sounds
£180,000 – £184,999	Cheryl Taylor	Pennaeth Cynnwys, Plant
£175,000 – £179,999	Alan Davey	Rheolwr Radio Three
£170,000 – £174,999	Helen Bullough	Pennaeth Cynhyrchu Plant
£165,000 – £169,999	Jonathan Wall	Rheolwr, 5 Live
£160,000 – £164,999	Rhona Burns	Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Cyflog	Enw	Rôl
<b>Cyn-aelodau o staff</b>		
£435,000 – £439,999	Anne Bulford	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol
£200,000 – £204,999	Richard Dawkins	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu
	Neelay Patel	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau
£190,000 – £194,999	Damian Kavanagh	Rheolwr BBC Three
£170,000 – £174,999	Elizabeth Kilgarriff	Uwch Olygydd Comisiynu (Drama)
£160,000 – £164,999	Mark Friend	Rheolwr, Prosiect Golygyddol
£150,000 – £154,999	Colin Burns	Prif Swyddog Dylunio
	Adrian Van Klaveren	Pennaeth Newid Strategol a Rheoli Portffolio
	Tunde Ogungbesan	Pennaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant

# Barn SAG ar ddatgeliadau cyflogau

## Adroddiad Sicrwydd Annibynnol i Fwrdd y Gorfforaeth Ddarleddu Brydeinig, yn cydnabod bod Senedd y DU hefyd yn dibynnu ar Gyfrifon ac Adroddiad y Grŵp

Rwyf wedi cynnal gweithdrefnau sicrwydd annibynnol ar y datgeliadau a gynhwyswyd yn Adroddiad Blynyddol y Gorfforaeth Ddarleddu Brydeinig (BBC) yn deillio o'r gofyniad o dan y Siarter Frenhinol i'r BBC (y Siarter Frenhinol) barhau i gyhoeddi enwau holl swyddogion gweithredol y BBC a gafodd eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; enwau holl aelodau eraill o staff y BBC a gafodd eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Mae'r datgeliadau hyn yn cynnwys y Datgeliadau Cyflogau fel y'u nodir ar dudalennau 112 i 119 o Adroddiad Blynyddol y BBC (y "deunydd pwnc") ("Datgeliadau Cyflogau").

Cynhelir fy ngwaith yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000 Ymrwymadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

## Priod gyfrifoldebau Bwrdd y BBC a'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol

Ar gyfer y flwyddyn adrodd a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd Bwrdd y BBC yn gyfrifol am gyhoeddi'r wybodaeth a oedd yn ofynnol o dan y Siarter Frenhinol fel a ganlyn:

- enwau holl swyddogion gweithredol y BBC a gafodd eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno;
- enwau holl aelodau eraill o staff y BBC a gafodd eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

Rwyf yn gyfrifol am roi barn o ran p'un a yw'r deunydd pwnc, ym mhob agwedd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'i baratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo.

Wrth gynnal y gwaith hwn, rwyf i a'm staff wedi cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar y BBC yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gweithdrefnau. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

## Fy null gweithredu

Rwyf wedi cyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Wrth gyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol, cyflawnir y cyfryw weithdrefnau ag sydd eu hangen er mwyn cael gafael ar wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn mynegi barn o ran p'un a yw'r Datgeliadau Cyflogau (y deunydd pwnc), ym mhob agwedd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

Roedd fy ngwaith yn cynnwys:

- Deall y broses a fabwysiadwyd gan y BBC er mwyn llunio'r Datgeliadau Cyflogau, yn arbennig cyflawnder a chywirdeb y wybodaeth a ddefnyddiwyd;
- Profi cyflawnrwydd y datgeliadau, gan gynnwys:
  - croesgyfeirio at fy ngweithdrefnau archwilio ar gyfer Grŵp y BBC sy'n ymwneud â'r gyflogres a gwariant;
  - cymharu â'r flwyddyn flaenorol a'm dealltwriaeth o'r BBC;
  - adolygu unigolion a dalwyd yn y mis dilynol sydd wedi cael eu talu'n agos at y trothwy datgelu yn 2018-19.
- Sicrhau bod datgeliadau staff yn gyson â data'r gyflogres neu, lle na chaiff staff eu talu drwy gyflogres y BBC, sicrhau bod gwariant yn gyson â systemau eraill y BBC;
- Cyfateb y gwariant fesul unigolyn a gafodd ei dalu dros £150,000 o refeniw Ffi'r Drwydded i'r band cyflog priodol;
- Ailgyfrifo nifer yr unigolion a gafodd eu cynnwys ym mhob band o £5,000;
- Adolygu'r sylwadau ategol ynghylch rhesymoldeb ac eglurder o ran y sail datgelu.

## Cyfngiadau annatod

Cynlluniwyd fy ngweithdrefnau sicrwydd er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw lleihau risg ymrwymiad i lefel dderbyniol o isel o dan amgylchiadau'r ymrwymiad fel sail ar gyfer gallu mynegi fy nghasgliad mewn ffordd gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'n dileu'r risg hon yn llwyr. Yn arbennig, wrth baratoi'r datgeliadau, mae'n ofynnol i Fwrdd y BBC lunio nifer o farnau sy'n cyflwyno elfen annatod o risg.

## Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau fy ngweithdrefnau, yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r Datgeliadau Cyflogau a geir ar dudalennau 112 i 119 yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

## Gareth Davies

### Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157-197 Buckingham Palace Road  
Llundain SW1W 9SP  
21 Mehefin 2019

# Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau

## Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am benodi aelodau'r Bwrdd (ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd) a phwyllgorau'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn cynnwys: y Cadeirydd, Syr David Clementi; Simon Burke, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol; y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tony Hall a chyfarwyddwyr anweithredol Syr Nicholas Serota ac Ashley Steel. Cafodd cyfarwyddwr anweithredol ychwanegol, Elan Closs Stephens, ei phenodi i'r Pwyllgor, gyda chyfnod ei phenodiad yn dechrau ar 1 Ebrill 2019.

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am enwebu penodiadau i'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am enwebu aelodau i is-bwyllgorau'r Bwrdd, a'i brif is-gwmnïau masnachol. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau hefyd yn ystyried ac yn adolygu annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn sicrhau cychymffurfiaeth â Chod Ymarfer y Bwrdd.

Mae'n asesu cyfansoddiad y Bwrdd a'i bwyllgorau cysylltiedig o ran y cydbwysedd gofynnol o sgiliau a phrofiad, ac er mwyn datblygu strategaeth cynllunio olyniaeth.

Eleni, mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi cyfarfod bum gwaith. Mae wedi penodi dau aelod newydd i'r Bwrdd. Penodwyd Francesca Unsworth, Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes, yn lle Anne Bulford fel aelod gweithredol o'r Bwrdd o 1 Ebrill 2019 a phenodwyd Shirley Garrood yn aelod anweithredol o'r Bwrdd, gyda chyfnod ei phenodiad yn dechrau ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi gwneud nifer o benodiadau i is-bwyllgorau'r Bwrdd. Yn ogystal â hynny, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried trefniadau llywodraethu ac aelodaeth Bwrdd Daliadau Masnachol y BBC.

Mae rhan helaeth o waith y Pwyllgor eleni wedi ymwneud â chynllunio ar gyfer olyniaeth yn barod ar gyfer ymadawiad Simon Burke, Uwch Gyfarwyddwr

Annibynnol y Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd. Bu hwn yn ymrwymiad sylweddol o ystyried y rôl helaeth y mae Simon wedi'i chwarae. Mae'r Bwrdd bellach wedi penodi Shirley Garrood i ymgymryd â rôl Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a Syr Nicholas Serota i ymgymryd â rôl yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ar 3 Gorffennaf 2019.

Eleni, cynhaliodd y Pwyllgor Enwebiadau ymarfer hefyd i sicrhau bod strwythur llywodraethu'r BBC yn gyson â gofynion y Cod Llywodraethu Corfforaethol mwyaf diweddar a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018. O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, mae'r Pwyllgor Enwebiadau bellach yn gyfrifol am werthuso perfformiad y Bwrdd a'i is-bwyllgorau cysylltiedig.

**Syr David Clementi**  
**Cadeirydd**  
20 Mehefin 2019

## Presenoldeb ym mhwyllgorau'r Bwrdd

	Bwrdd Cyffredin	Pwyllgor Archwilio a Risg Aelod	Pwyllgor Masnachu Teg Aelod	Pwyllgor Enwebiadau Aelod	Pwyllgor Cydnabyddiaeth Aelod	Safonau a Chanllawiau Golygyddol Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Lloegr Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - yr Alban Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Cymru Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Gogledd Iwerddon Aelod
Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod	11	5	3	5	5	5	4	3	3	2
<b>Cyfarwyddwyr anweithredol</b>										
David Clementi	11			5				3		2
Simon Burke	10	5		5						
Tanni Grey-Thompson	10				5	5				
Ian Hargreaves	11		3			5			3	
Tom Ilube	11	5	3				4			
Steve Morrison	11		2	5	5	5				
Nicholas Serota	11			5	5	5				
Ashley Steel	11	5		5			4			
Elan Closs Stephens	11		3						3	2
<b>Cyfarwyddwyr gweithredol</b>										
Tony Hall	11			3		5				
Anne Bulford	10									2
Tim Davie	11									
Ken MacQuarrie	10						3	2	3	2

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys busnes a gynhaliwyd all-lein na chyfarfodydd diweddar lle na chafodd unrhyw fusnes ffurfiol ei ystyried.

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

## Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad 2018/19 Pwyllgor Archwilio a Risg Bwrdd y BBC.

Ers ei sefydlu yn 2017 fel rhan o'r trefniadau llywodraethu newydd o dan Siarter y BBC, mae'r Pwyllgor wedi parhau i feithrin ei ddealltwriaeth o'r BBC, ei risgiau allweddol a'r meysydd hollbwysig a adolygir drwy'r amser.

Eleni, mae'r Pwyllgor wedi llwyddo i adeiladu ar y sylfeini cadarn a nodwyd gennym yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y llynedd, ac wedi parhau i graffu ar waith y sefydliad a hefyd oruchwylio'r broses o ddatblygu fframwaith rheoli risg y BBC sy'n mynd rhagddi.

Mae ein cynllun gwaith eleni wedi cynnwys:

- Sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn parhau i fodloni gofynion y Siarter newydd.
- Sicrhau bod perthynas y BBC â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel yr archwilydd statudol ac archwilydd gwerth am arian, yn broffesiynol ac yn adeiladol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn rhoi diweddariad ar ei gweithgarwch presennol a'i gweithgarwch arfaethedig ym mhob cyfarfod.
- Edrych yn fanylach ar ddetholiad o fentrau a meysydd risg yn y BBC. Mae'r materion a gwmpaswyd eleni fel rhan o'r agenda wedi cynnwys: prosiectau mawr, BBC Studios, rheoli data a GDPR, cydnerthedd, seiberddiogelwch, a newidiadau i safonau a pholisïau cyfrifyddu.
- Adolygu proffil risg BBC Studios, gan gyfeirio'n benodol at y proffil risg newidiol yn sgil uno BBC Worldwide a BBC Cynhyrchu.

- Monitro hynt materion sy'n ymwneud â threfniadau cyflog a threth yn y BBC ynghyd â'u goblygiadau.
- Goruchwylio'r cynnydd da o ran rheoli sicrwydd a risg annibynnol yn y BBC, yn ogystal â chymryd y camau gweithredu a argymhellwyd gan archwilwyr mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn modd amserol.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom fonitro'r datblygiadau mewn perthynas ag ymdrin â thaliadau hanesyddol i bobl a ystyriwyd yn staff llawrydd, a phroblemau canlyniadol o ran yr atebolrwydd i dalu treth ac yswiriant gwladol. Mae darpariaeth o £12 miliwn mewn perthynas â'r mater hwn wedi cael ei dosbarthu'n wariant afreolaidd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Er na fyddem, yn amlwg, wedi dewis bod yn y sefyllfa hon, mae'r Bwrdd o'r farn mai'r hyn y bwriadwn ei wneud (gan gynnwys y cynnig i setlo sydd wedi arwain at y ddarpariaeth) yw'r ffordd decaf ymlaen a'r ffordd orau o ddiogelu buddiannau talwyr ffi'r drwydded.

Cawsom bum cyfarfod yn ystod y flwyddyn, ac roedd aelodau gweithredol yn bresennol fel y bo'n briodol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol. Hefyd cawsom gyfarfodydd preifat â'r SAG ar bob achlysur. Yn ogystal â hynny, mae aelodau'r Pwyllgor yn cael cysylltu â Chyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd y BBC ac maent yn cyfarfod ag ef yn rheolaidd.

Rwyf yn falch iawn o'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran rheoli risg. Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau clir a manwl ar risgiau strategol a gweithredol, sy'n gysylltiedig ag amcanion y BBC. Drwy'r defnydd o fetrigau a data cyfredol gall y Pwyllgor lunio barn ar newidiadau mewn risg a pha mor ddigonol yw'r camau lliniaru. Fel rhan o'n hagenda, mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal adolygiadau dyfnach o faterion

penodol sy'n achosi risg ac sy'n berthnasol i'r aelodau gweithredol sy'n berchen ar y risg honno sy'n bresennol, fel y nodir uchod.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi asesu ei effeithiolrwydd ei hun, gan ddefnyddio arolwg o'r aelodau ynghyd ag adolygiad annibynnol o'n ffyrdd o weithio. Hefyd, cafodd swyddogaeth Archwilio Mewnol ei gwerthuso'n annibynnol gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol. Yn y naill achos a'r llall roedd y canlyniadau yn gadarnhaol iawn, ac aeth y Pwyllgor ati i adolygu'r canfyddiadau a'r argymhellion a chytuno arnynt.

Hon yw fy mlwyddyn olaf o gyfnod o wyth mlynedd fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (a Phwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol a'i rhagflaenodd). Drwy gydol fy nghyfnod yma rwyf wedi cael fy nghefnogi'n fedrus gan gyd-aelodau o'r pwyllgor yn ogystal â thîm risg a sicrwydd proffesiynol ac ysgrifenyddiaeth. Mae natur agored a phroffesiynol staff y BBC sydd wedi rhoi cyflwyniadau i ni dros y blynyddoedd wedi rhoi cryn sicrwydd i'r Pwyllgor ac i minnau. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu cymorth i mi.

Mae'r BBC yn wynebu heriau sylweddol wrth fynd i'r afael â'r newid enfawr sy'n effeithio ar bob un o'r marchnadoedd y mae'n gweithredu ynddynt. Yn wahanol i lawer o'i gystadleuwyr, mae'n rhaid iddo wneud hyn yn wyneb craffu dwys, amrywiol a parhaol. Yn y cyd-destun hwn, mae angen trefn lywodraethu o'r radd flaenaf arno. Gobeithio bod gwaith y Pwyllgor wedi helpu i greu'r drefn lywodraethu hon, ac i sicrhau'n gyffredinol bod y BBC yn gofalu am arian talwyr ffi'r drwydded ac yn ei wario'n briodol.

.....  
**Simon Burke**

**Cadeirydd**

20 Mehefin 2019

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg Rôl

Prif ddiben y Pwyllgor Archwilio a Risg yw adolygu a goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am y canlynol:

- adolygu a goruchwyllo effeithiolrwydd prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg Grŵp y BBC;
- goruchwyllo'r risgiau allweddol sy'n wynebu Grŵp y BBC a'r camau a gymerir i liniaru'r risgiau hynny i lefel dderbyniol;
- adolygu gweithgareddau a risgiau is-gwmnïau masnachol y BBC, gan sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli mewn ffordd dderbyniol a bod sicrwydd yn annibynnol ac yn ddigonol;
- adolygu a herio, lle bo angen, gamau gweithredu a dyfarniadau rheolwyr o ran Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC a datganiadau ffurfiol cysylltiedig;
- goruchwyllo a phennu cyfeiriad gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC, gan gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd yn breifat er mwyn trafod materion fel sydd angen;
- rhoi sylw priodol i ddisgwyliadau'r Senedd o ran rheoli adnoddau'r BBC, fel y nodir yn adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adroddiadau Gwerth am Arian gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adolygu cwmpas a strategaeth archwilio arfaethedig yr archwilwyr allanol, gan sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau anghyfiawn;
- adolygu gweithdrefnau rheoli ansawdd yr archwilwyr a'r camau a gymerir gan yr archwilydd er mwyn ymateb i newidiadau i ofynion rheoleiddiol a gofynion eraill;
- cyfarfod â'r archwilwyr allanol ar wahân er mwyn trafod unrhyw faterion y dylid eu trafod yn breifat, ym marn y Pwyllgor neu'r archwilwyr;
- ystyried annibyniaeth yr archwilydd allanol;
- adolygu systemau'r BBC ar gyfer canfod ac atal twyll a llygredd;
- adolygu trefniadau i staff y cwmni godi pryderon, yn gyfrinachol, ynghlŷn ag achosion posibl o amhriodoldeb mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag adrodd ariannol, anghyfreithlondeb neu faterion eraill.

Mae Rheolau Sefydlog y Pwyllgor yn amlinellu ein cyfrifoldebau'n fanylach. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan Fwrdd y BBC ym mis Mehefin 2018 a chânt eu hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor. Maent ar gael ar ein gwefan: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk](http://bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk)

### Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw:

- Simon Burke (Cadeirydd)
- Tom Ilube
- Ashley Steel

Mae gan Simon Burke, Cadeirydd y Pwyllgor, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, mae pob aelod o'r Pwyllgor yn unigolion sy'n dal neu sydd wedi dal uwch swyddi mewn sefydliadau o faint tebyg ac sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol. Lle y bo'n briodol, ategir sgiliau a phrofiadau aelodau gan gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnol ac allanol – er enghraifft ar faterion megis datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol.

Hon oedd blwyddyn olaf cyfnod Simon Burke fel Cadeirydd y Pwyllgor. Mae ei olynydd, Shirley Garrod, wedi cael ei phenodi gan y Bwrdd ac mae rhaglen sefydlu ar waith er mwyn sicrhau ei bod yn gallu ymgymryd â'i chyfrifoldebau yn fuan ac yn effeithiol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Ariannol, Cwnsler Cyfreithiol y Grŵp, y Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, ac uwch gynrychiolwyr Archwilio Mewnol, Rheoli Risg, Cyllid a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilwyr statudol y BBC, hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat hefyd, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol, gyda'r Archwilwyr Mewnol a'r archwilwyr, yn rheolaidd.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd y Pwyllgor ymarfer i asesu ei effeithiolrwydd ei hun. Roedd yr ymarfer hwn yn rhan o adolygiad ehangach o effeithiolrwydd Bwrdd y BBC a'i is-bwyllgorau a hwyluswyd gan Archwilio Mewnol. Cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad i aelodau'r Pwyllgor.

### Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2018/19, a hynny ar adegau allweddol yn y calendr adrodd ac archwilio.

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd a chyhoeddir cofnodion cryno ar wefan y BBC: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk](http://bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk). At hynny, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle mae angen cymryd camau neu wella perfformiad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn rhoi ei farn ar uniondeb y datganiadau ariannol cyn i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd cyfan.

Treuliodd y Pwyllgor amser ar y meysydd canlynol yn y flwyddyn ddiwethaf.

### Cywirdeb adroddiadau ariannol

Adolygodd y Pwyllgor gywirdeb datganiadau ariannol y BBC. Wrth wneud hynny, gwnaeth y canlynol:

- drwy drafodaethau â rheolwyr a'r archwilydd allanol, nododd risgiau allweddol o ran camdatganiadau yn natganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol ac sydd wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol;
- trafododd y risgiau hyn gyda'r archwilydd fel rhan o gytundeb cynllun archwilio'r archwilwyr allanol a hefyd ar ddiwedd yr archwiliad o'r datganiadau ariannol;
- adolygodd a heriodd bapurau manwl a gyflwynwyd gan reolwyr ar y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol, gan ystyried barn yr archwilydd.

Nodir isod y prif feysydd lle mae angen llunio barn a sut y gwnaeth y Pwyllgor fynd i'r afael â hwy:

Maes llunio barn	Ymateb y Pwyllgor
<p><b>Cydnabod refeniw</b></p> <p>Mae risg ariannol annatod yn gysylltiedig â chydnabod refeniw sy'n ymwneud ag amseriad cydnabod refeniw. Mae natur y risg yn amrywio rhwng refeniw ffi'r drwydded yn y gwasanaeth cyhoeddus a'r incwm masnachol. Ymdrinnir â refeniw ffi'r drwydded fel swm sy'n ddyledus gan adran berthnasol y Llywodraeth, sef yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn bennaf, ar sail y ffaith y caiff symiau a dderbynnir gan dalwyr ffi'r drwydded eu talu drosodd. Mae refeniw masnachol yn fwy cymhleth, gyda nifer o ffrydiau refeniw gwahanol, gan gynnwys gwerthu cynnwys i ddarlledwyr byd-eang, incwm tanysgrifiadau a refeniw o werthu cynhyrchion ffisegol a digidol. Oherwydd cymhlethdod telerau cytundebol efallai y bydd angen llunio barn wrth asesu pryd y gellir cydnabod refeniw, sy'n seiliedig ar gyflawni rhwymedigaethau perfformiad a phryd y trosglwyddir rheolaeth i'r cwsmer.</p>	<p>Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai systemau rheolaeth ariannol presennol y BBC sicrhau y caiff incwm ei drin yn briodol yn y datganiadau ariannol. Mae'r Pwyllgor wedi cael ei frifio ar effaith symud i IFRS 15 ac mae'n fodlon bod y broses bontio wedi cael ei rheoli'n briodol, ei hadolygu a'i chyflwyno'n deg yn y datganiadau ariannol. Hyderir bod rheolwyr yn deall y risgiau yn y maes hwn a bod ganddynt reolaethau addas ar waith.</p>
<p><b>Cyflogaeth a darpariaethau trethiant</b></p> <p>Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaethau o £25 miliwn fel rhan o raglen ailstrwythuro'r BBC. Mae barnau yn y maes hwn yn ymwneud yn bennaf ag amseriad cydnabod y darpariaethau hyn, y swm i'w gydnabod a'r swm a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae nifer o ddarpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn bodoli mewn achosion lle mae gan y BBC rwymedigaeth o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol sy'n debygol ac y gellir ei fesur yn ddibynadwy. Mae darpariaethau trethiant, ymglyfreitha ac yswiriant gwerth £40 miliwn yn cynnwys swm ar gyfer taliadau i gyflwynwyr, neu ar eu rhan, sy'n ymwneud â Chwmnïau Gwasanaeth Personol fel y nodir ar dudalen 93 o Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol.</p>	<p>Cafodd y Pwyllgor wybod am faterion yn ymwneud â chyflogaeth a allai arwain at gydnabod rhwymedigaethau posibl cyn wedyn adolygu a thrafod y lefel o ddarpariaethau gyda'r rheolwyr. Roedd hyn yn cynnwys ystyried darpariaethau newydd ac unrhyw ddarpariaethau presennol a gafodd eu rhyddhau a'u defnyddio. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o nodi, cydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o grŵp y BBC. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn fodlon ar lefel y darpariaethau a gariwyd a'r hyn a ddatgelir mewn perthynas â'r darpariaethau hynny. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y trefniant a oedd yn ymwneud ag unigolion a gafodd eu talu drwy gyfryngwyr wedi cael ei ystyried mewn perthynas â barn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar reoleidd-dra.</p>
<p><b>Eiddo – triniaeth gyfrifyddu adeiladau'r BBC ac ailgyllido'r Ganolfan Ddarlledu Newydd</b></p> <p>Mae'r BBC yn dal portffolio eiddo sylweddol, sy'n parhau i gael ei resymoli er mwyn lleihau costau. Mae'r ystâd yn cynnwys eiddo rhydd-ddaliadol yn ogystal ag eiddo a ddelir o dan brydlesau cyllid a phrydlesau gweithredu. Mae adeiladau sydd wedi cael eu his-osod neu sydd ar gael i'w his-osod wedi'u dosbarthu'n eiddo buddsoddi. Mae barn yn ymwneud â'r bwriadau ar gyfer unrhyw adeiladau gwag yn y dyfodol a therfynau amser cysylltiedig. Gall hyn newid y driniaeth gyfrifyddu briodol ac effeithio ar werth cario'r eiddo ar y fantolen. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau deilliannol sy'n gysylltiedig â strwythur sylfaenol prydles y Ganolfan Ddarlledu yn agored i sensitifrwydd o ran data'r farchnad yn ogystal ag addasiad i'r gyfradd disgownt er mwyn cyfrif am risg. O ganlyniad, cydnabuwyd rhwymedigaethau net o £123 miliwn mewn perthynas â'r trefniant hwn. Gweithredwyd y trafodyn mewn modd a oedd yn cyfyngu ar unrhyw gynnydd yn amlygiad credyd y BBC i'r cyd-bartion deilliannol dan sylw. Rhoddir cyfrif am y cyfrwng diben arbennig a sefydlwyd i ailddatblygu'r Ganolfan Ddarlledu, Daunus Limited, fel cyd-fenter yn dilyn asesu rheolaeth. Mae budd y BBC yn yr endid ar gost, ac ni nodwyd unrhyw ddangosyddion o leihad mewn gwerth.</p>	<p>Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gan reolwyr a esboniodd y driniaeth ar gyfer yr adeiladau pwysicaf, gan gynnwys y terfynau amser a ragwelir ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol a'r rhesymeg dros y driniaeth. Mae triniaeth fanwl asedau a rhwymedigaethau deilliannol y Ganolfan Ddarlledu yn parhau i gael ei monitro. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y caiff yr adeiladau hyn eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad rheolwyr ac yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.</p>
<p><b>Prosiectau cyfalaf</b></p> <p>Mae'r BBC yn ymgymryd â sawl prosiect cyfalaf ar unrhyw adeg benodol, sy'n cyfrannu at strategaeth gyffredinol y BBC. Mae angen asesu priodoldeb cyfalafu, ynghyd â phrisio unrhyw ased a gyfalefir. Os nad oes modd cwblhau prosiect cyfalaf perthnasol ar amser, neu os na fydd y BBC yn cael budd ohono yn y dyfodol, gallai hyn ysgogi tâl lleihad mewn gwerth.</p>	<p>Adolygwyd adroddiadau gan reolwyr a esboniodd statws prosiectau cyfalaf mawr a'r ffordd yr aseswyd p'un a oedd angen tâl lleihad mewn gwerth ai peidio. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr asesiadau o leihad mewn gwerth a gynhaliwyd gan y rheolwyr yn briodol ac yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.</p>
<p><b>Cynllun pensiwn – tybiaethau sy'n effeithio ar y diffyg pensiwn cyfrifyddu</b></p> <p>Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys diffyg sylweddol o £530 miliwn ar y fantolen ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC. Mae'n ofynnol llunio barn ynglŷn â'r tybiaethau sylfaenol a ddefnyddiwyd gan yr actiwariad wrth gyfrifo diffyg y pensiwn. Gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newid mawr yn y ffigurau terfynol a ddatgelir.</p>	<p>Cafodd y Pwyllgor gyngor gan actiwariad annibynnol ynglŷn â phriodoldeb y tybiaethau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys sut mae'r rhain yn cymharu â'r rhai a ddefnyddir gan sefydliadau eraill. Canolbwyntiodd gwaith craffu yn benodol ar y tybiaethau a ddefnyddiwyd o ran cyfraddau disgowntio, cyfraddau chwyddiant a disgwyliad marwolaethau/oes a sut y byddai newidiadau yn y tybiaethau hyn yn effeithio ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys unrhyw symudiadau yn y rhain o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol yn rhesymol, yn briodol i'r BBC ac yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr actiwariad annibynnol.</p>



Cadarnhaodd y rheolwyr wrth y Pwyllgor nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol na chamddatganiadau nad oeddent yn berthnasol a wnaed yn fwiadol er mwyn rhoi darlun penodol. Nododd yr archwilwyr unrhyw gamddatganiadau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith ac nad oedd unrhyw symiau perthnasol nas addaswyd o hyd. Gall y Pwyllgor gadarnhau ei fod yn fodlon bod yr archwilwyr allanol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau gyda diwydrwydd ac amheuaeth broffesiynol.

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau a'r adroddiadau gan reolwyr ac ymgynghori, lle bo angen, â'r archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn ymdrin yn briodol â'r dyfarniadau hollbwysig a'r amcangyfrifon allweddol (o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau). Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon bod y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i bennu gwerth asedau a rhwymedigaethau wedi bod yn destun prosesau craffu a herio priodol, a'u bod yn ddigon cadarn.

Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y grŵp a'u lle yn yr Adroddid Blynyddol ehangach. Er mwyn cynorthwyo'r adolygiad hwn, ystyriwyd adroddiadau gan y rheolwyr a chan yr archwilwyr mewnol ac allanol a gwmpasodd;

- ansawdd a derbynioldeb polisïau cyfrifyddu, gan gynnwys eu cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu;
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoliadau;
- eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol;
- a yw'r Adroddid Blynyddol yn ei gyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac a yw'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC.

### Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a'r fframwaith rheoli risg

#### Sicrwydd rheolaethau mewnol

Yn ystod y flwyddyn canolbwyntiodd y Pwyllgor ar effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol y BBC, gan ystyried canfyddiadau adroddiadau archwilwyr mewnol ac allanol a gweithgarwch arall ynglŷn â sicrwydd ym mhob rhan o'r Grŵp. Roedd y meysydd penodol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- y tueddiadau a'r themâu yn deillio o weithgarwch Archwilio Mewnol, a holi cynrychiolwyr Archwilio Mewnol ynglŷn â chanlyniadau eu gwaith. Cafodd crynodeb o bob archwiliad mewnol, gan gynnwys canfyddiadau allweddol a graddau sicrwydd, ei adolygu gan y Pwyllgor;
- caiff camau gweithredu sy'n deillio o weithgarwch annibynnol ynglŷn â sicrwydd, gan gynnwys gwaith archwilio mewnol ac allanol ac adolygiadau Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, eu monitro gan y Pwyllgor er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau. Mae hwn yn faes rydym yn rhoi ystyriaeth ddilynol iddo ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o ran unrhyw wendidau a nodwyd;
- o ran meysydd a ystyrir yn rhai proffil uchel neu a fu'n destun canfyddiadau sicrwydd beirniadol, mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod gwaith dilynol a gwaith craffu addas ynglŷn â chwblhau unrhyw gynlluniau gwella neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt;
- cymeradwyodd y Pwyllgor ddatganiad Caethwasiaeth Fodern y BBC ac adolygodd y dull o sicrhau cydymffurfiaeth;
- adroddiadau chwythu'r chwiban rheolaidd a'r diweddaraf am lefelau o dwyll a dwyn, ynghyd â'r systemau sydd ar waith i'w gostwng a'u hatal;
- caiff canfyddiadau a hynt camau gweithredu sy'n deillio o archwiliadau o is-gwmniau masnachol y BBC eu hystyried. Mae Prif Swyddog Cyllid BBC Studios yn dod i'r Pwyllgor er mwyn rhoi sicrwydd am amgylchedd rheolaeth a dulliau rheoli risg yn yr is-gwmniau hyn.

### Rheoli risgiau

Ystyriodd y Pwyllgor y prosesau ar gyfer rheoli risgiau sylweddol yn y BBC. Dylanwedir ar y gwaith hwn gan yr asesiad o brif risgiau'r BBC (a nodir ar dudalen 125). Mae agenda'r Pwyllgor yn cynnwys eitem reolaidd pan gaiff newidiadau i'r proffil risg eu hadolygu a phan gaiff effeithiolrwydd y broses rheoli risg ei asesu.

Mae'r Pwyllgor wedi goruchwyllo gwelliannau i system rheoli risg gyffredinol y BBC, gan gyflwyno adroddiadau risg manylach a sicrhau bod camau lliniaru a chamau gweithredu yn gyson ag amcanion strategol a gweithredol allweddol y Gorfforaeth. Bydd mwy o ddefnydd o fetrigau a mesurau risg yn galluogi'r Pwyllgor i adolygu risg yn fanylach yn y flwyddyn i ddod.

### Effeithiolrwydd Archwilwyr Mewnol

Cafodd gwaith Archwilio Mewnol ei oruchwyllo gan y Pwyllgor. Mae hyn yn eitem reolaidd ym mhob cyfarfod a fynychir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd. Yn ystod y flwyddyn gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- cymeradwywyd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynglŷn â phrosesau busnes craidd a meysydd o risg strategol sy'n dod i'r amlwg;
- ystyriwyd canfyddiadau gweithgarwch archwilio, gan ganolbwyntio ar archwiliadau â chanlyniadau anfoddfaol a chynlluniau rheolwyr i fynd i'r afael â'r rhain;
- adolygwyd y rhesymeg dros estyniad o flwyddyn i gyd-adnoddau Archwilio Mewnol a'i gymeradwyo;
- ystyriwyd gofynion yr Archwilwyr Mewnol o ran eu hadnoddau a'u gallu.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro strwythur y swyddogaeth Archwilio Mewnol a gweithrediad y model adnoddau presennol, gyda chyfran o'r archwiliadau yn cael eu cynnal gan bartner allanol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda.

Yn ystod y flwyddyn cafodd asesiad annibynnol o effeithiolrwydd swyddogaeth Archwilio Mewnol ei ddilysu gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol. Cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad hwn a'r argymhellion i'r Pwyllgor.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn cyfarfod â staff Archwilio Mewnol a Rheoli Risg cyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol, er mwyn cael cyfle i drafod materion yn agored.

**Annibyniaeth ac effeithiolrwydd ein harchwilwyr allanol**

**Penodi ein harchwilwyr allanol**

O dan Siarter a Chytundeb 2016, penodwyd SAG yn archwilydd statudol y BBC am gyfnod y Siarter.

**Y berthynas â'r archwilwyr allanol**

Goruchwyliodd y Pwyllgor y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cwmpas ei gwaith a'i dulliau gweithredu. Ymhlith y meysydd penodol y canolbwyntiwyd arnynt eleni mae:

- nodi risgiau archwilio a chysoni hyn ag asesiadau risg rheolwyr;
- deall yr elfennau o'r broses archwilio, gan sicrhau bod y gofynion y disgwylir i'r BBC eu bodloni fel rhan o'r barnau am reoleidd-dra a phriodoleb yn cael eu deall;
- cynnal trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr heb fod rheolwyr yn bresennol.

**Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio**

Fel un o'r mesurau i ddiogelu annibyniaeth yr archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor wedi datblygu polisi'r BBC ynglŷn â chomisiynu'r archwilwyr i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio, ac yn ei oruchwyllo.

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r mathau o wasanaethau y gall ac na all yr archwilwyr allanol eu darparu. At hynny, mae'n cynnwys trothwyon lle mae'n rhaid i waith nad yw'n waith archwilio y cynigir y dylai'r archwilwyr allanol ei wneud, gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pwyllgor. Mae hefyd yn pennu pryd y mae'n rhaid i waith fod yn destun tendr cystadleuol.

Nid yw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymgymryd â gwaith a allai beryglu ei gallu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor cyn recriwtio aelod o staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i unrhyw swydd uwch reolwr yn y BBC.

# Risgiau a chyfleoedd

Mae risgiau a chyfleoedd yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni rhwymedigaethau ei Siarter a'i ddibenion cyhoeddus. Mae angen i'r ffordd rydym yn ymdrin â risg adlewyrchu natur unigryw'r BBC.

## Ein dull o reoli risg

Mewn amgylchedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym, rhaid i'r BBC allu rheoli'n hyderus risgiau strategol a gweithredol, gan sicrhau y gall barhau i gyflawni ein dibenion cyhoeddus a rhoi gwerth i'n holl gynulleidfaoedd. Mae'n rhaid i ni hefyd gymryd ein cyfrifoldebau rheoleiddio a statudol o ddifrif. Yn yr un modd ag y mae cymryd risgiau wrth wraidd y broses o gyflawni ein dibenion a'n huchelgeisiau strategol, mae asesiadau risg trylwyr a mesurau lliniaru risg yn sail i'r broses o gyflawni'r hyn a wnawn.

Mae'r BBC yn cydnabod yr heriau o ran anghenion cynulleidfaoedd, yn ogystal â'r chyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig dros y blynyddoedd i ddod. Drwy bob rhan o'r Gorfforaeth, mae ystyriaeth ofalus o risgiau a chyfleoedd yn cyfrannu at ansawdd ein rhaglenni, rhagoriaeth y gwasanaeth a ddarparwn, a'n gallu i wasanaethu ein cynulleidfaoedd.

## Sut mae'r broses o reoli risg wedi datblygu yn y BBC

Mae'r broses o reoli risg yn y BBC yn parhau i ddatblygu. Yn 2018/19, adeiladwyd ar ein proses o reoli risgiau strategol a gweithredol ym mhob rhan o'r busnes. Erbyn hyn mae gennym gyfres o fetrigau risg ar gyfer risgiau strategol a gweithredol ac mae'r broses hon yn rhoi cipolwg ar y ffordd y caiff risgiau eu rheoli, ac mae'n parhau i roi arwyddion rhybudd cynnar o risg ac yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg.

Mae Pwyllgor Gweithredol y BBC a Bwrdd y BBC wedi cymryd rhan mewn sesiynau mynd at wraidd y mater er mwyn adolygu risgiau strategol a gweithredol, cytuno ar bwy sy'n berchen arnynt, adolygu effaith pob risg a'i thebygolrwydd ac asesu digonolrwydd gwaith paratoi'r BBC ynglŷn â'r risgiau hyn. Bwriedir cynnal rhagor o sesiynau mynd at wraidd y mater yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o'r datblygiad parhaus, rydym yn bwriadu sganio'r gorwel ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Nodir ein prif risgiau a chyfleoedd strategol a gweithredol drosodd.

## Allwedd i newidiadau risg: newid yn y risg a ragwelir dros y 12 mis nesaf

- ▲ Risg yn cynyddu
- Dim newid yn y risg
- ▼ Risg yn lleihau

## Dibenion cyhoeddus

- 1 Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch
- 2 Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran
- 3 Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau
- 4 Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi creadigol ledled y DU
- 5 Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

**Risgiau a chyfleoedd strategol**

Noder: Caiff risgiau a chyfleoedd strategol eu mapio i'r Dibenion Cyhoeddus (1-5) isod

Prif risgiau a chyfleoedd	Camau lliniaru allweddol
---------------------------	--------------------------

**1. Sicrhau bod pawb yn cael gwerth o'r BBC**

Mae risg, wrth i ymddygiad defnyddwyr newid ac wrth i fodolau busnes ar-lein ddatblygu, nad yw'r BBC yn parhau i ddarparu cynnwys a gwasanaethau perthnasol, o ansawdd uchel i holl dalwyr ffi'r drwydded. Hefyd, mae risg, wrth addasu i'r heriau hyn, na chedwir cynulleidfaoedd ar lwyfannau traddodiadol. Hefyd, efallai na fyddwn yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol, gan gynnwys pobl ifanc, y gwledydd a'r rhanbarthau a BAME.



- Ailddyfeisio'r iPlayer er mwyn iddo ddod yn wasanaeth y mae cynulleidfaoedd ifanc yn ei ddefnyddio.
- Lansio BBC Sounds yn 2018 sy'n dwyn radio byw ac ar alw, cerddoriaeth a phodlediadau ynghyd ar un cynnyrch personol.
- Sicrhau rhythm gydol blwyddyn o ddigwyddiadau amlwg a'n gallu i gynnig gwerth i'r cyhoedd.
- Adnewyddu ein cynnwys er mwyn apelio i gynulleidfaoedd iau ac adlewyrchu amrywiaeth y DU.
- Dull newydd o ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant sy'n rhan allweddol o'n strategaeth gyda meysydd â ffocws clir ar bortreadu ar sgrin, comisiynu a datblygu talent ar sgrin ac amrywiaeth o fewn ein gweithlu.
- Trawsnewid profiad BBC Newyddion i gynulleidfaoedd iau e.e. drwy lansio Beyond Today (podlediad gan y BBC i bobl o dan 35 oed); BBC Young Reporter (prosiect allgymorth arbennig i bobl ifanc) gan gynnwys cystadleuaeth Gohebydd Ifanc y Flwyddyn y BBC.
- Cyflwyno cynnwys drwy lwyfannau digidol h.y. iPlayer, cynnwys unigryw sy'n cael effaith wirioneddol ar bobl ifanc, straeon ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu troi'n draffig i wefan y BBC, arbrofi gyda fideos ffurf fer a ffurf hir neu glipiau o'r newyddion.
- Monitro metrigau cynulleidfaoedd, gan gynnwys cyrhaeddiad, yr amser a dreulir gyda'r BBC yn ôl demograffeg, gan gynnwys cynulleidfaoedd ifanc a BAME a chynulleidfaoedd y gwledydd a'r rhanbarthau a chael adborth, er mwyn llywio penderfyniadau ar sail gwybodaeth.
- Adolygiad rheolaidd o amcanion, perfformiad a thueddiadau cynulleidfaoedd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Phwyllgor Gweithredol.

**2. Creadigrwydd o'r radd flaenaf**

Mae'r gystadleuaeth o du darlledwyr eraill a darparwyr cyfun, mawr am gynnwys a thalent yn parhau i gynyddu. Mewn amgylchedd allanol o chwyddiant costau a tharfau digidol, mae risg nad ydym yn sicrhau'r cyflenwad o gynnwys o'r ansawdd gorau o fuddsoddiadau, caffaeliadau a chydberthnasau cyswllt. Mae risg na fydd BBC Studios yn datblygu ei lif o dalent greadigol, yn ennill comisiynau allanol nac yn ymateb i'r gystadleuaeth ddwys am dalent greadigol a'r tarfu a achosir gan ddarparwyr SVOD byd-eang.

Mae risg hefyd nad ydym yn cyflawni amrywiaeth ddilys o ran cynnwys rhaglenni ac adroddiadau diduedd ar yr awyr.



- Buddsoddi mewn fformatau newydd, cynnwys o'r radd flaenaf, cyfresi newydd, cynhyrchion a gwasanaethau newydd ar gyfer teledu, radio ac ar-lein i bob cynulleidfa.
- Llundio partneriaethau creadigol er mwyn sicrhau hawliau i gynnwys newydd (e.e. comedi, drama) sy'n cael effaith.
- Rhoi iPlayer wrth wraidd teledu byw.
- Fel rhan o'n strategaeth ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, rydym wedi lansio BBC Scotland. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein canolfannau cynhyrchu y tu allan i Lundain h.y. yn Glasgow, Caerdydd, Belfast, Salford, Bryste a Birmingham.
- Ffocws ar ddenu a chadw'r dalent greadigol orau.
- Targedau o ran amrywiaeth talent ar yr awyr a rhaglenni ar waith, gydag adnoddau mesur gwell.
- Polisi golygyddol sefydledig, gyda monitro helaeth ac adolygiad Bwrdd a Phwyllgor Gweithredol o eithriadau.
- Lobio dros degwch â sefydliadau cyfryngau digidol eraill o safbwynt rheoleiddio.
- Arweinwyr creadigol a datblygu busnes newydd yn BBC Studios i ganolbwyntio ar genres a chyfleoedd allweddol.
- Mae proses ymgynnig symlach â ffocws ar waith.
- Buddsoddiad ychwanegol mewn gweithgarwch datblygu ym mhob genre, gydag arweinwyr creadigol a datblygu busnes newydd yn nodi cyfleoedd.

### 3. Cyrhaeddiad byd-eang

Gall yr amgylchedd marchnad fwyfwy heriol effeithio ar ein huchelgais i dyfu cyrhaeddiad byd-eang (gyda defnyddwyr yn cael mwy o ddewis a defnydd yn troi at y cyfryngau cymdeithasol), yn enwedig lle mae gorddibyniaeth ar y newyddion diweddaraf (yn hytrach na dadansoddiadau a newyddiaduraeth wreiddiol). Mae dibyniaeth World Service ar syndicetio yn peri risg na fydd cynulleidfaoedd yn priodoli cynnwys i'r BBC. Daw buddsoddiad presennol y llywodraeth yn y World Service i ben ym mis Medi 2020.

1 3 5 >

- Parhau i fonitro allbwn, gyda chymorth ymchwil, er mwyn datblygu'r hyn a gynigir gennym a deall sut y gallwn barhau i gyrraedd cynulleidfaoedd byd-eang, gan gynnwys demograffeg cynulleidfaoedd iau a benywaidd.
- Caiff contractau syndicetio eu rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf drwy bartneriaid dibynadwy yr ymddiriedir ynddynt.
- Mynd i'r afael â'r broses o briodoli mwy o gynnwys i'r BBC (gan gynnwys cynulleidfaoedd) drwy waith brandio gwell a chynnwys nodedig.
- Parhau i ddatblygu'r arlwy digidol er mwyn ymestyn cyrhaeddiad cynnwys digidol.
- Buddsoddi mewn marchnata ac arloesi technegol er mwyn gwella'r broses o fesur cynulleidfaoedd a pherfformiad.

### 4. Sefydlogrwydd ariannol

Mae risg nad ydym yn rheoli nac yn gwrthbwysu'n effeithiol gost gynyddol caffael eiddo deallusol a hawliau, mewn amgylchedd sy'n fwyfwy cystadleuol, gyda phrisiau cynnwys uwch (yn enwedig ym maes chwaraeon a drama) a hawliau sy'n mynd yn brinnach sy'n gofyn am ffyrdd newydd o weithio a ffocws ar reoli costau. Mae risg o ostyngiad amser real yn ffi'r drwydded, cynnydd yn nifer yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded, neu broses gasglu fwy costus a allai effeithio ar ein model ariannu, ein gwasanaethau a'n cwmpas o bosibl. Mae risg y bydd endidau masnachol y BBC yn methu ag ymateb i heriau'r farchnad a thrwy hynny'n lleihau enillion ariannol. Byddai risg o ostyngiad yn refferiw gwerthiannau hysbysebu ar gyfer endidau masnachol y BBC yn cael ei dwysáu gan ddirwasgiad economaidd. Mae newidiadau andwyol i brisiadau actiwaraid y cynllun pensiwn yn peri risg. Byddai gostyngiad yn statws credyd y BBC yn cynyddu cost cyllido.

1 2 3 4 5 ^

- Caiff targedau arbedion aml-flydd eu diffinio, wedi'u hategu gan gynlluniau manwl, gyda blynyddoedd allanol yn mynd rhagddynt. 95% o wariant rheoladwy wedi'i gwmpasu gan feincnodi (gan fodloni meini prawf Cystadlu neu Gymharu).
- Ffi'r drwydded i gynyddu yn unol â chwyddiant tan 2021/22. Cost casglu yn cael ei monitro'n agos, gyda chymau ar waith i ostwng cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded.
- Lansiwyd ymgynghoriad â'r cyhoedd ar ddyfodol ffi'r drwydded am ddim i bobl dros 75 oed a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn 2019.
- Eglurder o ran costau pensiwn tan y prisiad nesaf yn 2019, a chynlluniau ar waith i ddileu'r lleihad mewn gwerth a gwneud y cynllun yn hunangynhaliol erbyn 2028.
- Adolygiadau busnes gweithredol a hyfywedd blynyddol i asesu sefydlogrwydd ariannol parhaus.
- Cynllun clir i reoli goblygiadau penderfyniad y Bwrdd ynglŷn â ffi'r drwydded am ddim i bobl dros 75 oed.
- Blaenoriaethu gwariant ar gynnwys a gwasanaethau.

### 5. Gwneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio ynddo

Mae graddau'r newid gweithredol, sefydliadol a diwylliannol sydd ar waith yn peri risg y caiff y sefydliad ei roi dan bwysau sylweddol. Mae risg na allwn gadw cyflogaion mewn meysydd allweddol oherwydd heriau cyflog. Gallai methu â chyflawni ein targedau o ran amrywiaeth a chynhwysiant ddigalonni cyflogaion. Pe bai'r risgiau hyn yn codi, gallem golli talent allweddol a/neu weld cynnydd mewn trosiant staff, mwy o risg o gwynion cyflogaeth a'r bygythiad o weithredu diwydiannol.

1 2 3 4 5 >

- Mae'r grŵp Newid a Gweithrediadau yn sicrhau bod newid busnes yn cael ei weithredu mewn ffordd gyson a chydgyssylltiedig. Cysylltu â staff yn helaeth, gan fonitro lefelau ymgysylltu drwy grwpiau ffocws ac arolwg cyflogaion a gynhelir bob dwy flynedd.
- Mae targedau clir o ran amrywiaeth ar waith, gydag adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd, sefydlwyd Canolfan Ragoriaeth ar gyfer talent amrywiol a rhoddwyd y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth ar waith er mwyn sicrhau gwerthoedd ac ymrwymadau a rennir.
- Cryn sylw gan y Bwrdd i heriau cyflog cyfartal a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gydag ymrwymiad i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau erbyn 2020 a chyflwynwyd egwyddorion cyflog newydd. Darparu strwythurau gyrfa cliriach drwy gyflwyno Fframwaith Llwybr Gyrfar BBC.
- Adolygu a moderneiddio telerau ac amodau gyda'r Cyd-undebau.
- Cynhelir cyfres o arolygon pwls ar-lein rheolaidd i gael cipolwg amser real ar fywyd gwaith.
- Cynhaliwyd adolygiadau tryloywder o'r Gwasanaethau Cyhoeddus a gweithrediadau masnachol yn ystod y flyyddyn a chymerwyd y camau gweithredu ategol.

**Risgiau a chyfleoedd gweithredol**

Prif risgiau a chyfleoedd

Camau lliniaru allweddol

**1. Iechyd, diogelwch a diogelwch eiddo**

Y risg ein bod yn methu â diogelu ein pobl, ein hymwelwyr, ein hasedau a'n safleoedd gartref a thramor, a allai arwain at niwed corfforol neu feddyliol a/neu amharu ar y gwasanaethau a ddarparwn.



- Hyfforddiant arbenigol ar gael i staff mewn rolau risg uchel (a'u rheolwyr) a phob rôl yn destun asesiad risg trylwyr. Cynnal gwaith cynllunio senarios ac ymarferion efelychu gyda thimau rheoli allweddol.
- Rheolaethau amddiffyn plant yn cynnwys gwiriadau cefndir gorfodol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, a gefnogir gan hyfforddiant gorfodol a pholisïau a monitro cydymffurfiaeth.
- Adolygiadau parhaus o ddiogelwch ar safleoedd y BBC a lleoliadau darlledu allanol, a chysylltiadau agos ag awdurdodau diogelwch y DU a fforymau diogelwch traws-sector.
- Prosesu asesu risg Iechyd a Diogelwch ar waith, a gefnogir gan archwiliadau monitro diogelwch a hyfforddiant. Ymchwilio i bob digwyddiad a gofnodir er mwyn nodi unrhyw gamau cywirol sydd eu hangen.

**2. Rheoli busnes a newid**

Y risg nad ydym yn rheoli ein perfformiad ariannol, portffolio prosiectau allweddol, cynlluniau parhad busnes, cyflenwyr trydydd parti na phrosesau gwrth-dwyll yn effeithiol ac, wrth wneud hynny, ein bod yn gwneud y BBC yn agored i gost ariannol annisgwyl, effaith andwyol ar ein henw da a/neu ymyrraeth reoleiddiol.

Y risg nad ydym wedi cynllunio'n effeithiol nac wedi cymryd camau lliniaru i gyfyngu ar yr effaith ar weithrediadau a gwasanaethau os bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.



- Mae cynlluniau manwl yn ategu targedau arbedion a chamau gweithredu er mwyn gostwng cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded.
- Mae'r Swyddfa Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn rhoi sicrwydd ynglŷn â buddiannau busnes a chanlyniadau prosiectau allweddol. Mae'n asesu risg a hyder cyflawni drwy bartneru arweinwyr prosiect a grwpiau llywio; cylch her misol; adroddiadau swyddogion gweithredol a gwiriadau iechyd annibynnol. Yn ogystal â hynny, mae'r Swyddfa Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn pennu safonau, yn cefnogi'r broses o ddatblygu prosiectau a'r gallu i newid ac yn sicrhau y caiff gwersi eu hymgorffori mewn gweithrediadau busnes.
- Gwario ar fonitro systemau caffael er mwyn sicrhau bod contractau ar waith gyda chyflenwyr, ac er mwyn asesu digonolrwydd y broses o reoli cyflenwyr er mwyn cyflawni gwerth am arian.
- Cynlluniau parhad busnes a phrosesau rheoli mewn argyfwng ar waith, gan gyflawni ymarferion yn rheolaidd.
- Aseidiadau risg manwl o dwyll wedi'u cwblhau, gyda chwmpas sy'n cynnwys risgiau llwgrwobrwyo, camddefnyddio asedau, gwrthdaro buddiannau, treuliau, cyflogres, caffael a phrosesau talu.
- Mae'r BBC wedi cymryd camau lliniaru, hyd y gellir, os bydd Brexit heb gytundeb. Caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwahanol senarios eu monitro.

### 3. Cydymffurfiaeth

Y risg ein bod yn methu â chydymffurfio â safonau/ rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol a safonau/ rhwymedigaethau eraill (gan gynnwys gofynion mewnol e.e. cydymffurfiaeth olygyddol) sy'n berthnasol i'r BBC; gallai hyn arwain at niweidio enw da, colli ymddiriedaeth, camau cyfreithiol, dirwyon neu gosbau eraill.



- Polisiau ar waith, sy'n bodloni gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, a ategir gan hyfforddiant, cyngor gan arbenigwyr pwnc, a gwaith monitro ac adrodd manwl.
- Goruchwyliaeth y Swyddog Diogelu Data; polisiau a phrosesau sy'n cydymffurfio â gofynion GDPR ym maes diogelu data a phreifatrwydd, gan gynnwys hawliau gwrthrych data a pholisiau preifatrwydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd; hyfforddiant ar ddiogelu data i'r staff; cadernid systemau TG; mynediad at gyngor cyfreithiol mewnol ac allanol ar ddiogelu data.
- Polisi golygyddol sefydledig ar waith, a gaiff ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.
- Prosesau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol Ofcom, a ategir hefyd gan adroddiadau a gwaith monitro.
- Monitro cwynion i Ofcom a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Gweithredol, a chyflwyno adroddiadau misol i'r Bwrdd.
- Timau arbenigol ar waith i gefnogi cydymffurfiaeth â gofynion o ran treth, gofynion cyfreithiol e.e. cyflogaeth, ymglyfreitha a gofynion cydymffurfiaeth reoleiddiol eraill.

### 4. Technoleg

Y risg ein bod yn methu â darparu gwasanaeth darlledu cadarn ar draws pob sianel ddsbarthu a/neu ddiogelu cyfrinachedd, cywirdeb neu argaeledd data'r BBC drwy ymosodiad seiber.

Risg fasnachol sylweddol a risg sylweddol i'n henw da os caiff cynnwys ei ryddhau heb ei reoli.



- Nodi pwyntiau methu unigol a chymryd camau fel sy'n briodol. Cynlluniau adfer ar waith ac wedi'u profi. Monitro toriadau a glynu wrth amcanion amser adfer yn fanwl er mwyn sicrhau bod cyn lleied o amharu â phosibl ar wasanaethau darlledu.
- Polisiau a gweithdrefnau helaeth ar waith er mwyn atal/canfod bygythiadau seiber a chydweithio â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol er mwyn darparu cudd-wybodaeth am seiber-risgiau.
- Mae systemau monitro priodol ar waith i ddarparu gwasanaethau monitro bygythiadau ynghyd â'r gallu i reoli digwyddiadau.
- Cyflwyno hyfforddiant gorfodol ar Ddiogelwch Data a Seiberddiogelwch i'r busnes.

Noder: Nid yw'r risgiau a restrir yn cwmpasu pob un sy'n gysylltiedig â'r BBC ac nid yw'r rhifau cyfeirnod yn dynodi trefn blaenoriaeth. Gall risgiau ac ansicrwydd ychwanegol nad ydynt yn hysbys i'r rheolwyr ar hyn o bryd, neu nas ystyrir yn berthnasol ar hyn o bryd, hefyd gael effaith andwyol ar y Gorfforaeth. Cedwir golwg ar y risgiau llai perthnasol hyn rhag ofn iddynt ddod yn fwy tebygol neu gael mwy o effaith.

### Fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae proses y BBC o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol yn gyson â Chanllawiau'r Cyngor Adrodd Ariannol ar Reoli Risg, Rheolaeth Fewnol ac Adroddiad Busnes ac Ariannol Cysylltiedig. Ymgorfforir systemau rheoli risg o fewn pob isadran, gyda phroses gydgylltu ganolog er mwyn nodi, uwchgyfeirio a rheoli risgiau ar draws y BBC.

### Asesu effeithiolrwydd rheoli risg a rheolaeth fewnol

Defnyddiodd y Bwrdd nifer o ddulliau i'w helpu i asesu effeithiolrwydd y system rheoli risg a rheolaeth fewnol ym mhob rhan o'r BBC.

**Goruchwyllo risg:** Dirprwyodd y Bwrdd gyfrifoldeb am adolygu prosesau risg a rheolaeth yn benodol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rheolaidd i gyflawni swyddogaethau craffu a goruchwyllo mewn perthynas ag effeithiolrwydd rheolaethau a rheoli risgiau (rhoddir rhagor o wybodaeth ar dudalen 122).

**Archwilwyr Mewnol:** Cynhaliodd y swyddogaeth Archwilio Mewnol ei llinell adrodd annibynnol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynhaliodd raglen o archwiliadau, yn unol â'r prif risgiau a wyneb ir gan y BBC. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganfyddiadau'r archwiliadau hyn i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff camau adferol eu holrhain i'w cwblhau.

**Archwiliadau allanol:** Mae canfyddiadau gwaith archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff unrhyw gamau gweithredu a argymhellir eu holrhain i'w cwblhau. Hefyd, parhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol â'i rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian.

**Chwythu'r chwiban:** Mae polisi datgelu gwarchoddedig ar waith, a ategir gan linell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau y gellir codi mater yn ddiennw. Cafodd cyfarwyddwr anweithredol ei enwi yn y polisi fel yr enw cyswllt ar gyfer codi'r pryderon mwyaf difrifol.

## Datganiad ynghylch Hyfywedd

Yn unol â darpariaeth C2.2 o ddiwygiad 2014 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae Bwrdd y BBC wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r 12 mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth 'busnes gweithredol'. Mae Bwrdd y BBC yn ystyried cynllun tair blynedd treigl ar gyfer y BBC yn flynyddol.

Ystyriodd Bwrdd y BBC y cynllun tair blynedd diweddaraf ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022 ym mis Mawrth 2019. Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu a chynllunio'r BBC. Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfamodau ariannol a chyfleusterau credyd.

Y prif dybiaethau sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r llif arian parod cysylltiedig a ragwelir, yw setliad ffi'r drwydded a bennodd baramedrau ariannol y BBC rhwng 2017/18 a 2021/22, a'n dogfen o 2015 sef Balch Beiddgar Creadigol a nododd weledigaeth y BBC, ei nodau strategol a'i arlwy i'r cyhoedd.

Cynhaliwyd asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gorfforaeth, fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar dudalen 125, gan gynnwys y rhai a fyddai'n peryglu ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Cymhwysir dadansoddiad sensitifrwydd at y llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai prif risgiau'n codi mewn gwirionedd, yn unigol neu ar y cyd. Cyfrifwyd y gofyniad benthyca uchaf drwy foddelu cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy, ond, a chan gynnwys mesurau lliniaru, arhosodd y llifau arian parod o fewn y terfyn benthyca drwy gydol y cyfnod tair blynedd.

Gan ystyried sefyllfa bresennol Grŵp y BBC, penderfyniad diweddar y Bwrdd ar ariannu trwyddedau i bobl dros 75 oed, prif risgiau a'r dadansoddiad sensitifrwydd a nodir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.



# Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol

Cefais fy mhenodi'n Gadeirydd newydd BBC Commercial Holdings Limited yn lle Tony Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, ym mis Ebrill 2019, yn dilyn cyfres o newidiadau a argymhellwyd gan adolygiad Christopher Saul o dryloywder yng ngweithrediadau masnachol y BBC. Mae'r datganiad hwn yn rhoi adroddiad ar y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019.

Mae'r BBC yn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus, a ariennir drwy ffi'r drwydded i gynulleidfa oedd yn y DU. Ond gan fod y cynnwys o ansawdd uchel a gynhyrchir ganddo yn apelio'n fyd-eang, mae hefyd yn cael y dasg o sicrhau'r refeniw masnachol mwyaf posibl a hyrwyddo brand ac enw da'r BBC ledled y byd.

Cafodd y busnesau masnachol flwyddyn dda, gan arwain at dalu didendau datganedig o £73 miliwn (2017/18: £38 million) yn ystod y flwyddyn i'r BBC. Bu'n flwyddyn o drawsnewid yn fewnol, yn sgil uno BBC Studios a BBC Worldwide i ffurfio'r BBC Studios newydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn union, ac mae canlyniadau'r busnes unedig yn dangos arwyddion da o lwyddiant. Bu cryn drawsnewid yn allanol hefyd, wrth i ymddygiad cynulleidfa oedd barhau i newid yn gyflym, sy'n cynnig heriau a chyfleoedd.

Yn ariannol, cafodd BBC Studios flwyddyn dda, gyda phrif werthiannau o £1,373 miliwn (2017/18: £1,411 miliwn) ac EBITDA o £159 miliwn (2017/18: £105 miliwn). Yn gyffredinol, sicrhodd y busnes enillion o £243 miliwn i'r BBC.

Bu perfformiad ariannol BBC Global News yn gadarn, gydag incwm o £114 miliwn (2017/18: £109 miliwn) ac EBITDA o £8 miliwn (2017/18: £2 filiwn). Cynyddodd cyrhaeddiad cynulleidfa hefyd, gydag ôl troed byd-eang sianel BBC World News yn cynyddu 2% a nifer yr ymwelwyr â bbc.com yn cynyddu 6% yn ystod y flwyddyn.

Bu perfformiad ariannol BBC Studioworks yn gadarn yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau incwm o £37 miliwn (2018: £31 miliwn) ac EBITDA o £6 miliwn (2018: £3 miliwn). Mae'r cynnydd o 19% o un flwyddyn i'r llall yn adlewyrchu effaith ailgyflwyno cyfleuster y Ganolfan Deledu ym mhortffolio'r cwmni. Datganodd BBC Studioworks ddifidend arian parod i Grŵp y BBC, am y tro cyntaf, gwerth £0.8 miliwn.

Fodd bynnag, nid yw'r busnesau masnachol yn bodoli i gynhyrchu enillion ariannol yn unig. Mae pob un yn chwarae rôl bwysig yn yr economi greadigol ehangach, gan ddatblygu syniadau creadigol, buddsoddi mewn talent, rhoi hyfforddiant mewn sgiliau a galluoedd arbenigol a hyrwyddo diwylliant a chreadigrwydd Prydeinig ledled y byd.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd busnesau masnachol y BBC yn parhau i chwarae rôl hollbwysig i gefnogi refeniw ffi'r drwydded. Mae'n rhaid iddynt ddangos effeithlonrwydd, yr hyblygrwydd sydd ei angen i ymateb i newidiadau yn ein marchnad fyd-eang a ffocws llwyr ar gynnwys o'r ansawdd gorau.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

Cyfarfu'r Bwrdd saith gwaith yn ystod y flwyddyn. Penodwyd Elan Closs Stephens, Glyn Isherwood a Steve Morrison ar 1 Ebrill 2019 felly nid oeddent yn bresennol yn unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd fel cyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn. Ymddiswyddodd Anne Bulford, Mark Linsey ac Anna Mallett yn weithredol o 31 Mawrth 2019, ac ymddeolodd Howard Stringer yn weithredol o 24 Hydref 2018.

Mae presenoldeb cyfarwyddwyr y cwmni a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Cyfarwyddwr	Presenoldeb/ Cyfanswm
Tony Hall	6/7
Anne Bulford	7/7
Tim Davie	7/7
Tom Fussell	7/7
Sarah Jones	5/7
Mark Linsey	5/7
Anna Mallett	6/7
Dharmash Mistry	6/7
Bal Samra	7/7
Howard Stringer	1/4

## Elan Closs Stephens Cadeirydd

20 Mehefin 2019


# Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Roedd yn bleser gennyf barhau fel Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol eleni. Bu'r Pwyllgor yn ymdrin â rhaglen waith bwysig yn ystod 2018/19.

Un o brif swyddogaethau'r Pwyllgor yn 2018/19 oedd goruchwyllo'r gwaith o ddiwygio Canllawiau Golygyddol y BBC ar ran Bwrdd y BBC. Y Canllawiau diwygiedig yw'r iteriad cyntaf a wnaed o dan strwythur llywodraethu newydd y BBC. Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC bennu canllawiau a gynlluniwyd er mwyn sicrhau safonau priodol yng nghydestun Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, ac i gyhoeddi'r canllawiau hynny, eu hadolygu'n rheolaidd a chydymffurfio â nhw. Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, comisiodd y Pwyllgor is-adran Polisi Golygyddol y BBC i ddiwygio'r Canllawiau. Gofynnwyd i'r is-adran Polisi Golygyddol gyflwyno fersiynau drafft o'r Canllawiau i'r Pwyllgor ar amrywiol adegau yn ystod y broses ddiwygio. Sicrhaodd y Pwyllgor fod y Canllawiau diwygiedig yn adlewyrchu cyngor yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o achosion o dorri'r canllawiau golygyddol ers eu diweddarau ddiwethaf, gan gynnwys cyngor wedi'i ddiweddarau ar breifatrwydd yn dilyn y dyfarniad cyfreithiol mewn perthynas â Syr Cliff Richard yn 2018. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau drafft terfynol (fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor a Bwrdd y BBC) rhwng dydd Llun 4 Hydref a dydd Llun 12 Tachwedd 2018. Gofynnwyd i'r is-adran Polisi Golygyddol asesu'r ymatebion a gwneud diwygiadau i'r Canllawiau. Trafodwyd y Canllawiau diwygiedig hyn ac fe'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor a Bwrdd y BBC ym mis Mawrth. Mae'r Canllawiau ar gael ar-lein: [bbc.co.uk/editorialguidelines](http://bbc.co.uk/editorialguidelines).

Un o flaenoriaethau allweddol Bwrdd y BBC yw sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu allbwn diduedd o ansawdd uchel, fel sy'n ofynnol gan y Siarter. Rydym wedi bod yn arwain y gwaith hwn ar ran Bwrdd y BBC. Mae didueddrwydd wrth wraidd darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac mewn oes o gamwbyodaeth a rhaniadau gwleidyddol, mae rôl y BBC yn bwysicach fyth wrth helpu cynulleidfaoedd i ddeall materion. Yn ogystal â chymeradwyo'r egwyddor o ddiueddrwydd dyladwy sy'n ofynnol gan holl gynnwys y BBC, mae'r Pwyllgor wedi annog rhaglen waith i sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â phwysigrwydd yr ymrwymiad i ddiueddrwydd ac y rhoddir sylw gofalus i adborth gan gynulleidfaoedd ar y mater hwn.

## Cwynion y BBC 2018/19:



Mae'r Canllawiau Golygyddol yn nodi y dylai dau unigolyn wyllo neu wrando ar holl gynnwys y BBC a gaiff ei recordio ymlaen llaw cyn ei ddarlledu. Rhaid hefyd cwblhau ffurflenni cydymffurfiaeth. Cynhelir hapwiriadau rheolaidd gan yr adran Archwilio Mewnol. Caiff y Pwyllgor ei hysbysu am ganfyddiadau'r hapwiriadau hyn a, lle y cafwyd problemau, gwnaethom ofyn i is-adranau'r BBC egluro beth sydd wedi digwydd gan ofyn iddynt gymryd camau adferol er mwyn sicrhau y caiff y broblem ei datrys.

Un o swyddogaethau allweddol y Pwyllgor eleni fu sicrhau bod proses gwynion y BBC yn mynd rhagddi'n ddidrafferth a bod pob rhan o'r BBC yn cydymffurfio â'r safonau cynnwys fel y'u nodir yn y Canllawiau Golygyddol ac yng Nghod Darlledu Ofcom. Ymdriniwyd â 98% o gwynion yng Ngham 1 ac 84% o gwynion yng Ngham 2 o'r broses gwynion o fewn y terfyn amser targed: 10 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 1; 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 safonol; a 35 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 cymhleth. Lle na lwyddodd yr amseroedd ymateb i fodloni'r targedau a bennwyd gan y Bwrdd, cafodd y Bwrdd wybod pam. Cafwyd problem dechnegol wrth goladu'r ffigurau ar gyfer cwynion Cam 2. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am hyn a datryswyd y broblem.

**Ian Hargreaves**  
Cadeirydd  
20 Mehefin 2019

## Aelodau'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am safonau cynnwys yn y BBC. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol ac un cyfarwyddwr gweithredol: Ian Hargreaves (Chair), Tanni Grey-Thompson, Nick Serota a Tony Hall. Mae'r Cyfarwyddwr, Polisi a Safonau Golygyddol hefyd yn dod i gyfarfodydd y Pwyllgor, ac yn gweithredu fel Prif Gyngorydd i'r Pwyllgor.

### Ofcom

Mae proses 'BBC First', fel y'i nodwyd yn y Cytundeb, yn gweithio'n dda. Yn ei adroddiad blynyddol cyntaf ar y BBC, nododd Ofcom fod y broses gwynion yn effeithiol ac yn effeithlon. Yn ystod y cyfnod cyfrifyddu hwn, nododd Ofcom fod y BBC wedi torri'r Cod Darlledu ddwywaith, a bod y ddau achos eisoes wedi'u cadarnhau gan Uned Cwynion Gweithredol y BBC yn ystod Cam 2 o'r broses gwynion:

*Today*, BBC Radio 4, 10 Awst 2017 – Torri Rheol 5.1 (cywirdeb dyladwy mewn Newyddion). Roedd Ofcom o'r farn y dylai'r cyflwynydd fod wedi bod yn barod i ddarparu her a chyd-destun i safbwyntiau'r Arglwydd Lawson ar newid yn yr hinsawdd, fel y bo'n briodol.

*Stephen: The Murder that Changed a Nation*, BBC One, 19 Ebrill 2018 – Torri Rheol 7.1 (Tegwch). Methodd y rhaglen â sôn fod collfarnau'r achwynydd a'i gydweithiwr wedi cael eu dirymu ers hynny.

Cyflwynodd Ofcom hefyd ei Farn gyntaf ar gŵyn am ddeunydd ar-lein y BBC yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Roedd y Farn hon yn ymwneud â chwyn gan Carter-Ruck ar ran Barwnes Scotland. Dywedodd Ofcom fod y BBC wedi cydymffurfio â'r Canllawiau perthnasol ac ni wnaeth unrhyw argymhelliad i'r BBC mewn perthynas â'r erthygl hon.

Mewn penderfyniad eithriadol, ym mis Chwefror 2019, penderfynodd Ofcom gyhoeddi ei resymau dros beidio â chadarnhau cwyn ynghylch darllediadau'r BBC mewn perthynas â'r DU yn ymadael â'r UE. Nododd Ofcom ei fod yn gwneud hynny er mwyn cynnig arweiniad i ddarlledwyr ar ystyr didueddrwydd 'dyladwy'. Canfu Ofcom fod safbwyntiau amgen ar y materion wedi'u cynrychioli'n ddiagonol yn rhaglenni'r BBC a aseswyd (testun y gŵyn). Penderfynwyd cadarnhau canfyddiad Cam 2 y BBC ar y mater.

Yn unol â chais gan Ofcom, mae'r BBC yn parhau i gyhoeddi manylion achosion lle ceir mwy na 100 o gwynion ac y mae cylch gwaith y Cod Darlledu yn berthnasol iddynt bob pythefnos. Caiff y bwletinâu hyn eu cyhoeddi yn: [bbc.co.uk/complaints/comp-reports/reports-archive/](http://bbc.co.uk/complaints/comp-reports/reports-archive/).

Mae'r BBC hefyd yn cyhoeddi ymatebion i gwynion sylweddol, a chanfyddiadau'r Uned Cwynion Gweithredol, ar wefan BBC Complaints yn: [bbc.co.uk/complaints](http://bbc.co.uk/complaints).

### Cwynion golygyddol a'r gwersi a ddysgwyd

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, llwyddodd mwyafrif cynnwys y BBC i gydymffurfio â'r safonau a bennwyd gan Ganllawiau Golygyddol y BBC. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor yr achosion difrifol canlynol o dorri'r Canllawiau:

*BBC Afrique*, 28 Ebrill 2018. Darlledodd yr orsaf gyfweiliad ag ymgyrchydd hawliau dynol a wnaeth honiadau o lofruddio ac ymgais i lofruddio yn erbyn y Llywodraeth ac Arlywydd Burundi. Ni chadarnhaodd y rhaglen yr honiadau hyn ac ni chynigiodd hawl i'r llywodraeth na'r Arlywydd ymateb iddynt. Ymddiheurodd y BBC am yr achos difrifol hwn o dorri'r Canllawiau Golygyddol.

*Human Planet*, a ddarlledwyd gyntaf yn 2011. Ar ôl darganfod achos o ddiffyg cywirdeb arall, tynnwyd y gyfres yn ôl ac nid yw bellach ar gael i drwyddedeion.

*David Baddiel Tries to Understand: WiFi*, BBC Radio 4, 24 Hydref 2018. Roedd y rhaglen yn cynnwys anghywirdebau ffeithiol am briodweddau, effeithiau ac ymlediad tonnau electromagnetig. Gwnaed camgymeriadau hefyd wrth ddewis yr unigolion i gyfweild â nhw. Diddymwyd y rhaglen o lwyfannau ar alw.

Cyflwynodd BBC News Pidgin fideo propaganda a recordiwyd gan herwgipiwr yng Nghamerŵn ar ei wefan a'i dudalen ar Facebook. Tynnwyd y fideo oddi ar y ddau lwyfan ac mae is-adran Polisi Golygyddol y BBC wedi rhoi hyfforddiant penodol i'r tîm.

Yn ogystal â'r achosion hyn, nododd yr Uned Cwynion Gweithredol gyfanswm o 54 o achosion o dorri'r safonau golygyddol yn ystod y flwyddyn ariannol hon (gan gynnwys deg achos lle roedd camau a gymerwyd gan yr is-adran berthnasol cyn uwchgyfeirio'r gŵyn i'r Pwyllgor wedi datrys y mater a arweiniodd at y gŵyn). Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor yn brydlon am bob achos difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol a chwynion a gadarnhawyd/a gadarnhawyd yn rhannol/a ddatryswyd, ynghyd â'r camau gweithredu a gymerwyd.

# Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd

**Mae Pwyllgorau'r pedair gwlad yn helpu'r Bwrdd i adolygu a monitro allbwn a pherfformiad y BBC ledled y DU. Mae'r adran hon yn darparu adroddiad gan y Cadeirydd ar waith pob Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.**

## Cymru

Yn dilyn y buddsoddiad a addawyd ac a wireddwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, bu'n flwyddyn dda i BBC Cymru, gyda llwyddiant y llynedd *Keeping Faith* yn cael ei ddilyn gan ddrama newydd, *Hidden*, sef cyd-gynhyrchiad arall ag S4C. Darlledwyd comisiynau gan BBC Cymru fel *The Factory* gan deledu rhwydwaith a gwnaeth comisiynau comedi, sy'n faes heriol ond yn faes lle ceir cryn dalent yng Nghymru, gryn argraff ar y Pwyllgor. Bydd ein ffocws fel Pwyllgor ar gefnogi ymdrechion i ailfuddsoddi a chynnal ffocws ar raglennu nodedig ym maes drama, comedi a ffeithiol; cynyddu effaith BBC Cymru ar-lein ac ar ffurf sain; ac atgyfnerthu a moderneiddio allbwn newyddion.

Ymunodd Ian Hargreaves, Ken MacQuarrie, Rhodri Talfan Davies a Rhys Evans â mi ar Bwyllgor Cymru, a daeth aelodau eraill o staff i'r cyfarfodydd yn ôl y gofyn. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyfarfod ddwywaith yng Nghaerdydd ac unwaith yn Abertawe, lle y gwnaethom gymryd rhan mewn sesiwn ymgysylltu ag aelodau iau'r gynulleidfa.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom drafod tirlun y cyfryngau yng Nghymru ag Ofcom Cymru a chyfarfod ag awdur yr adolygiad annibynnol o S4C, Euryng Ogwen Williams. Roeddem wrth ein bodd gweld cydberthynas o gydweithrediad a dealltwriaeth rhwng S4C a'r BBC.

Fel rhan o'n gwaith, cawsom ddiweddariadau rheolaidd ar dargedau Y Tu Allan i Lundain a Pherfformiad Cynulleidfaoedd yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar BBC Radio Wales lle roedd ymchwil helaeth i'r gynulleidfa wedi arwain at newidiadau rhaglennu. Roeddem yn arbennig o ymwybodol o'r ffaith bod cynulleidfaoedd iau yn dueddol o ddefnyddio gwasanaethau ffrydio.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, cawsom allwedd i pencadlys newydd BBC Cymru yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd gan y datblygwyr. Bydd y fenter sylweddol o symud o Landaf yn dechrau yn ystod hydref 2019. Dyma fydd y cyfleuster cyntaf yn y DU i ddefnyddio technoleg IP ym mhob rhan o'i weithrediadau cynhyrchu a darlledu.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Nghymru ar dudalennau 40 a 167 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

**Elan Closs Stephens**  
Cadeirydd, Pwyllgor Cymru

## Yr Alban

Bu'n flwyddyn gyffrous i'r BBC yn yr Alban, yn fwyaf nodedig wrth i ni lansio sianel BBC Scotland ym mis Chwefror 2019. Yr Alban yw'r unig wlad o blith y pedair gwlad y mae bellach ganddi ddwy sianel deledu benodol – BBC Scotland a BBC ALBA – ac mae'r sianel newydd yn golygu y caiff dros 900 awr o gynnwys gwreiddiol ychwanegol ei ddarlledu yn yr Alban bob blwyddyn. Roedd gan Bwyllgor yr Alban ran bwysig i'w chwarae wrth helpu BBC Scotland wrth baratoi i lansio'r sianel yn llwyddiannus, ac edrychwn ymlaen at barhau i fonitro ei pherfformiad a dathlu ei llwyddiannau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae buddsoddiadau yn ein timau digidol a pheirianeg, ynghyd â'r swyddi newydd a grëwyd gan y sianel, wedi arwain at greu dros 200 o swyddi newydd yn y BBC yn yr Alban eleni; y buddsoddiad unigol mwyaf mewn cynhyrchu cynnwys ers cenedlaeth. Mae ein canolfan dechnoleg yn Glasgow yn parhau i dyfu ac rwyf wrth fy modd ei bod yn dod yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer adnabod lleisiau a dysgu drwy beiriant, ymhlith arbenigeddau eraill.

Bu hefyd yn flwyddyn ardderchog o ran raglenni a wnaed yn yr Alban, gan gynnwys *The Cry*, drama seicolegol mewn pedair rhan ar gyfer BBC One a ffilmiwyd yn yr Alban yn ogystal ag Awstralia. Yn ystod ei mis cyntaf, darlledodd sianel newydd yr Alban raglennu eithriadol: *Inside Central Station*, a ymsefydlodd yn gyflym fel un o'i rhaglenni mwyaf poblogaidd; *Yes/No: Inside the Indyref*, a ddarparodd wybodaeth fanwl am un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes diweddar yr Alban; a *A View from the Terrace*, golwg ysgafn ar fyd pêl-droed yr Alban.

Gwnaethom ddatlu dengmlwyddiant BBC Alban ac rwyf wrth fy modd bod y sianel bellach yn darlledu newyddion ar benwythnosau am y tro cyntaf, yn ogystal â chynig bodddhad i'r genhedlaeth fwyaf newydd o siaradwyr Gaeleg drwy raglenni CBeebies a CBBC.

Ymunodd David Clementi, Ken MacQuarrie, Donalda MacKinnon (Cyfarwyddwr, Yr Alban) ac Ian Small (Pennaeth Polisi Cyhoeddus a Materion Corfforaethol) â mi ar Bwyllgor yr Alban. Eleni, gwnaethom gyfarfod yn Glasgow, Dundee ac Aberdeen. Yn Dundee ac Aberdeen, gwnaethom ymgysylltu â chynrychiolwyr o sectorau'r celfyddydau, busnes, diwylliant ac addysg er mwyn clywed eu safbwyntiau am allbwn y BBC a thrafod ffyrdd y gallem gydweithredu ymhellach er mwyn helpu i ddatblygu'r diwydiannau creadigol.

Mae deall cynulleidfaoedd yn yr Alban ac ymgysylltu â nhw yn un o rolau allweddol y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn ystyried perfformiad holl wasanaethau'r BBC yn yr Alban ym mhob un o'i gyfarfodydd ac ym mis Hydref 2018, gwnaethom gynnal sesiwn ymgysylltu â chynulleidfaoedd ag unigolion 18-34 oed yn Dundee. Mynegodd y cyfranogwyr barch tuag at y BBC, gan ganmol ansawdd uchel ei gynnwys; ar yr un pryd, clywsom y byddent yn hoffi i'r BBC wneud mwy o raglenni sy'n teimlo'n berthnasol i bobl ifanc. Bydd dyfodiad sianel newydd BBC Scotland o gymorth yn hyn o beth gan ei bod eisoes yn denu gwylwyr newydd ifancach i'r BBC. Rydym yn edrych ymlaen at ymgysylltu â chynulleidfaoedd, yn enwedig er mwyn clywed eu barn ar sianel yr Alban, yn ystod y flwyddyn nesaf.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yn yr Alban ar dudalennau 42 a 171 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

**Steve Morrison**  
Cadeirydd, Pwyllgor yr Alban

## Gogledd Iwerddon

Yn ystod y flwyddyn, mae Pwyllgor Gogledd Iwerddon wedi parhau i fonitro, adolygu a chefnogi gwaith a pherfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon. Gwnethum barhau i gadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn gan nad oedd gan y BBC gyfarwyddwr anweithredol (nac Aelod o'r Bwrdd) ar gyfer Gogledd Iwerddon. Ni lwyddwyd i lenwi'r swydd hon gan fod angen mewnbwn gan y Bwrdd Gweithredol yn Stormont.

Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith yn bersonol yn ystod y flwyddyn ac ymwelodd ag Antrim i gymryd rhan mewn sesiwn ymgysylltu ag aelodau iau'r gynulleidfa yn ystod yr hydref. Cafodd gyfle hefyd i gyfarfod â thraws-doriad o bobl o wahanol sectorau a sefydliadau er mwyn clywed eu safbwyntiau am y BBC. Ymunodd David Clementi, Peter Johnston, Cyfarwyddwr y Gwledydd, Gogledd Iwerddon, Anne Bulford, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ac Elan Closs Stephens â mi ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ymunodd Mark Adair, Pennaeth Polisi ar gyfer Gogledd Iwerddon, hefyd fel aelod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Fel rhan o'i waith, cafodd y Pwyllgor ddiweddiadau ar fuddsoddiad ac allbwn y BBC ar lefel leol, gan gynnwys datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r gwaith i adnewyddu ac ehangu Broadcasting House, Belfast. Trafododd y broses o roi strategaeth ddigidol newydd ar waith ar gyfer gwasanaethau newyddion y BBC yng Ngogledd Iwerddon a phoblogrwydd parhaus BBC Radio Ulster/Foyle a rhaglenni teledu a gynhyrchir yn lleol. Clywsom hefyd am alloesedd technolegol a'i fuddiannau o ran allbwn a chynulleidfaoedd y BBC a'r gwaith parhaus i sicrhau bod ein harchifau yn fwy hygyrch i bawb. Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon ar dudalennau 44 a 175 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Rydym yn ymwybodol o'r rhan bwysig y mae'r BBC yn ei chwarae wrth gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Ngogledd Iwerddon. Ac mae wedi helpu i gyflwyno talent, lleisiau, lleoedd a phryderon lleol i gynulleidfa rhwydwaith ehangach y BBC. Bu partneriaethau yn sail i lawer o'r gwaith hwn a byddant yn parhau'n flaenoriaeth yn ystod y cyfnod nesaf, yn ogystal â gwaith i ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau ac i gyflawni yn erbyn ymrwymadau rhaglen a phortreadu'r BBC ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae blwyddyn o raglennu sylweddol o'n blaenau, ar draws amrywiaeth o genres a materion, a bydd y Pwyllgor yn helpu i oruchwylio hyn oll.

**Ken MacQuarrie**  
Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon

 Dychwelyd i'r cynnwys

## Lloegr

Bu'n bleser gennyf gadeirio Pwyllgor Lloegr yn ystod y 12 mis diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â'r aelodau presennol Tom llube (cyfarwyddwr anweithredol) a Ken MacQuarrie (Cyfarwyddwr Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC), mae'r Pwyllgor wedi croesawu aelodau newydd, sef Helen Thomas (Cyfarwyddwr, BBC England) a Chris Burns (Pennaeth Radio Lleol y BBC yn Lloegr). Hoffwn ddiolch yn bersonol i bedwar unigolyn nad ydynt bellach yn aelodau o'r Pwyllgor; sef Alice Webb (Cyfarwyddwr, BBC Plant ac Addysg), Joe Godwin (Cyfarwyddwr, BBC Midlands), Pat Connor (Cyfarwyddwr, BBC South West) a David Holdsworth (Rheolwr, Rhanbarthau Lloegr).

Ar ddechrau 2018, cytunodd y Pwyllgor y dylid canolbwyntio ar gynulleidfaoedd ifanc a chynulleidfaoedd BAME fel y materion allweddol ar gyfer y flwyddyn, ac yn arbennig, sut roedd pobl yn y dinasoedd mawr yn Lloegr yn edrych ar gynnwys y BBC, gan fod yr ardaloedd hynny yn debygol o fod yn ifancach ac yn fwy amrywiol. Yn ystod 2018, cynhaliodd aelodau'r Pwyllgor sesiynau â grwpiau o gynulleidfaoedd, gan gynnwys cyfarfodydd yng Nghaerlŷr yng Nghlwb Unity Boxing a Chanolfan Cymdogaeth Belgrave, ac yn Leeds yn Ysgol Priesthorpe a Chanolfan Hamara. Ymwelodd y Pwyllgor hefyd â Margate a chyfarfu â thrigolion lleol er mwyn ystyried eu barn am ein gwasanaethau. Rhoddodd hyn safbwynt gwahanol i ni o dref arfordirol yn Lloegr.

Teithiais i Jersey a Guernsey gyda Helen Thomas. Yma, gwnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr lleol y cymunedau ynysol hyn lle y clywsom am bwysigrwydd gwasanaethau lleol y BBC i fywydau beunyddiol. Yn olaf, ymwelais â'r orsaf radio leol yn Swindon. Siaradais â newyddiadurwyr a oedd ar y rheng flaen yn gohebu am achos gwenwyno trasig Novichok yn Salisbury. Mae arwyddocâd meithrin cysylltiadau lleol sefydledig â phobl leol yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi ein newyddiadurwyr i gyflwyno newyddion sy'n digwydd ar y pryd mewn ffordd ystyrlon ac amserol.

Yn ystod y flwyddyn, drwy ymgysylltu â chynulleidfaoedd, daeth sawl peth yn amlwg i'r Pwyllgor, gan gynnwys yr angen i wella'r ffordd y caiff pobl BAME eu portreadu yn ein rhaglennu a'r awydd cryf i gynyddu'r cynnwys sydd ar gael ar iPlayer, gan gynnwys ehangu'r cyfnod y gellir cael gafael arno. Dim ond dwy enghraifft o'r hyn y mae'r rheini a wasanaethir gennym am ei gael gan eu darlledwr cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i siarad â phobl ledled Lloegr. Yn y cyfamser, hoffwn ddiolch i'r holl bobl hynny sydd wedi rhoi'n garedig o'u hamser i siarad â mi a Phwyllgor Lloegr. Rydym yn gwerthfawrogi eich sylwadau a'ch cymorth yn fawr.

Ym mis Hydref, cyflwynodd Helen Thomas (fel Cyfarwyddwr newydd BBC England) ei strategaeth newydd i Lloegr. Wrth wraidd y strategaeth, ceir cydnabyddiaeth bod angen hyrwyddo pob cynulleidfa ledled Lloegr, yn enwedig cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni drawsnewid arlwy'r BBC i gynulleidfaoedd, yn ogystal â helpu i gynyddu effaith greadigol ac economaidd BBC England. O ran Radio Lleol, yn ogystal â darparu newyddion lleol, bydd ein cenhadaeth hefyd yn anelu at adlewyrchu cynulleidfaoedd a chysylltu â nhw drwy berchenogi'r sgwrs leol. Rydym am gynnig cyfleoedd i'r rheini sy'n newydd i'r byd darlledu a bod yn lle sy'n ceisio arloesi'n barhaus. I ategu hyn, ymwelodd Helen Thomas a Chris Burns â holl safleoedd y BBC ledled Lloegr eleni, er mwyn clywed gan staff y BBC a chyflwyno eu negeseuon allweddol. Mae hyn wedi gosod y sylfeini ar gyfer newidiadau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yn Lloegr ar dudalennau 46 a 179 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

**Ashley Steel**  
Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr

# Adroddiad Masnachu Teg

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, canolbwyntiodd y Pwyllgor Masnachu Teg ar ddatblygu ein trefniadau ar gyfer goruchwylio systemau masnachu, gwahanu a chydymffurfiaeth reoleiddiol y BBC. Ffocws ein gwaith oedd gwella ein dealltwriaeth o is-gwmnïau masnachol y BBC, deall effeithiau newidiadau i strwythurau masnachol a meithrin cysylltiadau agosach ag Ofcom, sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer yr holl faterion Masnachu Teg.**

Bu fframwaith Masnachu Teg y BBC ar waith ers sawl blwyddyn ac mae wedi'i ymsefydlu'n gadarn yn y sefydliad. Mae hefyd yn parhau'n hanfodol ac yn gynyddol bwysig – mae'n sicrhau bod y BBC mewn sefyllfa i gyflawni ei rwymedigaeth i fasnachu'n deg ag unrhyw drydydd parti a phob trydydd parti, a dim ond wrth i gydbwysedd gweithgareddau masnachol y Grŵp dyfu y mae'r materion hyn yn dod yn gynyddol bwysig.

Mae busnes craidd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys y canlynol:

- ystyried prosesau'r BBC ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Ofcom ac adolygu cydymffurfiaeth â nhw;
- derbyn adroddiad rheoli chwarterol gan y Bwrdd Gweithredol, yn nodi manylion gweithgareddau ymgysylltu penodol mewn perthynas â materion Masnachu Teg arfaethedig a pharhaus ym mhob rhan o'r BBC;
- adolygu a monitro targedau ar gyfer hyfforddiant Masnachu Teg ym mhob rhan o'r BBC;
- cymeradwyo'r holl gyhoeddiadau ac adroddiadau perthnasol y mae'n rhaid i'r BBC eu darparu'n benodol er mwyn bodloni rheolau masnachu a gwahanu Ofcom.

Yn ystod y flwyddyn, trafododd y Pwyllgor hefyd ymgysylltiad y BBC ag ymgynghoriad Ofcom ar ei reolau masnachu a gwahanu diwygiedig. Gwnaethom nodi casgliadau terfynol yr ymgynghoriad hwnnw ac rydym bellach yn goruchwylio'r BBC wrth iddo roi'r gofynion newydd ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys datganiad gwahanu gweithredol, y cyfeiriwn ato yn yr adroddiad hwn ac y gellir ei weld ar wefan y BBC yn [bbc.com/aboutthebbc/reports/policies](http://bbc.com/aboutthebbc/reports/policies).

Yn gyffredinol, o'n gwaith eleni, credwn fod y system yn gweithio'n dda a nodwn na fu unrhyw gwynion Masnachu Teg i'w hystyried yn ystod y flwyddyn. Dylid croesawu'r datblygiad hwn a gobeithio ei fod yn rhoi sicrwydd i'r rheini y tu allan i'r BBC fod ein prosesau yn effeithiol.

Wrth gwrs, mae mwy i'w wneud bob amser ac nid ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau – rydym am fod mor dryloyw â phosibl a chroesawyd casgliadau Christopher Saul gennym yn dilyn ei adolygiad o Dryloywder Masnachol yn y BBC. Yn ei adroddiad, nododd Chris fod lefel tryloywder gyffredinol yr is-gwmnïau masnachol o ran llywodraethu, rheoleiddio a chyflogau a gwobrau o leiafystal â'r lefel a geir mewn busnesau tebyg. Croesawyd y canfyddiad hwn a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y gellir ymddiried yn y fframwaith, ei fod yn aeddfed ac yn gweithredu'n effeithiol.

Bu'r broses o ddatblygu trefniadau llywodraethu masnachol y BBC hefyd yn allweddol eleni, ac rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y Bwrdd Daliadau Masnachol a sefydlwyd yn ddiweddar yn parhau i helpu i sicrhau bod gofynion masnachu a gwahanu yn ystyriaeth graidd i'r Bwrdd hwnnw. Rwy'n edrych ymlaen at weithio'n agos ag Elan Closs Stephens, fel Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol, i ddatblygu proses sicrwydd gadarn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr ar y Pwyllgor am eu cymorth, eu harbenigedd a'u cyfraniadau at ein cyfarfodydd. Yn ystod y flwyddyn, roedd yr aelodau yn cynnwys Steve Morrison, Ian Hargreaves ac Elan a chawsom gymorth gan y timau Polisi, Cyllid a Chyfreithiol canolog sy'n meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r materion dan sylw. Roedd hefyd yn bleser nodi canfyddiadau archwiliad Masnachu Teg Deloitte eleni, a ddangosodd fod gan y BBC system sefydledig o reolaethau mewnol ar waith yn y maes hwn. Gellir gweld eu barn lawn ar dudalen 140.

Yn gyffredinol, rwy'n hyderus bod yr adroddiad hwn yn dangos bod y BBC yn gweithredu'n dda o fewn y fframweithiau a bennwyd ar ein cyfer gan Ofcom, ac rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf lle y byddwn yn parhau i ehangu ein gwaith a datblygu ein sicrwydd mewn perthynas â phopeth a wna'r BBC yn y maes pwysig a chynyddol hwn.

**Tom Ilube**  
**Cadeirydd**  
20 Mehefin 2019

## Beth yw ystyr Masnachu Teg?

Masnachu Teg yw'r ffordd y disgrifiwn ein prosesau a'n harferion sy'n sicrhau, wrth gynnal gweithgareddau masnachol a masnachu, ei bod yn gwneud hynny heb unrhyw bosibilrwydd o aflunio'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod y BBC yn masnachu'n unol â thelerau sy'n cyfateb â thelerau ei is-gwmnïau masnachol a thrydydd partiōn – boed wrth brynu gofod stiwdio neu godi tâl ar gynhyrchwyr am ddefnyddio un o swyddfeydd y BBC wrth wneud rhaglen deledu ar ein cyfer – ac felly nid yw is-gwmnïau masnachol y BBC yn derbyn unrhyw fantais gystadleuol annheg o ganlyniad i'w cydberthynas â'r BBC. Mae ein prosesau a'n harferion yn gydnaws â rheolau masnachu a gwahanu Ofcom sy'n rhan o fframwaith gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer y BBC.

## Beth mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn ei wneud?

Sefydlwyd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Bwrdd fel ffordd o fonitro a sicrhau gwahaniad ariannol a gweithredol priodol rhwng gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC, yn unol â fframwaith Ofcom. Sefydlwyd y Pwyllgor yn wirfoddol gan y Bwrdd, er mwyn cydnabod y pwysigrwydd y mae'r BBC yn ei roi ar dryloywder ac effeithlonrwydd masnachol wrth weithredu ei is-gwmnïau masnachol.

Un o swyddogaethau allweddol y Pwyllgor Masnachu Teg yw goruchwylio cydymffurfiaeth y BBC â'n rhwymedigaethau rheoleiddiol mewn perthynas â masnachu a gwahanu rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r is-gwmnïau masnachol<sup>1</sup>. Mae cyfrifoldebau craidd y Pwyllgor yn cynnwys:

- ystyried adroddiadau o'r graddau y mae gweithgareddau'r BBC yn gydnaws â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom;
- adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion rheoleiddiol masnachu a gwahanu Ofcom yn rheolaidd;
- comisiynu a derbyn yr archwiliad annibynnol blynyddol o reolaethau cydymffurfio;
- ystyried a chymeradwyo methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC i'w cyhoeddi;
- sicrhau y caiff methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC eu hadolygu'n rheolaidd.

<sup>1</sup> Yn 2018/19 – BBC Studios, BBC Studioworks a Global News Limited

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Ofcom ymgynghoriad ar newidiadau i'w reolau masnachu a gwahanu, a chyhoeddodd reoliadau diwygiedig ym mis Chwefror 2019. Cymerodd y BBC a'r Pwyllgor Masnachu Teg ran lawn yn yr ymgynghoriad hwn ac maent bellach yn rhoi mesurau ar waith i weithredu'r rheolau newydd. Mae'r rheolau newydd hyn yn nodi holl ofynion Ofcom ar gyfer gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC, gan gynnwys ei ofynion o ran monitro, adrodd a thryloywder.

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau'r canlynol:

- mai is-gwmnïau masnachol ar wahân sy'n ymgymryd â'r holl weithgareddau masnachol;
- bod pob is-gwmni masnachol yn gweithredu ar wahân i wasanaeth cyhoeddus y BBC;
- bod y BBC yn darparu nwyddau a gwasanaethau i is-gwmnïau masnachol ar delerau masnachol hyd braich, fel y byddem yn gwneud ag unrhyw drydydd parti;
- bod pob un o is-gwmnïau masnachol y BBC yn cyflawni cyfradd adenillion fasnachol;
- bod tryloywder, trefniadau a monitro a threfniadau adrodd priodol mewn perthynas â gweithgareddau'r is-gwmnïau.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau hyn, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo ac yn sicrhau prosesau a gweithdrefnau'r BBC er mwyn sicrhau lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r fframwaith. Er mwyn gwneud hyn, mae tîm Rheoleiddio Grŵp y BBC yn rheoli rhaglen hyfforddiant wedi'i thargedu ar gyfer staff sy'n debygol o ddod ar draws materion Masnachu Teg. Rydym wedi parhau i ddiweddarau a diwygio'r hyfforddiant gan sicrhau ei fod yn fwy hygyrch i bob aelod cymwys o staff eleni, gan gynnwys drwy dargedu hyfforddiant manwl at y cyflogion hynny sy'n gweithio yn y meysydd lle ceir y risg uchaf o ran Masnachu Teg. Mae'r Pwyllgor Masnachu Teg wedi goruchwyllo'r prosesau hyn ac wedi monitro cydymffurfiaeth â nhw.

Caiff y Pwyllgor ei frifio ar gwynion rheoleiddiol a chwynion Masnachu Teg perthnasol a ddaw i law ac yr ymdrinnir â nhw gan y BBC. Ceir manylion y cwynion hyn mewn rhan arall o'r Adroddiad Blynyddol, er bod y Pwyllgor wedi nodi na chafwyd unrhyw gwynion penodol ynghylch Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn.

### Sut mae'r Pwyllgor yn gweithio

Yn 2018/19, roedd y Pwyllgor yn cynnwys pedwar cyfarwyddwr anweithredol: Tom Ilube (Cadeirydd), Elan Closs Stephens, Ian Hargreaves a Steve Morrison. Ar ddiwedd y flwyddyn, rhoddodd Elan Closs Stephens y gorau i fod yn rhan o'r Pwyllgor a derbyniodd rôl Cadeirydd Bwrdd Daliadau Masnachol y BBC. Yn ystod y flwyddyn, daeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Polisi a'r Pennaeth Rheoleiddio, yn ogystal â Chwnsler Cyffredinol y Grŵp a chynghorwyr eraill yn ôl yr angen, i gyfarfodydd y Pwyllgor. Cynhaliodd y Pwyllgor dri chyfarfod yn ystod y flwyddyn, a chafodd papurau hefyd eu cymeradwyo all-lein lle roedd angen gwneud hynny (gweler tudalen 121).

Er mwyn cefnogi'r fframwaith, a rhoi sicrwydd o ran dull gweithredu'r BBC mewn perthynas â rheoleidd-dra a defnyddio arian cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn parhau o'i wirfodd i gomisiynu archwiliad blynyddol gan archwilwyr annibynnol, ac yn annibynnol ar hynny, achredwyd safon ansawdd ISO 9001:2008 iddo. Nodir adroddiad yr archwilwyr ar y dudalen nesaf.

### Datganiad ar wahanu gweithredol

Mae'r Pwyllgor yn fodlon, yn ystod 2018/19, bod y BBC wedi cydymffurfio â'r holl ofynion gwahanu gweithredol perthnasol fel y'u nodir yn rheolau masnachu a gwahanu Ofcom. Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, mae'r BBC wedi cyhoeddi rhagor o fanylion am y risgiau a nodwyd ganddo yn y maes hwn, a'r mesurau a'r rheolaethau y mae'r BBC wedi'u rhoi ar waith er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.

Ar gyfer 2018/19, nid yw'r Pwyllgor yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd y mesurau a'r rheolaethau y mae'r BBC wedi'u rhoi ar waith er mwyn cydymffurfio â gofynion Ofcom, fel y'u nodir ymhellach ar wefan y BBC. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r BBC ddarparu diweddariadau chwarterol ar wahanu gweithredol fel rhan o'r adroddiad rheoli.

Ar ôl cael adroddiadau gan yr uwch reolwyr perthnasol, ac ar ôl ystyried canfyddiadau'r Archwiliad Masnachu Teg, mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn fodlon bod pob un o'i wasanaethau masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019.

# Adroddiad yr Archwilwyr Masnachu Teg Annibynnol i'r BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

Yn ein rôl fel archwilwyr Masnachu Teg y BBC, rydym wedi archwilio'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd yn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i'r BBC bod Bwrdd y BBC ('y Bwrdd') wedi cydymffurfio ag agweddau Masnachu Teg gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ('y Trefniadau Masnachu Teg').

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr ymrwymiad hwn, gan gynnwys cwmpas y gwaith sydd i'w wneud, â Phwyllgor Masnachu Teg y BBC, sef un o is-bwyllgorau Bwrdd y BBC. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylai ein harchwiliad gael ei gynnal yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Ymrwymyadau Sicrwydd ('ISAE') 3000, cytundeb ynglŷn â therfyn ein hatebolrwydd o ran y gwaith hwn a chytundeb mai i'r BBC yn unig y mae arnom ddyletswydd gofal o ran y gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod cwmpas ein harchwiliad y cytunwyd arno yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

## Priod gyfrifoldebau Bwrdd y BBC a'r archwilwyr Masnachu Teg

Mae Ofcom wedi rhoi cyfrifoldeb i'r Bwrdd sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu masnachu teg a llunio a gweithredu ymatebion i risgiau o'r fath.

Fel archwilwyr Masnachu Teg y BBC, ein cyfrifoldeb yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, ynglŷn â'r graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion ei Drefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Dim ond i'r graddau ag sy'n angenrheidiol i lunio barn ar y ffordd y cymhwysir y system o reolaethau mewnol rydym wedi adolygu penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC mewn perthynas â materion masnachu teg.

Paratowyd ein barn i'r BBC ac i'r BBC yn unig yn unol â'r cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Masnachu Teg ar ran y BBC. Wrth roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall ac eithrio'r Bwrdd y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y rheini y caiff ei roi iddynt, ac ni fydd hawl gan unrhyw berson arall i ddibynnu ar ein barn, oni chytunwn i hynny'n ysgrifenedig ymlaen llaw.

## Ein dull gweithredu

Rydym wedi mynd ati i gyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y diffinnir yn ISAE 3000. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw cynnal y cyfryw weithdrefnau er mwyn cael gwybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i roi tystiolaeth briodol ddigonol i ni fynegi casgliad ar gydymffurfiaeth y BBC â'i Drefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

Roedd ein gwaith yn cynnwys ymchwiliad a phroffion i'n galluogi i lunio barn ynghylch a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Cynhaliwyd dadansoddiad seiliedig ar risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar reolaethau Masnachu a Gwahanu'r BBC sy'n peri'r risg fwyaf, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hynny. Dewiswyd achosion unigol o gofnod masnachu teg y BBC i'w hadolygu. Ym mhob achos, archwiliwyd cofnodion ysgrifenedig gennym a chyfwelwyd â phartion perthnasol er mwyn i ni gael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi cael ei chymhwyso. Roedd yr achosion a archwiliwyd, a'r meysydd o risg sylweddol a ddarparodd ffocws i'r gwaith, yn cynnwys archwilio'r trefniadau prisiau trosglwyddo a gwahanu, y defnydd o frand y BBC a thaliadau am y brand hwnnw, a'r broses o fodloni gofyniad y Siarter Frenhinol na ddylai ei weithgareddau masnachol, o ganlyniad i'w cydberthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau di-wasanaeth neu weithgareddau masnachu, aflunio'r farchnad nac ennill mantais gystadleuol annheg. Wrth i ni ymgymryd â'n gwaith, gwelsom ddiwylliant o ymgynghori ac atgyfeirio mewn perthynas â materion Masnachu Teg.

## Cyfngiadau annatod

Fel yn achos unrhyw system reoli, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau nac achosion o afreoleidd-dra wedi digwydd heb gael eu canfod. Roedd ein gwaith archwilio wedi'i gynllunio i roi sicrwydd rhesymol i'r Bwrdd ynglŷn â digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac sy'n cael ei chymhwyso i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

## Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein gweithdrefnau, yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

## Deloitte LLP

### Cyfrifwyr Siartredig

Llundain  
20 Mehefin 2019



# Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon archwiledig.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi adroddiad strategol, datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd) a'r datganiad o gyfrifon y bwriedir iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BBC a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE. Ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r 'datganiadau ariannol') oni fydd yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbobus;
- nodi p'un a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, am ei fod o'r farn y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Siarter. Hefyd mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu asedau'r BBC ac atal a chanfod unrhyw dwyll ac anghysondebau eraill.

Nodir cyfrifoldebau'r Bwrdd o ran sicrhau bod y BBC yn stiwardio arian cyhoeddus yn drylwyr, gan gynnwys cyfrifoldeb o ran gweddustura a rheoleidd-dra'r trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau'r BBC, yn erthygl 16 o'r Siarter.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y BBC a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y caiff eu henwau a'u swyddogaethau eu rhestru yn adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

- bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE, yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a diffyg y Grŵp;
- bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir ganddo;
- bod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar dalwyr ffi'r drwydded i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp.

## Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagamcanion llif arian parod am gyfnod y tu hwnt i flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac maent wedi adolygu'r rhagamcanion hyn, ynghyd â'r materion sensitif a'r ffactorau lliniarol yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael.

Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. O ganlyniad, mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.



Syr David Clementi

Cadeirydd

20 Mehefin 2019

# Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus



## t.166

### Pecyn data'r Gwledydd

Data manwl ar berfformiad fesul gwasanaeth yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd tuag at wahanol ymrwmiadau cyhoeddus. Daw'r ymrwmiadau hyn o'r Siarter, y Cytundeb, ein rhwymedigaethau o ran y drwydded ac ymrwmiadau a wnaed gennym i gyflenwi gwasanaethau i'n cynulleidfaoedd.

Clara Amfo sy'n cyflwyno ar Radio 1

# Cydymffurfiaeth reoleiddiol

Mae'r adran hon yn amlinellu perfformiad y BBC yn erbyn ei ymrwymadau yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU. Rhydd y tabl isod amodau rheoleiddiol o dan Drwydded Weithredu Ofcom. Mesurir cydymffurfiaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 oni nodir yn wahanol. Trefnir y gofynion isod yn ôl diben cyhoeddus. Daeth y mwyafrif o amodau'r Drwydded Weithredu i rym gyntaf ar 1 Ionawr neu 1 Ebrill 2018. Felly, 2018/19 yw'r flwyddyn gyntaf i ni adrodd yn erbyn y Drwydded Weithredu lawn. Mewn rhai achosion, rydym wedi adrodd ar gydymffurfiaeth yn erbyn amodau'r Drwydded Weithredu a oedd yn gymwys yn 2018, cyn i fersiwn ddiweddaraf y drwydded gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2019.

Llwyddodd y BBC i fodloni ei holl amodau o dan y Drwydded Weithredu, heblaw am y ddau isod:

- Darlledodd Radio 2 257 awr o gerddoriaeth fyw yn 2018/19, am fod rhai digwyddiadau wedi'u canslo;
- Ar ein gwasanaeth Gaeleg poblogaidd Radio nan Gàidheal, roedd 44% o'r cynnwys a ddarledwyd yn ystod oriau craidd yn gynnwys llafar, sy'n gyson â'n perfformiad hanesyddol. Rydym yn gweithio gydag Ofcom i bennu'r cwota cywir ar gyfer 2019/20.

## Diben Un: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

	Nodyn	Cwota	Canlyniad
<b>BBC One</b>			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Oriau o newyddion	1	1,520 (280 yn ystod oriau brig)	1,655 (295 yn ystod oriau brig)
Oriau o faterion cyfoes yn ystod oriau brig	1	45	47
<b>BBC One a BBC Two</b>			
Oriau o faterion cyfoes	1,2	450 (106 yn ystod oriau brig)	568 (106 yn ystod oriau brig)
<b>CBBC</b>			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Oriau o newyddion		85	92
<b>BBC News</b>			
Mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU		✓	✓
Mwy o newyddion lleol/rhanbarthol na phrif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU		✓	✓
<b>Radio 1</b>			
Oriau o newyddion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos, yn cynnwys dau fwletin estynedig (un yn ystod oriau brig)		1	1
Bwletinau rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau		✓	✓
<b>1Xtra</b>			
Oriau o newyddion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos, yn cynnwys dau fwletin estynedig		1	1
Bwletinau rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau		✓	✓
<b>Radio 2</b>			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		17 (3 yn ystod oriau brig)	17 (3 yn ystod oriau brig)
Bwletinau rheolaidd		✓	✓
<b>Radio 3</b>			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
<b>Radio 4</b>			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		2,750	3,394
Adroddiadau dyddiol o drafodion y Senedd pan fo'r Senedd yn eistedd		✓	✓
<b>BBC Radio 5 live</b>			
% yr allbwn sy'n newyddion a materion cyfoes		75	76
Sylw helaeth i etholiadau lleol a chyffredinol, etholiadau'r siambrau datganoledig, a sylw rheolaidd i wleidyddiaeth Ewropeaidd a rhyngwladol		✓	✓
<b>BBC 6 Music</b>			
Oriau wythnosol o newyddion		6	6
<b>BBC Asian Network</b>			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		24	24
<b>BBC Ar-lein</b>			
Darparu dolenni digonol i ddeunydd trydydd partion		✓	✓

Nodiadau

1 Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2018

2 Mesurwyd ar draws y ddwy sianel

**Diben Dau: Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran**

	Nodyn	Cwota	Canlyniad
<b>BBC One</b> Oriau o'r celfyddydau a cherddoriaeth, gyda rhywfaint yn ystod oriau brig		45	63 (29 yn ystod oriau brig)
<b>BBC One a BBC Two</b> Oriau o raglenni crefyddol	1	115	141 (9 yn ystod oriau brig)
<b>BBC Two</b> Oriau o'r celfyddydau a cherddoriaeth, gyda rhywfaint yn ystod oriau brig		175	221 (69 yn ystod oriau brig)
<b>BBC Four</b> Oriau o raglenni newyddion, celfyddydau a cherddoriaeth		175	236
<b>CBeebies</b> Amrywiaeth o gynnwys sy'n helpu plant cyn oedran ysgol i ddysgu		✓	✓
<b>CBBC</b> Oriau o ddrama Oriau o raglenni ffeithiol		1,000 675	1,906 1,226
<b>BBC ALBA</b> Oriau wythnosol ar gyfer dysgwyr Gaeleg (rhaglenni gwreiddiol yn unig)	2	5	13
<b>Radio 1</b> Nifer y rhaglenni dogfen newydd		40	42
<b>1Xtra</b> Nifer y rhaglenni dogfen		40	43
<b>Radio 2</b> Oriau o raglennu celfyddydol Oriau o raglenni dogfen newydd Oriau o allbwn crefyddol gan gwmpasu sawl ffydd		100 130 170	131 130 199
<b>Radio 3</b> % yr allbwn byw neu gerddoriaeth a recordiwyd yn arbennig Nifer y perfformiadau byw neu berfformiadau a recordiwyd yn arbennig Nifer y darnau o waith cerddorol newydd a gomisiynwyd Nifer y rhaglenni dogfen newydd ar y celfyddydau a phynciau diwylliannol		45 440 25 35	57 501 32 38
<b>Radio 4</b> Oriau o raglenni dogfen gwreiddiol Oriau o raglennu crefyddol gwreiddiol		375 200	403 225
<b>BBC 6 Music</b> Oriau o raglenni dogfen, traethodau a rhaglenni nodwedd llafar		520	520
<b>BBC Ar-lein</b> Cynnwys sy'n helpu plant a phobl ifanc gyda'u dysgu ffurfiol ledled y DU		✓	✓

Nodiadau

1 Mesurwyd ar draws y ddwy sianel

2 Rhaglenni gwreiddiol gan gynnwys rhaglenni a ddangoswyd gyntaf ar Wasanaethau Cyhoeddus eraill y DU

**Diben Tri: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau**

	Nodyn	Cwota	Canlyniad
<b>Teledu</b>			
<b>% yr oriau a oedd yn rhaglenni gwreiddiol</b>	1,2		
BBC One		75	86
BBC One yn ystod oriau brig		90	99
BBC Two		75	92
BBC Two yn ystod oriau brig		90	95
BBC Four		75	92
BBC Four yn ystod oriau brig		60	89
BBC News		90	98
BBC Parliament		90	98
CBBC		72	81
CBeebies		70	72
BBC ALBA		75	94
BBC Scotland	3	75	99
<b>Oriau o raglenni gwreiddiol a ddangoswyd gyntaf yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig</b>	2,4		
BBC One		4,000	4,344
BBC Two		2,200	2,826
CBBC		400	413
CBeebies		100	127
<b>BBC One a BBC Two</b>			
Oriau o raglenni comedi, rhai yn ystod oriau brig	5	300	353 (215 yn ystod oriau brig)
<b>Radio</b>			
<b>Radio 1</b>			
% y gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU		45	47
% y gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd, gyda chyfran helaeth gan artistiaid newydd neu artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU	6	50	52
Oriau wythnosol o gerddoriaeth arbenigol		60	67
Nifer y sesiynau newydd byw neu a recordiwyd yn y tri mis blaenorol		175	182
Ystod ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy, gan ystyried sawl gwaith y'i chwaraeir a maint y rhestr chwarae, yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig		✓	✓
Nifer yr ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol mawr		2	3
<b>Radio 2</b>			
% y gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU		40	49
% y gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd, gyda chyfran helaeth gan artistiaid newydd neu artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU	7	20	28
Oriau o gerddoriaeth fyw		260	257
Oriau o gerddoriaeth arbenigol		1,100	1,193
Ystod ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy, gan ystyried sawl gwaith y'i chwaraeir a maint y rhestr chwarae, yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig		✓	✓
<b>BBC Radio 5 live</b>			
Nifer y digwyddiadau chwaraeon â sylwebaeth fyw		20	20

**Nodiadau**

- 1 Cynrychiadau gwreiddiol yn cynnwys holl raglenni'r BBC a gomisiynwyd, gan gynnwys ailddarllediadau
- 2 Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2018
- 3 Lansiodd sianel BBC Scotland ar 24 Chwefror 2019
- 4 Nid yw rhaglenni gwreiddiol a ddangosir am y tro cyntaf yn cynnwys ailddarllediadau
- 5 Mesurwyd ar draws y ddwy sianel
- 6 Roedd 41% o'r ychwanegiadau at restr chwarae Radio 1 yn ystod 2018 gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU
- 7 Roedd 17% o'r ychwanegiadau at restr chwarae Radio 2 yn ystod 2018 gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU

**Diben Pedwar: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig**

	Nodyn	Cwota	Canlyniad
<b>Teledu Rhwydwaith</b>			
Ystod addas o raglenni a wneir y tu allan i ardal yr M25	1	✓	✓
<b>% yr oriau a wnaed yn... mewn ystod addas o ganolfannau cynhyrchu</b>	1		
Y DU (y tu allan i ardal yr M25)		50	62
Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)		30	37
Yr Alban		8	17
Cymru		4	5
Gogledd Iwerddon		2	2
<b>% yr oriau a wnaed yn... mewn ystod addas o ganolfannau cynhyrchu</b>	1		
Y DU (y tu allan i ardal yr M25)		50	51
Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)		28	28
Yr Alban		8	10
Cymru		5	6
Gogledd Iwerddon		3	3
<b>BBC One</b>			
Oriau o newyddion o ddi-ddordeb cenedlaethol neu ranbarthol drwy gydol y dydd	1	4,300 (2,100 yn ystod oriau brig)	4,761 (2,159 yn ystod oriau brig)
<b>BBC One a BBC Two</b>			
Oriau o raglenni o ddi-ddordeb cenedlaethol neu ranbarthol (ystod addas)	1,2	6,300	6,462
% y rhaglenni a wnaed yn y lleoliad perthnasol	1,2	95	99.7
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion yn ystod oriau brig	1,2	700	729
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion wrth oriau brig	1,2	280	315
<b>BBC One Scotland</b>			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		290	341
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		155	215
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban		✓	✓
<b>BBC Two Scotland</b>			
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion, gan gynnwys allbwn Gaeleg		200	228
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban		✓	✓
<b>BBC One Wales</b>			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		275	341
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		65	130
<b>BBC Two Wales</b>			
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		175	200
<b>BBC One Wales a BBC Two Wales</b>			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru	2	✓	✓
<b>BBC One Northern Ireland</b>			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		310	377
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		90	102
<b>BBC Two Northern Ireland</b>			
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		60	166
Rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster		✓	✓
<b>BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland</b>			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon	2	✓	✓
<b>BBC Parliament</b>			
Trafodion o Gynulliad Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon		300	321
<b>Radio Rhwydwaith</b>			
% gwariant gorsafoedd radio rhwydwaith y tu allan i ardal yr M25 (gellir priodoli rhywfaint i Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 a BBC Radio 5 live)		33.3	39
% gwariant Radio 3 y tu allan i ardal yr M25		40	46

	Nodyn	Cwota	Canlyniad
<b>BBC Ar-lein</b>			
Newyddion a gwybodaeth i ranbarthau Lloegr		✓	✓
Sylw i chwaraeon yn rhanbarthau Lloegr		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i'r Alban		✓	✓
Cynnwys Gaeleg		✓	✓
Sylw i chwaraeon yn yr Alban		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i Gymru		✓	✓
Cynnwys Cymraeg		✓	✓
Sylw i chwaraeon yng Nghymru		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i Ogledd Iwerddon		✓	✓
Cynnwys Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster		✓	✓
Sylw i chwaraeon yng Ngogledd Iwerddon		✓	✓
<b>Gwasanaethau'r Gwledydd a'r Rhanbarthau</b>			
<b>BBC Scotland</b>			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban		✓	✓
Amrywiaeth addas o raglenni yn cynnwys newyddion	1	✓	✓
<b>BBC ALBA</b>			
Newyddion byw bob noson o'r wythnos, gan gynnwys oriau brig, ac adolygiad hirach o'r newyddion ar benwythnosau		✓	✓
<b>Radio Lleol y BBC</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar	3,4	60	66
% yr allbwn brechwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar	3,4	100	100
Newyddion a gwybodaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau a wasanaethir drwy gydol y dydd	3	✓	✓
Cynnwys nad yw'n newyddion sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau a wasanaethir	3	✓	✓
Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol	4,5	95	118
BBC Radio Guernsey – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		80	101
BBC Radio Jersey – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		80	101
BBC Radio Somerset – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		70	90
<b>BBC Radio Scotland</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	94
% yr allbwn brechwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		50	60
Sawl rhaglen eithrio ranbarthol bob diwrnod o'r wythnos, sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, a rhywfaint o raglennu eithrio cymunedol fin nos		✓	✓
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r Alban		✓	✓
<b>BBC Radio nan Gàidheal</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	44
% yr allbwn brechwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Newyddion mynych yn ystod y dydd, yn enwedig yn ystod oriau brechwast brig ac oriau brig yn ystod y prynhawn yn ystod yr wythnos ac oriau brig ar benwythnosau		✓	✓
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r Alban		✓	✓
<b>BBC Radio Wales</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	67
% yr allbwn brechwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		32	35
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Gymru		✓	✓
<b>BBC Radio Cymru</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	69
% yr allbwn brechwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		23	24
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Gymru		✓	✓
<b>BBC Radio Ulster</b>			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		35	42

	Nodyn	Cwota	Canlyniad
<b>BBC Radio Foyle</b>			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		20	23
<b>BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar	2	60	66
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar	2	100	100
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Ogledd Iwerddon	2	✓	✓
Oriau o raglennu mewn iaith leiafrifol frodorol, gan gynnwys Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster	2	240	241

**Nodiadau**

- 1 Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2018
- 2 Mesurwyd ar draws y ddwy sianel/gorsaf
- 3 Yn gynnwys i holl orsafoedd Radio Lleol y BBC. Roedd pob gorsaf yn cydymffurfio ag amod y drwydded
- 4 Roedd pob gorsaf yn cydymffurfio ag amod y drwydded. Y ffigur a roddir yw'r ffigur cyfartalog ar gyfer y gorsafoedd perthnasol
- 5 Yn gynnwys i holl orsafoedd Radio Lleol y BBC, heblaw am BBC Radio Guernsey, BBC Radio Jersey a BBC Radio Somerset

## Materion rheoleiddiol eraill

### Newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu p'un a yw newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol ai peidio. Os ydynt, mae'n ofynnol i ni gyflawni Prawf Budd y Cyhoedd, sydd wedyn yn gorfod cael ei gymeradwyo gan Ofcom cyn y gall y newid gael ei wneud.

Yn 2017, cynhaliodd y BBC Brawf Budd y Cyhoedd mewn perthynas â sianel newydd BBC Scotland, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ac a gyflwynwyd i Ofcom i'w ystyried ym mis Tachwedd 2017. Cymeradwyodd Ofcom lansiad y sianel newydd ym mis Mehefin 2018. Cafodd BBC Scotland ei lansio ym mis Chwefror 2019.

Yn ystod 2018/19, rydym wedi cynnal tri asesiad manwl o ba mor sylweddol oedd newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU. O'r rhain, penderfynodd y BBC nad oedd yr un yn sylweddol:

- cynyddu argaeledd cynnwys ar BBC iPlayer yn ystod 2018/19;
- datblygu BBC Sounds ymhellach, gan gynnwys cyfuno radio masnachol a phodlediadau a chynnig gwasanaeth ffrydio cerddoriaeth cyfyngedig;
- diwygio oriau sianel newydd BBC Scotland er mwyn darparu amser ychwanegol ar gyfer gwasanaethau mynediad, fel arwyddo.

Ym mis Tachwedd 2018 daeth Ofcom i'r casgliad bod cynlluniau 2018/19 y BBC ar gyfer BBC iPlayer yn sylweddol a chyfarwyddodd y BBC i gynnal Prawf Budd y Cyhoedd. Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd y BBC ymgynghoriad ar ei gynigion i gynyddu argaeledd cynnwys ar BBC iPlayer. Ym mis Ebrill 2019, cymeradwyodd y BBC Brawf Budd y Cyhoedd BBC iPlayer a'i gyflwyno i Ofcom. Mae Ofcom yn bwriadu cwblhau ei asesiad a gwneud penderfyniad terfynol erbyn mis Awst 2019.

### Newidiadau i weithgareddau masnachol y BBC

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu p'un a yw newidiadau i'w weithgareddau masnachol yn sylweddol ai peidio. Yn ystod 2018, gwnaethom asesu p'un a oedd trafodyn UKTV (rhannu'r busnes rhwng y BBC a Discovery) yn newid sylweddol. Daeth Bwrdd y BBC i'r casgliad, er ei fod yn drafodyn sylweddol i BBC Studios, nad oedd yn newid sylweddol.

### Cwynion rheoleiddiol

O dan y Cytundeb rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol, y BBC sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion, ar sail dull gweithredu BBC First. Eleni rydym wedi cael dwy gŵyn ynghylch gofynion cystadleuaeth. Yn y ddau achos nodwyd na thorwyd rhwymedigaethau'r BBC. Ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch gofynion perthnasol eraill nad oeddent yn olygyddol.

Mater	Gwasanaeth	Dyddiad y gŵyn	Canlyniad a datrysiaid	Dyddiad y canlyniad
Caffael gwasanaethau pleidleisio cynulleidfaoedd	Amrywiol	12 Mawrth 2018	Heb dorri gofynion cystadleuaeth	30 Ebrill 2018
Cymryd rhan mewn BARB	BARB	29 Mai 2018	Heb dorri gofynion cystadleuaeth	4 Gorffennaf 2018



# Ymrwymïadau'r Cynllun Blynyddol

O dan y Siarter, mae'n ofynnol i'r BBC gyhoeddi Cynllun Blynyddol. Fel rhan o'r Cynllun Blynyddol, gwnaethom 103 o ymrwymïadau cyhoeddus i wneud y BBC yn nodedig. Mae'r ymrwymïadau hyn yn ymwneud yn bennaf â digwyddïadau neu ganlyniadau penodol o ran ein gwasanaethau a ddigwyddodd yn ystod 2018/19.

Diben	Ymrwymïad y BBC	Cyflawnwyd
<b>BBC One</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd BBC One yn parhau i ddarlledu amrywiaeth llawer ehangach o genres yn ystod oriau brig o gymharu ag unrhyw sianel gymaradwy	DO
	Bydd BBC One yn rhoi llwyfan i ystod eang o gynnwys o bob cwr o'r DU gan gynnwys: tair drama fawr gan BBC Cymru	DO
Uchelgais creadigol	Bydd BBC One yn darlledu o leiaf 15 o deitlau drama newydd yn ystod y flwyddyn (yn amodol ar amseroedd darparu)	DO – 19
	Bydd BBC One yn rhoi llwyfan i ystod eang o gynnwys o bob cwr o'r DU gan gynnwys: datblygu fformatau newydd a mwy o gomedi a drama leol o Ogledd Iwerddon	DO
	Bydd BBC One yn rhoi llwyfan i ystod eang o gynnwys o bob cwr o'r DU gan gynnwys: cyfresi newydd a chyfresi sy'n dychwelyd o'r Alban	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd BBC One yn anelu at sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cyrraedd y nifer fwyaf o bobl ifanc 16-34 oed	DO
	Bydd BBC One yn anelu at gyrraedd mwy na hanner y cynulleidfaoedd BAME bob wythnos	Cyrhaeddodd BBC One 51.3% o gynulleidfaoedd BAME ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn
<b>BBC Two</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd BBC Two yn darlledu o leiaf 50 awr o gelfyddydau a cherddoriaeth yn ystod oriau brig	DO – 69
Uchelgais creadigol	Bydd BBC Two yn cyflwyno pedwar fformat ffeithiol newydd i'r sianel	DO – 5
	Bydd BBC Two yn cyflwyno tair sioe gomedi neu adloniant comedi newydd i'r sianel	DO – 3
<b>BBC Three</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd BBC Three yn comisiynu swm sylweddol o gynnwys wedi'i sgrïptio – yn cynnwys ceisio comisiynu o leiaf bum comedi ffurf hir, yn amodol ar amseroedd darparu	DO – 11
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd mwy na 90% o gomisiynau ffurf hir yn rhaglenni gwreiddiol o'r DU	DO – 98%
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd BBC Three yn anelu at gyrraedd 5-10% o bobl ifanc 16-34 oed yr wythnos (gan ddefnyddio cyfartaledd pedair wythnos)	DO – 8%
<b>BBC Four</b>		
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd BBC Four yn darlledu o leiaf 60 awr o raglenni ffeithiol gwreiddiol eleni	DO – 106
Uchelgais creadigol	Bydd BBC Four yn ehangu ei chylch gwaith rhyngwladol gydag o leiaf dri chaffaeliad ffeithiol newydd gan feithrin dealltwriaeth o hanes a diwylliant byd-eang	DO – 3
<b>CBBC</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Darlledu ystod ehangach o genres na sianelau teledu plant eraill	DO
	Bydd CBBC yn meithrin ei hymrwymïad i ddarlledu newyddion rheolaidd ar CBBC drwy hyrwyddo ymgysylltiad drwy wefan Newsround newydd	DO
Uchelgais creadigol	Cefnogi iechyd meddwl a llesiant plant yn y DU drwy raglenni wedi'u comisiynu'n arbennig ar CBBC ac arlwy ar-lein <i>Own It</i> er mwyn helpu plant nad ydynt wedi cyrraedd eu harddegau i fagu hyder a gwydnwch ar-lein	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Adlewyrchu'r amrywiaeth o blant yn y DU er mwyn sicrhau bod pawb yn gweld eu hunain a'u bywydau'n cael eu cynrychioli ar y sgrin	DO
<b>CBeebies</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Darlledu ystod ehangach o genres na sianelau teledu plant eraill	DO
Uchelgais creadigol	Bydd CBeebies yn datblygu'r gefnogaeth mae'n ei rhoi i'r blynyddoedd cynnar drwy lansio apiau dysgu a chreadigrwydd newydd	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Adlewyrchu'r amrywiaeth o blant yn y DU er mwyn sicrhau bod pawb yn gweld eu hunain a'u bywydau'n cael eu cynrychioli ar y sgrin	DO

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
<b>BBC News</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i newyddion chwaraeon manwl dyddiol	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Hon fydd y sianel newyddion â'r cyrhaeddiad mwyaf yn y DU	DO
<b>BBC Parliament</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd Brexit yn parhau i ddominyddu'r hyn a ddarllidir o'r Siambr, gyda'r prif weithgarwch yn symud rhwng Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, yn ogystal â Phwyllgorau a Senedd Ewrop. Bydd cyfres Darlithoedd y Siaradwr yn canolbwyntio ar hyn gyda chwech o'r lleisiau gwleidyddol amlycaf yn siarad am y pwnc, yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn	DO
	Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i roi sylw i sefydliadau Senedd Ewrop	DO – 126 awr
Allbwn gwreiddiol y DU	Edrychir ar gan mlynedd ers y bleidlais i ferched drwy hanes seneddol yr ymgyrch mewn rhaglen ddogfen ar yr ASau a wnaeth frwydro i ymestyn y bleidlais. Bydd cyfres Darlithoedd y Siaradwr yn ystod ail hanner y flwyddyn yn datblygu'r thema i gyfeiriad materion cydraddoldeb ac ymgyrchoedd gwleidyddol presennol	DO
<b>BBC ALBA</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bdd BBC ALBA yn dathlu deng mlynedd ers ei sefydlu a bydd yn lansio arlwy newyddion newydd ar gyfer y penwythnos, yn ogystal â chwarae rôl gyflenwi allweddol ar gyfer sianel newydd BBC Scotland	Lansiwyd sianel BBC Scotland ym mis Chwefror. Bydd BBC ALBA yn cyflenwi rhaglenni yn ystod 2019/20
<b>Radio 1</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Byddwn yn mesur y gorgyffwrdd o ran y 100 o ganeuon a chwaraeir fwyaf ar Radio 1 a gorsafodd masnachol allweddol bob mis er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnis cymysgedd nodedig o gerddoriaeth	DO – gweler nodyn 1
	Bydd rhaglenni dogfen yn canolbwyntio'n bennaf ar y prif heriau sy'n wynebu oedolion ifanc sy'n tyfu i fyny yn y DU heddiw, a byddant yn anelu at ysgogi sgysiau ehangach fel rhan o'n rhaglen <i>Life Hacks</i> ar brynhawn dydd Sul	DO
	Byddwn yn adrodd ar ystod a dyfnder y gefnogaeth a roddir i gerddoriaeth newydd ar Radio 1 a Radio 2 drwy ddadansoddi eu priod restrau chwarae a gyhoeddwyd; ac yn cymharu perfformiad yn erbyn rhestrau chwarae gorsafodd masnachol allweddol	DO – gweler nodyn 2
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd rhestr chwarae Radio 1 yn rhoi llwyfan i gerddoriaeth newydd fwyaf cyffrous y DU, gan roi llawer o gefnogaeth i artistiaid nad ydynt wedi cyrraedd brig y siartiau eto. Bydd y Brit List yn arbennig yn sicrhau ymrwymiad parhaus i artistiaid sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn	DO
Uchelgais creadigol	Byddwn yn arbrofi gyda fformatau podlediadau newydd, gan gynnwys nifer sydd â'r nod o gynnis cyfleoedd i ddirgrifwyr newydd	DO
	Fel rhan o 'Biggest Weekend' BBC Music, bydd Radio 1 yn mynd i Gymru gyda dau ddiwrnod ysblennydd o gerddoriaeth fyw yn Abertawe	DO
	Bydd cynnwys gweithredu cymdeithasol yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â dyledion, a rhyw a chydysyniad	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd Radio 1 yn cynnal ffocws golygyddol ar ei chynulleidfa allweddol o wrandawyr 15-29 oed	DO
<b>1Xtra</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Byddwn yn parhau i ddatblygu brand Talks 1Xtra, gan anelu at ei sefydlu ym meddyliau gwrandawyr fel cartref i raglenni dogfen a thrafodaethau manwl sy'n ymdrin â materion allweddol sy'n effeithio ar bobl ifanc yn y DU heddiw	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Mae 1Xtra yn hyrwyddo artistiaid newydd o'r DU nad ydynt yn cael fawr ddim cefnogaeth gan y cyfryngau prif ffrwd. Yn ystod y dydd, daw o leiaf 35% o'r gerddoriaeth o artistiaid yn y DU, gyda'r bwriad o sicrhau bod o leiaf 50% yn 'newydd'	DO
Uchelgais creadigol	Rydym am feithrin partneriaethau â gorsafodd radio cymunedol ledled y DU a byddwn yn rhoi llwyfan i rai o'r DJs newydd mwyaf cyffrous y down o hyd iddynt mewn cyfres o sioeau arbenigol hwyr y nos	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Mae rhaglenni 1Xtra yn targedu oedolion ifanc, gan anelu'n arbennig at apelio i gynulleidfaoedd BAME nas gwasanaethir yn ddigonol	DO

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
<b>Radio 2</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Byddwn yn mesur y gorgyffwrdd o ran y 100 o ganeuon a chwaraeir fwyaf ar Radio 2 a gorsafoedd masnachol allweddol bob mis er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig cymysgedd nodedig o gerddoriaeth	DO – gweler nodyn 3
	Bydd Radio 2 yn chwarae cymysgedd fwy nodedig o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy, gyda rhestr chwarae yn ystod y dydd sy'n cynnwys amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth	DO – gweler nodyn 4
	Bydd Radio 2 yn darlledu cymysgedd eang o genres a rhaglenni, yn cynnwys yr <i>Arts Show</i> , <i>500 Words</i> yn ogystal ag allbwn cerddoriaeth arbenigol o jazz, cerddoriaeth werin, 'blues' a chanu'r enaid i <i>Sounds of the 80s</i> sydd mor boblogaidd ar y Botwm Coch	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd Radio 2 yn rhoi llwyfan i artistiaid newydd a threftadaeth o'r DU yn ogystal ag artistiaid BBC Introducing	DO
Uchelgais creadigol	Bydd Radio 2 yn parhau i hyrwyddo artistiaid newydd a threftadaeth, gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau byw fel Radio 2 in Hyde Park, BBC Young Brass Final ym Manceinion, Radio 2 Folk Awards ym Melffast, Gŵyl Jazz Cheltenham a Gŵyl Caeredin	DO
	Fel rhan o 'Biggest Weekend' BBC Music, bydd Radio 2 yn teithio o amgylch y DU gyda dau ddiwrnod ysblennydd o gerddoriaeth fyw yn Perth a Chofentri	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd Radio 2 yn cynnal ei ffocws golygyddol ar wrandawyr dros 35 oed	DO
<b>Radio 3</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd Radio 3 yn adnewyddu ei hymrwymiad i sicrhau bod ei harlwy yn ddiwylliannol amrywiol. Mae hyn yn cynnwys ail-lansio ei gwasanaeth llafar hwyr y nos a'i pharth cerddoriaeth arloesol	DO
	Bydd Radio 3 yn adnewyddu ei hymrwymiad i sicrhau bod ei harlwy yn ddiwylliannol amrywiol. Mae hyn yn cynnwys ehangu ei hymrwymiad i 'radio araf'	DO
	Bydd Radio 3 yn adnewyddu ei hymrwymiad i sicrhau bod ei harlwy yn ddiwylliannol amrywiol. Mae hyn yn cynnwys fformatau wedi'u comisiynu o'r newydd ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth byd a jazz	DO
	Bydd Radio 3 yn parhau i gyflawni ei rôl o ran drama unigryw a heriol	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd Radio 3 yn parhau i hyrwyddo talent newydd – boed hynny drwy New Generation Artists, New Generation Thinkers, neu BBC Introducing. Caiff cynlluniau eu datblygu ar gyfer tymor ar yr awyr sy'n dychwelyd sy'n rhoi sylw i dalent ifanc	DO
Uchelgais creadigol	Bydd Radio 3 yn darlledu tymhorau mawr i nodi digwyddiadau cerddoriaeth glasurol allweddol gan gynnwys 150 mlynedd ers marwolaeth Claude Debussy, canmlwyddiant Y Planedau gan Gustav Holst, 100 mlynedd ers genedigaeth Leonard Bernstein a 40 mlynedd o <i>BBC's Young Musician</i> . Bydd rhaglenni arbennig hwyr y nos yn archwilio cerddoriaeth a diwylliant Japan, a bydd maes mawr sy'n dychwelyd dros yr haf, hydref a gaeaf yn ystyried sut mae coedwigoedd wedi bod wrth wraidd dychymyg dynion a cherddoriaeth a chelf o fri	DO
<b>Radio 4 a BBC 4 Extra</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd Radio 4 yn parhau i gefnogi a hyrwyddo ysgrifennu newydd o ran ei drama a chomedi, yn ogystal â darlledu trydedd gyfres y ddrama arloesol ysgytwol <i>Tracks</i> a phrosiectau digidol yn gyntaf eraill	DO
	Bydd yn cyflwyno cyfres newydd o ddigrifwyr bob nos Sul ac yn parhau i fod yn gartref i'r BBC New Comedy Award	DO
	Byddwn yn gwneud dros 600 awr o ddrama i Radio 4 ac iPlayer Radio gyda'i gilydd	600
	Byddwn yn gwneud 180 awr o gomedi i Radio 4 ac iPlayer Radio gyda'i gilydd	DO – 248
	Bydd Radio 4 yn parhau i feithrin dealltwriaeth drwy ei brand <i>Brexit for the Perplexed</i>	DO
	Byddwn yn darlledu 55 awr o gomedi bob wythnos ar Radio 4 Extra	DO – 62
	Byddwn yn darlledu 55 awr o ddrama bob wythnos ar Radio 4 Extra	DO – 64
	Bydd Radio 4 Extra yn parhau â'i hymrwymiad i archifau drama a chomedi, yn ogystal â dewis o'r deunydd llafar a phodlediadau newydd gorau. Bydd yn parhau i gynnig comedi newydd i'w wrandawyr iau drwy ei masnachfaint <i>Newsjack</i>	DO
Uchelgais creadigol	Bydd Radio 4 yn parhau i gynhyrchu cynnwys nodedig arwyddocaol er mwyn nodi digwyddiadau o bwys, a fydd eleni yn cynnwys canmlwyddiant y bleidlais i ferched a'r Cadoediad, cyfres 20 rhan ar ffigyrau allweddol o Tsieina a hanes y GIG	DO

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
<b>BBC Radio 5 live a 5 live sports extra</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Ystod ehangach o chwaraeon ar 5 live a 5 live sports extra nag ar unrhyw wasanaeth cymaradwy, gan gynnwys Cwpan y Byd, Cwpan Ryder a Phencampwriaethau Ewrop (sawl camp) yn Glasgow a Berlin	DO
	Bydd 5 live yn parhau i adrodd hanes taith y DU tuag at Brexit drwy raglenni gwleidyddiaeth hygyrch a difyr fel <i>Question Time Extra Time</i> , <i>yr Emma Barnett Show</i> , <i>Pienaar's Politics</i> a phodlediadau <i>Brexitcast</i>	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd 5 live yn rhoi cyfle i bobl leisio barn o bob cwr o'r DU drwy ein sioe ffonio i mewn ddyddiol <i>Your Call</i> , a thrwy sioeau fel <i>5 live Breakfast</i> ac <i>Afternoon Edition</i> a fydd yn mynd ar grwydr gan ddarparu darllediadau allanol	DO
Uchelgais creadigol	Bydd 5 live yn darlledu tymhorau rheolaidd sy'n rhoi sylw i faterion allweddol fel iechyd meddwl, digartrefedd a rhianta. Bydd yn parhau i arloesi o ran ei chymysgedd o gynnwys gydag amrywiaeth o bodlediadau newydd gan gynnwys sioe ffitrwydd sy'n targedu menywod, rhaglen celfyddydau newydd a sioe archif chwaraeon	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd 5 live yn parhau i adolygu ei hamserlenni, ei thalent a'i chyfranwyr ar yr awyr er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y DU	DO
	Nod 5 live sports extra yw tyfu cynulleidfaoedd iau drwy amrywiaeth o sioeau cylchgrawn yn ogystal â chwaraeon byw (yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol)	Mae hyn yn uchelgais parhaus. Yn 2018/19 gwnaethom ehangu ein hamrywiaeth o bodlediadau cylchgrawn chwaraeon
<b>BBC 6 Music</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahano	Bydd o leiaf 30% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd yn newydd	DO
	300 o sesiynau cerddoriaeth fyw	DO – 316
	Bydd 6 Music yn darparu cymysgedd o raglenni cerddoriaeth arbenigol a rhaglenni dogfen, yn cynnwys tymor ar gerddoriaeth Efrog Newydd, hip hop a house	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Mae 6 Music yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo cerddoriaeth newydd ac amgen o'r DU a thu hwnt	DO
	Bydd 6 Music yn hyrwyddo lleoliadau ar lawr gwlad yn y DU drwy ei hallbwn gan gynnwys digwyddiadau byw fel y <i>Biggest Weekend</i> ac <i>Wythnos Indie Venues</i>	DO
Uchelgais creadigol	Bydd 6 Music yn archwilio'r celfyddydau gyda nifer o gyfresi sy'n canolbwyntio ar ffilm, llenyddiaeth a'r celfyddydau gweledol, yn ogystal â thymor <i>Art is Everywhere</i> , lle caiff cynulleidfaoedd eu hysbrydoli i greu a rhannu eu celf eu hunain	DO
	Bydd 6 Music yn parhau i ddatblygu ei rôl arloesol yn curadu cerddoriaeth, gan geisio mwy o amrywiaeth a mwy o gydbwysedd rhwng y rhywiau yn ei hamserlen a thymhorau golygyddol nodedig fel <i>3 Wise Women</i>	DO
	Bydd 6 Music yn rhoi llwyfan i amrywiaeth o gerrig milltir a digwyddiadau, yn cynnwys dathlu the <i>Second Summer of Love</i> , taith o amgylch lleoliadau annibynnol yn y DU fel Gŵyl The Great Escape, Gŵyl Jazz Cheltenham a SXSW	DO
<b>BBC Asian Network</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Byddwn yn cyflwyno sioe drafod bynciol newydd hwyr y nos sy'n canolbwyntio ar faterion allweddol sy'n effeithio ar Asiaid ifanc yn y DU heddiw	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd yr orsaf yn parhau i roi llwyfan i sain Asiaidd Prydeinig, gydag o leiaf 30% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU	DO
Uchelgais creadigol	Yn dilyn pedair noson Gomedï lwyddiannus gan yr Asian Network ledled y DU yn 2017, rydym yn bwriadu rhoi llwyfan i fwy o ddigrifwyr newydd gydag ail gyfres o sioeau yn 2018	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd yr orsaf yn cynnig cymysgedd eang o raglenni cerddoriaeth a llafar sy'n anelu'n bennaf at ddiddanu cynulleidfaoedd o Asiaid Prydeinig ifanc ac ymgysylltu â nhw	DO

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
<b>BBC Radio Scotland</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Wrth i Radio Scotland ddathlu 40 mlynedd ar yr awyr, bydd rhaglen lwyddiannus <i>Breaking the News</i> yn dychwelyd ac yn arwain allbwn yng Ngŵyl Gomedï Ryngwladol Glasgow a Gŵyl Caeredin	DO
	Drwy gydweithio ag Adloniant cymerir camau i gynnig y sioe ar sawl llwyfan yn llawn	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd yr orsaf yn cynnig bwletinâu newyddion lleol yn ystod yr wythnos o Aberdeen, Inverness, Selkirk a Dumfries	DO
	Caiff rhaglenni newyddion a chymunedol eu cynnig fel rhaglenni eithrio yn Orkney a Shetland	DO
Uchelgais creadigol	Rôl leol allweddol yn hyrwyddo Biggest Weekend Music Day 2018	DO
<b>BBC Radio Wales</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Ym mis Ebrill, lansiodd Radio Wales raglen adolygu'r celfyddydau fisol newydd sbon. Fe'i cyflwynir gan Gary Raymond, Golygydd y Wales Arts Review	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Biggest Weekend Music Day 2018 (Mai 2018) – dathliad o gerddoriaeth fyw ledled y DU ym Mharc Singleton, Abertawe	DO
	Mae nifer o fentrau a chynlluniau peilot ysgrifennu comedi newydd yn mynd rhagddynt. Ffocws y mentrau hyn yw cynllun newydd gan BBC Cymru i ganfod a datblygu'r awduron gorau – 'Find me Funny'	DO
<b>BBC Radio Cymru</b>		
Allbwn gwreiddiol y DU	Byddwn yn lansio sioe frecwest newydd ar Radio Cymru 2 (ar gael ar radio digidol). Bydd y gwasanaeth yn darparu cerddoriaeth a rhaglennu a dewis gwirioneddol i wrandawyr hen a newydd Radio Cymru, ochr yn ochr â'i harlwy newyddion bresennol yn ystod oriau brecwest brig	DO
<b>BBC Radio Ulster and BBC Radio Foyle</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Creu llwyfannau newydd i ddatblygu talent comedi newydd	DO
	Cyfresi ffeithiol newydd gan gynnwys hanes naturiol a bywd lleol	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Cefnogi Blwyddyn Gerddoriaeth 2018 yn llawn a'i datblygu'n lleol; dechrau drwy gynnal y BBC Radio 2 Folk Awards ym Melffast ym mis Ebrill (a gyd-ddarlledir ar Radio Ulster/Foyle), yna'r Big Weekend Music Day wrth Lithrfa'r Titanic ym Melffast	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Canolbwyntio ar fireinio talent a chyfranwyr gyda phwyslais penodol ar sicrhau lleisiau amrywiol ar draws yr orsaf	DO
	Cynyddu a mireinio allbwn ieithoedd lleiafrifol gan gynnwys rhaglen gylchgrawn Sgoteg-Wlster newydd	DO
<b>Radio Lleol y BBC</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd Radio Lleol yn darlledu rhaglen BBC Introducing fel rhan o amserlen pob gorsaf er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i dalent newydd	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd Radio Lleol yn profi mwy o fformatau ar gyfer rhoi llwyfan i dalent comedi newydd ar draws nifer o orsafoedd	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd holl orsafoedd Radio Lleol yn darparu allbwn sydd â'i wreiddiau mewn ffydd a moeseg ar fore Sul	DO

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
<b>BBC Ar-lein</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Byddwn yn parhau i gynnig ystod eang o gynnwys i gynulleidfaedd ar draws ein holl gynhyrchion, gan roi mwy o ddewis iddynt o ran beth a sut maent yn defnyddio cynnwys ar-lein y BBC	DO
	Eleni byddwn yn gwella BBC News a BBC Sport Northern Ireland, gan gynnig mwy o gysondeb, mwy o sylw a mwy o bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol	DO
Allbwn gwreiddiol y DU	Byddwn yn parhau i ddarparu dolenni i straeon allanol a ddarperir gan ddarparwyr newyddion lleol a rhanbarthol fel rhan o'n cynnyrch Newyddion Lleol	DO
	Lle y bo'n briodol, byddwn yn cefnogi'r diwydiant yn ehangach drwy gynnal ei gynnwys neu gyfeirio ato. Rydym wrthi'n adolygu ac yn diweddarau ein polisi cyhoeddedig ynghylch darparu dolenni i safleoedd allanol, er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben ac yn sicrhau'r profiad gorau i ddefnyddwyr ar-lein	DO – gweler <a href="https://www.bbc.co.uk/editorialguidelines/guidance/feeds-and-links">https://www.bbc.co.uk/editorialguidelines/guidance/feeds-and-links</a>
Uchelgais creadigol	Byddwn yn lansio fersiwn newydd o'n cynnyrch sain digidol, gan roi arlwy cynnwys personoledig iawn i gynulleidfaedd ar draws ein holl allbwn sain a gwell profiad pori a darganfod cynnwys	DO
	Bydd BBC Ar-lein yn ehangu gallu, cynnwys a phrofiadau digidol rhyngweithiol plant. Byddwn yn lansio apiau newydd sy'n galluogi cynulleidfaedd cyn ysgol i greu a dysgu, yn ogystal ag apiau cydweithio a chreu cynnwys i blant hŷn nad ydynt yn eu harddegau eto	DO
	Byddwn yn manteisio ar lwyddiant <i>The Social</i> , a gyflwynir ar draws y BBC yn 2018/19, gyda mwy o ffilmiau ffurf fer a datblygu drama ar-lein fel <i>The Grey Area</i>	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaedd	Byddwn yn parhau i ddefnyddio data mewngofnodi a gesglir oddi wrth ein cynulleidfa er mwyn personoli ein harlwy ar draws ein gynhyrchion digidol, gan dynnu sylw at y cynnwys gorau sydd fwyaf perthnasol iddynt	DO
	Byddwn yn parhau i arwain y ffordd wrth ddatblygu sut olwg sydd ar ddarlledu cyhoeddus a sut mae'n teimlo ar-lein, gan guradu a gwneud argymhellion sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu	DO

Nodiadau

- 1 Yn ystod 2018/19, y goryffwrdd misol cyfartalog rhwng y 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Radio 1 a'r 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar: Capital London oedd 31; Kiss oedd 37; a Radio X oedd saith.
- 2 Cafodd 343 o ganeuon eu hychwanegu at restr chwarae Radio 1 yn ystod 2018, gyda Radio 2 yn ychwanegu 319 – ystod ehangach na Capital (139) a Heart (41).
- 3 Yn ystod 2018/19, y goryffwrdd misol cyfartalog rhwng y 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Radio 2 a'r 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar: Heart London oedd 12; Magic oedd wyth; a Smooth oedd dwy.
- 4 Chwaraeodd Radio 2 9,365 o ganeuon gwahanol rhwng 06:00 a 19:00 yn ystod 2018. Mae hyn o'i gymharu â 704 o ganeuon gwahanol ar Heart, 1,214 ar Magic, ac 801 ar Smooth.

# Dyletswyddau Cyffredinol

Mae'r Siarter yn nodi nifer o Ddyletswyddau Cyffredinol sy'n gymwys i'r BBC. Mae'r adran hon yn nodi hynt y BBC yn erbyn ei Ddyletswyddau Cyffredinol – nodwyd y mesurau adrodd yng Nghynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2018/19.

## 1. Gweithredu er budd y cyhoedd

Rhaid i'r BBC weithredu er budd y cyhoedd, gyda'r nod o wasanaethu ei gynulleidfaedd nid dim ond fel defnyddwyr, ond hefyd fel aelodau o gymdeithas ehangach, gyda rhaglenni a gwasanaethau sy'n ceisio hys-bysu, addysgu a diddanu cynulleidfaedd ynghyd â chyflawni dibenion cyhoeddus ehangach. O ganlyniad, rhaid i'r BBC sicrhau bod buddiannau (boed yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol) penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r genhadaeth neu'r dibenion yn gorbwysu'r costau (boed yn rhai uniongyrchol neu anun-iongyrchol); ac yn ystyried buddiannau a chostau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol	DO
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau lle rydym wedi methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb neu gyda Fframwaith Gweithredu Ofcom neu Drwydded World Service	DO – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ar faterion golygyddol y BBC a'r nifer gyffredinol o gwynion a wnaed	DO – gweler yr Adroddiad ar Ganllawiau a Safonau Golygyddol
Byddwn yn cyhoeddi data mesur perfformiad, yn cynnwys data ar gyflawni'r dibenion cyhoeddus, fel y'u disgrifiwyd mewn penodau blaenorol	DO – gweler Cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus

## 2. Ymgysylltu â'r cyhoedd

Rhaid i'r BBC asesu safbwyntiau a buddiannau'r cyhoedd a chynulleidfaedd, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig. Rhaid i'r BBC wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a buddiannau amrywiol y cyhoedd a chynulleidfaedd, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig, yn cael eu hystyried wrth iddo wneud ei benderfyniadau.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data blynyddol ar safbwyntiau cynulleidfaedd ynghylch y BBC fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol	DO – gweler Cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus
Byddwn yn cynnal tua chwe digwyddiad wyneb yn wyneb gyda chynulleidfaedd ac yn adrodd ar y canfyddiadau yn Adroddiad Blynyddol y BBC, a chaiff pedwar ohonynt eu cynnal gan Bwyllgorau Gwledydd y Bwrdd	DO – gweler yr Adroddiad Ymgysylltu â Chynulleidfaedd

## 3. Effaith ar y farchnad

Mae gan y BBC ran hanfodol i'w chwarae ym marchnad cyfryngau a darlledu'r DU. Yn ogystal â gwasanae-thu cynulleidfaedd yn uniongyrchol drwy ddarparu cynnwys a gwasanaethau, gall gyfrannu at y farchnad yn fwy eang, er enghraifft drwy hyrwyddo cystadleuaeth, cefnogi cadwyni cyflenwi ac annog arloesedd ym mhob rhan o'r sector. Rhaid i'r BBC ystyried yn benodol effeithiau ei weithgareddau ar gystadleuaeth yn y DU. Drwy gydymffurfio â'r ddyletswydd hon rhaid i'r BBC (a) ceisio osgoi effeithiau andwyol diangen ar gystadleuaeth a (b) hyrwyddo effaith gadarnhaol ar y farchnad.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau sylweddol a gynllunnir	DO – gweler <a href="https://www.bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation/iplayerpit">https://www.bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation/iplayerpit</a>
Byddwn yn cyhoeddi'n flynyddol nifer y cwynion rheoleiddiol a gafodd eu cadarnhau a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb iddynt	DO – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom yn y maes hwn	DO – dim
Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau unrhyw Brofion Budd y Cyhoedd	DO – ni chwblhawyd unrhyw Brofion Budd y Cyhoedd yn ystod 2018/19. Cyhoeddwyd canlyniad Prawf Budd y Cyhoedd BBC iPlayer ym mis Ebrill 2019

**4. Bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol**

Rhaid i'r BBC gynnal safonau uchel o fod yn agored a cheisio sicrhau'r tryloywder a'r atebolrwydd gorau posibl. Rhaid iddo gyhoeddi cofnodion y Bwrdd, penderfyniadau pwysig yn ymwneud â newidiadau i gylch gwaith/gwasanaethau, a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau. Mae hefyd angen i'r Bwrdd ystyried manteision ymgynghori â phobl sydd â diddordeb.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n nodi blaenoriaethau strategol, cynlluniau creadigol a chyllideb y BBC ac unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i wasanaethau	DO – gweler <a href="http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/annualplan/annualplan_2019-20.pdf">http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/annualplan/annualplan_2019-20.pdf</a>
Byddwn yn cyhoeddi'r canlynol ar ôl y digwyddiad perthnasol:	DO – gweler <a href="https://www.bbc.com/aboutthebbc">https://www.bbc.com/aboutthebbc</a>
<ul style="list-style-type: none"> <li>— Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd</li> <li>— Penderfyniadau pwysig yn ymwneud â newidiadau i'r cylch gwaith creadigol, cynllun gwaith a newidiadau sylweddol i weithgareddau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau, a gweithgareddau masnachol</li> <li>— Cofnodion cryno cyfarfodydd pwyllgorau'r Bwrdd</li> </ul>	
Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, sy'n cynnwys crynodeb manwl o berfformiad yn erbyn ein cwotâu rheoleiddiol; manylion ariannol llawn a chyfrifon; a gwybodaeth sydd ei hangen fel rhan o'n Hadroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb	DO
Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r datgeliadau cyflog sy'n ofynnol o dan y Siarter mewn perthynas â chyflogau dros £150,000, ynghyd â'n cyfundrefn wirfoddol o ddatgelu cyflogau chwarterol a threuliau ar gyfer uwch reolwyr	DO – gweler yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth
Byddwn yn parhau i gyhoeddi data, fel sy'n ofynnol, yn ymwneud â'n bwlch cyflog rhwng y rhywiau	DO
Byddwn yn cyhoeddi data sy'n dangos sut mae hyrwyddo unrhyw allbwn Gwasanaeth Cyhoeddus y DU yn canolbwyntio ar allbwn sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus	DO – gweler Hyrwyddo Gwasanaeth Cyhoeddus
Byddwn yn cyhoeddi methodolegau pris trosglwyddo wedi'u diweddarau ar gyfer pob is-gwmni masnachol erbyn diwedd 2018	DO – gwnaethom gyhoeddi methodolegau ym mis Ebrill 2018 ac rydym wedi cyhoeddi methodolegau wedi'u diweddarau ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn unol â gofynion newydd Ofcom

**5. Partneriaeth**

Bydd y BBC yn cydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn yr economi greadigol, er budd y cyhoedd. Dylai greu partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau o bob maint, yn cynnwys rhai masnachol ac anfasnachol, o bob cwr o'r DU. Dylai partneriaethau fod yn deg ac yn fuddiol i bawb gan briodoli a chydabod partneriaid yn briodol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn casglu ac yn cyhoeddi data perfformiad ar allbwn a gweithgarwch partneriaethau allweddol, yn cynnwys ar yr amrywiaeth o bartneriaethau sydd gan y BBC, yr amrywiaeth o bartneriaid, ehangder daearyddol, ac effaith	DO

**6. Amrywiaeth**

Rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig gyfan drwy ei allbwn, y ffordd y caiff ei allbwn a'i wasanaethau eu darparu, ac yn nhrefniadaeth a rheolaeth y BBC. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol y DU.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data manwl ar amrywiaeth ein holl staff, gan gynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol, fel rhan o'n Hadroddiad blynyddol Gwybodaeth am Gydraddoldeb	DO – gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Byddwn yn parhau i fonitro a diweddarau ein hynt yn erbyn ein strategaeth amrywiaeth, gan adrodd ar hyn ar ein gwefan	DO – gweler <a href="https://www.bbc.co.uk/diversity/strategy">https://www.bbc.co.uk/diversity/strategy</a>
Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a dadansoddiad o'n bylchau cyflog ar gyfer grwpiau eraill	DO – gweler <a href="https://www.bbc.com/aboutthebbc/reports/reports">https://www.bbc.com/aboutthebbc/reports/reports</a>
Byddwn hefyd yn cyhoeddi data mesur perfformiad, a gasglwyd wrth gyflawni ein pedwerydd diben cyhoeddus	DO – gweler Cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus



### 7. Technoleg

Rhaid i'r BBC hyrwyddo arloesedd technolegol, a chynnal rôl arweiniol mewn gwaith ymchwil a datblygu. Er mwyn gwneud hyn, mae angen iddo geisio gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a rhannu, cyn belled ag y bo'n rhesymol, ei wybodaeth a'i dechnolegau ymchwil a datblygu.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn adran Ymchwil a Datblygu'r BBC yn unol ag amcanion hirdymor y BBC	DO
Byddwn yn parhau i rannu'r wybodaeth sy'n cael ei meithrin ym maes ymchwil a datblygu. Byddwn yn defnyddio ein presenoldeb ar y we ac yn gymdeithasol i danlinellu negeseuon allweddol i gynulleidfa ehangach	DO – gweler <a href="https://www.bbc.co.uk/rd">https://www.bbc.co.uk/rd</a>
Byddwn yn cynyddu ein buddsoddiad mewn arloesedd hirdymor	DO
Rydym yn olrhain ein gweithgarwch arloesi (e.e. prosiectau a phrototeipiau) bob blwyddyn ac yn cynnal adolygiadau rheolaidd (e.e. bob 5-10 mlynedd) o werth hirdymor ein buddsoddiad	DO – gwnaethom gyhoeddi adolygiad o'n gweithgarwch ymchwil a datblygu yn 2018, ac rydym yn paratoi data ar gyfer adolygiad arall yn y dyfodol

### 8. Stiwardio arian cyhoeddus

Mae'r BBC yn stiwardio arian cyhoeddus yn drylwyr yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Rheoleidd-dra – Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cy-tundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth
- Priodoldeb – Dylai'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC gyrraedd safonau uchel o ran ymddygiad cyhoeddus, llywodraethu cadarn a rhoi ystyriaeth briodol i ddisgwyliadau'r Senedd (gan gynnwys dis-gwyliadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus), a rannwyd â'r BBC yn ffurfiol
- Gwerth am arian – Rhaid i drefniadau caffael, prosiectau a phrosesau gael eu gwerthuso a'u hasesu'n sys-temataidd er mwyn rhoi hyder ynghylch darbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y prosiect, gan ystyried y budd ehangach i'r cyhoedd, ac nid i'r BBC yn unig
- Dichonoldeb – Dylai cynigion sy'n defnyddio arian cyhoeddus gael eu rhoi ar waith yn gywir, yn gynaliadwy ac yn unol â'r amserlen fwriadedig

Mesur	Cyflawnwyd
Caiff cyfrifon statudol Gwir a Theg eu paratoi yn unol ag IFRS, yn seiliedig ar farn archwilio ddiamed gan archwilwyr allanol y BBC	DO
Byddwn yn adrodd ar ein dulliau o ddarparu gwybodaeth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar gydymffurfio â'r Siarter, er mwyn sicrhau bod y trafodion a geir yn natganiadau ariannol y BBC wedi'u cymhwyso at y dibenion fel y'i bwriadwyd a'u bod yn cydymffurfio â'r fframweithiau perthnasol sy'n eu llywodraethu.	DO – yn amodol ar y sefyllfa o ran rheoleidd-dra a nodir yn natganiad y Prif Swyddog Ariannol ar dudalen 88.
Byddwn yn ceisio barn ar briodoldeb gan archwilwyr allanol annibynnol y BBC er mwyn sicrhau bod y gwaith o reoli adnoddau'r BBC wedi cyrraedd safonau uchel ymddygiad cyhoeddus	DO
Byddwn yn cydymffurfio ag amodau cyllido fel rhan o gytundeb cyllido ar wahân, e.e. arian grant i'r BBC World Service	DO
Ein hymateb i'r adolygiadau Gwerth am Arian a gynhaliwyd gan y SAG neu bartion eraill a gomisiynwyd	DO

**9. Arweiniad ac arfer gorau**

Mae'n rhaid i'r BBC ystyried canllawiau cyffredinol sy'n ymwneud â rheoli materion cyrff cyhoeddus ac egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn archwilio ein cydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac egwyddorion llywodraethu corfforaethol da yn seiliedig ar nod cyffredinol cydymffurfio â'r Cod lle y bo'n bosibl	DO – gweler Llywodraethu
Bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn nodi perfformiad y BBC yn erbyn y Cod; meysydd lle nad yw'r Cod yn berthnasol i'r BBC; meysydd lle mae'r Siarter yn drech na'r Cod; a meysydd lle nad yw'r BBC yn cydymffurfio	DO – gweler Llywodraethu
Byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb, yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	DO – gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Caiff datganiad blynyddol am gasglu ffi'r drwydded ei archwilio gan y SAG a'i osod gerbron Senedd y DU	DO
Byddwn yn cyhoeddi data ar ein bwch cyflog rhwng y rhywiau, yn unol â deddfwriaeth berthnasol	DO – gweler <a href="https://www.bbc.com/aboutthebbc/reports/reports">https://www.bbc.com/aboutthebbc/reports/reports</a>
Byddwn yn parhau i gydymffurfio ag arfer gorau wrth gynnig hyfforddiant ar amrywiaeth o faterion fel gwrth-lwgrwobrwyo, diogelu data ac amddiffyn plant	DO

**10. Dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â gweithgareddau masnachol**

Mae angen i weithgareddau masnachol y BBC weithredu er budd y cyhoedd, ymgysylltu â'r cyhoedd, a sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw. Ni ddylent wyrdroi'r farchnad nac ennill mantais gystadleuol annheg.

Mesur	Cyflawnwyd
Bydd Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd yn parhau i: adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom; comisiynu archwiliad annibynnol blynyddol; adolygu, ystyried a chymeradwyo methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC; adrodd ar hynt yn Adroddiad Blynyddol y BBC; ac adolygu cydymffurfiaeth barhaus gweithgareddau masnachol â'r pedwar maen prawf masnachol	DO
Byddwn yn dilyn ein polisi cyhoeddedig ar newidiadau sylweddol i weithgareddau masnachol	DO
Byddwn yn cyhoeddi newidiadau sylweddol posibl sydd ar droed i wasanaethau masnachol yng Nghynllun Blynyddol y BBC, yn dibynnu ar faterion cyfrinachedd masnachol	DO
Byddwn yn cynnal y prawf masnachol ar gyfer unrhyw newid sylweddol arfaethedig i'n gweithgareddau masnachol, ac yn cyhoeddi'r newid arfaethedig unwaith y byddwn wedi gwneud hynny	DO
Byddwn yn cyhoeddi methodolegau prisiau trosglwyddo mewn perthynas â'n his-gwmnïau masnachol fel sy'n ofynnol o dan Fframwaith Gweithredu Ofcom	DO
Byddwn yn parhau i hyfforddi staff allweddol ar gydymffurfiaeth â'r rheolau Masnachu Teg	DO
Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau cyhoeddi a darparu gwybodaeth i Ofcom, gan nodi perfformiad ariannol ein his-gwmnïau masnachol a nodi methodolegau manwl ar gyfer prisiau trosglwyddo o fewn ein grŵp	DO
Byddwn yn cynnal adolygiad cyfnodol o'n gweithgareddau masnachol erbyn diwedd 2018	DO – gweler <a href="http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/commercial_review_2018.pdf">http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/commercial_review_2018.pdf</a>
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ynghylch cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran gweithgareddau masnachol o dan y Siarter a'r Cytundeb neu yn Fframwaith Gweithredu Ofcom, a'n hymateb i gwynion o'r fath	DO – Dim
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom yn y maes hwn	DO – Dim
Bydd y Pwyllgor Masnachu Teg yn adrodd ar ei waith yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon bob blwyddyn	DO – gweler yr Adroddiad Masnachu Teg

# Partneriaethau a mentrau cydweithredol

Mae gan y BBC ddyletswydd i gydweithio â sefydliadau eraill er budd cenedlaethol. Ni allwn wneud hyn heb gymorth, cefnogaeth a chyfraniad ystod eang o bartneriaid, arbenigwyr a chyfranwyr. Nododd adolygiad bras o 2018/19 fod gan y BBC 300 o bartneriaethau a mentrau cydweithredol, yn rhai bach a mawr, yn canolbwyntio ar weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cefnogi'r economi greadigol ledled y DU.

Mae ein partneriaethau yn amrywio o ran maint, graddfa ac amcan; nodar astudiaethau achos isod rai o ganlyniadau allweddol 2018/19, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â newyddion ffug, meithrin ein hymrwymiad i wyddoniaeth a hanes, dod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd, a datblygu'r hyn a wnawn ledled y DU.

## Mynd i'r afael â newyddion ffug

Eleni gwnaethom dyfu ein Gwasanaeth Adrodd ar Ddemocratiaeth Lleol llwyddiannus, sef partneriaeth allweddol â mwy na 100 o sefydliadau'r cyfryngau, sy'n seiliedig ar uned ymchwil a rennir a chanolfan newyddion, lle y cyflwynir mwy na 78,000 o straeon yn barod gyda mwy na 130 o ohebwyr. Eleni cafodd y cynllun ei gydnabod gan yr Ysgrifennydd dros Ddiwylliant fel "shining example of what can be done" a byddwn yn parhau i'w dyfu eleni.

Gwnaethom hefyd ddechrau gweithio mewn partneriaeth â grŵp DG7 o ddarlledwyr cyhoeddus byd-eang, gan gynnal ei gynhadledd flynyddol ym mis Rhagfyr a ystyriodd faterion o ddiwedddeb cyffredin fel rhyddid y cyfryngau a diogelwch newyddiadurwyr.

## Canolbwyntio ar wyddoniaeth a hanes

Daeth ein hymgyrch *Tomorrow's World* ysbrydoledig i ben ym mis Mehefin ond mae'r prif bartneriaid, sef Wellcome, Y Brifysgol Agored, y Gymdeithas Frenhinol a'r Grŵp Amgueddfeydd Gwyddoniaeth, yn parhau i gyfarfod â chomisïynwyr ar draws y BBC er mwyn rhannu gwybodaeth am flaengynlluniau, gan gynnwys y rhai ar gyfer cyfres 20 rhan uchelgeisiol ar Radio 4 ac arddangosfa yn yr Amgueddfa Wyddoniaeth, sef *The Art of Innovation*.

Fel rhan o'i menter olaf ym mis Mai, lansiodd tîm *Tomorrow's World* ymholiad i ymwybyddiaeth o GDPR ar lwyfan gwyddoniaeth dinasyddion Y Brifysgol Agored, nQuire. Mae'r llwyfan bellach yn cael ei ddefnyddio gan nifer o dimau'r BBC, gan weithio gydag academyddion gwahanol, ar brosiectau fel:

- arbrawf *Forest 404*, a gynlluniwyd gan Brifysgolion Caerwysg a Bryste, i gyd-fynd â drama podlediad Radio 4 ac sy'n cynnwys 6,000 o gyfranogwyr.

- Prawf Feel Good, a gynlluniwyd gydag UCL ac a lansiwyd fel rhan o dymor Get Creative, gyda 40,000 o gyfranogwyr hyd yn hyn.

Yn 2018, daeth y partneriaethau Rhyfel Byd Cyntaf â'r Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol (IWM) a 1418NOW i ben. Un o'r prosiectau mwyaf llwyddiannus fu ffilm Peter Jackson *They Shall Not Grow Old* a ddenodd gynulleidfa o 4 miliwn bron. Rydym wedi cytuno i barhau â'n partneriaeth lwyddiannus ag IWM wrth i ni agosáu at ddigwyddiadau pwysig i nodi'r Ail Ryfel Byd yn 2019/20.

## Cydberthnasau creadigol er mwyn ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd

Rydym hefyd yn datblygu partneriaethau arloesol mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a'u haddysgu.

- Gwnaeth ein partneriaeth hirsefydledig â'r Brifysgol Agored ddathlu 50 mlynedd eleni gyda chyfres o gomisiynau teledu mawr ac ehangu i gynnwys digidol ffeithiol.
- Y gwanwyn hwn, gwnaeth plant ysgol o Ddwyrain Llundain ateb yr her o beintio llun ar ffurf sain, wedi'u hysbrydoli gan y gerdd Under Milk Wood. Gwnaethant weithio gyda'r ganolfan ysgrifennu/mentora Ministry of Stories ar greu testun, gyda chymorth cynhyrchu gan y BBC. Cafodd y gerdd derfynol, Round About Candle Street, ei darlledu'n fyw ar BBC London.
- Gwnaeth BBC History hefyd weithio gydag Art UK a'r elusen digartrefedd Accumulate; archwiliodd yr artist Sadie Edgington y casgliad o gerfluniau yn y Ganolfan Ddarlledu gyda chyfranogwyr a wnaeth wedyn greu eu cerfluniau gwreiddiol eu hunain.
- Fel rhan o'r Bartneriaeth Dementia, datblygodd y BBC adnodd digidol gan ddefnyddio ei archif. Mae BBC Music Memories yn helpu defnyddwyr i greu rhestrau chwarae o gerddoriaeth sy'n golygu rhywbeth iddynt yn bersonol i'w defnyddio fel rhan o therapi dwyn i gof.

## Partneriaethau ystwyth a hyblyg ledled y DU

Eleni bu partneriaethau byrdymor yn bwysig wrth gefnogi ein tymhorau Ffeithiol mawr, fel Plastics Watch, lle gwnaethom weithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau gan gynnwys Surfers Against Sewage, y Gymdeithas Cadwraeth Forol a Sefydliad y Merched; Icons (yr Oriol Bortreadau Genedlaethol, Google Arts and Culture, Tate, y Llyfrgell Brydeinig ac eraill); a'n tymor iechyd meddwl (gan weithio gyda'r Sefydliad

Iechyd Meddwl, Public Health England, Libraries Connected a'r Reading Agency).

Mae ein partneriaeth strategol â'r BFI wedi'i hehangu er mwyn adlewyrchu ein diddordeb a rennir mewn ffilm a diwylliant ffilm. Mae bellach yn cwmpasu datblygu talent, cydariannu trafodaethau, cymorth marchnata ac arddangos ffilmiau, yn ogystal â pharhau i weithio ar dymhorau ar draws y BBC a sgriniadau gyda'n gilydd.

Yn y cyfamser, mae BBC Arts yn gweithio gyda naw sefydliad diwyllianol a chyllidwyr ledled y DU er mwyn cynnal tri phrosiect datblygu talent newydd: New Creatives (Lloegr), Now and Next (yr Alban), Two Minute Masterpieces (Gogledd Iwerddon) a chynllun yng Nghymru a ddylai gael ei lansio yn 2019. Ac mae Super Movers, ein partneriaeth â'r Uwch Gynghrair a PFL yr Alban, yn ysbrydoli plant ysgol i fod yn fwy egniol.

Rydym hefyd yn parhau i ehangu ein partneriaethau archif gan weithio gyda'r Llyfrgell Brydeinig, yr Archifau Gwladol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llyfrgelloedd Gogledd Iwerddon, yr Amgueddfa Cyfryngau Genedlaethol ac eraill er mwyn cynnig mynediad i'n hystod eang o gynnwys archif.

## Partneriaethau a mentrau cydweithredol y BBC: cipolwg yn 2018/19

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif fentrau cydweithredol a phartneriaethau creadigol ar draws y BBC.

Maes y BBC	Nifer y partneriaethau/mentrau cydweithredol
Archif	9
Celfyddydau/Arts North	25
Academi (Birmingham)	15
Plant (Salford)	4
Cynnwys/Teledu	15
Dysgu (Salford)	53
Chwaraeon (Salford)	12
Newyddion	5
Cerddoriaeth	23
Radio	64
Ymchwil a Datblygu	22
Canolfannau Rhwydwaith Lloegr	16
Yr Alban	10
Cymru	20
Gogledd Iwerddon	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>300</b>

Mae'r data hyn yn cynnwys is-adrannau gwneud rhaglenni, Ymchwil a Datblygu a Hyfforddiant mewn canolfannau cynhyrchu rhwydwaith ledled y DU. Nid yw'n cofnodi gweithgareddau gorsafoedd radio lleol unigol.

# Gwasanaethau mynediad

Mae'r tabl canlynol yn nodi amlygrwydd gwasanaethau mynediad ar draws sianelau teledu'r BBC ac ar BBC iPlayer.

## Sain

	Oriau disgrifiadau sain		Cyfanswm oriau	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2018/19	2017/18		2018/19	2017/18	2018/19	2017/18
BBC One	1,925	1,966	8,736	22.0	22.5	20.0	20.0
BBC Two	2,644	2,526	8,736	30.3	28.9	20.0	20.0
BBC Four	1,419	1,257	3,178	44.6	39.7	20.0	20.0
CBBC	1,995	1,850	5,090	39.2	36.4	20.0	20.0
CBeebies	1,447	1,443	4,700	30.8	30.7	20.0	20.0
BBC Scotland <sup>1</sup>	50	Dd/G	175	28.3	Dd/G	20.0	Dd/G
<b>Cyfanswm llinol</b>	<b>9,480</b>	9,042	<b>30,615</b>				
BBC iPlayer <sup>2</sup>	8,826	Dd/G	55,969 <sup>3</sup>	15.8	Dd/G	Dd/G	Dd/G

## Dehongli drwy iaith arwyddion

	Oriau dehongli drwy iaith arwyddion		Cyfanswm oriau	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2018/19	2017/18		2018/19	2017/18	2018/19	2017/18
BBC One	458	462	8,736	5.2	5.3	5.0	5.0
BBC Two	459	458	8,736	5.3	5.2	5.0	5.0
BBC Four	202	198	3,178	6.4	6.2	5.0	5.0
CBBC	270	297	5,090	5.3	5.8	5.0	5.0
CBeebies	252	253	4,700	5.4	5.4	5.0	5.0
BBC Scotland <sup>4</sup>	0	Dd/G	175	0.0	Dd/G	5.0	Dd/G
BBC News	507	506	8,736	5.8	5.8	5.0	5.0
<b>Cyfanswm llinol</b>	<b>2,148</b>	2,174	<b>39,351</b>				
BBC iPlayer <sup>2</sup>	2,612	Dd/G	55,969 <sup>3</sup>	4.7	Dd/G	Dd/G	Dd/G

## Isdeitlau

	Oriau dehongli drwy iaith arwyddion		Cyfanswm oriau	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2018/19	2017/18		2018/19	2017/18	2018/19	2017/18
BBC One	14,354	14,268	14,364	99.9	99.9	100	100
BBC Two	9,492	9,542	9,503	99.9	99.9	100	100
BBC Four	3,178	3,165	3,178	100	100	100	100
CBBC	5,089	5,080	5,090	100	100	100	100
CBeebies	4,699	4,704	4,700	100	100	100	100
BBC Scotland	175	Dd/G	175	100	Dd/G	100	Dd/G
BBC News	8,736	8,733	8,736	100	100	100	100
BBC Parliament	1,629	1,390	8,736	18.6	15.9	Dd/G	Dd/G
<b>Cyfanswm llinol</b>	<b>47,352</b>	46,882	<b>54,482</b>				
BBC iPlayer <sup>2</sup>	51,533	Dd/G	67,407	76.5	Dd/G	Dd/G	Dd/G

### Nodiadau

- Lansiwyd BBC Scotland ar 24 Chwefror 2019.
- Ffigurau ar gyfer nifer y rhaglenni sydd ar gael ar BBC iPlayer. Ni chaiff cynnwys S4C na'r World Service ei gynnwys. Ar gyfer y pum prif sianel ddarlledu, gan gynnwys y gwledydd ac amrywiadau rhanbarthol, caiff yr holl gynnwys ei isdeitlo, caiff disgrifiadau sain eu darparu ar gyfer 20% ac mae iaith arwyddion ar gael ar gyfer 5%. Mae'r cynnwys hwn yn cynnwys fersiynau isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion i gyd ar gael ar iPlayer, a chyflawnwn yr un lefelau ar gyfer rhaglenni BBC Three a ddarlledir. Mae'r iPlayer yn cyfuno'r prif sianelau darlledu hynny a sianelau eraill lle darperir llai o wasanaethau mynediad, felly mae'r ffigurau cyffredinol ar gyfer iPlayer yn is na'r prif sianelau darlledu.
- Nid yw cyfanswm nifer y rhaglenni yma yn cynnwys fersiynau disgrifiadau sain ac iaith arwyddion. Mae'r fersiynau hyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau isdeitlo.
- Yn sgil trafod amserlennu gydag Ofcom, dechreuodd BBC Scotland ddarlledu rhaglennu iaith arwyddion ar 29 Ebrill 2019.

## Elfen o gystadleuaeth

O dan y Cytundeb rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i'r BBC sicrhau cystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr y BBC a chynhyrchwyr allanol, boed hwy'n gynhyrchwyr annibynnol ai peidio, ar gyfer cynhyrchu cynnwys teledu, radio ac ar-lein. Rhoddir rhagor o wybodaeth am elfen gystadleuol mewn teledu yn yr Adroddiad Cyflenwi Teledu, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019.

Fel sy'n ofynnol o dan Gytundeb y BBC, rydym wedi sicrhau, ar gyfer rhaglenni teledu perthnasol, fod 40% o'r warant fewnol flaenorol ar gyfer drama, comedi, adloniant a ffeithiol ar agor i gystadleuaeth. Hefyd, yn unol â'r Cytundeb, rydym wedi dileu'r warant fewnol ar gyfer rhaglenni plant a rhaglenni materion cyfoes nad ydynt yn rhai newyddion.

	Targed (% oriau perthnasol)	% oriau ag elfen o gystadleuaeth	Dyddiad targed	Cyflawnwyd
Teledu <sup>1</sup>	100	56 <sup>2</sup>	31 Rhagfyr 2027	Ar waith
— Gwarant fewnol drama, comedi, adloniant a ffeithiol	40	43 <sup>3</sup>	31 Rhagfyr 2018	Do
Radio rhwydwaith <sup>4</sup>	60	35 <sup>5</sup>	31 Rhagfyr 2022	Ar waith
Deunydd ar-lein <sup>6</sup>	100	44 (% gwariant perthnasol yn allanol) <sup>7</sup>	31 Rhagfyr 2027	Ar waith

### Nodiadau

- Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau, ar gyfer rhaglenni teledu perthnasol, fod o leiaf 40% o'r warant fewnol flaenorol ar gyfer drama, comedi, adloniant a ffeithiol ar agor i gystadleuaeth erbyn 31 Rhagfyr 2018; a sicrhau cystadleuaeth ar gyfer 100% o raglenni teledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae hefyd yn ofynnol i'r BBC ddileu'r warant fewnol ar gyfer rhaglenni plant, chwaraeon a materion cyfoes nad ydynt yn rhai newyddion erbyn 31 Rhagfyr 2019.
- Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd ym mlwyddyn galendr 2018, gan ystyried penderfyniadau comisiynu a wnaed hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2018.
- Cafodd methodoleg y ffigur hwn ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Cyflenwi Teledu ym mis Mai 2019.
- Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau, ar gyfer rhaglenni radio perthnasol, ei fod yn sicrhau cystadleuaeth ar gyfer o leiaf 60% o amser darlledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2022. Ystyr rhaglenni radio perthnasol yw pob rhaglen radio rhwydwaith sydd wedi'i chynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU heblaw am (a) rhaglenni newyddion; a (b) ailddarllediadau, cyswllt, cyd-ddarllediadau, deunydd EBU a cherddoriaeth a awtochwarair.
- Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd yn 2018/19, gan ystyried penderfyniadau comisiynu a wnaed hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019.
- Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau cystadleuaeth ar gyfer 100% o'r deunydd ar-lein perthnasol erbyn diwedd 2027. Mae deunydd ar-lein perthnasol yn cwmpasu'r holl ddeunydd ar-lein sydd wedi'i gynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU heblaw am: (a) rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Rhaglenni Ar Alw Cyhoeddus y DU; (b) deunydd newyddion a materion cyfoes sy'n gysylltiedig â newyddion; ac (c) unrhyw ddeunydd lle nad yw'r BBC o'r farn y byddai cyflawni ei rwymedigaeth yn sicrhau gwerth am arian.
- Rydym wedi defnyddio gwariant allanol fel dirprwy wrth adrodd eleni, a byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull o adrodd ar wariant ag elfen o gystadleuaeth ar ddeunydd ar-lein perthnasol.

## Cyflenwad teledu rhwydwaith

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfran oriau teledu rhwydwaith y BBC a gynhyrchwyd gan wahanol fathau o gyflenwyr.

	Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol cymhwysol ar gyfer teledu'r BBC (%)			Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol anghymhwysol ar gyfer teledu'r BBC (%)			Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan PSB mewnol ar gyfer teledu'r BBC (%)			Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan BBC Studios ar gyfer teledu'r BBC (%)		
	2018/19	2017/18	% newid	2018/19	2017/18	% newid	2018/19	2017/18	% newid	2018/19	2017/18	% newid
Drama	14	25	-11	18	19	-1	0	0	0	68	56	+11
Adloniant	30	26	+4	38	40	-2	0	0	0	32	34	-2
Comedi	39	39	0	25	20	+5	0	0	0	35	41	-5
Ffeithiol	35	30	+4	18	11	+6	4	5	-1	43	53	-10
Yn ystod y dydd	39	40	-1	29	27	+2	0	0	0	33	33	0
Chwaraeon	29	23	+6	0	0	0	71	77	-6	0	0	0
Plant	28	35	-8	14	19	-5	55	45	+1	3	1	+2
<b>Cyfanswm</b>	<b>32</b>	<b>31</b>	<b>+1</b>	<b>18</b>	<b>17</b>	<b>+2</b>	<b>22</b>	<b>23</b>	<b>-1</b>	<b>28</b>	<b>30</b>	<b>-2</b>

Mae'r ffigurau yn seiliedig ar raglenni cymhwysol (fel y'u diffinnir yn y Gorchymyn Cynrychiadau Annibynnol) a gyflenwyd ym mhob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cynnwys ailddarllediadau na chaffaeliadau. Mae data ond yn cynnwys oriau rhwydwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn berthnasol.

## Cyflenwad radio rhwydwaith


Mae'r tabl canlynol yn dangos lefelau oriau radio rhwydwaith y BBC gan wahanol gyflenwyr.

	Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol ar gyfer radio rhwydwaith y BBC (%)		Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan PSB mewnol ar gyfer radio rhwydwaith y BBC (%)	
	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18
Radio 1	19.4	15.9	80.6	84.1
1Xtra	9.6	12.6	90.4	87.4
Radio 2	46.2	24.5	53.8	75.5
Radio 3	12.7	15.7	87.3	84.3
Radio 4	20.1	18.4	79.9	81.6
BBC 4 Extra	57.8	50.4	42.2	49.6
BBC Radio 5 live a 5 live sports extra	24.7	21.8	75.3	78.2
BBC 6 Music	22.6	25.0	77.4	75.0
BBC Asian Network	13.1	15.0	86.9	85.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>21.7</b>	<b>18.8</b>	<b>78.3</b>	<b>81.2</b>

# Dosbarthu

Mae dosbarthu cynnwys y BBC yn allweddol i gyflawni ein cenhadaeth a'r dibenion cyhoeddus. Noda'r Siarter fod yn rhaid i'r BBC adrodd ar y ffordd y mae wedi sicrhau bod ei allbwn a'i wasanaethau ar gael i'r cyhoedd. Mae'r adran hon yn amlinellu ein hynt eleni.

## Sut rydym yn dosbarthu ein gwasanaethau



Mae'r BBC yn dosbarthu ei gynnwys gyda'r nod o roi mynediad llawn a chyfleus i'w holl wasanaethau i gynulleidfaoedd, sy'n berthnasol iddynt. Yn 2018/19 rydym wedi parhau i sicrhau:

- ein bod yn darlledu ein gwasanaethau teledu a radio yn effeithiol yn gyffredinol
- bod gwasanaeth fideo ar alw'r BBC ar gael ar fwy o ddyfeisiau defnyddwyr (o setiau teledu deallus, i gonsolau gemau, i lechi) nag unrhyw wasanaeth arall o'r fath yn y DU
- bod y BBC wedi creu cynnwys i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr ar lwyfannau cymdeithasol poblogaidd, fel Facebook, Twitter a YouTube

Mae'r BBC wedi parhau i chwarae rhan arweiniol drwy gydol 2018/19 wrth glirio band sbectrwm 700MHz i'w ddefnyddio gan wasanaethau rhynggrwyd symudol 5G yn y dyfodol. Hyd yn hyn mae mwy na 40% o'r rhwydwaith trosglwyddo wedi'i glirio'n llwyddiannus, ac mae mwy na 15 miliwn o gartrefi Freeview wedi ailidwio eu dyfeisiau, a hwyluswyd drwy raglen cyfathrebu a chymorth.

Yn ogystal ag argeledd eang, mae'n bwysig bod y ffordd y caiff ein gwasanaethau eu darparu ar lwyfannau trydydd parti yn gyson â chyflawni ein cenhadaeth gyhoeddus. I'r perwyl hwn, cyhoeddodd y BBC ei Bolisi Dosbarthu ym mis Mehefin 2018 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, fel sy'n ofynnol gan ein Siarter Frenhi-nol a'i Gytundeb Fframwaith. Yn y polisi noda'r BBC saith amod sy'n sail i ddsbarthu gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU:

- Amlygrwydd – dylai lleoliad cynnwys a gwasanaethau'r BBC mewn perthynas â chynnwys a gwasanaethau darparwyr eraill fod yn unol ag anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd
- Rheolaeth Olygyddol – ceidw'r BBC reolaeth olygyddol dros ei gynnwys a'i lleoliad
- Brandio a Phriodoliad – dylai defnyddwyr allu nodi'n hawdd pa gynnwys ar lwyfan a ddarperir gan y BBC
- Ansawdd – dylai defnyddwyr allu mwynhau profiad o ansawdd uchel mewn perthynas â chynnwys a gwasanaethau'r BBC
- Data – dylai'r BBC allu cael data ar y defnydd a wneir o'i wasanaethau
- Mynediad am Ddim – ni ddylai defnyddwyr fynd i unrhyw gostau cynyddrannol er mwyn cael gafael ar gynnwys a gwasanaethau'r BBC
- Gwerth am Arian – dylai'r trefniadau sicrhau bod y broses ddsbarthu mor gost-effeithiol â phosibl i dalwyr ffi'r drwydded

Ar y cyd ag ITV, Channel 4 a gweithredwr rhwydwaith Arqiva, mae'r BBC wedi ehangu ei ymrwymiad i lwyfan teledu Freeview gyda chytundeb pum mlynedd newydd. Mae buddsoddiad cyfranddalwyr wedi galluogi Freeview i gyflymu'r gwaith o newid i lwyfan cwbl hybrid (Teledu Daeareol Digidol a'r rhynggrwyd) gan gynnig y gorau o deledu byw ac ar alw gwyllo am ddim.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r BBC wedi bod yn cynnal treialon o ddarlledu radio byw dros rwydweithiau symudol 5G yn Stronsay, Orkney fel rhan o fenter RuralFirst 5G.

# Hyrwyddo Gwasanaeth cyhoeddus y BBC

Mae'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yn rhaid i'r BBC sicrhau bod hyrwyddo unrhyw allbwn Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu unrhyw wasanaeth o'r fath o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn canolbwyntio ar allbwn sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni cenhadaeth y dibenion cyhoeddus a'u hyrwyddo. Rhaid i'r BBC gyhoeddi gwybodaeth am y fath hyrwyddo, gan gynnwys:

- a) Nifer y munudau o hyrwyddo ym mhob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU
- b) Amser o'r dydd y fath hyrwyddo
- c) Unrhyw wybodaeth arall a fyddai, yn ei farn ef, o fudd i'r cyhoedd i'w chyhoeddi

Credwn fod hyrwyddo Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a'u hallbwn yn bwysig fel bod ein cynulleidfaoedd yn ymwybodol o'r ystod eang o gynnwys y mae'r BBC yn ei gynnig sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Caiff deunydd hyrwyddo ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU eu cynhyrchu a'u hamserlennu yn unol â'n Canllawiau Golygyddol.

Mae'r tabl hwn yn nodi cyfanswm munudau deunydd hyrwyddo a ddarlledwyd ar holl Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn ôl cyfnod o amser yn 2018/19.

	Bore	Yn ystod y dydd	Gyda'r nos	Dros nos	Cyfanswm
BBC One	1,598	3,353	2,857	1,743	9,551
BBC Two	2,312	1,921	2,046	1,832	8,111
BBC Four	Dd/G	Dd/G	1,896	1,428	3,324
CBBC	1,850	2,069	1,135	Dd/G	5,054
CBeebies	1,939	1,955	15	Dd/G	3,909
BBC News	3,338	4,345	3,160	4,740	15,583
BBC Parliament	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
BBC ALBA	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
Radio 1	1,820	1,993	1,118	520	5,451
1Xtra	2,184	2,288	832	364	5,668
Radio 2	2,548	2,974	2,002	2,427	9,951
Radio 3	1,340	1,506	546	0	3,392
Radio 4	2,453	2,330	1,830	0	6,613
BBC Radio 4 Extra	2,377	2,545	1,802	2,317	9,041
BBC Radio 5 live	3,276	3,822	2,747	2,613	12,458
BBC Radio 5 live sports extra	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
BBC 6 Music	2,004	2,548	1,820	312	6,684
BBC Asian Network	1,220	1,993	1,118	520	4,851
BBC Radio Scotland	2,568	2,148	1,500	0	6,216
BBC Radio nan Gàidheal	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
BBC Radio Wales	2,160	2,532	1,644	744	7,080
BBC Radio Cymru	3,180	3,588	2,856	204	9,828
BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle	1,144	1,456	1,352	2,613	6,565
Radio Lleol y BBC	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	6,754
Botwm Coch y BBC	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
BBC Ar-lein	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G

Nodyn  
 Diffinnir cyfnodau o amser fel: bore, 6am – 11:59am; yn ystod y dydd, 12pm – 5:59pm; gyda'r nos, 6pm – 10:59pm; dros nos, 11pm – 5:59am. Nid yw munudau hyrwyddo ar y radio yma yn cynnwys pythiau rhagflas gwasanaeth y rhaglenni eu hunain; caiff y ffigurau hyn eu cynnwys yn y tabl canlynol. Ni chaiff unrhyw hyrwyddo ar BBC Parliament, BBC ALBA, BBC Radio 5 live sports extra na BBC Radio nan Gàidheal ei fesur oherwydd nifer ac amlder isel iawn. Mae'r ffigur ar gyfer Radio Lleol y BBC yn un cyfartalog ar draws holl wasanaethau radio lleol Lloegr. Nid oes gennym ddata cymharol fesul cyfnod o'r dydd ar gyfer y gorsafoedd hyn. Nid oes data ar gael ar gyfer hyrwyddo ar y Botwm Coch na BBC Ar-lein. Byddwn yn adrodd ar BBC Scotland yn llawn y flwyddyn nesaf.



Mae'r tabl hwn yn nodi cyfanswm munudau deunydd hyrwyddo ar gyfer holl Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn ôl llwyfan. Er enghraifft, mae'r rhes gyntaf yn nodi nifer y munudau o hyrwyddo ar gyfer BBC One ar BBC One ei hun, ar sianelau teledu eraill y BBC, ac ar y radio.

	Ar Wasanaeth	Teledu	Radio
BBC One	4,858	1,527	1,302
BBC Two	4,209	2,273	579
BBC Four	1,850	292	361
CBBC	4,785	417	36
CBeebies	3,847	94	0
BBC News	13,246	464	144
BBC Parliament	Dd/G	Dd/G	Dd/G
BBC ALBA	Dd/G	Dd/G	Dd/G
Radio 1	4,851	160	0
1Xtra	5,668	11	13
Radio 2	7,961	166	41
Radio 3	2,713	0	122
Radio 4	5,092	0	199
BBC Radio 4 Extra	6,578	0	204
BBC Radio 5 live	7,445	9	102
BBC Radio 5 live sports extra	Dd/G	Dd/G	Dd/G
BBC 6 Music	5,013	60	672
BBC Asian Network	2,713	0	8
BBC Radio Scotland	5,496	108	48
BBC Radio nan Gàidheal	Dd/G	Dd/G	Dd/G
BBC Radio Wales	591	0	0
BBC Radio Cymru	821	0	0
BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle	2,509	897	221
Radio Lleol y BBC	5,065	Dd/G	Dd/G
Botwm Coch y BBC	Dd/G	Dd/G	Dd/G
BBC iPlayer	Gweler isod	1,579	85
BBC Sounds	Gweler isod	582	1,475

#### Nodyn

Ni chaiff unrhyw hyrwyddo ar BBC Parliament, BBC ALBA, BBC Radio 5 live sports extra na BBC Radio nan Gàidheal ei fesur oherwydd nifer ac amlder isel iawn. Mae'r ffigur ar gyfer Radio Lleol y BBC yn un cyfartalog ar draws holl wasanaethau radio lleol. Nid oes data ar gael ar gyfer hyrwyddo ar y Botwm Coch. Byddwn yn adrodd ar BBC Scotland yn llawn y flwyddyn nesaf.

Mae BBC iPlayer hefyd yn cynnwys deunydd hyrwyddo. Cafodd pytliau cyn rhaglen, sef hysbysebion fideo byr sy'n chwarae'n awtomatig yn uniongyrchol cyn rhaglen benodol, eu lansio ar BBC iPlayer ar y we ym mis Rhagfyr 2015, ac ar BBC iPlayer ar setiau teledu cysylltiedig ym mis Ionawr 2019. Mae'r deunydd hyrwyddo yn cynnwys un pwt rhagflas cyn rhaglen benodol, sy'n chwarae wrth chwarae am y tro cyntaf mewn sesiwn yn unig. Bydd pob pwt cyn rhaglen yn para uchafswm o 30 eiliad, ond bydd pob pwt rhagflas yn amrywio rhwng 10 a 30 eiliad. Ni fydd defnyddiwr yn gweld yr un pwt cyn rhaglen fwy na phedair gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o bytliau cyn rhaglen ar BBC iPlayer yn hyrwyddo cynnwys BBC iPlayer, naill ai ar alw neu'n fyw. Yn 2018/19, cafwyd dau bwt cyn rhaglen yn hyrwyddo podlediadau ar BBC Sounds: *EastEnders: The Podcast* (ym mis Tachwedd 2018) a *The Greatest Dancer Podcast* (ym mis Ionawr 2019), a osodwyd o flaen y rhaglen gyfatebol yn unig. Caiff pytliau cyn rhaglen eu gosod o flaen yr holl deitlau â blaenoriaeth ar BBC iPlayer. Ers mis Rhagfyr 2018, caiff pytliau cyn rhaglen CBBC eu gosod o flaen rhaglenni CBBC yn unig, a chaiff pytliau cyn rhaglen CBeebies eu gosod o flaen rhaglenni CBeebies yn unig. Ni fydd pwt cyn rhaglen nad yw ar gyfer plant byth yn cael ei osod o flaen teitl plant, na'r gwrthwyneb. Caiff teitlau â blaenoriaeth y BBC eu hyrwyddo gyda'r rhestr o bytliau cyn rhaglen a chânt eu gosod ar sail amserlen a drefnir â llaw yn seiliedig ar genre, naws a chynulleidfa. Bydd yr un defnyddiwr yn cael yr un pwt cyn rhaglen ar yr un bennod.

Mae rhai o bodlediadau'r BBC sydd ar gael drwy BBC Sounds a llwyfannau trydydd parti yn cynnwys deun-ydd hyrwyddo ar gyfer cynnwys podlediadau eraill y BBC. Cytunir i ryw dri phodlediad yr wythnos gael blaenoriaeth, gan gynrychioli amrywiaeth o genres er mwyn adlewyrchu'r ystod eang o allbwn sain y BBC. Caiff pytliau rhagflas hyrwyddol, sy'n para 15-45 eiliad yr un, ar gyfer y podlediadau hyn eu cynhyrchu a'u gosod i mewn i bodlediadau eraill, ar ddechrau, yng nghanol a/neu ar ddiwedd y ffeil sain. Cynhyrchwyr y podlediad sy'n dewis ac yn gosod y pytliau rhagflas hyn. Mae rhai gorsafoddd hefyd yn defnyddio pytliau rhagflas ar gyfer eu cynnwys eu hunain (e.e. mae Radio 4 yn hyrwyddo ei chynnwys ar bodlediadau Radio 4).

# Pecynnau data'r Gwledydd

**t.167**  
Cymru

**t.171**  
Yr Alban

**t.175**  
Gogledd  
Iwerddon

**t.179**  
Lloegr

# Y BBC yng Nghymru

## Incwm

Amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn ar gyfer pob gwlad ac fe'u cyfrifwyd drwy gymhwyso cyfran y safleoedd trwyddedig at gyfanswm y trwyddedau sydd mewn grym. Mae union nifer y trwyddedau sydd mewn grym yn amrywio o ddydd i ddydd. Mae niferoedd y safleoedd trwyddedig yn wahanol i nifer y trwyddedau sydd mewn grym oherwydd, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen mwy nag un drwydded ar safle. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys trwyddedau consesiynol i'r rhai sy'n byw mewn gofal preswyl.

	2019 £m	2018 £m
<b>Incwm amcangyfrifedig</b>		
Y DU	3,690	3,830
Cymru	184	191

Ar gyfer 2018/19, y ffi ar gyfer trwydded deledu mewn cartref safonol oedd £150.50.

## Gwariant

Gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â rhaglenni a gynhyrchwyd yn y wlad.

	2019 £m	2018 £m
<b>Cynnwys rhwydwaith</b>		
Teledu (gan gynnwys Chwaraeon a Phlant)*	49	50
Radio	3	3
Ar-lein a Botwm Coch	1	1
Cyfanswm gwariant ar gynnwys rhwydwaith	53	54
<b>Cynnwys lleol</b>		
Teledu – BBC One	25	25
Teledu – BBC Two	8	10
Radio Wales	15	15
Radio Cymru	14	14
Ar-lein a Botwm Coch	11	8
Cyfanswm gwariant ar gynnwys lleol	73	72
Cerddorfa Genedlaethol Cymru	5	5
S4C	22	26
Datblygu	1	–
Dosbarthu	25	26
<b>Cyfanswm</b>	<b>179</b>	<b>183</b>

\* Caiff cynnwys rhwydwaith ei briodoli ar sail Ofcom, sy'n eithrio cynrychiadau tramor.

**Oriau teledu fesul genre**

**Oriau dewisol lleol<sup>^</sup> (gan gynnwys aildarllediadau) ar BBC One a BBC Two**

	2019 Oriau	2018 Oriau
Drama, Comedi, Adloniant, Cerddoriaeth a'r Celfyddydau	49	37
Newyddion a Materion Cyfoes Dyddiol, Wythnosol	395	383
Chwaraeon a Hamdden	152	144
Addysg, Ffeithiol a Chrefydd	129	98
<b>Cyfanswm</b>	<b>725</b>	<b>662</b>

<sup>^</sup> Cynnwys teledu a gomisiynwyd yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd yn y wlad.

**S4C\***

	2019 Oriau	2018 Oriau
Drama, Comedi, Adloniant, Cerddoriaeth a'r Celfyddydau*	255	256
Newyddion a Materion Cyfoes Dyddiol, Wythnosol	257	264
Chwaraeon a Hamdden	164	134
Addysg, Ffeithiol a Chrefydd	5	5
Plant	1	11
<b>Cyfanswm</b>	<b>682</b>	<b>670</b>

\* Mae hyn yn cynrychioli'r rhaglenni teledu a gafodd eu comisiynu, eu cynhyrchu a'u hariannu gan BBC Cymru a'u cyflenwi i S4C (nid yw'n cynnwys rhaglenni y gwnaeth S4C eu comisiynu'n uniongyrchol gan gynhyrchwyr eraill). Mae cyfanswm yr oriau ar gyfer 2019 yn cynnwys 126 awr o aildarllediadau (2018: 135 awr). Mae hyn yn cynnwys aildarllediadau lle codwyd tâl ar BBC Cymru mewn perthynas â darlledu'r rhaglenni.

**Oriau radio fesul genre**

**BBC Radio Wales**

	2019 Oriau	2018 Oriau
Newyddion a Materion Cyfoes	1,862	1,789
Cyffredinol	5,590	5,685
<b>Cyfanswm</b>	<b>7,452</b>	<b>7,474</b>

**BBC Radio Cymru**

	2019 Oriau	2018 Oriau
Newyddion a Materion Cyfoes	1,186	1,295
Cyffredinol	6,445	5,763
<b>Cyfanswm</b>	<b>7,631</b>	<b>7,058</b>

**Nifer y staff**

**Mae nifer gyfartalog y staff yn cynrychioli'r unigolion hynny a gyflogir i gefnogi'r gwasanaeth a gynhyrchir yng Nghymru yn uniongyrchol**

	2019 Nifer	2018 Nifer
Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn	990	950

**Nifer gyfartalog yr unigolion yng Nghymru ar draws pob gwasanaeth gan gynnwys swyddogaethau cefnogi**











	2019 Nifer	2018 Nifer
Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn	1,231	1,208

Perfformiad Cymru fesul gwasanaeth – Teledu		Cynnwys (£m)	Cyrhaeddiad (%)	Amser a dreuliwyd yn gwyllo sianel bob wythnos (oo:mm)
	BBC One yw ein prif wasanaeth a sianel deledu fwyaf poblogaidd y DU. Mae'n uno ac yn ysbrydoli'r genedl gyda rhaglenni o safon ar draws amrywiaeth o genres yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, comedi, adloniant a ffeithiol.	£66m 2017/18: £72m	70% 2017/18: 73%	07:50 2017/18: 08:21
	Mae BBC Two yn sianel genre cymysg sydd â rhaglenni treiddgar o sylwedd. Mae'n cynnwys y swm a'r amrywiaeth fwyaf o raglenni sy'n meithrin gwytodaeth ar y BBC, ynghyd â rhaglenni comedi, drama a chelfyddydol nodedig.	£13m 2017/18: £12m	43% 2017/18: 49%	03:08 2017/18: 03:18
	Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o raglenni celfyddydol, cerddorol, diwylliannol a ffeithiol o'r DU a thu hwnt.	£3m 2017/18: £1m	11% 2017/18: 12%	01:38 <sup>^</sup> 2017/18: 01:43
	Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig i blant 6-12 oed, gan ddarparu rhaglenni o'r DU yn bennaf mewn amgylchedd ysgogol, creadigol a phlesurus.	— 2017/18: —	3% 2017/18: 4%	* 2017/18: 02:17
	Mae CBeebies yn cynnig cyfuniad o raglenni o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu yn y DU yn bennaf, sydd wedi'u cynllunio i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed.	— 2017/18: —	5% 2017/18: 6%	* 2017/18: 04:06

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol ar gyfer pob gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed.  
 Ffynhonnell: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser fesul gwylwr – mae pob sianel yn cynnwys ei sianel cyd-ddarlledu HD lle y bo'n briodol).  
 D.S. Dim ond achosion o wyllo set deledu a fesurir gan ddata BARB sydd ar gael am flwyddyn ariannol lawn 2018/19, sy'n golygu na chaiff achosion o wyllo iPlayer ar ddyfeisiau eraill eu cynnwys yn unrhyw un o'r ffigurau cyrhaeddiad nac amser. Mae'r defnydd o iPlayer yn tyfu, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau sy'n targedu'r ifanc fel CBeebies a CBBC.  
<sup>^</sup> Gall y ffaith bod y sampl yn llai arwain at fwy o amrywioldeb yn y data.  
 \* Mae maint y sampl ar gyfer amser fesul defnyddiwr yn rhy fach i'w chofnodi.

Perfformiad Cymru fesul gwasanaeth – Newyddion		Cynnwys (£m)	Cyrhaeddiad (%)	Amser a dreuliwyd yn gwyllo neu'n gwrandao ar wasanaeth bob wythnos (oo:mm)
	Mae sianel BBC News yn wasanaeth newyddion diduedd ac annibynnol 24 awr y dydd sy'n cynnig y newyddion diweddaraf, dadansoddiadau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddiwyddiadau lleol, rhai yn y DU a rhai rhyngwladol wrth iddynt ddiwydd.	— 2017/18: —	10% 2017/18: 11%	03:43 2017/18: 03:07
	BBC Parliament yw unig sianel y DU sy'n canolbwyntio ar wleidyddiaeth. Mae'n dangos dadleuon a phwyllgorau o San Steffan, Holyrood, Stormont, Bae Caerdydd a Strasbourg yn ogystal â rhaglenni gwleidyddol o bob cwr o'r DU.	— 2017/18: —	1% 2017/18: 1%	* 2017/18: 01:38

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol ar gyfer pob gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed.  
 Ffynhonnell: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser fesul gwylwr).  
